gwlanen o ddyn/beth: a man/person of weak character, a softy

gwlyb diferol/diferu: dripping wet

gwlyb domen/socian: soaking wet

gwlychu corn ei gwddf/gwddw: to wet her whistle (with alcoholic drink)

gwlychu'i phig: as for **gwlychu corn ei gwddf**

Wn i ar wyneb y ddaear: I've no idea

Wn i'm byd (N): I've no idea; I know nothing

Gwnaeth hi fel petai'n crynu: She appeared to be trembling

Wnâi hi mo'r tro i ...: It wouldn't do for/to ...

Wnaiff/Wneith hi mo'r tro: It won't do, It will serve no useful purpose

Wnaiff/Wneith hynny mo'r tro ganddi: She won't stand for that/it

Gwnaiff/Gwneith y tro: It will do

Gwnâi'r tro: It would do

gwneler a wneler: come what may

Does a **wnelo fi ddim byd â'r peth (N)**: It is nothing to do with me, I have nothing to do with it

Does a **wnelo hyn ddim â mi (N)**: This has (got) nothing to do with me

- Beth a **wnelo hynny â hi?** (N): What has that (got) to do with her?
- gwneud amdani'i hun** (*hi) (N): to commit suicide
- gwneud arian fel y gro/mwg:** to rake in the cash, to make money hand over fist
- gwneud ati i fod yn gynnar:** to make a point of being early
- gwneud bargaen:** to come to an agreement, to agree a deal
- gwneud byd o les iddi hi:** to do her the world of good
- gwneud cam â ...:** to do an injustice to ...
- gwneud cawl o bethau:** to make a mess of things
- gwneud ceg gam ar ...:** to pull a wry face at ..., to grimace in disgust at ...
- gwneud cimychau:** to grimace, to pull a face
- gwneud crefft o rth:** to get sth down to a fine art, to become very skilful at doing sth
- gwneud cyfrif o ...:** to set great store by ...; to take into account ..., to take account of ...
- gwneud chwarae teg â ...:** to do justice to ...
- Dydy hi'n **gwneud dim efo neb arall** (N): She doesn't have anything to do with anyone else
- gwneud diwedd ar ...:** to put an end/a stop to ...
- gwneud drosti ei hun:** to fend for herself
- gwneud dŵr:** to pass water, to urinate
- gwneud ei gorau glas:** to do her level best, to pull out all the stops
- gwneud ei hen giamocs/gastiau arferol** (N): to be up to her old tricks
- ei **gwneud ei hun(an) yn destun sbort:** to make an exhibition/a spectacle of herself, to show off
- gwneud gwar:** to flinch
- gwneud hast:** to hurry up
- Maen nhw wedi ei **gwneud hi:** They have made a complete mess of it/things
- ei **gwneud hi'n dda:** to do well; to do a roaring trade
- gwneud hwyl am ei phen:** to make fun of her, to mock (at) her
- gwneud hwyl o'r peth:** to laugh it off
- gwneud iawn am ...:** to make up for ...
- gwneud iawn am amser:** to make up for lost time
- gwneud iawn iddi hi am ...:** to compensate her for ...
- gwneud llygad bach arni hi:** to wink at her
- gwneud llygaid bach/gwirion** (N) **arni hi:** to make eyes at her
- gwneud llygaid llo bach arni hi:** as for **gwneud llygaid bach arni hi**
- gwneud marc:** to perform a task so well that people take notice, to make one's mark
- gwneud melin ac eglwys ohoni:** to make a mountain out of a molehill, to exaggerate the importance of a trivial matter
- gwneud môr a mynydd ohoni/o bethau/o beth bach:** as for **gwneud melin ac eglwys ohoni**
- gwneud mynydd o bridd gwadd** (N): as for **gwneud melin ac eglwys ohoni**
- gwneud na chlust na chwedl o ...:** to take no notice of ..., to ignore ...
- gwneud oed:** to make a date (i.e. for a meeting etc.)
- gwneud o'r gorau â ...:** to deal effectively with ...
- Doedd hi ddim yn **gwneud osgo at offren y gwaith:** She did not show any sign of intending to finish the work
- gwneud rhth ar ei cherdded** (*hi): to take sth in her stride

gwneud rhth o'i gwr: to do sth completely and in an approved order

gwneud rhth y tu chwith(ig) allan: to do sth the wrong way round, to do sth contrary to accepted practice

gwneud rhth yn ei ffordd: to do sth to help him/her

gwneud sbort am ei phen: to make fun of her

gwneud sioe ohoni'i hun(an): as for gwneud ei hun yn destun sbort

gwneud smonaeth/smonach/stomp ohoni: to make a mess of it

gwneud sôn amdani (*hi): to do sth that attracts unfavourable publicity

gwneud tamaid i'w fwyta: to rustle up sth to eat, to prepare a bite to eat

gwneud tamaid sydyn: to whip up sth to eat

Allai hi ddim **gwneud tin na phen o ...:** She couldn't make head or tail of ...

gwneud trefn ar ei phethau: to put her affairs in order, to make her will and make other preparations for her eventual death

gwneud tro gwael (N)/sâl (S) â hi: to do her a bad turn

gwneud troed i ...: to head straight for ...

gwneud wynebau: to pull faces

gwneud y byd o les iddi: as for gwneud byd o les iddi

gwneud y gorau â ...: as for gwneud o'r gorau â ...

gwneud y gorau o'r gwaethaf: to make the best of a bad job/bargain/business/situation

gwneud y tro: to do, to be adequate for the task in hand, to serve the purpose

gwneud yn fach o ...: to belittle ..., to scorn ...; to gloss over ...

gwneud yn fawr o ...: to make the most of ...

gwobr gysur: a consolation prize

y Gŵr Drwg: the Devil

gŵr gwadd: a guest (speaker)

gŵr mawr: a conceited/pompous man; a dignitary; one of the gentry (used more often in the plural form 'un o'r gwŷr mawr')

gŵr pen y domen: the boss, the top dog

gwraidd a changen: root and branch, radically

gwraig fawr: a pompous/conceited woman

gwrando ar ...: to listen to ...

gwregys achub: a lifebelt

gwregysu eu lwynau/llwynau: to gird up their loins, to prepare for a hard task

Mae'r gwreichion yn siŵr o dasgu: Sparks are sure to fly, There is sure to be some fierce opposition

gwreiddyn, boncyff a changen: root and branch, throughout, completely

gwreiddyn y drwg: the root cause of the trouble/problem

gwreiddyn y mater: the root of the matter, the essential part of the matter

Mae gwres uchel arni hi: She has a high temperature

gwrthdaro â ...: to collide with ..., to bump into ...; to come into conflict with ...

gwrthdrawiad penben: a head-on collision

gwrthod na thwsu na thagu (N): to be extremely stubborn

gwrthwyneb afon: upstream

gwrthwyneb gallt (N): uphill

mewn gwth o oedran: advanced in years, very old

gwthio ei phig i mewn: to interfere, to poke her nose in

gwthio i'r dwfn: to study sth in depth, to tackle sth in earnest

ei **gwthio o'r neilltu**: to push her aside
gwthio'r cwch i'r dŵr: to push the boat out, to start sth off (often an argument between others), to start the ball rolling
gwybed(yn) yn yr ennaint: a fly in the ointment, sth that creates a difficulty
gwybod am ...: to know about ..., to know of ...
gwybod amcan faint ...: to have a rough idea how much ...
gwybod amcan pa mor drwm ...: to have a rough idea how heavy ...
gwybod be' ydy be' (N): to know what's what, to know what one is talking about
Mae hi'n **gwybod beth (S)/faint o'r gloch yw hi**: She knows what time it is; She knows exactly what the situation is
Dydy hi ddim yn **gwybod ei geni**: She doesn't know she is born, She has not experienced any of life's hardships
Mae hi'n **gwybod ei hyd a'i led**: She has him/it sized up
gwybod ei phethau: to know what she is doing/talking about, to know her onions
gwybod gwell pethau: to know better/otherwise, to be better informed
gwybod hyd ei chyrn: to know her limitations (in ability)
gwybod i sicrwydd: to know for certain
gwybod rhth y tu chwith(ig) allan: to know sth inside out
gwybod sut un yw hi: to know what she's like, to know what sort of person she is
Does **wybod (yn y byd) ...**: there's no knowing ...
Does dim **gwybod (yn y byd) beth/pa/pam/sut ...**: there's no knowing what/which/why/how ...
y **gwyach a'r gwachul/gwael**: the exalted and the debased, the sublime and the ridiculous

Wyddost ti ddim, efallai ei bod hi gartref:
You never know, she may be at home
gwylio (ar) ...: to watch ...
gwylio dros ...: to watch over ..., to look after ...
gwylio rhag ...: to watch out for ..., to be on the alert for/against ...
Gwylwch rhag iddi hi syrthio!: Watch out in case she falls!
yn wyllt gacwn: furious, wild
yn wyllt gynddeiriog (N): in a towering rage
gwylltio wrth eu hymddygiad: to be annoyed at their behaviour
gwylltio'n gacwn/gaclwm (N)/gudyll (N): to explode in fury, to be in a towering rage
Gwyn ei byd!: Everything is going well for her!, Isn't she lucky?
gwyn fel y galchen: white as chalk
Gwyn fyd!: Would to God/heaven!
(expression of hope that it is the will of God)
Gwyn fyd na ddeuent yn ôl!: Would to heaven that they come back!
gwyn llygaid: the whites of the eyes
gwyn wy: white of an egg
gwynt ffres: fresh air
gwynt main: a cold penetrating wind
gwynt pysgod (S): the smell of fish
gwynt teg ar ei hôl/o'i hôl hi: good riddance to her
gwynt teg iddo: good luck to him
gwynt traed y meirw: a biting cold wind from the east; east wind
gwŷr traed: infantry
gwyRDD o genfigen (N): green with envy
gwyro barn: to pervert judgement
yn wysg ...: in the direction of ...
yn wysg ei chefn (*hi): backwards

yn **wysg ei hochr** (*hi): sideways; sidesaddle (cf. **cyfrwy untu**)

yn **wysg ei phen** (*hi): headlong; head first

yn **wysg ei thrwyn**: reluctantly, against her will

gyda chodi'r gwllith: as the dew evaporated; very early

gyda dim: given half a chance

gyda golwg ar ...: concerning ..., as regards ..., with regard to ...

gyda hyn: soon, shortly

gyda hynny: at that very moment; in addition to that

gyda llaw: by the way

Dyweddodd hi **gyda phob gwyleidd-dra ...**: She said in all modesty ...

gyda threigl y blynyddoedd: with the passing of the years

gyda throad y post: by return of post

gyda'ch gilydd: together (you)

gydag amser: in time, in due course

gyda'i de(n)g ewin: with her own hands; by her own hard work

gyda'i gilydd: together (they) (not 'gyda'u gilydd')

gyda'n gilydd: together (we)

gyda'r dydd: at dawn

gyda'r gair: at that very moment

gyda'r gwaethaf: about the worst

gyda'r hwyr: in the evenings

gyda'r nos: in the evening(s)

gyda'r post: by post

gyda'r trê'n/bws: by train/bus

gynnau fach (S): a moment ago, a little while ago

gyrru am ... (N): to send for ...

Mae hi'n **gyrru ar saith deg oed** (N): She is getting on for seventy years old

Mae hi'n **gyrru ar saith o'r gloch** (N): It is getting on for seven o'clock

gyrru arni (N): to keep at it (working)

gyrru arni am ... (N): to prosecute her for ...

gyrru braw ar rn (N): to scare s.o. (see also **hala ofn ar ...**)

gyrru rhth dros y domen: to consign sth to the flames/bin

gyrru rhn yn wirion (N): to cause s.o. to become completely bewildered (see also **hala rhn yn benwan**)

ei **gyrru ymaith yn glustlipa** (N): to send her away with a flea in her ear

gyrru ymlaen â ... (N): to carry on with ..., to continue with ...

gyrru ymlaen (yn dda) â'i gilydd (N): to get on well together

gyrru'r ci arni (N): to set the dog on her

gyrru(r) cwch i'r dŵr (N): to start sth off (often an argument between others)



yn **hael ei chlod**: generous in her praise, given to flattery

haf bach codi tatws: an Indian summer

haf bach Mihangel: as for **haf bach codi tatws**

haffio arni hi (N): to jump down her throat

ei **hala hi'n grac** (S): to make her furious

hala/hela ofn arni hi (S): to frighten her

hala rhn yn benwan (S): to cause s.o. to become completely bewildered (see also **gyrru rhn yn wirion**)

hala/hela rhn yn wallgof (S): to drive s.o. mad

Mae'n **hallt gan fy nghalon ddweud** (N): It grieves me to say

handi at pan ...: useful for when ...

A oes ganddi **hanes prynwr?**: Has she any news of a possible buyer?

Mae ganddi hi **hanes rhn** sy'n fodlon gwneud y gwaith: She knows of someone who is willing to do the work

Mae'n **hanfodol** cael meddyg: It is essential to get a doctor

hanner call: not all there, feeble-minded

hanner call a chrac: barmy

ddim **hanner cystal â ...**: not half as good as ...

Dydy hi ddim **hanner da**: She isn't very well

hanner dydd: noon

hanner gair: a hint, a verbal nudge

hanner nos: midnight

hanner pan: as for **hanner call**

hapus fel y gog: happy as a lark

morwyn **hardd ei gwisg**: a beautifully dressed girl

hardd i'w rfyfeddu: beautiful to behold, stunning

yr **harddaf oll**: the most beautiful of all

Be' sy' **haru'r hogan?** (N): what's the matter with the girl?

hau dannedd dreigiau: to sow the seeds of hatred/contention/discontent

hau hadau gwylltion: to sow one's wild oats

hau'r gwynt a medi'r corwynt: to sow the wind and reap the whirlwind, to find that one's (bad) actions produce a much worse result than expected

Mae'n **hawdd agor ei phwrs**: She is a soft touch, It is easy to get money from her

Mae'n **hawdd dweud**: Talk is cheap, It's easy to talk

un **hawdd gwneud efo/gyda hi**: easy to get on with

hawl ac ateb: question and answer

Mae'n **haws o lawer ganddi hi ...** (N): She finds it much easier to ...

Dywedodd ei barn wrtho **heb bilo wyau** (S): She told him her opinion without

pulling her punches/without restraint on her criticism

heb daw: without a break (referring to talking/music/noise etc.)

heb dir dan ei thraed: without any considered reasons to support her attitude/belief/action etc.

heb do dros ei phen (*hi): without a home

heb dorri gair â'i gilydd: without saying a word to each other

heb droi blewyn: without turning a hair

heb ddeilen ar ei thafod (*hi): forthright, without deception

heb ddimai goch y delyn: penniless

heb ddweud gair o'i phen (*hi): without uttering/saying a word

heb ddweud (na) bw na be: as for **heb ddweud gair o'i phen**

heb ddweud pwmp (S): as for **heb ddweud gair o'i phen**

heb ei ail (*ef): having no equal

heb ei gwahodd (*hi): without being asked, spontaneously

heb ei llyfu (*hi): simple-minded, innocent

heb fesur: plentiful, beyond measure, in abundance

Gwnaf hynny **heb feth**: I will do it/that without fail

heb flewyn ar ei thafod (*hi): as for **heb ddeilen ar ei thafod**

heb fod uwch bawd na sawdl (N): without being the slightest better off

heb fod yn hysbys iddi: not known to her

heb fod yn llawn llathen: a bit simple, not all there

heb frycheuyn na chrychni: without a blemish

heb fwrw'r draul: without counting the cost

heb fynd ar ofyn: without requiring help

heb gragen i ymgrafu: utterly destitute, without two halfpennies to rub together

heb hel dail (N): without beating about the bush, without further ado, without making any bones about it

heb hidio dam/draen/botwm corn/carrail/ffeuen/llychyn: without caring a damn/button/brass farthing/jot etc.

heb hidio'r un blewyn: without caring a jot

Mae hi **heb lawer o gamp arni:** She hasn't much about her worthy of praise

heb na bw na be: as for **heb ddweud gair o'i phen**

heb na migwrn nac asgwrn: without trace

heb na sinc na sôn (N): as for **heb ddweud gair o'i phen**

heb na siw na miw: without the slightest sound or trace

heb os: without question

heb os nac oni bai: with no ifs or buts, with no doubt

heb ragor o lol: without further ado

heb raid nac achos: unnecessarily

heb sôn am ...: not to mention ...

heb waethaf ei gên: despite herself

heb waethaf iddi hi: despite her, in spite of her

heb weithio cnoc (N): without doing a stroke of work

heb wneud cnoc o waith (N): as for **heb weithio cnoc**

heb wreiddiau: without roots, without a feeling of belonging to a community in which one was brought up

heb yngan gair o'i phen (*hi): as for **heb ddweud gair o'i phen**

heb yn waethaf i ...: despite ..., in spite of ...

heb yn wybod i mi: unknown to me, without my knowledge

heb yn wybod iddi hi'i hun: subconsciously, without being aware of her action, without herself knowing

heb yr un ffaden (N)/geiniog: without a penny, on the rocks

heblaw am ...: not to mention ...; apart from ...

heddiw (a) heno: for all time from now on

heddiw ddiwethaf: this very day

heddiw'n deg: as for **heddiw ddiwethaf**

heddiw'r bore/prynhawn: this morning/afternoon

ei heglu hi (N): to flee, to beat it

heigio o ...: to teem with (i.e. to contain a lot of) ...

Mae hi'n **hel eira (N):** Snow is on the way

hel achau: to trace a lineage/pedigree/family history

Mae hi'n **hel (am) storm (N):** A storm is on the way

hel annwyd (N): to start a cold

hel at ei gilydd: to gather/assemble together

hel celwyddau (N): to tell lies

hel clecs: to tell tales; to gossip

hel chwedlau (N): to gossip

hel dail (N): to stall for time

hel dail efo hi (N): to chat to her about trivial matters

hel dannedd (N): to start cutting teeth

hel diod (N): to frequent pubs, to drink (alcohol) regularly

hel dynion (N): to chase after men

hel ei bol (*hi) (N): to overeat, to eat well

hel ei bysedd/dwylo ar/hyd rth (N): to handle sth leaving finger marks

hel ei hun at ei gilydd (N): to get himself/herself organized

- hel ei phac** (N): to pack her bags and go
- hel ei thamaid** (N): to make her living, to be in employment
- hel ei thraed** (*hi) (N): to hurry; to set off, to leave; to wander about aimlessly
- hel ei thraed tua ...** (*hi) (N): to visit ..., to set off for ...
- hel esgus(od)ion** (N): to make excuses
- ei hel hi adref** (N): to go home, to make tracks for home
- hel meddyliau** (N): to imagine the worst, to be in a pessimistic mood
- hel mêl i'r cwch** (N): to take every opportunity to get rich, to feather one's nest
- hel merched** (N): to womanize
- hel mwg i'r sachau** (N) to waste one's time attempting to do an impossible task
- hel straeon** (N): as for **hel clecs**
- hel tai** (N): to visit friends regularly to gossip and sit round drinking coffee
- hel tipyn go lew i'r cwch** (N): to furnish expensively
- hel yn ei bol** (*hi) (N): to indulge in a bout of excessive eating, to go on an eating binge
- help llaw**: help, a helping hand
- help llaw chwith**: help given grudgingly
- helynt a hanner**: a big rumpus, an uproar
- Yr hen gelwyddwr!**: You liar!
- hen air**: an old saying/maxim/proverb
- hen ast**: a nasty bitchy woman
- Hen begor!** (N): Poor old thing!
- hen ben**: an intelligent/wise person
- Mae ganddi hen ben ar ei hysgwyddau**: She has her head screwed on the right way, She is all there
- hen beswch**: a nasty cough
- hen biti**: a terrible pity
- hen bryd**: high time
- A hen bryd hefyd!**: And not before time too!
- yr hen daclau** (N): the scoundrels
- hen drafferth**: big trouble
- Mae'n hen dro iddi hi ...**: It's hard luck that she ..., It's a pity that she ...
- hen drwyn**: a nosey or interfering person; a snob
- Mae'n hen ddieithr**: It's no longer in use, It's obsolete
- hen ddigon o/ar ...**: more than enough (of) ...; just about enough (of) ...
- hen ddwylo**: old dears
- hen ddwylo arni**: old hands at it, skilled
- hen fab** (S): a bachelor
- hen fel pechod**: old as the hills (cf. **fel pechod**)
- hen ferch**: a spinster
- hen frechdan** (N): an old softy; an effeminate man
- hen fys** (N): an old bore
- hen ffsiwn**: old-fashioned; precocious (of a child)
- hen galon iawn**: a good/kind-hearted soul
- yr hen gân**: the old old story
- edrych fel hen gant**: to look very old (for one's age)
- hen geg**: a blabbermouth; a gossip, a loud-mouthed gossip
- Hen geg ydy hi**: She is a gossip; She is all talk
- hen geilioges**: a conceited person
- hen genawes/g'nawes** (N): a nasty bitchy woman
- Yr hen goes!** (N): Old girl!, Old bean!, Old friend!
- hen gorff**: a character (i.e. s.o. with unusual characteristics)
- yr Hen Gorff**: the Methodist Church, Methodists

hen gownt: a grudge, an old score
 Yr **hen greadur!**: You poor thing/creature!
hen groen: an old skinflint/miser
hen grystyn (N): an irritable or miserly old man
hen gwcw: a stupid person
hen horwth diog (N): a very lazy person
hen hosan: savings (esp. money in cash)
 ei **hen hunan:** her/his former self
hen lanc: as for **hen fab**
hen law ar ...: an old hand at ...; an expert at ...
hen lawenhau: great rejoicing
 Yr **hen lwfr(gi)!**: You coward!
hen lwynog (N): a cunning person
hen lywaeth o ddyn (N): an effeminate man
 yr **hen oesoedd:** prehistoric times
 Mae rhyw **hen roddes ynddi:** She is conceited, She likes to show who is boss
Hen un cas oedd hwnna: He was a nasty one
 yr **Hen Was:** the Devil
hen yd y wlad: the indigenous people of the region or of the country
hen (y)sguthan: an old bitch; a slut
Hi ydy'r drwg (N): She's the cause of the trouble
Hi yw'r gofid (S): as for **Hi ydy'r drwg**
Hidia/Hidiwch befo! (N): Never mind!
Hidia/Hidiwch befo fo! (N): Never mind him!
 Dydy hi ddim yn **hidio botwm corn:** She doesn't give/care a fig, She doesn't mind at all (see also **malio botwm corn**)
 Dydy hi ddim yn **hidio taten:** as for **hidio botwm corn**
hidio ynddi hi: to take any notice of her, to heed her
hidlo gwybed (N): to split hairs

hidlo gwybedyn a llyncu camel (N): to make a fuss over a trivial fault and ignore one of much greater importance
 ei **hir gartref:** his/her last resting-place
hiraeth am ...: a longing for ...
Mae hiraeth arni hi: She feels homesick
hoelen wyth: an eminent member of a profession or calling (esp. a preacher), a very active member of a club or society, one of the 'big guns'
hoelen yn ei harch: a nail in her coffin, an act that is likely to shorten her life
hoelio ei llygaid ar ...: to fix/rivet her eyes on ...
hoelio ei meddwl/sylw ar ...: to fix/rivet her attention on ...
hoelion wyth: plural of **hoelen wyth**
hoelio'r gwirionedd: finally to get at the truth
bod yn hoff ganddi (N): to be in favour with her
Mae'n hoff ganddi gŵn/nofio (N): She is fond of dogs/swimming
Mae hi'n hoff o gŵn/nofio: as for **hoff ganddi**
 yr **hogan acw** (N): my daughter
hogan a'i phen yn y gwynt (N): a girl with her head in the clouds
hongian ei het ar yr hoel (*ef/hi): to marry into the family
holi a stilio/chwilio/horlan (S): to question very closely, to cross-examine
holi hanes rhn: to ask after s.o.
holi hanes y ...: to ask what has happened to the ...
holi hynt a helynt rhn: to ask how s.o. is getting on in life
holi hynt rhn: to ask after s.o.
holi rhn y tu chwith(ig) allan: to interrogate s.o. exhaustively
holi'n arw: to enquire earnestly

gwybodaeth am beth yn hollol!: information about what exactly?

hollti blew: to split hairs; to go into too much detail

hon a'r llall (*hi): this that and the other

hon-a-hon (*hi): so-and-so, such-and-such a person

arbenigwr **honedig:** a so-called expert (see also ... **chwedl yntau**)

hulio'r bwrdd (N): to set the table

Mae hi'n **hwch:** She's a slut

Mae'r **hwch wedi mynd trwy'r siop:** They have gone bankrupt

Hwde'r rhain/Hwdiwch y rhain! (N): Take these!

hwn a'r llall (*ef): as for **hon a'r llall**

hwn-a-hwn (*ef): as for **hon-a-hon**

hwnt ac yma: here and there

hwp-di-hap (S): chance, unplanned

hwrdd o besychu: a fit of coughing

hwrdd o dymer ddrwg: a fit of bad temper

hwrdd o weithgarwch/gymeradwyaeth/gyflymder: a burst of activity/applause/speed

Hwre'r rhain/Hwriwch y rhain! (S): as for **Hwde'r rhain/Hwdiwch y rhain!**

cael **hwyl a sbri:** to have a good time, to have fun

Hwyl fawr!: All the best (to you)!,
Goodbye!

hwyllo ati: to set about it, to start it

hwyllo beic: to push a bike

hwyllo brecwast/cinio: to prepare breakfast/dinner

hwyllo i godi: to move/prepare to get up

hwyllo pram: to push a pram

hwyllo rhth ymlaen/yn ei flaen: to promote sth, to further sth

hwyllo rhn i ...: to persuade s.o. to ...

hwyllo yn erbyn y llanw: to act against prevailing forces, to swim against the tide

hwyllo'i phethau ar gyfer ...: to equip herself for ..., to get her things together for ...

Roedd yn **hwyr arni hi'n cyrraedd:** She was late arriving

yn **hwyr glas:** very late; high time

Mae'n **hwyr glas i ti fynd:** It's high time you went, It's high time for you to go

yn **hwyr neu'n hwyrach:** sooner or later

yn **hwyrdrwm ei chlustiau** (*hi): hard of hearing, slow on/in the uptake

Roedd hi'n **hy arnon ni** (N): She was bold with us; She was impudent to us

hyd a lled y difrod: the extent of the damage

hyd a lled y mater: the long and the short of the matter

hyd adref: to the hilt, in full

hyd at syrffed: till one is sick and tired of sth; more than enough

hyd at waed: till blood was/is spilt; till the argument became/becomes very heated

hyd berfeddion (y) nos: till the early hours of the morning

hyd braich: at arm's length

hyd bys o ...: thumbnail size ..., pocket size ...

hyd ei bysedd: all over her fingers

hyd eithaf fy ngwybodaeth: to the best of my knowledge

hyd fedd: until death

gweithio **hyd fêr ei hesgyrn** (*hi): to work extremely hard, to overwork

hyd ganiad yr utgorn: till the day of judgement

hyd hynny: up to that time

hyd nes ...: until ...

hyd nos: till night

hyd oni(d) ...: until ...

hyd pan ...: until ...

hyd y byw: to the quick, deep(ly) (see also *i'r byw*)

hyd y carn: to the hilt, through and through, complete(ly) (see also *i'r carn*)

hyd y diwedd: to/till the end (of one's life)

hyd y gwela i: as/so far as I can see, in my opinion

hyd y gwn i: as/so far as I know

hyd y gwraidd: completely, every inch

hyd yma: up to now

hyd ymhen ...: as far as ..., until ..., up to ...

hyd ymyl y llyn: along the edge of the lake

hyd yn dragywydd: for eternity, till the end of time

hyd (yn) hyn: up till now, yet, still, so far

hyd yn oed: even (as in 'even colder', 'even him')

hyd yn ymyl ...: alongside ...

Mae hi'n ymdrechu **hyd yr eithaf:** She is striving her utmost

yr hyn: what (meaning 'that which' as in 'What she heard today is ...'; see *(yr) hyn sydd gen i*)

hyn a'r llall: this and that

hyn o dro: on this occasion

hyn o fyd: the world as we find it/as it is

hyn oll: all this

Weli di **yr hyn sydd gen i?**: Do you see what I mean? (see *(yr) hyn*)

hynny a fedrai hi: as best she could

hynny o dro: at that time, on that occasion (past or future)

Mae **hynny'n ganiataol:** That goes without saying, We take that for granted

yn hynod o ...: very ..., remarkably ..., exceptionally ...

dy hynt a helynt: your troubles; what you've been doing recently

~

i ba raddau ...: to what extent ...

i bedwar gwynt y nefoedd: scattered in all directions

mynd i ben ei helynt: to go wherever he/she likes

i blith ...: into the midst of ...

i bob diben: to all intents and purposes

i bob golwg: to all appearances

i bob pwrpas: as for **i bob diben**

i bwrpas: to the point, pertinent

i drwch y blewyn: precise(ly)

bod i fod i ...: to be supposed to ... (as in 'What is that supposed to mean?', 'You were supposed to wear a suit')

i fyny'r grisiau (N): upstairs

i ffwrdd: away (see also **bant**)

I ffwrdd â chdil! (N): Go away!

I ffwrdd â nhw: Away they went

I ffwrdd â nil: Off we go!

i raddau: to some extent

i raddau helaeth: to a great extent

i ryw raddau: to a certain extent

i sicrwydd: for certain

i'r blewyn: exactly, perfectly, to the minutest detail

i'r byw: to the quick, deep(ly) (see also **hyd y byw**)

i'r carn: to the hilt, through and through, complete(ly) (see also **hyd y carn**)

gyrru i'r cilfachau: to put to the back of the mind (i.e. to forget temporarily)

i'r dim: perfectly, just right

i'r eiliad: occurring at exactly the right time, on the dot

i'r eithaf: as much as possible, extremely

i'r funud (S): exactly on time

i'r gad â nhw: They went/are going to battle, They went/are going on the warpath

i'r graddau ei bod hi ...: in so far as she is/was ...

i'r gwrthwyneb: on the contrary

i'r munud (N): as for **i'r funud**

rhoi i'r naill ochr: to put to one side (see also **o'r neilltu**)

i'r pedwar gwynt: scattered in all directions

i'r perwyl ei bod hi ...: to the effect that she is/was ...

i'r perwyl hwn: to this effect

i'w helw: in her possession

Yr hyn oedd i'w weld yn ei digio fwyaf oedd ...: What seemed to vex her most was ...

yn iach ei chroen (*hi): unscathed

yr iaith fain: English (language)

iâr glwc: a broody hen

ias drwy ei chefn: a shiver down her spine

Mae ias eira ynddi: It feels as if it's going to snow

ias (i) lawr ei chefn: as for **ias drwy ei chefn**

Mae ias ynddi: There's a cold chill in the air

iro blonegen: to carry coals to Newcastle

iro ei llaw: to bribe her

is ei llaw: beneath her

Mae hi'n isel ei hysbryd: She is in low spirits

~

jac codi baw: a mechanical excavator, a JCB

jôc goch: a blue joke

Mae hi jyst â gorffen: She has almost finished (see also **bron â ...**)

Mae hi jyst â drysu: She is at her wits' end

~

lan (S): up, upwards

lan lofft (S): upstairs (see also **i fyny'r grisiau**)

Lol botes (maip)! (N): Nonsense!

y lôn goch: the gullet

lwc mul/mwngrel/mwnci: a fluke, pure luck

~

llac ei thafod (*hi): unable to keep a secret

Mae ganddi lach ar bawb (N): She criticizes/blames everybody

lladrata oddi arni hi: to steal from her

ei lladd â phluen: to damn her with faint praise

lladd amser: to kill time while waiting for sth/s.o.

lladd ar ...: to denounce ...; to attack/abuse verbally ...; to criticize severely ...; to cast aspersions on ...

lladd clefyd: to stamp out a disease

lladd dau aderyn/dderyn ag un ergyd: to kill two birds with one stone, to achieve two objectives with the effort required for one

ei lladd ei hun(an): to slog her guts out, to work till she drops

ein lladd ein hunain yn chwerthin: to split our sides laughing

lladd gwair: to mow (hay or grass)

lladd haint: as for **lladd clefyd**

yn **lladd nadroedd**: working very hard and quickly

lladd sŵn: to absorb sound

lladd yn gelain (N): to kill stone-dead

lladd yr amser: to while away the time

yn **llaes ei gwep** (*hi): with a long/sad face

llaesu dwylo: to take a rest; to become idle; to become weary

llaesu gafael yn ...: to let go of ...

llaesu gwefl (N): to pout

llaeth anwedd: evaporated milk

llaeth cyddwys: condensed milk

llaeth mwnci (N): alcoholic drink

llaeth tew/tewychedig: condensed milk

llafar gwlad: everyday speech

llafur cariad: a labour of love

llai byth: even less, even fewer

llais fel brân: a raucous voice

llais fel gafr: an unpleasant sounding voice

llais y wlad: public opinion

Mae hi'n **llanast(r) corfforol** (N): She is a physical wreck

llanc mawr: a pompous man, a big-head

pan fo'r **llanw ar lawr**: when the tide is in

llanw o atgofion: a flood of memories

llathen o'r un brethyn: a chip off/off the old block, one who is just like his/her parent

un y **llaw**: one each

bod yn **llaw ac yn droed iddi hi**: to do everything for her

llaw agored: generous

llaw bwt (S): left-handed

llaw deg: well-formed legible writing

cael **llaw drom gyda/efo hi**: to have a difficult time with her (when caring for s.o. who is ill)

llaw ddu mewn maneg sidan: an iron hand in a velvet glove

Mae ganddi hi **law flewog**: She is light-fingered, She is a bit of a thief

Yr hen **law flewog!**: The thief!, You thief!

cael y **llaw uchaf ar ...**: to gain dominance over ...

law yn llaw: hand in hand

llawenhau am ...: to be glad of ..., to rejoice in ...

lawer i dro (N): several times; many times

dim **llawer o bregethwr**: not much of a preacher

llawer o dwrw, ychydig o wllân: a lot of noise with little effect

Mae **llawer o ffordd gen i** (N): I have a long way to go

Does dim **llawer o gamp arni hi**: She hasn't much about her worthy of praise

Bu **llawer tro ar fyd oddi ar hynny**: A lot of water has flowed under the bridge since then

bod yn **llawiau efo ...** (N): to be pals with ...

llawiau garw (N): great pals (see also ... **gryn lawiau**)

llawn cymaint: just as much

Mae'n **llawn cystal nad aeth hi**: It's just as well she did not go

dim yn **llawn llathen**: not all there, a bit simple-minded

llawn mor falch â ...: just as pleased as ...

bod yn **llawn o ddrylliau**: to be obsessed with guns

Mae hi'n **llawn ohoni ei hun**: She is full of herself, She is full of her own importance

bod yn **llawn parchedig ofn tuag ati hi**: to be/stand in awe of her

lawr llawr (S): downstairs, on the ground floor

lawr stâr (S): downstairs

lawr y grisiau/staer (N): as for **lawr stâr**

Lle andros wyt ti wedi bod? (N): Where on earth have you been?

Lle ar y ddaear ...?: Where on earth ...?

Lle bo angen: where need be

Lle bynnag y bo: wherever it may be

Lle chwech (N): a toilet/loo

Mae gennych chi le da i fod!: You have good reason to be!

Lle gnyllwyn ...?: Where the devil ...?,
Where on earth ...?

Does ganddi hi le i boeni: She has no cause to worry/for concern

Does ganddi hi ddim lle i boeni: as for Does
ganddi hi le i boeni

Mae lle i gredu bod ...: There are grounds for believing that ...

Lle mae'r esgid yn gwasgu: where the shoe pinches, where the source of the difficulty is

Lle moel: a bald patch

Bydd 'na le rŵan (N): There'll be a bit of trouble now

Lled agored: half open

Lled blewyn: a hair's breadth, a very small thickness/width

Lled cae: a short distance

Lled dda: fairly good, fairly well

o led ewin: by a whisker, by a hair's breadth

Lled llaw: a short distance, a hand's width; a short period of time

Lled troed: a very small area of land

(I)led y pen: wide open

agored yn lled y pen: as for (I)led y pen

lledr y gwefusau: gums

lledu ei brest: to have a high opinion of herself

lledu ei gorwelion: to broaden her interests, to expand her horizons

lledu ei hadenydd: to spread her wings, to increase the range of her activities

lledu ei hesgyll: to swagger; to spread her wings, to increase the range of her activities

lledu ei hopran (N): to open his/her big mouth, to hold forth

llefain ar rn: to cry (out) to s.o.

llefain y glaw: to weep, to shed tears

(Y) lleiaf rydw i'n smygu (y) mwyaf rydw i'n bwyta: The less I smoke the more I eat

lleidr unfraich: a one-armed bandit, a gambling machine operated by a lever

Leied a glywir amdani hi y dyddiau yma!: How little one hears of her these days!

llên gwerin: folklore

llenwi'r bwlch: to save a situation by standing in for s.o.; to fill the gap

Lle'r aflwydd ...?: Where on earth ...?

llestr diferu: a colander

lleuad naw nos olau: harvest moon

llewygu o ofn: to faint with fear

Mae llewyrch ar y fenter: The venture/scheme is succeeding/prospering

llidio wrth ... (N): to lose one's temper with ...

llifeirio o laeth a mêl: to flow with milk and honey, to offer abundance and prosperity

lin ar lin: a bit at a time, a bit here and a bit there

Mae llinyn ei ffedog yn mynd yn rhy fyr: It is apparent that she is pregnant

llinyn mesur: a yardstick, a standard used for determining what is acceptable

llithriad tafod: a slip of the tongue

liw dydd: by day, in daylight

lliw haul: suntan

liw nos: by night, at night

Welodd neb ddim lliw ohoni hi wedyn:

Nobody saw anything of her afterwards

llo gwlyb: s.o. who behaves in an immature manner

Aeth hi'n llongdrylliad ar rn/rth: S.o./Sth was completely destroyed/wrecked

cael llond bol(a) ar ...: to be fed up with ...

llond ceg: a telling-off; a lot of cheek

llond ceubal: a bellyful, a surfeit

llond dwrn: a small number or amount, a handful

teimlo yn llond ei chlos: to feel pleased with herself

yn llond ei chroen: hale and hearty, looking well fed; rather stout

Mae ganddi hi lond ei dwylo: She has lots of work to do, She has her hands full

llond ei hafflau o lyfrau (N): his/her arms full of books

llond ei sach: pregnant

llond gwlad: a large crowd

llond gwlad i'w ddweud: a lot to say

llond gwlad o ...: a large amount/number of ...

llond het o ...: a small amount/number of ...

llond llaw: troublesome; a small number or amount

llond llygad aderyn: a tiny amount

y llonyddwch o flaen drycin: the calm before the storm, the period of calm before trouble starts

llosg cylla: heartburn

llosg eira: chilblains

llosgi bysedd: to burn one's fingers, to come off badly in a deal

llosgi yn ei chroen i geisio (*hi): to be itching to try

llosgi'r gannwyll yn y ddau ben: to burn the candle at both ends, to start working

early in the morning and finish late at night

lluch dafll (N): sth worthless

lluchio llwch i'w llygaid: to throw dust in her eyes, to confuse her, to say or do sth that hides the truth from her

lluchio rhth dros y bwrdd: to get rid of sth, to throw sth overboard

llunio'r gwadn fel y bo'r troed: to cut one's coat according to one's cloth, to live within one's means

llusgo ei mam i'w chanlyn (N): to have her mother on tow/on her coat-tails, to drag her mother around with her

llusgo ei thraed: deliberately to make slow progress in completing a task, to drag her feet

ei llw (a chred): her word of honour

llwdn cloch: a ringleader

llwnc destun: a toast

llwnc tost (S): a sore throat

llwrw ei blaen (*hi): forwards; without hesitation

llwrw ei chefn (*hi): backwards

llwrw ei deudroed (*hi): feet first

llwrw ei hwyneb (*hi): straight on

llwrw ei phen (*hi): headlong; head first

llwrw ei thrwyn: following her nose, straight on

llwy bwdin (N)/ganol (S): a dessertspoon

llwybr coch: a much used path

dilyn y llwybr cul: to follow the straight and narrow path, to behave in an honest and moral way

llwybr llygad/tarw: a short cut

Does dim yn llwyddo ganddi (N): Nothing goes right for her

llwynog o ddiwrnod (N): a day of very variable weather (see also **cadno o ddiwrnod**)

llywyth dyn/gwas diog: a lazy man's load, a load so great that it causes more trouble than it saves

llyfiad cath: a lick and a promise

llyfr lloffion: a scrapbook, a blank book for mounting cuttings from newspapers etc.

llyfu bysedd: to be pleased about another's misfortune; to look forward to an expected pleasure

llyfu ei briwiau/chlwyfau/doluriau: to lick her wounds, to take a period of rest to recover from a misfortune or failure

llyfu ei hesgidiau/thraed/llaw: to flatter her in order to gain favour; to show abject submission to her, to lick her boots

Roedden nhw'n ei llyfu hi: They were all over her

llyfu'r llawr: to bite the dust, to fall sprawling on the ground; to grovel

llygad am lygad: an eye for an eye

bod â llygad amdani: to be concerned about her welfare

yn llygad ei lle (*hi): dead right, perfectly correct

o lygad y ffynnon: from the source, from the horse's mouth

llygad yr haul: direct sunlight

llygadog fel brywes (N): sharp-eyed

dim ond llygaid ac esgidiau: mere skin and bones, extremely thin

llygaid cath: very sharp eyesight; cats' eyes (i.e. reflectors in the road surface)

Mae (hi â) llygaid yn ei phen: She is far-seeing; She knows exactly what she's doing

Mae ei llygaid yn fwy na'i bol: Her eyes are bigger than her stomach/belly

llygedyn dŵr: a source of a stream

llygedyn haul/heulog: a brief appearance of the sun through the clouds

llygedyn o dân: a glimmer of fire

llygedyn o obaith: a ray of hope

llygoden untwll: a person with only one string to their bow, a person vulnerable through not having more than one skill

llygoden y fer/goes (N): calf of the leg (see also **bola ...**, **croth ...**)

un llym ei thafod (*hi): forthright, sharp-tongued

Lyncai hi mo'r llaeth (S)/**llefrith** (N): Butter wouldn't melt in her mouth

llyncu ar ei thalcen (*hi): to swallow in one draught

llyncu ar un gwynt (N): as for **llyncu ar ei thalcen**

llyncu ei geiriau: to eat her words, to retract

llyncu ei hegwyddorion: to put aside her principles

ei llyncu heb ddweud gair: to take it lying down, to be insulted without making any protest

llyncu mul (N): to suck

llyncu'n llyfn: to eat or drink with relish; to swallow in one draught

llyncu'r abwyd: to swallow the bait (lit. and fig.)

llyncu'r stori'n gyrrn, croen a charnau: to be completely taken in by the story, to swallow it hook line and sinker

llyywaeth fel llo: weak, dominated, easily taken advantage of

hen llyywaeth o ddyn: an effeminate man

llywodraeth y bais: petticoat government, rule by women (inside or outside the home)

~

mab gweddw: a bachelor

mab llên: a scholar

Rydych chi wedi'i **maeddu hi**: You have made a blunder, You have made a complete mess of things

maen melin am ei gwddw: a millstone round her neck

maen prawf: a criterion

maen tramgwydd/rhwyrstr: a stumbling-block (see also **carreg ...**, **craig ...**)

ym **maes chwaraeon/drama**: in the field of sport/drama

maes chwarae: a playground

maes llafur: a syllabus

magu adenydd: to prepare to leave the nest (i.e. home)

Mae hi'n **magu annwyd**: She has a cold coming on

magu asgwrn cefn: to summon up courage

magu bloneg: to put on weight

magu bol (N)/bola (S): to put on weight; to develop a pot-belly

magu cefn: to put some money behind one; to increase one's wealth or assets

magu cweir (N): to be asking for trouble, to behave in a manner that is sure to attract condemnation

magu esgyrn bychain: to be pregnant

cael ei **magu gan ... (*hi)**: to be brought up (i.e. reared) by ...

magu gofidiau: to grieve/pine/brood, to eat one's heart out

magu llwch: to collect dust

magu mân esgyrn: as for **magu esgyrn bychain**

magu plwc: to pluck/screw up (one's) courage

magu tipyn o fân esgyrn (S): as for **magu esgyrn bychain**

magu trwyn: to develop a sixth sense

magu'r arfer o wneud rhth: to get into the habit of doing sth

Roedd wedi mynd yn **fain arni**: She had gone broke, She had got into difficulties

Roedd yn **fain arni**: She was in difficulties, She was hard up, She was up against it

Mae'n **fain arni am amser**: She's pushed for time

main y cefn: the small of the back

maint yn y byd: the least bit

malais at ...: malice towards ...

Dydy hi ddim yn **malio botwm corn (N)**: She doesn't give a damn/tinker's cuss (see also **hidio botwm corn**)

Dydy hi ddim yn **malio catiaid o fanus (N)**: as for **malio botwm corn**

Faswn i'n **malio dim (N)**: I wouldn't mind at all

Dydy hi ddim yn **malio draen(en)/gwelltyn (N)**: as for **malio botwm corn**

malio ynddi hi (N): to heed her, to mind her

malu awyr: to talk nonsense, to waffle, to haver, to talk through the back of her neck

malu ewyn: to foam; to fume (in rage)

malu glo mân yn glapiau (S): to do sth useless

malu sôn: to talk nonsense

malu'n deilchion: to shatter into small fragments

malu'n dipiau/ddarnau: to shatter into small fragments; to criticize (a work/plan etc.) very harshly

malu'n fân: to scrutinize carefully

mam wen (N): a stepmother

man a man i chi fynd (S): you might as well go (see also **un man i chi ...**, **Waeth iddi hi ...**)

fan bellaf: at the latest

man geni: a birthmark

man gwan: a weak spot; a weakness (e.g. for chocolate)

fan gyntaf/gynharaf: at the earliest

fan hwyraf: as for **fan bellaf**

fan hyn fan draw (S): here and there

man lleiaf/fan leiaf: at least (see also **o leiaf**)

yn fân ac yn fuan: bustling about; moving with short rapid steps

mân lwch y cloriannau: sth of no importance

maneg weddw (N): an odd glove (i.e. one only of a pair)

manteisio ar ...: to take advantage of ...; to interfere with ...

manylu ar ...: to go into details about ...

manylu hyd ddiflastod ar leoedd ac amserau: to recite all the boring details

March ydy o (N): He's a womanizer

marw ar ei thraed (*hi): to be dying on her feet, to decline in health while still managing to be up and about

marw fel diffodd kannwyll: to die suddenly and peacefully

Maen nhw'n farw gorn: They are completely dead (referring to people, ideas, beliefs etc.), They have died out

marw uwchben ei thraed (*hi): as for **marw ar ei thraed**

marw yn yr harnais: to die while still working

Ma's â til (S): Out you go! (see also **Allan â chdil**)

ma's draw (S): immensely (see also **allan o ...**)

ma's o bob rheswm (S): out of the question, in no way acceptable (see also **allan o ...**)

ma's o drefn (S): out of order (referring to a machine, a person or papers) (see also **allan o ...**)

ma's o fath (S): beyond measure (see also **allan o ...**)

Mae'r car ma's o gêr (S): The car is out of gear (see also **allan o ...**)

ma's o hwy! (S): out of sorts (see also **allan o ...**)

ma's o law (S): in a short while; eventually (cf. **allan o law**)

ma's o reswm (S): not acceptable, unreasonable (see also **allan o ...**)

ma's o rifedi (S): innumerable, countless (see also **allan o ...**)

ma's o wynt (S): out of breath (see also **allan o ...**)

ma's ohoni (S): incorrect; out of the running (see also **allan ohoni**)

Mae'r car ma's o'i/o'r afael (S): as for **ma's o gêr**

ma's o'i byd (S): beyond her ken; outside her field of interest (see also **allan o'i byd**)

ma's o'i phwyll (S): out of her mind (see also **allan o'i phwyll**)

Mae hi ma's o'r ras (S): She is out of the running (see also **allan o'r ras**)

Mater o drefn ydy hi: It's just a matter of form

mater o raid arni hi: an essential requirement to her

Mawr dda iddi! Good luck to her!

Mae hi'n fawr ei pharch yn y dref: She is highly respected in the town

Dydy hi fawr gwaeth: She's none the worse

Dydy pethau fawr gwell: Things are not much better

Fawr neb! Hardly anyone!

Does fawr neb yn meddu ar bwll nofio: Very few people own a swimming pool

Chlywais i fawr o ganu: I didn't hear much singing

Does gen i fawr o amynedd mynd: I can't be bothered going

Does gen i fawr o awydd mynd: I'm not particularly keen on going

Fawr o ddim!: Not much!, Hardly anything!

Fawr o helynt!: Not much!

Does 'na **fawr (o) neb yn** mynychu: Not many people are attending

Does ganddi **fawr o olwg ar ...:** She doesn't think much of ..., She hasn't a high opinion of ...

mawr o'i hoed: big for her age

Fedr hi ddim helpu (N): She can't help it (see also **All hi ddim helpu**)

Fedrai hi ddim helpu (N): She couldn't help it (see also **Allai hi ddim helpu**)

Fedrai hi ddim llai na sylwi: She couldn't help noticing

medru rhth ar dafod leferydd/ar eich cof (N): to know sth off by heart

Meddai hi wrtho feffo ...: She said to him ... (used only when quoting)

meddu ar ...: to possess ...

meddw chwil/fawr/gaib/gorn/bost/sobor/dwll: reeling drunk

meddwi'n chwil: to get reeling drunk

meddwl prynu tŷ: to think of buying a house

Roeddwn i'n **meddwl braidd:** I suspected as much

meddwl ei hun: to think highly of herself/himself, to be conceited

meddwl uchel o ...: a high regard for ...; to think highly of ...

meddwl y byd o ...: to think the world of ...

bod yn **feistr corn/feistres gorn:** to be the undisputed boss, to be top dog

yn **fêl ac yn fefus:** in honeyed words

mêl ar ei bysedd: music to her ears, scandalous news she will enjoy relating

yn **fêl i gyd:** in honeyed words

Mae'r **felan arni hi:** She is in a depressed state

melltithio rhn i'r cymylau: to curse s.o. strongly

mennu ar ...: to influence strongly ...; to affect ...; to disturb ...

mentro ar ...: to venture upon ...

mentro ei phen: to stick her neck out, to risk making trouble for herself

ym mêr ei hesgyrn: in her bones, instinctively

merch weddw: a spinster

mesur a phwyso'r sefyllfa: to weigh up the situation, to take stock of the situation (see also **pwysu a mesur ...**)

mesur ei geiriau: to weigh her words, to choose her words carefully, to be careful not to exaggerate

mesur ei hyd: to fall and lie full-length

mesur pawb wrth ei llathen ei hun: to judge people by her own standards

Mae hi'n **methu (â) byw yn ei chroen i gael y llyfr:** She can't wait to get the book

methu â chadw/methu cadw ei fachau'n llonydd: to be unable to stop thieving/meddling

methu â chael/methu cael pig i mewn: to be unable to get a word in edgeways

methu (â) dal: to be unable to contain/restrain oneself

methu (â) dal y pwysau: to be unable to stand the pressure

methu (â) gweld y coed gan breniau: to be unable to see the wood for the trees

methu (â) gwneud na phen na chwt (S)/chynffon ohono: to be unable to make head or tail of it

methu (â) gwneud (na) rhawn na bwgan ohono: as for **methu (â) gwneud na phen na chwt ohono**

methu (â) gwneud (na) rhych na chefn/gwellt/rhawn ohono: as for **methu (â) gwneud na phen na chwt ohono**

Mae hi'n methu'n arw (N): She has got it all wrong, She has got hold of the wrong end of the stick

os nad ydw i'n methu'n arw (N): if I am not very much mistaken

methu'n deg/glir/lân â ...: to fail completely to ..., to be completely unable to ...

mewn amrantiad: in an instant

mewn bri: in fashion; in the public eye

mewn byd garw: on hard times, oppressed with misfortune

bod mewn cae arall: to bark up the wrong tree; to be at cross purposes; to be in a different class

mewn cawl (S): in a fix; in a mess

mewn congl (N): in a quandary, in an embarrassing position, in a tight corner; secretly

mewn cyfyng-gyngor: in a quandary, at one's wits' end, in a tight corner (see also **ying nghyfyng-gyngor**)

mewn Cymraeg cyfoes: in contemporary Welsh

mewn cywair da: in good condition/repair/order/shape

mewn chwinciad (chwannen): in a second, in a flash, in an instant

mewn chwip o dro: as for **mewn chwinciad**

mewn chwipyn (S): as for **mewn chwinciad**

mewn difrif calon: in all seriousness, seriously

mewn dim: very soon, in no time at all; in anything

mewn diod: drunk

mewn du: in mourning

mewn du a gwyn: in black and white, in writing (see also **ar ddu a gwyn**)

mewn dyfroedd dyfnion: in deep water(s), in trouble

mewn gair: very briefly, in a word, to sum up

mewn golwg: under consideration, in mind, in view; in prospect

mewn grym: in force (i.e. operating)

mewn gwaed oer: in cold blood; wisely and without prejudice

mewn gwedd dda: in good shape/trim

as long as ... (i.e. provided that): cyn belled â bod ... *You may borrow the book as long as you take care of it: Cewch chi fenthg y llyfr cyn belled â'ch bod yn gofalu amdano.*

as long as I can: tra gallaf/medraf i, cyhyd ag y gallaf/medraf *I will hold the rope as long as I can: Dalia' i'r rhaff tra gallaf i.*

as loud as she could (with her voice): ar frig uchaf ei llais, nerth ei cheg, nerth (esgyrn) ei phen

as might be expected: wrth reswm, yn ôl y disgwyl *With their father being so violent, the children were very timid, as might be expected: A'u tad mor dreisgar roedd y plant yn ofnus iawn, wrth reswm.*

as much as her life is worth: yn ddigon am ei bywyd *To sell his wife's ring is as much as his life is worth: Mae gwerthu modrwy ei wraig yn ddigon am ei fywyd.*

as much as possible: hyd yr eithaf, i'r eithaf, cymaint â phosibl *She praised*

- them as much as possible: Canmolai hi nhw hyd yr eithaf.*
- as one might expect:** as for as might be expected
- as regards ...:** o ran ..., gyda golwg ar ..., o safbwynt ... *As regards food, bring some sandwiches: O ran bwyd, dewch â brechdanau.*
- as required:** fel bo'r angen, yn ôl yr angen *Dry clothes will be given to the children as required: Rhoddir dillad sych i'r plant fel bo'r angen.*
- as seen and inspected:** dan ei fai *The car will be sold as seen and inspected: Gwerthir y car dan ei fai.*
- as she is used to doing:** yn ôl ei harfer
- as she says:** fel mae hi'n dweud, ys dywed hi, chwedl hithau
- as she usually does:** yn ôl ei harfer
- as soon as possible:** cyn gynted ag y/â bo modd, cyn gynted â phosibl
- as such:** fel y cyfryw *I have no interest in philosophy as such: 'Sgen i ddim diddordeb mewn athroniaeth fel y cyfryw.*
- as the crow flies:** fel yr hed brân/y frân
- as the need arises:** yn ôl y galw, fel bo'r angen
- as things are today:** yn y byd sydd ohoni *It is not safe in town in the evening as things are today: Dydy hi ddim yn saff yn y dref gyda'r nos yn y byd sydd ohoni.*
- as usual:** fel arfer
- as well as that** (i.e. in addition to that): yn ogystal â hynny, ar gefn hynny
- to be ashamed of/about sth:** cywilyddio dros rth/o achos rth
- She is **ashamed to do it:** Mae cywilydd ganddi/arni wneud y peth, Mae arni gywilydd gwneud y peth
- to ask after s.o.:** holi hanes/hynt rhn
- to ask for ...:** gofyn am ..., ymofyn am ...
- to ask her for sth:** gofyn am rth ganddi hi (N), gofyn am rth oddi wrthi hi, gofyn iddi am rth
- to ask her sth:** gofyn rhth iddi, ei holi hi ynghylch rth
- to ask how she is getting on (in life):** holi ei hynt a helynt
- to ask what has happened to the ...:** holi hanes y ... *You must ask what has happened to the Jones family since they moved to Papua New Guinea: Mae rhaid i chi holi hanes y teulu Jones ers iddyn nhw symud i Bapua Gini Newydd.*
- to be asking for trouble:** gofyn amdani, gofyn am helynt, magu cweir (N), mentro'i siawns (*ef/hi) *Buying a stolen car is asking for trouble: Magu cweir ydy prynu car wedi'i ddwyn.*
- at a disadvantage:** dan anfantais
- at a distance:** yn y pellter
- to work at a furious pace:** gweithio fel lladd nadroedd
- at a gallop:** ar garlam, ar bedwar carn gwyllt
- at a glance:** ar gip, mewn amrantiad
- He is at a low ebb:** Mae'n drai arno
- at a standstill:** yn sefyll yn stond
- for hours at a stretch:** am/ers oriau bwygilydd
- at a stroke:** ar drawiad, ag yn ergyd *She solved two problems at a stroke: Mi wnaeth hi ddatrys dwy broblem ar drawiad.*
- at a time:** ar y tro
- at a trot:** ar duth, ar drot
- at a weak moment:** ar awr wan
- at all costs:** costied a gostio
- at all hours:** ar bob awr
- at an end** (i.e. finished): ar ben, yn y pen
- at anchor:** wrth angor
- at arm's length:** o/ar hyd braich
- at best:** ar y gorau

at close quarters: afael yng ngafael

at cross purposes: yn tynnu'n groes, yn groes i'w gilydd

at dawn/daybreak: ar doriad gwawr, gyda'r dydd/wawr, yn y bore bach/glas, ar lasiad y dydd, yn y plygain

at death's door: ar drengi/farw, wrth borth/ym mhorth marwolaeth

at each other's throats: yng ngyddfau'i gilydd, wddw yng ngwddw

at every opportunity: bob gafael, bob cyfle

at every turn: bob tro, bob gafael, ar bob tu *She met opposition at every turn: Cafodd hi ei gwrthwynebu bob tro.*

at exactly the right time: i'r (union) funud, i'r funud yn union

at first hand: yn y fan a'r lle, o lygad y ffynnon, yn uniongyrchol

at first sight: ar yr olwg gyntaf

at full speed: ar wib

at full steam: nerth braich ac ysgwydd

at full tilt: ar garlam, yn bendramwnwgl

at great speed: ar ras wyllt

at hand: wrth law, at alw

to be **at her:** bod yn ei phen *Huw was at her every day asking her to mend the car: Roedd Huw yn ei phen hi bob dydd yn gofyn iddi drwsio'r car.*

at her worst: ar ei gwaethaf

at her beck and call: ar/at ei galwad, yn was bach iddi hi

at her best: ar ei gorau

at her discretion: fel mae hi'n gweld (yn) orau

at her disposal: at ei gwasanaeth, ar gael iddi hi

at her expense: ar ei thraul

at her fingertips: ar flaenau/bennau ei bysedd

at her heels (i.e. close behind her): wrth ei sawdl

to be **at her mercy:** bod ar ei thrugaredd

at her most beautiful: ar ei harddaf

at her own discretion: fel y mynnai hi, fel y gwelai hi'n ddoeth/dda

at her own expense: ar ei chorn ei hun, ar ei thraul ei hun, o'i phoced ei hun

at her own (leisurely) pace: wrth/yn ei phwysau, gan bwyll

at her request: ar ei chais

at her side: wrth ei hochr/hymyl, ar ei phwys (S)

at her time of life: yn ei hoed(ran) hi

She is **at her wits' end:** Mae hi'n gofidio'n arw, Mae hi mewn cyfyng-gyngor, Mae hi bron/jyst â drysu

at home: gartref, adref (N), yn y tŷ (S)

They are **at it again:** Maen nhw wrthi eto

at just the right time: yn llygad yr amser

at large: ar led, ar gerdded, â'i thraed yn rhydd (*hi)

at last: o'r diwedd

at least: o leiaf, ar y lleiaf

They are **at loggerheads:** Maen nhw'n mynd yn benben

at once (i.e. immediately; cf. **at the same time**): ar unwaith, yn syth, yn union, rhag blaen, ar ei ben, yn y fan

at one time: gynt, ers talwm (N), ers llawer dydd (S), ar un adeg, unwaith *She played tennis at one time: Chwaraeai hi denis gynt.*

at play: wrthi'n chwarae

at random: ar antur, ar hap, ar amcan *The children were chosen at random: Dewiswyd y plant ar hap.*

at rest: yn gorffwys

She is completely **at sea:** Dydy hi ddim yn gwybod lle mae hi, Mae hi'n llwyr ar goll, Mae hi wedi drysu'n llwyr

- at short notice:** ar fyr rybudd, ar rybudd byr
- at stake:** yn y fantol *Her reputation was at stake: Roedd ei henw da yn y fantol.*
- at that age:** yn yr oed hwnnw
- There was little hope **at that stage:** Doedd fawr o obaith yr adeg honno
- at that time:** yr amser hynny, bryd hynny, y pryd hynny, yr adeg honno
- at that very moment:** gyda hynny, gyda'r gair, ar yr union eiliad
- at the back of beyond:** ym mhen draw'r byd
- at the beginning:** ar/yn y dechrau, yn y pen
- at the best of times:** ar y gorau *She is not in perfect health at the best of times: Dydy hi ddim mewn llawn iechyd ar y gorau.*
- at the bottom of the garden:** ar waelod yr ardd
- at the break of day:** ar doriad y dydd, yng nglas y dydd
- at the coalface:** ar/yn y talcen glo
- at the controls:** wrth y llyw
- at the corner of the street:** ar gornel (S)/gongl (N) y stryd
- at the crack of dawn:** ben bore, ar doriad y wawr, ar doriad dydd
- at the door:** wrth y drws, ar ben drws
- at the earliest:** fan gyntaf, fan gynharaf
- at the edge of ...:** ar ymyl ...
- at the eleventh hour:** ar yr unfed awr ar ddeg
- at the exact place:** yn y fan a'r lle, yn yr union fan
- at the expense of ...:** ar draul ..., ar gorn ...
- at the far end of the field:** ym mhen draw'r cae, ym mhen pella'r cae
- at the foot of ...:** wrth droed (mynydd), wrth fôn (coeden, clawdd)
- at the forefront** (of some new development or movement): ar flaen y gad
- at the front of ...:** ar flaen ...
- at the helm:** as for **at the controls**
- at the last moment:** ar y funud olaf (S), ar y munud olaf (N)
- at the latest:** fan bellaf, fan hwyraf *She must have the key by Thursday at the latest: Mae rhaid iddi hi gael yr allwedd erbyn dydd Iau fan bellaf.*
- at the least:** ar y lleiaf, o leiaf, fan leiaf, man lleiaf
- at the root** (i.e. basically): yn y gwraidd/bôn
- at the root of it:** wrth wraidd y peth
- at the same time:** (ar) yr un pryd *We both jumped at the same time: Neidiodd y ddau ohonon ni yr un pryd. She was able to do her homework at the same time: Roedd hi'n gallu gwneud ei gwaith cartref ar yr un pryd.*
- at the second attempt:** ar yr ail gynnyg, ar ddwywaith
- at the side of ...:** wrth ochr ..., wrth ymyl ..., ar bwys ... (S)
- at the time:** ar y pryd, bryd hynny, y pryd hynny, yr adeg honno
- at the top end of the garden:** ym mhen ucha'r/draw'r ardd
- at the top of her voice:** nerth (esgryn) ei phen, ar frig uchaf ei llais
- at the very last minute:** ar ben set, yn ben set
- at the wheel:** wrth y llyw, wrth yr olwyn
- There is little hope **at this stage:** Does fawr o obaith ar hyn o bryd
- at times:** ar adegau, ar brydiau *During the war they were almost starving at times: Yn ystod y rhyfel roedden nhw bron â llwgu ar adegau.*
- at war:** mewn rhyfel, yn rhyfela
- at whatever cost:** costied a gostio

at will: wrth ei hewyllys (*hi), yn ôl ei dymuniad (*hi), fel y mynn (*ef/hi)

to attack her: ymosod arni, mynd i'w phen *After she published her scurrilous article, even her friends attacked her: Ar ôl iddi hi gyhoeddi ei herthygl ddifriol, aeth ei chyfeillion, hyd yn oed, i'w phen.*

to attempt to ...: rhoi cynnig ar ... *She attempted to sing: Rhoddodd hi gynnig ar ganu.*

to attend a course: dilyn/canlyn cwrs

to attend classes: mynychu dosbarthiadau, mynd i ddosbarthiadau

to attend to ...: rhoi sylw i ..., edrych at ..., ymorol am ... *It is high time you attended to your responsibilities on the Council: Mae'n hen bryd i chi edrych at eich cyfrifoldebau ar y Cyngor.*

to authorize her to sell sth: ei hawdurdodi hi i werthu rth

to avenge her for her treachery: dial arni am ei bradwriaeth

averse to ...: yn erbyn ... *She was not averse to a small whisky: Doedd hi ddim yn erbyn chwisgi bach.*

aware of the difficulties: yn effro i'r anawsterau

away they went: i ffwrdd â nhw (N), bant â nhw (S)

to be awkward: tynnu'n groes, bod yn lletchwith *She will be awkward about the arrangements: Bydd hi'n tynnu'n groes ynglŷn â'r trefniadau.*

an awkward customer: un anodd ei drin, un pigog (*ef)

~

back at school: yn ôl yn yr ysgol

to back away: camu'n ôl, cilio

to back down (in an argument): ildio, troi yn ei charn (*hi)

to back her up: ei chefnogi hi, bod yn gefn iddi hi

the back kitchen: y gegin fach

the back of beyond: pen draw'r byd

to back off: sefyll draw, cilio

to back out of sth: tynnu'n ôl o rth

back to back: gefn yn gefn, gefn-gefn

back to front: tu ôl ymlaen, o chwith

a back tooth (i.e. molar): dant malu

backward in learning to walk: araf yn dysgu cerdded

There is bad blood between them: Mae drwgdeimlad rhyngddynt

It is bad form: Mae'n annerbyniol iawn, Mae'n anfoesgar

bad tempered: drwg ei hwyl *I prefer to avoid s.o. who is bad tempered: Mae'n well gen i osgoi un sy'n ddrwg ei hwyl.*

a bad turn (i.e. a nervous shock): tro drwg *I had a bad turn after seeing the accident: Ces i dro drwg ar ôl gweld y ddamwain.*

It badly needs ...: Mae mawr angen ... arno

They are badly off: Mae hi'n fain arnyn nhw, Maen nhw'n byw ar fin y gyllell

She is badly off for shoes: Mae hi mewn mawr angen esgidiau

to be badly treated: cael cam *She was badly treated in the home: Roedd hi'n cael cam yn y cartref*

She badly wants to see ...: Mae hi'n ysu am gael gweld ...

badly worn: wedi'i threulio'n o arw (*hi) (N), wedi'i gwisgo'n denau/llwyr (*hi)

bag and baggage: cipyn a chapen, cwd a chasgl

bags under her eyes: ffedogau o dan ei llygaid

bail for ... (see also **stand bail for**):

mechniaeth ar ran rhn/dros rn She paid ten thousand pounds bail for her husband:

Talodd hi fechnïaeth o ddeng mil o bunnoedd dros ei gwŵr.

baked potatoes: tatws pob

baked potatoes in their skins: tatws drwy eu crwyn, tatws drwy'r pil (S)

The balance of her mind is affected:

Dydy hi ddim yn ei hiawn byyll

to balance the books: mantoli'r cyfrifon

bald patch: lle moel, corun moel

the ball is in your court: chi biau/piau symud, chi ddylai symud nesaf

to bandy her name about: cymryd ei henw yn ofer

to bang a door shut: cau drws yn glep, rhoi clep ar ddrws

to bang down a lid: cau caead yn glep, rhoi clep ar glawr (S)

bang in the centre: yn y canol un *She hit the board bang in the centre: Trawodd hi'r bwrdd yn y canol un.*

bang up to date: yn gwbl gyfoes

Bang went her hopes: Dyna ben ar ei gobeithion

to bank up a fire: anhuddo tân, nuddo'r tân (S)

to bar her way: ei hatal/rhwystro hi, sefyll yn ei ffordd

bar none: heb eithriad, yn ddiethriad

the bare facts: y gwir moel, y ffeithiau moel

a bare living: bywoliaeth fain

barefaced hypocrisy: rhagrith noeth

They are barely speaking to each other:

Does 'na fawr o Gymraeg rhyngddynt,

Prin eu bod yn siarad â'i gilydd/yn torri gair

to bark at s.o./sth: cyfarth ar m/rth

to bark up the wrong tree: mynd ar ôl ysgyfarnog/sgwarnog, bod mewn cae arall, dilyn y trywydd anghywir, pori yn y cae anghywir

barring accidents: oni bai bod rhth yn mynd o'i le, ac eithrio bod damwain

to base sth on ...: seilio rhth ar ...

based on ...: ar sail ..., yn seiliedig ar ...

to bask in the sun: torheulo, bolaheulo (S), bolheulo (N)

She didn't **bat an eyelid:** Chyffrôdd hi ddim, Wnaeth hi ddim cyffroi o gwbl

She has **bats in the belfry:** Dydy hi ddim hanner call (N)/yn llawn llathen, Mae hi'n hanner call a dwl/chrac (S)

a battle of wits: gornest am y craffaf

be it ... or ...: boed hi ... neu ... *Be it wet or fine I shall be going: Boed hi'n wlyb neu'n sych byddaf yn mynd.*

Be so good as to pay for the taxi: Bydd/Byddwch cystal â thalu am y taci

Be that as it may: Boed/Bid a fo am hynny, Felly y bo

to bear a grudge against/towards her: dal dig yn ei herbyn, dal dig tuag ati hi, dal gwg ati hi, bod â dant iddi hi, bod â'i gryn o dani hi

to bear her ill will: dal gwg arni/ati hi, bod â'i gyllell ynddi hi (*ef)

to bear her in mind: cofio amdani, ei chadw hi mewn golwg/cof

to bear in mind: cadw mewn golwg/cof, cadw dan sylw

to bear malice against/towards ...: bod â'i chyllell yn ... (*hi), dal cilwg at ..., coleddu malais at ...

to bear the brunt of her attack: dwyn/derbyn pwysau ei hymosodiad, dwyn/derbyn y gwaethaf o'i hymosodiad

to bear the brunt of the work: dwyn baich y gwaith

to bear the cost of ...: dwyn baich y draul am ...

bearing in mind ...: o gofio ... *Bearing in mind what she said, I might as well not go: O gofio beth ddywedodd hi, waeth i mi heb fynd.*

to **beat about the bush**: osgoi sôn am y pwynt, curo'r twmpath, troi o bobtu i'r perth, tin-droi, hel dail

to **beat it** (i.e. flee): ei gwadnu hi, ei heglu hi, ei gloywi hi, ei baglu hi, rhoi'r goes iddi, cymryd y goes *After breaking the window they beat it: Ar ôl torri'r ffenest 'wnaethon nhw ei gwadnu hi.*

to **beaver away**: dygnu arni, pydru arni, dal ati

because of it: o'i herwydd

because of that: o'r herwydd, oherwydd hynny *Her husband was ill and she stayed at home because of that: Roedd ei gwŵr yn sâl ac arhosodd hi gartref o'r herwydd.*

to **beckon to her to come**: amneidio arni hi i ddod

to **become a ...**: dod yn ... (usually when the change is good), mynd yn ... (usually when the change is bad)

to **become a ruin**: mynd yn sarn

to **become a shambles**: mynd yn draed moch/siop siafins

to **become a wreck**: mynd â'i phen iddi (*hi) *Since I saw the house last year it has become a wreck: Ers i mi weld y tŷ y llynedd mae e wedi mynd â'i ben iddo.*

to **become acclimatized to ...**: dod i arfer â ..., ymarfer â ..., cynefino â ..., ymgynefino â ...

to **become common knowledge**: mynd o glust i glust, mynd o geg i geg, yng nhgeg y byd

to **become engaged (to be married)** to ...: dyweddio â ...

to **become established in use/usage**: ennill ei blwyf *The word 'cwm' has become established in English usage: Mae'r gair 'cwm' wedi ennill ei blwyf yn Saesneg.*

to **become estranged**: colli (ad)nabod ar ei gilydd, ymddieithrio oddi wrth ei gilydd

to **become familiar with ...**: dod i gynefino â ..., ymgynfarwyddo â ...

to **become fine** (referring to the weather): codi'n braf

to **become hungry**: cael stumog, bod bron â llwgu, awchu am fwyd *I became hungry after the long journey: Cefais i stumog ar ôl y daith hir. Roeddwn i bron â llwgu ar ôl y daith hir.*

to **become insane**: mynd o'i chof (*hi), mynd yn wallgof, colli ei phwyll (*hi)

to **become threadbare** (lit. and fig.): colli ei chotwm/gotwm *Your carpet is becoming threadbare: Mae'ch carpedd chi'n colli ei gotwm.*

to **become used to doing sth**: mynd i arfer â gwneud rhyth *She has become used to sleeping on the floor: Mae hi wedi mynd i arfer â chysgu ar y llawr.*

to **become worn out**: mynd ar ei hen sodlau (usually of a person); treulio'n dwll, gwisgo hyd at y cotwm

a **bee in her bonnet**: chwilen yn ei phen *She has a bee in her bonnet about men with red hair: Mae ganddi chwilen yn ei phen ynglŷn â dynion â gwallt coch.*

beer from the wood: cwrw o'r gasgen

before her time: o flaen yr oes, o flaen ei hoes

before long: cyn bo hir, ymhen hir a hwyr

before now: cyn hyn

to **die before one's time**: marw cyn pryd

before the scheduled time: cyn pryd, cyn yr amser disgwylidig

before then: cyn hynny

to **beg her to go**: erfyn/crefu arni hi fynd

to **beg the question**: haeru rhyth cyn ei brofi, rhagdybio'r ateb; osgoi anhawster

to **beggar description**: bod (y) tu hwnt i eiriau

It **beggars belief**: Mae'n anhygoel

to **begin at the beginning**: dechrau yn y pen, dechrau yn y dechrau

to **begin the work**: dechrau ar y gwaith, cychwyn arni

to **begin to get the hang of it**: dechrau cael pen llinyn arni

behind ...: (y) tu ôl i ..., (y) tu cefn i ...

to put sth **behind her**: rhoi rth (y) tu ôl iddi, rhoi rth wrth ei sgil *Gwen put all the trouble behind her: Rhoddodd Gwen yr helynt i gyd tu ôl iddi.*

behind her (i.e. giving support): yn gefn iddi, wrth ei chefn *She was fortunate to have her family behind her when she was in trouble: Roedd hi'n ffodus cael ei theulu yn gefn iddi pan oedd hi mewn trafferth*

behind her back: yn ei chefn, y tu ôl i'w chefn, yn ei gwelg *We would only say it behind her back: Dim ond yn ei chefn y basen ni'n dweud y peth.*

behind the scenes: tu ôl i'r llenni

behind the times: ar ôl yr oes, ar ei hôl hi

behind with one's work: ar ei hôl hi *I'm terribly behind with my work: Rwyf ar ei hôl hi'n ofnadwy.*

The matter is **being dealt with**: Mae'r mater dan law/yn derbyn sylw

believe in sth: credu yn rth

to **believe that she promised**: credu ei bod hi wedi addo, credu iddi addo

to **belong to s.o./sth**: perthyn i rn/rth

She is **beneath contempt**: Mae hi islaw sylw, Mae hi'n warthus

beneath her: oddi tani

It is **beneath her (dignity) to ...**: All hi ddim ymostwng i ..., Mae hi'n rhy falch i ...

to **bend over backwards to ...**: gwneud ei gorau glas i ... (*hi)

She is **bent on going**: Mae hi'n benderfynol o fynd

to **besech her to ...**: deisyf(u)/crefu/ymbil arni hi i ...

The journey was **beset with dangers**: Roedd gan y daith lawer o beryglon

to be **beside herself** (e.g. with anger or grief): colli arni ei hun

She was **beside herself with joy**: Roedd hi wedi gwirioni gan lawenydd, Roedd hi ar ben ei digon

She was **beside herself with rage**: Roedd hi'n gynddeiriog/ffyrnig, Roedd hi wedi colli ei limpyn (N)/arni ei hun, Roedd hi'n benwan (S), Roedd hi'n llwyr o'i chof

beside the point: amherthnasol

best friends: pennaf ffrindiau, ffrindiau pennaf/mynwesol *We were best friends: Roedden ni'n dau'nldwy'n bennaf ffrindiau.*

best man (at a wedding): gwas priodas

Best not to mention it!: Taw piau hi!
to have the **best of both worlds**: cael y gorau ar ylo'r ddau fyd

the **best of friends**: as for **best friends**

The **best of luck!**: Pob lwc!

the **best of the bunch**: y gorau un ohonynt, top y tebot (S)

the **best that she ever experienced**: y gorau a fu dros ei phen

better by half: gwell o'r hanner

to be **better informed**: gwybod gwell pethau

better late than never: gwell hwyr na hwyrach

to be **better off**: bod yn well ei byd/lle (*hi), bod yn well arni (*hi), bod ar ei hennill (*hi)

to be ten pounds **better off**: bod ar ei hennill o ddeg punt (*hi)

the **better part of the bargain**: y tu clytaf i'r clawdd

better still: gwell byth/fyth

better than ever: gwell nag erioed *The harvest this year will be better than ever: Bydd y cynhaeaf eleni'n well nag erioed.*

Some things are **better than others:** Mae rhai pethau'n well na'i gilydd

between ourselves: rhyngom ni a'n gilydd, rhyngom ni a'r clawdd, rhyngot ti a mi a'r wal, yn gyfrinachol

between Sunday and Saturday: yng nghorff yr wythnos

to be **between two minds** (i.e. undecided): cloffi rhwng dau feddwl

between you and me and the gate-post: rhyngoch chi a fi/mi a'r pared

to **beware of ...:** gochelyd rhag ..., gochel rhag ... (N), gwylio rhag ..., ymogel(u)/ymoglyd/ymoglyd rhag ... (S)

beyond ...: (y) tu hwnt i ...

beyond all expectations: (y) tu hwnt i bob disgwyl

beyond all question: heb amheuaeth

beyond her comprehension/ken: dros ei phen, allan o'i byd

He is **beyond hope:** Mae hi yn y pen arno, Mae hi ar ben arno *He is beyond hope with his marriage: Mae hi yn y pen arno gyda'i briodas.*

beyond measure: tros fesur, (y) tu hwnt i fesur, mwy na mesur

beyond the bounds of credibility: yn hollol anhygoel, yn gwbl anghredadwy

beyond the pale: annerbyniol, anfaddeuol, anwareiddiedig

to **bid farewell to ...:** ffarwelio â ..., canu ffarwel â ..., canu'n iach â ...

to **bide her time:** aros ei chyfle

She is **big for her age:** Mae hi'n fawr o'i hoed

the **'big guns'** (of people, notabilities): hoelion wyth

There is a **big run on them:** Mae cip/mynd (mawr) arnyn nhw, Mae galw mawr amdany'n nhw

her **big toe:** bawd ei throed, bys mawr ei throed (S), ei bawd mawr (N)

the **bigwigs** (i.e. the VIP's): y mawrion, y gwŷr mawr, y byddigions, y pwysigion, y crachach

to **bind sth/s.o. to ...:** rhwymo rthh/rhn wrth ...

bit by bit (i.e. gradually): bob yn dipyn/bwt, o dipyn i beth, fesul tipyn, yn raddol

a **bit of a lad** (esp. with women): tipyn o dderyn

a **bit of a mouthful:** tipyn o lond ceg

a **bit simple** (i.e. not all there): heb fod yn llawn llathen *She behaved as if she were a bit simple: Roedd hi'n ymddwyn fel tasai hi heb fod yn llawn llathen.*

to **bite off more than she can chew:** cymryd mwy o gegaid nag y gall hi ei lyncu, cymryd gormod o gegaid

to **bite the dust:** llyfu'r llawr/llwch

a **biting cold (east) wind:** gwynt main, gwynt traed y meirw

bits and pieces: manion, pethuach, mân betheuach, trugareddau

bitter towards her: chwerw tuag ati, chwerw wrthi

to be **bitterly disappointed:** cael ei siomi'n arw/enbyd

She **bitterly regrets** going: Mae hi'n (e)difaru ei henaidd iddi fynd

a **blabbermouth:** hen geg, clebryn/clebren (S)

black as pitch: mor ddu â bol buwch, mor ddu â'r glo, mor ddu â'r frân, fel y fagddu

to **blame her for sth:** beio arni hi am rth, bwrw bai arni hi am rth, rhoi'r bai arni am rth, beio rthh arni hi, ei beio am rth

to **blame sth on her**: as for **blame her for sth**

a **blissing in disguise**: bendith gudd

She did not take a **blind bit of notice**:

Chymerodd hi mo'r sylw lleiaf

to **block an entrance**: cau mynedfa

to **block off** a street: cau stryd

blood of innocent people: gwaed gwirion, gwaed diniwed (S)

a **blood vessel**: pibell waed

Her **blood was up**: Roedd ei gwaed yn berwi, Codwyd ei mwnci

to **blot her copybook**: andwyo/difetha ei henw da

to **blow her cover**: ei dinoethi hi

to **blow her own trumpet**: brolio, utganu o'i blaen, brolio ei hun (N)

to **blow her top**: colli ei thymr, colli ei limpyn, mynd ar gefn ei cheffyl, mynd i natur (S)

to **blow it up out of all proportion**: gwneud môr a mynydd/mynydd ac eglwys o'r peth

to **blow over**: mynd yn angof *Eventually the scandal will blow over: O'r diwedd fe wnaiff yr enllib fynd yn angof.*

Blow the cost!: Costied a gostio!

to **blow the whistle on** her dishonest boss: canu cloch ar/dinoethi ei phennaeth twyllodrus

to **blow the whistle on** the company's unlawful practices: canu cloch ynghylch/dinoethi arferion anghyfreithlon y cwmni

to **blow up a photograph**: mwyhau ffotograff

Blow you!: Wfft i ti/chi!

a **blue fit**: ffit binc/biws *She will have a blue fit when she sees the mess: Bydd hi'n cael ffit binc pan welith hi'r llanast.*

a **blue joke** (i.e. smutty): jôc goch

boarded up: wedi'i byrddio/bordio (*hi)

to **boast about/of ...**: ymfrostio/brolio/bostio/bragio yn/ynghylch ... *She used to boast about her successes: Ymfrostiai hi yn ei llwyddiannau.*

to **boast to her**: ymfrostio/brolio wrthi hi, brolio ei hun wrthi hi (N)

a **body of people**: corff o bobl *A body of people were assembling outside the church: Roedd corff o bobl yn ymgynnull tu allan i'r eglwys.*

bold with ...: yn eofn/hyf ar ..., yn ewn ar ... (S), yn haerllug wrth ...

to **bolt her food (down)**: lloccio/claddu/traflyncu ei bwyd

bone dry: wedi sychu'n grimp, yn sych gorgyn

the **bone of contention**: asgwrn y gynnen, asgwrn yr ymrafael, asgwrn yr ymryson

a **bone to pick with you**: asgwrn i'w grafu efo chi (N), asgwrn i'w bigo/bilo gyda chi (S)

to **book a meal**: archebu pryd

to **book a table**: cadw/sicrhau bwrdd

to **book a ticket**: codi tocyn/ticed

the **boot is on the other foot**: tro'r ochr arall ydy hi nawr/rŵan

She is **bored stiff with ...**: Mae hi wedi hen ddiffilas/syrffedu/alaru ar ..., Mae hi wedi alaru'n/syrffedu'n lân ar ...

to **borrow sth from her**: benthycu rthh ganddi/oddi wrthi hi

bosom friends: fel elin ac arddwrn, cyfeillion mynwesol/calon *After the quarrel they were bosom friends: Ar ôl y cweryl roedden nhw fel elin ac arddwrn*

both of them: ill dau, y ddau ohonyn nhw

to **bother to argue**: trafferthu/ymladd i ddadlau *Don't bother to argue with her: Paid ag ymladd i ddadlau â hi.*

the **bottom of the barrel**: tin y sach, gwaelod y gasgen

to be **bound to** ... (i.e. sure to): bod yn rhwym/sicr/siŵr o ... *She is bound to be there: Mae hi'n rhwym o fod yno.*

to be **bound to** ... (i.e. to have to): gorfod ..., bod yn rhaid i ... *She is bound to comply with the conditions in the will: Mae hi'n gorfod cydymffurfio ag amodau'r ewylllys. Mae'n rhaid iddi gydymffurfio ag amodau'r ewylllys.*

bound up with ...: ynghlwm wrth ..., yn gysylltiedig â ...

a **bout of** ...: pwl o ..., cwrs o ..., pwcs o ... (N) *She suffers from an occasional bout of coughing: Mae hi'n dioddef o ambell bwl o besychu.*

to **bow to the inevitable**: ymostwng i'r drefn

bowed down: yn ei chwman (*hi), yn gefngwrwm (gan henaint) *The old woman was bowed down with age: Roedd yr hen wraig yn ei chwman o'i henaint.*

to be **bowed over by** ...: cael eich bwrw'n bedwar/stwn (S) gan ... *He was bowled over by her beauty: Cafodd ei fwrw'n bedwar gan ei thegwch.*

brand new: newydd danlli, newydd sbon, newydd sbon danlli

She has the **brass neck to** ...: Mae ganddi ddigon o wyneb (pres) i ...

to **break as clean as a whistle**: torri'n lân, torri'n glatsian (N)

to **break even**: cadw ei phen uwchben y dŵr (*hi), adennill/talu ei chostau *After a very quiet day at the garden fete she had only broken even: Ar ôl diwrnod tawel yn yr arddwest wnaeth hi ddim mwy na chadw ei phen uwchben y dŵr.*

to **break her heart**: torri ei chalon

to **break her promise/word**: torri ei gair, torri amod

to **break in half**: torri yn ei hanner

to **break into a run**: dechrau rhedeg *As soon as she reached the chapel she broke into*

a run: Pan gyrhaeddodd hi'r capel dechreuodd hi redeg.

to **break into fragments**: torri'n deilchion/gatiau (S)

to **break new ground**: torri tir newydd, arloesi

to **break oneself in**: dod i arfer, ymgynefino, ymglyfarwyddo

to **break the back of the task**: torri asgwrn cefn y gwaith

to **break the ice**: torri'r îâ/garw/ias

a **breath of air**: chwa o wynt/awyr iach, awel iach, cegaid o wynt *She went outside for a breath of air: Aeth hi allan am gegaidd o wynt.*

to **breathe down her neck**: edrych dros ei hysgwydd, pwyso ar ei gwar *The woman complained that she could not work properly with s.o. breathing down her neck: Cwynodd y wraig na allai hi weithio'n iawn â rhn yn edrych dros ei hysgwydd.*

brick by brick: bricsen wrth fricsen, fesul bricsen

brief periods of sunshine: ysbeidiau/llygadau heulog

to **bring about** ...: rhoi bodolaeth i ...

to **bring an action against her**: dwyn achos yn ei herbyn

to **bring disgrace on her family/colleagues**: dwyn anfri ar ei theulu/chydweithwyr, yslefrian ar ei dillad ei hun

to **bring her round/to**: dod â hi ati'i hun, ei dadebru

to **bring her sth**: dod â rhth ati/iddi

to **bring her to her senses**: dod â hi at ei choed

to **bring her world crashing down about her**: tynnu'r byd yn racs am ei phen

to **bring herself to do it**: darbwyllo ei hun(an) i wneud y peth

She could not **bring herself to do it**: Fedr hi (ddim) yn ei byw â gwneud y peth

- to **bring ... into disrepute**: dwyn anfri/
gwarth ar ...
- to **bring the house down** (with applause):
tynnu'r lle/tŷ i lawr
- to **bring to an end** (gradually): dirwyn i
ben *We must bring this meeting to an end
in half an hour: Bydd rhaid inni ddirwyn y
cyfarfod hwn i ben ymhen hanner awr.*
- to **bring to light**: datguddio, amlygu,
dinoethi
- to **bring to the boil**: codi i'r berw
- to **bring up**: magu, codi *Bringing up
children is a full-time job: Gwaith llawn-amser
yw magu plant.*
- to **bring up sth** (that causes her
embarrassment): bwrw/taflu rthth i'w
dannedd/ar draws ei dannedd, codi hen
grachen *Do you have to bring that up
again?: Oes rhaid i ti fwrw hynny i'm dannedd
eto?*
- to **bring up the rear**: dod wrth y gwt,
cadw'r ôl, dod yn olaf
- to **bring up the subject**: codi'r pwnc (i'r
gwynt), gosod y pwnc gerbron *She
brings up the same subject every time: Bydd
hi'n codi'r un pwnc i'r gwynt bob tro.*
- to **bristle with difficulties**: berwi o
anawsterau, bod yn frith o anawsterau
- in **broad daylight**: gefn dydd golau, yn
llygad yr haul, liw dydd
- broad guidelines**: canllawiau bras/
cyffredinol
- a **broad hint**: cic i'r post i'r pared/wal
glywed *Despite a broad hint she did not
leave with the others: Er gwaethaf cic i'r post
i'r wal glywed, adawodd hi ddim gyda'r lleill.*
- to be **broadside on to sth**: bod â'r ochr at
rth, dangos yr ochr i rth
- to **brood over** ...: hel meddyliau
ynghylch ..., pendroni dros ...
- a **broody hen**: iâr glwc
- She has **brought it on herself**: Hi sydd ar
fai, Eithaf gwaith iddi hi
- to be **brought up** (i.e. reared) **by** ...: cael
ei magu/chodi gan ... (*hi) *She was
brought up by her aunt: Cafodd hi ei magu gan
ei modryb.*
- to be **brought up short by sth**: bwrw yn
erbyn rthth, cael ei hatal yn stond gan rth
(*hi)
- brown paper** (for wrapping): papur llwyd
- brown sugar**: siwgr coch
- to be **browned off**: bod wedi hen ddiffasu/
alaru/syrffedu
- to **brush off**: troi o'r neilltu, diystyru,
anwybyddu *She brushed off their criticism
with a contemptuous remark: Trodd hi eu
beirniadaeth nhw o'r neilltu gyda sylw
dirmygus.*
- to **brush sth aside**: chwifio rthth ymaith,
diystyru rthth
- to **brush up (on)** ...: adolygu ...,
gloywi ..., adnewyddu ei medr mewn ...
(*hi)
- a **brush with the law**: trafferth
gyda'r/efo'r gyfraith
- brute force**: nerth (bôn) braich
- to **bubble over with** ...: berwi/byrlymu
o ... *The research student was bubbling over
with enthusiasm: Roedd y myfyriwr ymchwil
yn berwi o frwdfrydedd.*
- to **buckle down to some work**: bwrw ati/
iddi, ymroi i weithio
- to **budget for** ...: neilltuo/clustnodi arian/
pres ar gyfer ...
- buffeted by the wind**: dan lach y gwynt
- to **build a house**: codi/adeiladu tŷ
- to **build a road**: torri ffordd
- to **build castles in the air**: breuddwydio'n
ofer, codi cestyll yn yr awyr, cael
breuddwydion gwrach
- the **bulk of the people**: trwch y bobl/
boblogaeth
- to **bump into him**: taro ei thrwyn ynddo
(*hi), bwrw ar draws rhn (S) *At last she*

bumped into him in town: *O'r diwedd gwnaeth hi daro ei thrwyn ynddo yn y dref.*

She has got a **bun in the oven** (i.e. is pregnant): Mae hi'n magu esgryn bach/ mân esgryn, Mae hi wedi llyncu corryn, Mae hi wedi mynd i ddŵr y môr (S)

bunged up with ...: llawn (o) ... *The waste-pipe is bunged up with hair: Mae'r bibell wastraff yn llawn gwallt.*

to **burn herself out:** chwythu ei phlwc

to **burn to a cinder:** llosgi'n golsyn

to **burn to ashes:** llosgi'n ulw

a **burning question:** pwnc llosg

to **burst into tears:** dechrau beichio wlo, dechrau llefain y glaw (S)

a **burst of activity/applause/speed:** hwrdd o weithgarwch/gymeradwyaeth/ gflymder

to **burst out laughing:** dechrau rowlio chwerthin, chwerthin ei hochr hi

to be **bursting at the seams:** bod yn llawn hyd at dorri

bursting to ...: bron â hollti/thorri ei bol i/(o) eisiau ... (*hi), bron â marw (o) eisiau ... *She was bursting to tell him the news: Roedd hi bron â hollti ei bol i gael dweud y newyddion wrtho.*

to **bury the hatchet:** claddu asgwrn y gynnen, cymodi

It is her **business to do it:** Ei lle hi yw gwneud y peth

bustling about: mynd yn fân ac yn fuan, rhuthro o gwmpas *Behind the curtains there were one or two men bustling about the stage: Tu ôl i'r llenni roedd un neu ddau ddyn yn mynd yn fân ac yn fuan o gwmpas y llwyfan.*

busy at it (all persons): wrthi, wrthi'n ddygn

to be **busy doing sth:** bod wrthi'n gwneud rthth

to **butt in:** rhoi ei phig i mewn i sgwrs, taro ar draws sgwrs

to **butter her up:** rhoi ceirch iddi hi, ei seboni hi, gwerthu lledod iddi

Butter would not melt in her mouth: Lyncai hi mo'r llaeth/llefrith

She had **butterflies in the stomach:** Roedd ei thu mewn yn corddi

to **buy a pig in a poke:** prynu cath mewn cwd

to **buy on credit:** cael ar lab (N), cael ar slat (S), cael ar goel

to **buy sth for five pounds:** prynu rthth am bum punt

to **buy sth from ...:** prynu rthth gan/oddi wrth ...

to **buzz with rumours:** bod yn ferw gan sion

not **by a long way:** dim o bell ffordd, dim o'r hanner *The building is not finished by a long way: Dydy'r adeilad ddim wedi'i orffen o bell ffordd.*

By (a) remote chance they met each other in Italy: Ar ddamwain fawr cwrddon nhw â'i gilydd yn yr Eidal

by a whisker: o drwch blewyn, o led ewin, o led asgell gwybedyn *He increased the gap by a whisker: Cynyddodd y bwlch o led ewin.*

by accident: ar ddamwain

by adoption (referring to a son or daughter): trwy fabwysiad

by all accounts: yn ôl pob sôn/hanes

by all means (i.e. certainly): ar bob cyfrif

by all reports: yn ôl pob sôn/hanes

by and large: at ei gilydd, mwy na heb, am gymaint a chymaint *The houses were finished on time by and large: Cafodd y tai eu gorffen mewn pryd mwy na heb.*

Will you be there **by any chance?:** Ydy hi'n debyg y byddwch chi yno?

by bus: efo'r bws (N), gyda'r bws (S), ar y bws

by chance: ar hap, ar antur, ar siawns, ar/o/trwy/wrth ddamwain

by choice: o ddewis

by courtesy of the company : trwy garedigrwydd y cwmni

by day: liw dydd *She sleeps by day: Mae hi'n cysgu liw dydd.*

by dint of persuasion: drwy rym perswâd

by fair means or foul: trwy deg neu drwy drais, trwy deg neu hagr

by faith: trwy ffydd

by false pretences: trwy dwyll, trwy heriad anwir

by far: o lawer, o ddigon, o bell ffordd (S) *She is more intelligent by far: Mae hi'n fwy deallus o lawer.*

to work **by fits and starts:** gweithio ar hyntiau, gweithio ar bylliau (N), gweithio ar yrddiau

by force: â nerth (bôn) braich, trwy nerth bôn braich, trwy rym/drais

by forced labour: trwy lafur gorfodol

by good fortune: trwy drugaredd, trwy lwc *By good fortune one of the group was a doctor: Trwy drugaredd meddyg oedd un o'r criw.*

by good luck: trwy/wrth lwc

by heart: ar dafod leferydd, ar ei chof (*hi) *She was fond of reciting poetry by heart: Roedd hi'n hoff o adrodd barddoniaeth ar dafod leferydd.*

by her deeds: wrth ei ffrwythau

by her own hard work: gyda/efo/wrth ei de(n)g ewin

by herself: ar ei phen ei hun(an), wrthi'i hun(an) *She sits by herself: Mae hi'n eistedd ar ei phen ei hun. She solved the problem by herself: Datrysodd hi'r broblem wrthi'i hun.*

by intuition: o doriad/yn nhorriad ei bogail (*hi), wrth natur/reddf, yn reddfol

by invitation: trwy/ar wahoddiad

She is improving **by leaps and bounds:**

Mae hi'n gwella o naid i naid/ar garlam

by means of ...: trwy gyfrwng/gymorth ...

by mistake: ar gam

Elin by name: Elin wrth ei henw

by nature: as for **by intuition**

by night: liw nos *Ifan goes out by night to fish: Mae Ifan yn mynd allan liw nos i bysgota.*

By no means all of their friends came: Ddaeth eu holl ffrindiau ddim o bell ffordd

by now: erbyn hyn

by persuasion (rather than force): trwy deg *Be sure she stays in bed, by persuasion if possible: Byddwch yn sicr y bydd hi'n aros yn y gwely trwy deg os bydd yn bosib.*

by physical effort: trwy fraich a chryfder, trwy nerth braich ac ysgwydd, trwy nerth bôn braich

by post: gyda'r post

by return of post: efo troad y post (N), gyda throad y post

by some means or other: rywfodd, rywsut/rywffordd neu'i gilydd

to grasp her **by the arm:** cydio ynddi gerfydd ei braich

to know **by the look of it:** gwybod wrth ei olwg

by the morning: erbyn y bore, at y bore

to hang a murderer **by the neck:** crogi llofrudd gerfydd/wrth ei wddf

to sell sth **by the pound:** gwerthu rhth fesul pwys/wrth y pwys

by the scruff of the neck: gerfydd ei gwar (*hi)

by the second: wrth yr eiliad *The situation was becoming more dangerous by the second: Roedd y sefyllfa'n mynd yn fwy peryglus wrth yr eiliad.*

by the skin of her teeth: â chroen ei dannedd, o drwch blewyn, o drwch asgell gwybedyn

by the sweat of her brow: trwy chwys ei hwyneb/thalcen

by the time she comes/came: arni hi'n dod, erbyn iddi ddod *It will be the middle of August by the time she comes here: Bydd hi'n ganol Awst arni hi'n dod yma. It was five by the time I finished: Roedd hi'n bump erbyn i mi orffen.*

by the time she got married: erbyn iddi hi briodi

by the way: gyda llaw, wrth fynd heibio *By the way, there is no meeting tonight: Gyda llaw, fydd dim cyfarfod heno.*

by then: erbyn hynny

by tonight: erbyn heno, at heno *I shall have got the book by tonight: Byddaf wedi cael y llyfr erbyn heno.*

a plumber **by trade:** plymwr wrth ei grefft/waith (*ef)

by train: efo'r trêen (N), gyda'r trêen (S), ar y trêen, yn y trêen

by treachery: trwy frad

by two (o'clock): erbyn dau

by two votes to one: o ddwy bleidlais i un/ yn erbyn un

by virtue of ...: yn rhinwedd ... *She won the prize by virtue of her hard work: Enillodd hi'r wobwr yn rhinwedd ei gwaith caled*



to call a halt to ...: rhoi terfyn ar ...

to call a spade a spade: siarad heb flewyn ar ei thafod (*hi), siarad/dweud yn blwmp ac yn blaen

to call attention to ...: tynnu sylw at ...

to call for ...: galw am ...; galw at ... *The captain called for more effort from the forwards: Galwodd y capten am ragor o*

ymdrech gan y blaenwyr. The guests were called for breakfast before seven o'clock: Cafodd y gwesteion eu galw at frecwest cyn saith o'r gloch.

to call for silence: gweiddi gosteg, doddi gosteg (S), galw am osteg

to call her names: galw enwau arni

to call her Sandra: galw Sandra arni hi, ei galw hi'n Sandra *When he called her Sandra instead of Sand she knew he was in a bad mood: Pan atwai e Sandra arni hi yn lle Sand roedd hi'n gwybod ei fod mewn hwyliuau drwg.*

to call her bluff: ei herio hi i ddangos ei chardiau, dal her â hi; derbyn ei her hi

to call her to account: ei galw hi i gyfrif

to call herself an engineer: galw ei hun(an) yn beiriannydd

to call in at ...: taro (i) mewn i ..., galw heibio i ... *She called in at the library: Trawodd hi (i) mewn i'r llyfrgell.*

to call (in) when passing: taro heibio, galw heibio

to call it a day: rhoi'r gorau iddi, rhoi'r ffidil yn y to, rhoi'r twls ar y bar (S); noswyllo

to call off sth: gohirio rth, canslo rth

to call on ...: galw ar ...

to call on her for help: galw arni am gymorth

to call sth into question: bwrw/taflu amheuaeth ar rth

to call to mind: galw i gof

a man called Gwyn: dyn o'r enw Gwyn

the calm before the storm: y llonyddwch/gosteg cyn/o flaen y ddrycin/storm

It came apart in my hands: Torrodd/Datgymalodd/Datododd y peth yn/dan fy nwylo

You can bet on it!: Gelli di fentro!

She **can't be bothered** going: Does ganddi hi fawr o amynedd mynd, All hi ddim trafferthu mynd

Shoes **can't be expected to last for ever**: Does dim disgwyl i esgidiau barhau am byth

one **can't expect ...**: does dim disgwyl i ...
One can't expect such a famous man to eat in the kitchen: Does dim disgwyl i ŵr mor enwog fwyta yn y gegin.

You **can't have it both ways**: Chewch chi mo'r afal i chwarae ac i'w fwyta, Allwch chi ddim cadw torth a'i bwyta

You **can't rely on them at all**: Does dim dal arnyn nhw o gwl

You **can't teach her anything**: Does dim dysgu arni, Mae hi'n meddwl ei bod hi'n gwybod y cyfan

to **capture her likeness**: dal ei thebygrwydd

She **doesn't care a jot/fig**: Does ffeuen o bwys ganddi (N), Dyw hi ddim yn hidio botwm corn (S)

to write to her **care of s.o. else**: ysgrifennu ati hi drwy law rhn arall

to be **carefree**: bod heb ofal yn y byd, mynd ar drot cadno

She **got carried away**: Colodd arni ei hun(an)

to **carry coals to Newcastle**: iro blonegen, cyrchu dŵr dros afon, bwrw heli i'r môr

to **carry conviction**: bod yn argyhoeddiadol

to **carry on with her work**: mynd ymlaen â'i gwaith

to **carry on with s.o.**: caru ar y slei â rhn

to **carry out an order**: dilyn gorchymyn, ufuddhau i orchymyn

to **carry out her plan**: cario ei chynllun i ben, rhoi ei chynllun ar waith/mewn grym, gweithredu/cyflawni ei chynllun

to **carry out repairs**: gwneud gwaith atgyweirio

to **carry sth under her arm**: cludo rthth dan ei chesail

to **carry the day**: cario'r dydd/maes, enmill to **carry through her plan**: gweld terfyn ei chynllun, gweld pen ar ei chynllun, mynd â'r maen i'r wal

to **carve out a career for herself**: agor/torri ei chŵys ei hun(an)

to **cash a cheque**: newid siec

to **cast a shadow**: taflu/bwrw cysgod

to **cast a slur on her good name**: llychwyno ei henw da, bwrw anfri ar ei henw da

to **cast a spell on her**: ei rhebio/witsio hi (i.e. bewitch her); ei swyno hi (i.e. charm her)

to **cast aspersions on ...**: lladd ar ... *She is constantly casting aspersions on her daughter-in-law: Mae hi bob tro yn lladd ar ei merch-yng-nghyfraith.*

to **cast her for a part in a play**: ei dewis hi i chwarae rhan mewn drama

to **cast her mind back**: bwrw ei golwg yn ôl, galw i gof; hel atgofion

to **cast lots**: bwrw coelbren(ni)/cwtws

to **cast lustful eyes on/over her**: taflu/bwrw llygad gafr arni

to **cast pearls before swine**: taflu perlaw/gemau o flaen (y) moch

to **cast spells**: bwrw swynion

cast-off clothing: dillad wedi'u troi heibio, hen ddillad

a **casual labourer**: gweithiwr ysbeidiol/dros dro

to **catch ...**: dal (ar) ...

to **catch a crab (in rowing)**: cael caff gwag

to **catch a glimpse of ...**: cael cipolwg ar ...

to **catch fire**: mynd ar dân

She will **catch her death of cold**: Fe wneith hi gael andros o annwyd, Fe ddaliff hi annwyd trwm

to **catch her in the act**: ei gweld hi yn deg, ei gweld/dal hi ar y weithred, ei dal hi wrthi

to **catch her on the hop/unawares**: ei dal hi ar y gamfa

to **catch her working (at it)**: ei dal hi wrth y gwaith

There must be a **catch in it**: Mae'n rhaid bod magl ynddi

They'll **catch it!**: Maen nhw amdani!, Fe'i cân nhw hi!

She thinks she's the **cat's whiskers**: Mae hi'n ei gosod (N)/meddwl ei hun, Mae hi'n meddwl taw hi yw top y tebot (S)

to **cause a riot**: codi terfysg

to **cause her to laugh**: peri iddi chwethrin

to **cause herself extra work**: tynnu gwaith ar/yn ei phen

to **cause herself trouble**: tynnu trafferth yn ei phen

The **cause of the problem is ...**: Achos y broblem/drwg ydy ..., Y drwg ydy ...
The cause of the problem is that there are too many people in the world: Achos y drwg ydy bod 'na nmod o bobl yn y byd.

the **cause of the trouble**: y drwg yn y caws *The cause of the trouble is Tomos this time: Tomos ydy'r drwg yn y caws y tro hwn.*

to **cause sth to fall**: peri i rth syrthio/ gwympo

cause to worry: lle i boeni, achos i ofidio/ boeni *They would have cause to worry then: Basai ganddyn nhw le i boeni wedyn.*

That is what is **causing the trouble/ malfunction**: Dyna beth sy o'i le

to **cease trading because of bankruptcy**: mynd i'r wal/clawdd, mynd yn fethiant, torri, methu

to be the **centre of attraction**: bod yng nghanol y sylw, bod yn llygad y byd

a **certain amount of ...**: rhywfaint o ...

a **chain of events**: cyfres o ddiwyddiadau

to **chain sth to ...**: cadwyno rth wrth ...

She was **champing at the bit to start on the work**: Roedd hi ar dân (o)/Roedd hi'n torri ei bola o eisiau dechrau ar y gwaith, Roedd hi'n ysu am ddechrau ar y gwaith

to **change for the better**: newid er gwell, troi ar wella *Things will have changed for the better by then: Bydd pethau wedi troi ar wella erbyn hynny.*

to **change for the worse**: newid er gwaeth, gwaethygu

to **change her allegiance**: troi ei chôt/shot

to **change her tune**: newid ei chân

a **change in one's circumstances/ lifestyle**: tro ar fyd

to **change into a swan**: troi yn alarch

the **change of life**: y newid oes

to **change the subject**: newid y pwnc, troi'r stori, troi'r gath yn y badell *Shall we change the subject?: Wnawn ni droi'r gath yn y badell?*

a **chapter of accidents**: cyfres/rhes o ddamweiniau

to **charge a battery**: trydanu batri

to **charge a fee** (e.g. entrance fee): codi tâl

to **charge her** a pound: codi punt arni hi

to **charge her to ...**: ei siarsio hi i ... *My father charged me to keep away from them: Gwnaeth fy nhad fy siarsio i i gadw draw oddi wrthyn nhw.*

to **charge (money) for them**: codi amdany'n nhw

on a **charge of ...**: ar gyhuddiad o ...

She's in court on a charge of manslaughter: Mae hi yn y llys ar gyhuddiad o ddynladdiad.

to **chase after men**: hel dynion *No wonder she's in trouble – she's always chasing after men: Does dim rhyfedd ei bod hi mewn trafferth – mae hi'n hel dynion yn gyson.*

to **chase after women**: mercheta, hel merched

to **chastise her**: ei chosbi hi; ei cheryddu hi, ymliw(io) â hi

to **chat her up**: cyboli â hi, tynnu sgwrs â hi

to **chat with her**: dal pen rheswm/stori â/efo hi, cloncan â hi (S)

to **chatter non-stop**: parablu yn ddi-daw/ ddi-baid, siarad yn fân ac yn fuan/aml, clebran fel pwl y môr (S)

cheap and nasty: dim gwerth ei regi (*ef)

to **cheat her out of her ...**: ei thwylllo hi o'i ...

cheek by jowl with her: foch ym moch â hi, rudd wrth rudd â hi

to **cheer her up**: codi ei chalon

Cheer up!: Cod/Cwyd dy galon!, Codwch eich calonnau!, Cwn dy galon! (S), Cwnnwch eich calonnau! (S)

His/Her **cheque bounced**: Cafodd ei siec ei gwrthod

to **cherish ...**: coleddu ..., anwylo ..., ymserchu yn ...

He has a **child by his second wife**: Mae ganddo blentyn o'i ail wraig

a **child of a talented family**: cyw o frid

a **childhood memory**: cof plentyn

child's play: chwarae plant *Making the garden shed was child's play to her: Roedd gwneud cwt yr ardd yn chwarae plant iddi hi.*

to be **chilled to the bone**: rhewi hyd at fêr yr esgyrn, rhyngu'n gorcyn (N), wedi fferru/sythu (S)

a **chimney breast**: talcen tân

She is a **chip off the old/same block**: Mae hi'n llathen o'r un brethyn, Mae hi'n ferch i'w thad

She has a **chip on her shoulder about ...**: Mae hi'n dal dig ynghylch ..., Mae ganddi ddant i bawb ynghylch ..., Mae ei chorn dan bawb

a **choice between the devil and the deep blue sea**: dewis rhwng y diawl a'i gwt

to **choose a name for ...**: dewis enw ar ...

to **chop and change**: troi fel cwpan mewn dŵr, troi fel ceiliog gwynt

to **clap (hands)**: curo dwylo

She **clean forgot**: Anghofiodd hi'n lân

She has a **clear conscience**: Mae ganddi hi gydwytbod lân

to **clear her throat** (audibly): carthu ei gwddw/chorn

to **clear up**: tacluso, clirio

to **clench her fist**: cau/gwasgu ei dwrn

to **cling to ...**: glynu wrth ...

to **clip her talons**: torri ei hewinedd

to **clip her wings**: torri ei chrib,ocio'i hadenydd

The **clock is about right**: Mae'r cloc o gwmpas ei le/yn agos ati

close by: yn ymyl, gerllaw, ar bwys (S)

a **close friend**: cyfaill calon/mynwesol

to **close her mind to ...**: cau ei meddwl rhag ...

to **close in on ...**: agosáu at, cau am ...

The police were closing in on the thief. Roedd yr heddu yn cau am y lleidr.

to **close one's eyes to ...**: cau llygaid/ llygad ar ...

a **close shave/thing**: cael a chael *She arrived in time but it was a close shave: Cyrhaeddodd hi mewn pryd ond cael a chael oedd hi.*

to **close that affair**: rhoi caead ar biser hwnnw, cau pen y mwddwl *She was expecting her month in prison to have closed that affair: Roedd hi'n disgwyl i'w mis yn y carchar roi caead ar biser hwnnw.*

close to ...: yn ymyl ..., yn agos at/i ..., yn glôs at/wrth ..., yn dynn at/wrth ..., ar bwys (S)

close to her (emotionally): agos ati hi

close to her heart: agos at ei chalon

to club together for a present: casglu arian i gael anrheg, hel i gael anrheg (N), rhannu'r draul

to clutter up the place: gwneud y lle'n flêr, tynnu llanast yn y lle, creu llanast

a coarse ignorant man: arth o ddynd

a cock and bull story: stori anhygoel/gelwyddog/gelwydd golau

cock of the walk: ceiliog ar ei domen ei hun

She is only a **cog in the machine**: Dydy hi'n neb o bwys yn y drefn

a cold breeze: awel fain

There is a **cold chill in the air**: Mae ias ynddi

She has a **cold coming on**: Mae hi'n magu annwyd

It is **cold enough to freeze a brass**

monkey: Mae'n ddigon oer i rewi/sythu brain

a cold penetrating wind: gwynt main

She is **cold stiff**: Mae hi wedi sythu (S)/fferru, Mae hi wedi rhewi('n gorn)

to collect a fee (e.g. entrance fee): codi tâl
She succeeded in avoiding the man who was collecting the money at the door: Llwyddodd hi i osgoi'r dyn oedd yn codi tâl wrth y drws.

to collect dust: magu/hel llwch

to collect her thoughts: rhoi trefn ar ei meddyliau

to collect money for sth: casglu arian at rth, hel pres at rth (N)

to collide with ...: gwrthdaro â ..., taro yn erbyn ...

to come about (i.e. occur): digwydd *She could not explain how the loss came about: Allai hi ddim esbonio sut y digwyddodd y golled.*

to come across: dod drosodd, dod draw
How did my lecture come across?: Sut daeth

fy narlith drosodd? Come across for a coffee: Dewch draw am baned o goffi.

to come across it/her: dod ar ei thraws, dod o hyd iddi hi; cyfarfod/cwrdd â hi ar hap *She came across an interesting mistake in the first chapter: Daeth hi o hyd i gamgymeriad diddorol yn y bennod gyntaf.*

to come adrift: (of boat) dod yn rhydd; (of plan) mynd i'r gwellt, mynd yn ffluit, mynd â'i ben iddo

Come and see me again soon: Paid â bod yn ddiethr, Paid â bod yn ddiarth (N)

to come back up: dod i fyny'n ôl (N), dod 'nôl lan (S)

to come down to earth: dod i lawr o'r cymylau, callio

to come home to roost: dod yn ôl ar ei phen (*hi), taro'n ôl, cyrraedd adref

This will **come in useful for weeding**: Bydd yn dda wrth hwn i chwynnu, Mi wneith/Fe wnaiff hwn yn iawn i chwynnu

to come in useful to her for sth: bod o ddefnydd/fudd iddi hi ar gyfer rth

These **come in various colours**: Mae'r rhain ar gael/i'w cael mewn gwahanol liwiau

to come into a fortune: ennill/etifeddu cyfoeth

to come into being: dod i fod(olaeth)

to come into conflict with her: gwrthdaro â hi

to come into force: dod i rym

to come into some money: dod i arian (N), etifeddu arian

to come of age: cyrraedd llawn oed, dod i oed(ran)

to come off badly in a deal: llosgi bysedd

Come off it!: Dere o 'na! (S), Tyrd o 'na! (N), Dewch o 'na!

Come on!: Tyrd yn dy flaen! (N), Dere 'mlaen! (S), Dewch ymlaen!

to **come on behalf of ...**: dod ar ran/
dros ...

to **come on stream**: dechrau llifo

to **come out against it**: gwrthwynebu'r
peth

to **come out in a rash**: cael brech

to **come out in favour of it**: dangos ei
chefnogaeth i'r peth (*hi), bod o blaid

to **come out of her shell**: dod allan/ma's
o'i chragen

to **come out with the truth**: cyfaddef y
gwir

to **come over**: dod draw *Come over next
Thursday: Dewch draw ddydd Iau nesaf.*

to **come over as aggressive**: rhoi'r argraff
o fod yn ymosodol

to **come round to her way of thinking**:
dod i gytuno â hi

to **come through (it)** (i.e. survive):
goroesi, dod drwyddi/trwyddi

to **come to** (i.e. regain consciousness): dod
ati'i hun (*hi)

to **come to ...** (up to and into): dod i ...
*She came to school with us: Daeth hi i'r ysgol
gyda ni.*

to **come to ...** (up to but not into): dod
at ... *She came to the table before the meal
was ready: Daeth hi at y bwrdd cyn i'r pryd
fod yn barod.*

She will **come to a bad end**: Ddaw dim da
ohoni hi

Things have **come to a pretty pass**: Mae
hi'n sobr/gythraul (S) o beth *Things have
come to a pretty pass when it's not safe to let
your children out of your sight: Mae hi'n sobr
o beth nad ydy hi'n ddiogel i'ch plant fynd o'ch
golwg.*

to **come to a standstill**: sefyll/aros yn
stond

She will **come to a sticky end**: Mi/Fe
ddaw hi i ddiwedd drwg

to **come to blows**: mynd yn daro *After
only five minutes together they came to blows:
Ar ôl pum munud yn unig gyda'i gilydd aeth
yn daro rhyngddynt nhw.*

to **come to grief**: methu, ffaelu (S), mynd
i'r wal/gwellt; cael anhap; cael codwm

to **come to her senses**: dod at ei choed
*She will come to her senses after he has left
the district: Daw hi at ei choed ar ôl iddo
adael yr ardal.*

to **come to herself** (i.e. regain
consciousness or composure): dod ati'i
hun(an) (*hi) *In a short while she came to
herself and asked what had happened: Yn y
man daeth ati'i hun a gofyn beth oedd wedi
digwydd.*

to **come to light**: dod i'r golwg, dod i'r fei
(N), dod ar glawr (S) *The curator was
hoping that the original plans for the building
would come to light: Roedd y ceidwad yn
gobeithio y byddai'r cynlluniau gwreiddiol ar
gyfer yr adeilad yn dod i'r golwg.*

to **come to nought**: dod i ddim, mynd
gyda'r gwynt, mynd i'r gwellt/gwynt

to **come to prominence**: dod i'r amlwg

to **come to see**: dod i weld

This practice has **come to stay**: Mae'r
arfer(iad) hwn wedi ennill ei blwyf

to **come to terms with ...**: derbyn ...,
ymostwng i ..., dygymod â ...

to **come to the end of her tether**: dod i
ben ei thennyn/rhaff

I hope your dreams **come true**: Rwy'n
gobeithio caiff eich breuddwydion eu
gwireddu

to **come up against a difficulty**: dod ar
draws anhawster, taro ar anhawster

to **come up to expectations/scratch**: bod
cystal â'r disgwyl

The surface will **come up well when it is
buffed**: Daw sglein dda ar yr wyneb wrth
ei gaboli

to come up with a new idea: taro ar syniad newydd

come what may: doed a ddelai/ddelo, gwneler a wneler, deued a ddelo/ddêl

Her hair **comes down to her waist:** Mae ei gwallt (yn disgyn hyd) at ei chanol, Mae ei gwallt yn cyrraedd ei chanol

coming up to ten years old: codi'n ddeg oed

to command her to come: gorchymyn iddi (hi) ddod

to comment on ...: gwneud sylw(adau) ar ..., sylwi ar ..., traethu ar ...

to commit an indiscretion: cymryd cam gwag, gwneud camgymeriad

to commit it to the flames: ei thraddodi i'r fflamau (*hi), ei llosgi (*hi)

to commit it to writing: ei rhoi (N)/dodi (S) ar ddu a gwyn (*hi), ei rhoi ar glawr (a chadw) (*hi)

to commit oneself to giving a talk: ymrwymo i roi sgwrs, addo rhoi sgwrs

common knowledge: ar dafod pawb, yng ngheg y byd, yn hysbys i bawb *By now the affair is common knowledge: Erbyn hyn mae'r helynt ar dafod pawb.*

to compare s.o./sth to ...: cyffelybu rhn/rhth i ... *We can compare his poetry to the best that has come from England: Gallwn ni gyffelybu ei farddoniaeth i'r gorau o Loegr.*

to compare sth with ...: cymharu rhth â ... *We must compare these with the originals: Mae rhaid i ni gymharu'r rhain â'r rhai gwreiddiol.*

compared with ...: o'i chymharu â/efol gyda ..., wrth ochr ... (*hi) *Compared with her father she is very intelligent: O'i chymharu â'i thad mae hi'n ddeallus iawn. She is tall compared with her husband: Mae hi'n dal wrth ochr ei gŵr.*

to compel her to ...: ei gorfodi hi i ... *In the end they had to compel her to eat: O'r diwedd roedd rhaid iddyn nhw ei gorfodi hi i fwyta.*

to compensate her for ...: gwneud iawn iddi hi am ... *It was impossible to compensate her for her suffering: Roedd yn amhosibl gwneud iawn iddi hi am ei dioddefaint.*

compensation for ...: iawn am ...

to compete on equal terms: cystadlu yn gyfartal

to compete with her to be ...: cystadlu â hi i fod ..., cystadlu yn ei herbyn i fod ...

to complain about (the pain in) his/her stomach: cwyno efo'i stumog (N), achwyn poen yn ei stumog (S)

to complain one is not feeling well: cwyno (gan afiechyd) (N), achwyn (afiechyd) (S)

to complain to her about ...: achwyn/cwyno arni hi am/ynghylch ...

They have made a complete mess of things/it: Maen nhw wedi ei gwneud hi, Maen nhw wedi gwneud cawl/stomp ohoni/o bethau

Her car was a **complete write-off:** Roedd ei char hi'n golled llwyr

completely beaten: wedi'i churo'n lân, wedi'i threchu'n lân (*hi), wedi ffaelu'n lân (S)

to be completely credible: taro deuddeg, bod yn gwbl/hollol gredadwy *I thought her explanation did not sound completely credible: Roeddwn i'n meddwl nad oedd ei hesboniad yn taro deuddeg.*

completely exhausted: wedi ymlâdd

to be completely right: bod yn hollol iawn, bod yn gwbl gywir

completely shattered: wedi llwyr ymlâdd, ar lawr (S)

completely wrecked: yn yfflon (racs) (S), wedi'i malu'n llwyr (*hi)

to be composed of ...: cynnwys ... *Solder is composed of lead and tin: Mae sawdur yn cynnwys plwm ac alcam*

It makes **compulsive reading**: Does (dim) modd rhoi'r llyfr i lawr

a **conceited woman**: hen geilioges, hen beunes

to **conceive of ...**: dychmygu ... *She could not conceive of a more ruthless person: Allai hi ddim dychmygu person mwy didostur.*

to **concern oneself about/in/with ...**: ymddiddori mewn/yn ..., ymboeni ynghylch ...

to be **concerned about/for/in ...** (i.e. showing concern): as for **concern oneself about/in/with ...**

to be **concerned with ...**: ymwneud â ... *The next chapter is concerned with solving the problem: Mae'r bennod nesaf yn ymwneud â datrys y broblem.*

a **concerted effort**: ymdrech ar y cyd

condensed milk: llaeth tew(ychedig)

conducive to ...: ffafriol i ...

to **conduct the negotiations**: arwain y trafodaethau

to **conduct the orchestra**: arwain y gerddorfa

to **confess (sth) to her**: addef/cyfaddef/cyffesu (rhyth) wrthi hi

to **confide her problems and anxieties**: bwrw ei bol, arllwys ei chwyd *At last she had found s.o. in whom she could confide her anxieties: O'r diwedd roedd hi wedi dod o hyd i rn y gallai hi fwrw ei bol iddo/iddi.*

She is **confident of success**: Mae hi'n hyderus (y) bydd hi'n llwyddo, Mae hi'n hyderus am lwyddo

to **confine s.o./sth**: cyfyngu ar rn/rth

She has been **confined to her bed** for months: Mae hi'n gaeth i'w gwely ers misoedd, Mae hi'n orweddiog ers misoedd

with **conflicting demands**: croes ymgroes, croestynnol *The designer received too many suggestions with conflicting demands:*

Derbyniodd y cynllunydd ormod o awgrymiadau croes ymgroes.

conflicting interests: buddiannau croes
to **conform to/with ...**: cydweddu â ..., cydymffurfio â ...

a **connecting link**: dolen gydio(l)/gyswllt

a **considerable achievement**: tipyn o gamp, cryn gamp

considerably heavier: yn drymach o (gryn) dipyn/o lawer

considering how much she has done: o ystyried (pa) faint mae hi wedi'i wneud

to **consign sth to the flames/bin**: gyrru rhth dros y domen, gwaredu rhth

a **consolation prize**: gwobr gysur

to be **conspicuous by one's absence**: bod yn amlwg absennol

to be **consumed with desire/passion**: llosgi/ysu gan nwyd/chwant/angerdd

She is **consumed with jealousy**: Mae hi'n berwi o genfigen, Mae eiddigedd yn ei lladd hi

to **contact her**: cysylltu â hi

to **contend with a difficulty**: ymgodymu ag anhawster

a **contradiction in terms**: croeseb, croesosodiad, gwrthddywediad

contrary to ...: yn groes i ...

to **contribute to ...**: cyfrannu at/i ..., cydroddi â ...

to **converse with her about music**: sgwrsio/ymddiddan/ymgomio â hi am gerddoriaeth

to **convert a barn to a house**: addasu ysgubor yn dŷ

to **convert her to Buddhism**: ei throi hi at Fwdiaeth

to **convict her of an offence**: ei barnu/chael hi'n euog o drosedd

to **convince her of the danger**: ei hargyhoeddi hi o'r perygl

a **convincing (fictional) character:** cymeriad o gig a gwaed, cymeriad credadwy

a **cool welcome:** croeso oeraidd, glas groeso

to **cope with ...:** dod i ben â ..., ymdopi â ... (S)

to **correspond with** (i.e. write to) ...: gohebu â ...

to **correspond with/to** (i.e. suit/conform etc) ...: cyfateb i ..., cydweddu â ...

to **cost an arm and a leg:** costio ceiniog-a-dimai/crocbris (cf. to **pay through the nose**)

It **cost her her life:** Talodd â'i bywyd amdano

to **cotton on to sth:** dod i ddeall/ddallt (N) rtht

It **could do:** Mi 'lasai wneud (N), Fe allai wneud (S) *It's likely that the car won't arrive today but it could do: Mae'n debyg na wneith y car gyrraedd heddiw ond mi 'lasai wneud.*

She **could not but ...:** (Ni) allai hi lai na ... (S), Fedrai hi ddim llai na ... (N) *She could not but notice that we had stood there for an hour: Allai hi lai na sylwi ein bod ni wedi sefyll yno am awr.*

She **could not care less:** Ni roddai hi ddraenen, Doedd hi ddim yn hidio botwm corn (S), Doedd hi ddim yn malio'r un ffeuen (N), Doedd dim ots 'da hi (S)

She **could not for the life of her ...:** Allai hi ddim am ei bywyd ..., Fedrai hi yn ei byw (las) ...

She **could not for the world:** Allai hi ddim er y byd, Allai hi ddim er yr holl fyd *She couldn't for the world tell her mother to stop talking: Allai hi ddim er y byd ddweud wrth ei mam am beidio â siarad.*

She **could not help it:** Fedrai hi mo'r help (N), Allai hi ddim help(u) (S)

She **could not help noticing:** Fedrai/Allai hi ddim llai na sylwi, Fedrai/Allai hi ddim peidio â sylwi

She **could not keep a straight face:** Fedrai/Allai hi ddim peidio â gwenu

She **could not make head or tail of ...:** Fedrai/Allai hi wneud na phen na chynffon/chwt o ..., Fedrai/Allai hi ddim gwneud na rych na chefn o ...

She **could not stand it/her:** Fedrai hi mo'i dioddef hi, Allai hi ddim ei oddef *They liked the film but she couldn't stand it: Roedden nhw'n mwynhau'r ffilm ond fedrai hi mo'i dioddef hi.*

She **could not to save her life** promise to be there: Ni fedrai/allai yn ei byw addo bod yno.

Don't **count her in:** Peidiwch â'i chynnwys hi

to **count** (i.e. depend) **on ...:** dibynnu ar ...

to **count on her fingers:** cyfrif ar (bennau) ei bysedd

to **count one's chickens before they are hatched:** cyfrif y cywion cyn eu deor, gwario ceiniog cyn ei chael, bwyta'r wy cyn ei ddodwy

to **count the cost:** bwrw'r draul

Every second **counts:** Mae pob eiliad o bwys

a **course of action:** ffordd/dull o weithredu

to **court approval:** ceisio cymeradwyaeth

to **court danger:** herio perygl, ei mentro hi

to **court disaster:** gwahodd trychineb

to be **courteous** (without sincerity): dal wyneb *It was difficult to be courteous to such a man: Roedd hi'n anodd dal wyneb i ddyn o'r math.*

to **cover up for her:** cadw arni, cuddio ei bai

to **crave for people to admire her:** crefu am i bobl ei hedmygu hi

to **crawl with ...**: berwi o ... *The cheese was crawling with maggots: Roedd y caws yn berwi o gynrhon.*

to **create a disturbance/fuss**: codi twrw/helynt, creu mwstwr/helynt *A group of boys created a disturbance in Pwllheli last night: Bu criw o hogiau'n codi twrw ym Mhwllheli neithiwr.*

to **create work for herself**: tynnu gwaith ar ei phen *I know she's busy but to be honest she does create work for herself: Rwy'n gwybod ei bod hi'n brysur ond a bod yn onest mae hi'n tynnu gwaith ar ei phen.*

critical of ...: llawdrwm ar ...

She criticizes everybody: Mae ganddi lach ar bawb, Mae hi'n lladd ar bawb

crocodile tears: dagrau gwneud/
rhagrithiol

to **cross her mind**: croesi ei meddwl, ei tharo hi

to **cross swords with ...**: croesi cleddyfau â ..., ffraeo efo ..., cweryla gyda ...

cruel to ...: creulon wrth ..., creulon tuag at ...

crushed together (like sardines): fel penwaig yn yr halen

the **crux of the argument**: asgwrn/craidd y ddadl

the **crux of the problem**: perfedd/craidd y broblem

to **cry blue murder**: gweiddi mwrdrwr

to **cry out to ...**: gweiddi ar ..., galw ..., llefain ar ...

to **cry with joy**: wylo o lawenydd

to **cry wolf**: codi larwm ffug, gweiddi blaidd

a **cunning person**: hen lwynog (N), hen gadno (S), sarff o ddy

a **cup handle**: clust cwpan, dolen cwpan (S)

a **cupboard under the stairs**: cwtsh dan staer (S), twll dan grisiau (N)

to **cure her of her illness**: gwella ei salwch, ei hiacháu o'i salwch

to **curl her lip**: crychu'i gwefus

to **curse and swear**: rhegi a rhwygo

to **curse s.o. strongly**: rhegi/melltithio/
diawlio/fflamio rhn i'r cymylau

a **cushy job**: swydd heb ofal, segurswydd

to **cut a dash**: gwneud sioe ohoni (*hi), torri cýt

to **cut a sorry figure**: edrych yn dila, creu argraff wael, bod yn destun trueni

to **be cut and dried**: bod wedi'i drefnu o flaen llaw

cut and thrust (in fencing): trychu a gwanu

the **cut and thrust of commerce**: taro a gwrthdaro busnes/masnach

to **cut down on ...**: cwtogi ar ..., prynu/
defnyddio/bwyta llai o ... *She tried to cut down on meat: Ceisiodd hi fwyta llai o gig.*

to **cut in half**: torri yn ei hanner, haneru

That will **cut no ice with her**: Thalith hynny ddim ganddi hi, Fydd hynny'n gwneud dim argraff arni hi

to **cut off from ...**: torri bant (S), torri i ffwrdd (N), torri/ynysu oddi wrth ...

to **cut teeth**: torri/cael/magu dannedd

to **cut the atmosphere with a knife**: torri'r awyr â chyllell

to **cut the ground from under her feet**: torri'r tir ymaith oddi tan ei thraed



to be a **dab hand at sth**: bod yn dda am wneud rhth, bod â llaw dda at rth, bod yn giamstar ar rth (N), bod yn feistr corn ar

daft as a brush: gwirion bost, fel coes brws, fel het, mor dwp â sledj (S)

to **damn her with faint praise**: ei lladd â phlufen

to **dance attendance on her**: ei dandwn hi, ei thendio law a throed

She **dare not mention it/him**: Ni wiw iddi sôn amdano, Feiddiff/Fentriiff hi ddim sôn amdano

a **darned sight too clever**: rhy glyfar o lawer/o'r hanner

day after day: ddyddiau bwygilydd, ddydd ar ôl dydd

day in day out: ddydd ar ôl dydd

The **day of reckoning will come to her**: Fe/Mi ddaw'n nos Sadwrn arni, Fe/Mi ddaw'r dydd o brysus bwyso iddi

a **day of very variable weather**: cadno o ddiwrnod (S), llwynog o ddiwrnod (N)

a **day off (work)**: diwrnod rhydd, diwrnod i'r brenin

dead as a door nail: cyn farwed â hoelen, mor farw â hoelen, yn farw gelain

the **dead of night**: ddyfnder nos, gefn nos

dead right: yn llyga(i)d ei lle (*hi), yn ei lle (*hi) *She was dead right when she said that the lecture would be boring: Roedd hi yn llygad ei lle pan ddywedodd (y) basai'r ddarlith yn ddiflas.*

dead tired: wedi ymlâdd, wedi blino'n lân/gêg, ar lawr

to **deal effectively with ...**: gwneud o'r gorau â ... *She dealt effectively with the press: Gwnaeth hi o'r gorau â phobl y wasg.*

to **deal with ...**: ymwneud â ..., ymdrin â ..., trafod ... (S) *The next chapter deals with solving the problem: Mae'r bennod nesaf yn ymwneud â datrys y broblem.*

Dear me!: O'r annwyll!, Bobol bach!, Mawredd mawr!, Brenin/Brensiach y bratiau!

to **debate with ...**: dadlau â ...

to **deceive experienced people**: twyllo hen frithyllod

to **decide not to ...**: penderfynu peidio â ...

to **decide on ...**: penderfynu ar ...

to **decide on a day**: pennu dydd/diwrnod

to **decide to wait**: penderfynu aros

to **declare sth to her**: datgan rthth iddi hi

to **deduce how much ...**: casglu faint ...

to **defend s.o. from/against ...**: amddiffyn rhn rhag ...

to **deflate her**: tynnu blew(yn) o'i thrwyn, tynnu gwynt o'i hwyliau, torri ei chrib *She mentioned his failure in the examinations in order to deflate him: Soniodd hi am ei fethiant yn yr arholiadau er mwyn tynnu blew o'i drwyn.*

to **deliver a lecture**: traethu darlith

to **deliver a sermon**: pregethu

to **deliver from ...**: gwaredu rhag/o ..., gwaredu oddi wrth ... *I was hoping s.o. would deliver me from that bore: Roeddwn i'n gobeithio y basai rhn yn fy ngwaredu rhag y diflaswr 'na.*

to **deliver her speech**: cyflwyno'i haraith, traethu ei haraith

to **be delivered of a child**: esgor ar blentyn, geni plentyn

There is a **demand for ...**: Mae galw/gofyn am ...

to **demand that she pays**: mynnu ei bod hi'n talu, erchi iddi hi dalu

to **denounce her**: lladd arni

to **depend ((up)on) ...**: dibynnu (ar) ...

She depends upon you for everything: Mae hi'n dibynnu arnoch chi am bopeth. It depends what the fee is: Mae'n dibynnu beth yw'r tâl.

to **deprive s.o. of ...**: amddifadu rhn o ...

the **depth of the country**: cefn gwlad, canol y wlad, perfeddion y wlad

to **be derived from ...**: tarddu/deillio/hanu o ...

a **descendant of ...**: o linach ... *She is a descendant of Lloyd George: Mae hi o linach Lloyd George.*

to be **descended from** the Normans: bod o hil(iogaeth) y Normaniaid

a **desire for ...**: awydd am ...

despite her strong objection: er ei gwaethaf hi yn ei dannedd *The Council decided to fell the tree despite her strong objection: Penderfynodd y Cyngor gymynu'r goeden er ei gwaethaf hi yn ei dannedd.*

despite herself: er ei gwaethaf

despite that: serch hynny, er (gwaethaf) hynny

determined not to ...: penderfynol o beidio â ... *She was determined not to break any more windows: Roedd hi'n penderfynol o beidio â thorri rhagor o ffenestri.*

determined to ...: penderfynol o ...

to **detract from it/him**: tynnu oddi arno

to **develop a pot belly**: magu bol/pwysau

to **develop a sixth sense**: magu trwyn

a **devil of a job**: coblyn o waith, cythraul o dasg/drafferth *She had a devil of a job to persuade them to come: Cafodd hi goblyn o waith i'w darbwyllo nhw i ddod.*

She was **diagnosed as suffering from** malaria: Canfuwyd/Cafwyd ei bod yn dioddef o falaria

The scheme will **die a natural death**: Aiff y cynllun i'r gwellt/wal

to **die in harness**: marw yn y tresi/yr harnais

The **die is cast**: Does dim troi'n ôl

to **die of shame**: marw o gywilydd

to **die with his boots on**: marw ar ei draed, marw yn y tresi, marw wrth ei waith

They have **died out** (referring to living things, ideas, beliefs etc.): Maen nhw wedi darfod o'r tir, Maen nhw'n farw gorn, Maen nhw wedi peidio â bod

to **differ from her**: bod yn wahanol iddi hi, gwahaniaethu oddi wrthi hi

They are as **different as chalk from cheese**: Maen nhw mor wahanol â mêl a menyn

different from ...: gwahanol i ..., annhebyg i ...

difficult for her to understand: anodd iddi/ganddi hi ddeall

a **difficult job**: talcen anodd, talcen caled

a **difficult person**: un anodd ei nabod, un anodd ei phlesio/thrin/thrafod (*hi)

a **difficult person to approach**: un anodd mynd ati (*hi)

It's **difficult to see**: Mae'n anodd gweld

to **dig a grave**: torri/agor bedd

to **dig a trench/ditch**: agor rhes/rhych/ffos

to **dig her heels in**: ystyfnigo, sefyll yn ei rhych, cyndynnu

to **dig her in the ribs**: ei phwnio hi yn ei hasennau

direct sunlight: llygad yr haul

to **disagree with her**: anghytuno/ anghydweld â hi

Milk **disagrees with her**: Dydy llaeth/llefrith ddim yn cytuno â hi, Dydy hi ddim yn dygymod â llaeth/llefrith

She **disappeared without trace**:

Diflannodd hi heb adael na migwrn nac asgwrn, Diflannodd hi heb siw na miw

to **disconnect from ...**: datgysylltu oddi wrth ...

to **discourage her from doing it**: ei hannog i beidio â gwneud y peth, ei rhybuddio rhag gwneud y peth

to **discriminate against ...**: gwahaniaethu yn erbyn ... *It is not fair to discriminate against short men: Dydy gwahaniaethu yn erbyn dynion byr ddim yn iawn.*

to **discriminate between ...**: gwahaniaethu rhwng ... *It was not easy to discriminate between the effects of age and the effects of poor health: Doedd hi ddim yn*

hawdd gwahaniaethu rhwng effeithiau heneiddio ac effeithiau afiechyd.

to **discriminate ... from ...**: gwahaniaethu rhwng ... a ... *They devised an ingenious experiment to discriminate the primary effect from the secondary effect: Dyfeision nhw arbrawf celfydd ar gyfer gwahaniaethu rhwng yr effaith elfennol a'r effaith eilradd.*

to **discuss sth with her**: trafod rtht â hi

a **disgraceful thing**: cywilydd o beth *It is a disgraceful thing that he spends so much on gambling: Mae'n gywilydd o beth ei fod yn gwario cymaint ar hapchwarae.*

to **be disgusted at/by/with it**: ffieiddio'r peth, gwaredu at/rhag y peth

to **be dismayed at ...**: gofidio/gresynu at ...

to **disobey her**: anufuddhau iddi

to **dispense with ...**: hepgor ..., mynd/ gwneud heb ... *She dispensed with the services of her solicitor: Heggorodd hi wasanaeth ei chyfreithiwr.*

to **be displeased with/about ...**: sorri wrth ..., digio wrth ...

to **dispose of her assets**: gwerthu ei hasedau, cael gwared â'i hasedau

to **dissolve into tears**: dechrau beichio wylo, mynd yn llyn o ddagrau

a **distant family relationship between them**: rhyw lun o berthyn rhyngddynt, mae hi yn y tylwyth (S)

distantly related: brith/lled berthyn, perthyn o bell *They are distantly related after all: Brith berthyn maen nhw wedi'r cwbl.*

to **distrain upon her possessions**: atafael ei heiddo

distressed circumstances: amgylchiadau gwasgedig

to **disturb her**: aflonyddu arni, tarfu arni, mennu arni *I'm sorry to disturb you: Mae'n ddrwg gen i am darfu arnoch chi.*

to **disturb the arrangement**: aflonyddu ar y trefniad

disturbed behaviour: ymddygiad afreolaidd/trwblus

to **do a bunk**: cymryd y goes, ei heglu/ bachu/g'leuo/gwanu (S) hi, dianc, diflannu

to **do a moonlight flit**: ffoi dros nos, codi pinnas (N)

to **do a roaring trade**: ei gwneud hi'n dda

to **do an injustice to ...**: gwneud cam â ...

to **do away with ...**: cael gwared ar/â ..., dileu ...; difa ... (of an animal)

to **do everything for her**: bod yn llaw ac yn droed iddi hi, dawnsio tendans arni (S) *She has done everything for her mother for ten years: Mae hi wedi bod yn llaw ac yn droed i'w mam ers deng mlynedd.*

to **do her a bad turn**: gwneud tro sâl/ gwael â hi

to **do her damnedest to ...**: gwneud ei gorau glas i ...

to **do her level best**: gwneud ei gorau glas

to **do her stint**: gwneud ei rhan o'r gwaith

to **do her stuff**: mynd trwy ei phethau

It will **do her the world of good**: Bydd yn gwneud byd o les iddi hi

to **do her wrong**: gwneud cam â hi

Do I have your permission to go?: Gaf i fynd gynnoch chi? (N), Gaf i eich caniatâd i fynd?

to **do it for show**: gwneud y peth i dynnu sylw, gwneud er dangos

to **do justice to ...**: gwneud cyfiawnder/ chwarae teg â ...

to **do sth the wrong way round**: gwneud rtht o chwith/y tu chwith(ig) allan

to **do time (in prison)**: gwneud/bwrw ei chyfnod/thymor yn y carchar (*hi)

to **do up a button**: cau botwm

to **do up an old house**: adnewyddu hen dŷ

to **do up laces**: clymu lasiau/lasys (S), clymu/cau careiau'ch 'sgidiau

to **do well**: dod yn ei blaen (*hi), llwyddo
She will do well in her new job: Daw hi yn ei blaen yn ei swydd newydd.

What has that to **do with her?**: Beth sydd a wnelo hynny â hi?

to **do without a car**: hepgor car, byw heb gar

to **do wonders with ...**: gwneud gwrthiau/campau â ... *The house was a ruin two years ago but they have done wonders with it since then: Roedd y tŷ'n adfai ddwy flynedd yn ôl ond maen nhw wedi gwneud gwrthiau â fe ers hynny.*

to **do wrong to her**: gwneud cam â hi

Does it make any difference which ...?: Ydy (hi) o wahaniaeth pa ...?, Oes gwahaniaeth pa ...? *Does it make any difference which cat stole the fish?: Ydy hi o wahaniaeth pa gath a gipiodd y pysgodyn?*

It **doesn't matter**: Does dim ots 'da hi (S), Does dim gwahaniaeth ganddi (hi), Waeth ganddi (hi)

a **dog-collar** (i.e. clerical collar): coler crwn (S)/gron (N)

doing better than ...: ar y blaen i ... *In learning Welsh she is doing better than her husband: O ran dysgu Cymraeg mae hi ar y blaen i'w gŵr.*

doing very well for herself: ar gefn ei cheffyl (gwyn)

to **doll herself up**: ei phincio'i hun(an), ymbincio

to **be done** (i.e. cheated): cael ei thwylllo/gwneud (*hi)

done for: wedi canu arni (*hi) *After that trouble he is done for: Ar ôl yr helynt yna mae wedi canu arno.*

donkey's years: oes mul, oes oesoedd, oes pys *It's donkey's years since I went to Rhyl on a bicycle: Mae'n oes mul ers i mi fynd i'r Rhyl ar gefn beic.*

to do the **donkey-work**: gwneud y gwaith caib a rhaw

You don't expect me to believe that!: Chaelia i fawr!, Chreda i byth! (S)

Don't mention it: Peidiwch/Paid â sôn

Don't rush!: Gan bwyll!

You don't say!: Tewch (â dweud)! (N), Wel law! (N), Peidiwch â sôn! (S)

Don't take any notice of her: Paid â hidio amdani hi, Gad hi dan sylw (S)

to **dote on her**: dotio/dotian arni/ati, gwirioni/ffoli arni

Sioned is her double: Mae Sioned yr un ffunud â hi

to **be doubled up with laughter**: bod yn ei dau ddwbl (*hi), chwerthin yn ei dyblau (*hi)

Doubtless she told everyone: Diau iddi hi ddweud wrth bawb

down and out: ar ei hen sodlau, heb ddimai goch

to **be down in the dumps**: bod yn ddigalon, bod yn y felan

to **be/look down in the mouth**: edrych yn ddigalon, edrych yn drist

to **drag her feet**: llusgo'i thraed *If she hadn't dragged her feet, the work would have been finished by now: Tasai hi ddim wedi llusgo'i thraed, basai'r gwaith wedi cael ei orffen erbyn hyn.*

She looks as if she has been **dragged through a hedge backwards**: Mae hi'n edrych fel ei bod wedi'i thynnu drwy'r drain

a **drain on resources**: treth ar (yr) adnoddau

Drat it!: Go drapia!, Myn brain i!, Drato! (S), Daro! (S)

to **draw a conclusion**: tynnu casgliad, dod i gasgliad

to **draw a picture**: tynnu llun

We shall **draw a veil over that**: Mi wnawn ni dynnu'r llen dros hwnnw

- to **draw at/on the cigarette**: tynnu yn y sigarét
- to **draw attention to ...**: tynnu sylw i/ at ...
- to **draw in her horns**: tynnu ei chyrn ati
- to **draw lots**: tynnu blewyn cwta, tynnu byrraf ei thocyn (*hi)
- to **draw near to ...**: agosáu/dynesu at ...
- to **draw the line at** hunting: gwrthod hela; gwrthwynebu hela
- to **draw to a close**: tynnu at ei derfyn
- to **draw up a list**: llunio/tynnu rhestr
- to **dread** going: arswydo rhag mynd, ofni mynd
- I **dread** the holidays: Rwy'n arswydo rhag y gwyliau, Mae'n gas gen i'r gwyliau
- to **dream of/about ...**: breuddwydio am ...
- to **dredge up information**: dwyn gwybodaeth i'r golwg
- to **dress a stone**: naddu/paratoi maen
- to **be dressed up to the nines**: bod yn ei dillad crandiaf (*hi)
- to **drift apart**: ymddieithrio
- to **drift from one job to another**: crwydro o swydd i swydd
- drift-wood**: broc (y) môr
- to **drink at a draught**: yfed ar ei thalcen (*hi)
- to **drink like a fish**: yfed fel ŷch
- to **drink too much** (i.e. tittle): codi(r) bys bach, codi penelin
- drinking water**: dŵr glân/yfed
- to **drip with ...**: diferu o ...
- dripping wet**: gwlyb diferol/diferu
- dripping with perspiration**: yn chwys diferol (N)/diferu (S)/doman (N)/drabŵd (S)
- to **drive a hard bargain**: taro bargaen galed
- to **drive her up the wall**: ei gyrru hi'n wallgof, ei gwylltio hi
- to **drive into a corner**: gwasgu i'r gongl (N)/cornel (S)
- to **drop a broad hint**: taro'r post i'r fuwch/pared/wal gael clywed
- to **drop a hint that ...**: rhoi gair i gall bod ..., rhoi ar ddeall bod ..., awgrymu bod ...
- to **drop** (i.e. give birth to) **a litter of piglets**: bwrw tor o foch (N), esgor ar dor o foch
- to **drop a remark**: gwneud sylw
- to **drop behind**: disgyn/syrthio ar ôl
- to **drop her a line** (i.e. in writing): anfon/gyrru (N) gair ati
- to **drop in at ...**: galw mewn/yn, taro/picio i mewn i ... (N) *On her way home she dropped in at the pub: Ar ei ffordd adref trawodd hi i mewn i'r dafarn*
- to **drop in on s.o.**: galw/bwrw/taro heibio i rn, galw i mewn gyda rhn (S) *On her way home she dropped in on her brother: Ar ei ffordd adref galwodd hi heibio i'w brawd.*
- a **drop in the ocean**: piso dryw (bach) yn y môr, diferyn yn y môr, syfien ym mola hwch
- to **drop names**: brolio'i chyd nabod, gollwng enwau
- to **drop off to sleep**: mynd/cwymo/ syrthio i gysgu
- to **drop out of a race** (before the start): tynnu'n ôl o ras, tynnu allan/ma's o ras
- to **drop the idea**: rhoi'r gorau i'r syniad
- to **drop the subject**: troi'r sgwrs, newid y pwnc
- a **drop too much**: diferyn dros ben/ormod
- to **be dropping off to sleep**: cysgu ar ei thrwyn (*hi) *After working till after midnight she was dropping off to sleep during the examination: Ar ôl gweithio tan gefn nos roedd hi'n cysgu ar ei thrwyn yn ystod yr arholiad.*

to **drum up support for ...**: curo'r drwm dros ..., casglu/hel cefnogwyr i ...

dry as a bone: mor sych â sglodyn/nyth cath/nyth dryw, wedi sychu'n grimp, sych fel cesail camel (N)/cath (S), yn sych gorcyn/grimp

to **dry up** (i.e. lose moisture): sychu, mynd yn sych

to **dry up** (i.e. lose the ability to produce/talk): mynd yn hysb/hesb

to **dry up** (i.e. stop talking): tewi/distewi, mynd yn fud

to **duck her head**: gostwng/gwyro/ dowcio (N) ei phen

dull as ditchwater: mor ddfilas â dŵr pwll

a **dump of a place**: twll o le, diawl o le, twll tin y byd

during their period of growth: ar eu prifant

to **dwelt upon sth**: aros/oedi gyda rthth, ymhelaethu ar rth *She mentioned my mistake but she did not dwell upon it: Soniodd hi am fy ngwall ond arhosodd hi ddim gyda fe.*

a **dyed-in-the-wool royalist**: brenhinwr i'r carn, brenhinwr at fôn ei wallt, brenhinwr rhonc

dying for/to ...: bron â marw o eisiau ..., bron â thorri ei bogail/bola o eisiau ... (*hi), ar dân i ..., yn ysu /tagu am ... *She was dying for a cup of tea: Roedd hi bron â marw o eisiau paned o de. After two years in the Middle East she was dying to see her family again: Ar ôl dwy flynedd yn y Dwyrain Canol roedd hi'n ysu am weld ei theulu eto.*

~

eager for promotion: awyddus/eiddgar/ awchus am ddyrchafiad

eager for her to go: awyddus iddi hi fynd

eager to go: awyddus i fynd

She is **eagerly awaited**: Mae disgwyl mawr amdani hi

earlier than expected: ynghynt na'r disgwyl

These are **early days**: Mae'n gynnar yn y dydd, Mae'n gynnar eto

to **earn a better living**: ennill gwell tamaid

to **earn her living/keep**: ennill ei thamaid/bywoliaeth/bara

to **ease her suffering/disappointment etc.**: rhoi eli/olew ar ei briw, lliniaru ei phoen/siom a.a.

easier said than done: haws dweud na gwneud, haws dweud mynydd na mynd drosto

easily dominated: yn llywaeth fel llo, fel clwtyn llawr (S)

easily frightened: fel aderyn bach mewn llaw

She is **easily swayed**: Mae hi'n un hawdd ei throï

She is **easily the best**: Hi yw'r orau o bell ffordd/o led cae

as **easy as falling off a log**: mor hawdd â thynnu llaw dros wyneb, cyn hawsed â dim, mor hawdd ag anadlu

It's **easy for her to explain**: Mae'n hawdd iddi/ganddi (N) egluro/esbonio

It's **easy for/to you**: Mae'n hawdd i chi

It's **easy to talk**: Mae'n hawdd dweud

to **eat as much as she wants**: bwyta ei gwala

to **eat her words**: dad-ddweud, tynnu'i geiriau yn ôl, llyncu ei geiriau, troi yn ei charn

to **eat one's heart out**: magu gofidiau

to **eat or drink with relish**: llyncu'n llyfn, claddu bwyd, bwyta fel ceffyl

She has Huw **eating out of her hand**: Roedd Huw fel ci bach iddi hi, Gwnaiff/Gwneith Huw unrhyw beth i'w phlesio hi

to **edge forward**: ymwithio/sleifio ymlaen

elbow grease: eli penelin

eligible to vote: cymwys i gael pleidleisio

She is a bit **embarrassed**: Mae arni dipyn o gywilydd, Mae ychydig o gywilydd arni

She is **empty headed**: Does dim byd rhwng ei dwy glust, Mae hi'n benchwiban, Jac y rhaca yw hi (S)

an **empty promise**: gair dros ysgwydd

to **encourage her**: annog arni hi

to **encroach on her rights**: ymyrryd â'i hawliau

to **end a relationship with her** (business or personal): rhoi'r gorau iddi hi

to **enlarge sth**: ehangu/mwyhau rth, gwneud rth yn fwy

to **enlarge upon it**: ymhelaethu arno

enough and to spare: gwala a gweddill, hen ddigon

enough food to see one through: digon o fwyd wrth gefn

enough for today: digon am heddiw

enough to go round: digon i bawb

It's **enough to make you vomit**: Mae'n ddigon i godi cyfog/pwys arnoch chi

to **enquire about ...**: holi am/ynghylch ...

to **enquire after her**: holi amdani

to **enquire earnestly**: holi'n arw

to **enter into a bargain/contract**: taro bargaen, dod i gytundeb â ...

to **enter into an agreement with ...**: llunio cytundeb â ..., dod i gytundeb â ...

enthusiasm that does not last long: tân mewn eithinen

She is **entitled to do it**: Mae ganddi hi'r hawl i wneud y peth

to **entreat ...**: crefu ar ..., deisyf(u) ar ...
*She entreated him not to drink so much:
Crefodd hi arno i beidio ag yfed cymaint.*

envious of s.o.: cenfigennus o rn, eiddigedus o rn

to **envy her**: cenfigennu/eiddigeddu wrthi

to **equip oneself for ...**: darparu angenrheidiau ar gyfer ..., hwylio'i phethau ar gyfer ... (*hi)

to **escape from** her clutches: dianc o'i chrafangau

to **escape from** a boring task: dianc rhag gorchwyl ddiflas

to **escape notice**: mynd heb dynnu sylw

to **escape one's memory**: mynd yn angof
It completely escaped my memory: Aeth yn angof gen i'n llwyr.

to **escape unscathed**: dianc â chroen cyfan

especially fond of ...: arbennig o hoff o ...

especially remembering ...: yn enwedig/arbennig o gofio *I think she deserves the award, especially remembering her performance last year: Rwy'n meddwl ei bod hi'n haeddu'r wobr, yn enwedig o gofio ei pherfformiad llynedd.*

an **essential feature/requirement**: nod angen

an **essential requirement to her**: mater o raid arni hi *Having an hour on her own each day is an essential requirement to her: Mater o raid arni hi yw cael awr ar ei phen ei hun bob dydd.*

It is **essential to speak clearly**: Mae'n hanfodol siarad yn glir

to **estimate the cost**: brasamcanu'r gost, bwrw amcan o'r gost

Even as she was warning us, the ceiling fell: A hithau'n ein rhybuddio ni/Wrth iddi ein rhybuddio ni, syrthiodd y nenfwd

even better: gwell byth, hyd yn oed yn well

even fewer/less: llai byth

even so: er hynny, eto i gyd, serch hynny

- an **evening of a working day**: noswaith/
noson waith
- ever since she was born**: er ei geni (*hi),
o doriad ei bogail (*hi)
- ever since then**: byth er hynny
- every bone in the body was aching**:
roedd pob migwrn ac asgwrn yn
brifo (N)/gwynegu (S)
- every inch**: hyd y gwraidd, at flaenau ei
fysedd, at fôn ei wallt, at fêr ei esgyrn
*He was every inch a gentleman: Roedd e hyd y
gwraidd yn wr bonheddig.*
- every kind of thing**: pob rhyw beth, pob
math o bethau
- every living soul**: pob perchen enaid, pob
enaid byw
- every living thing**: pob perchen anadl, pob
enaid byw
- every nook and cranny**: pob twll a
chornel
- every now and then**: bob hyn a hyn, bob
yn awr ac eilwaith
- every other year** (i.e. alternate years): bob
yn ail flwyddyn, am yn ail flwyddyn *She
goes to see her mother every other year: Bydd
hi'n mynd i weld ei mam bob yn ail flwyddyn.*
- every other one** (i.e. alternately): am yn
ail, ar yn ail, bob yn ail, bob eilwrs
- Every second counts**: Mae pob eiliad o
bwys
- every single person**: pob copa walltog,
pob enaid byw
- every so often**: bob hyn a hyn
- every such thing**: pob cyfryw beth, pob
peth felly (N), pob peth o'r fath (S)
- every ... under the sun**: pob ... (o) dan
haul
- an **everyday** coat: côt wisg (N), cot bob
dydd, cot ddiwetydd (S)
- everyday clothes**: dillad pob dydd, dillad
wisg (N), dillad diwetydd (S), dillad
gwaith
- everyday speech**: llafar gwlad, iaith y
stryd
- Everyone to his/her own liking!**: Pawb at
y peth y bo! (N), Pawb â'i glemau! (S)
- to evoke memories of ...**: deffro atgof
am ...
- to exact repayment to the last farthing**:
mynnu yr hatling/y ffyrlling eithaf
- exactly**: ar ei ben, yn union *It's exactly
five o'clock: Mae'n bump o'r gloch ar ei ben.
That's exactly what she said: Dyna'n union
beth ddywedodd hi.*
- exactly like ...**: yr un ffunud â ... *She
speaks exactly like Gwladys: Mae hi'n siarad
yr un ffunud â Gwladys.*
- exactly the same**: yn union/hollol yr un
fath (N), yn gwmws yr un peth (S)
- to excel at doing sth**: rhagori ar wneud
rth
- She excels in music**: Mae hi'n rhagori
mewn cerddoriaeth, Mae hi'n giamstar ar
gerddoriaeth
- except (for) ...**: ac eithrio ... *No parking
except for taxis: Dim parcio ac eithrio tacsis.*
- except that there is/are ...**: ond bod
('na) ... *It is exactly like Wales except that
there are fewer sheep: Mae hi yr un ffunud â
Chymru ond bod 'na lai o ddefaid.*
- to excite a desire in her**: codi chwant/
awydd arni
- an **excuse for ...**: esgus dros/am ...
- Excuse me for ...**: Esgusodwch fi am ...,
Maddeuwch i mi am ...
- to expand upon ...**: ymhelaethu ar ...
- to expect a letter**: disgwyl llythyr, disgwyl/
aros am lythyr
- to expect to receive**: disgwyl derbyn
- expecting a baby**: disgwyl (babi), dan ei
gofal, llond ei sach, magu esgyrn
bychain/mân esgyrn
- an **expert at ...**: hen law ar ...

to **explode in fury**: gwylltio'n gacwn, gwylltio'n gudyll

exposed flesh: cig noeth

exposed to view: yn y golwg

to **express approval of ...**: dweud amen ar ..., cymeradwyo ..., *After a long discussion the headmaster expressed approval of the plan: Ar ôl trafodaeth faith dywedodd y prifathro amen ar y cynllun.*

to **express his approval to her**: mynegi ei gymeradwyaeth iddi

to **express thanks**: (tal)u diolch

expressly to ...: yn union swydd i ..., yn unswydd i ... *She came expressly to warn us: Daeth hi'n unswydd i'n rhybuddio ni.*

to **extend a welcome to ...**: croesawu ..., estyn croeso i ...

to **extend her horizon**: lledu ei gorwelion

to **extend to ...**: ymestyn at ... *The garden extends to the river: Mae'r ardd yn ymestyn at yr afon.*

to **extract a confession from her**: gwasgu cyffes ohoni, ei gorfodi hi i gyffesu

extremely busy: wrthi fel lladd nadroedd

extremely expensive: cythreulig/ofnadwy o ddrud, yn ddrud ofnadwy

extremely ill: sobr o wael (N), yn wael ofnadwy (S)

extremely irritable: yn bigog ar y naw (N), yn bigog iawn

extremely pleased: wrth ei bodd (*hi) *We were all extremely pleased to see her once again: Roedden ni i gyd wrth ein bodd ei gweld hi unwaith eto.*

extremely pleasing: wrth fodd ei chalon (*hi)

extremely posh: crand gynddeiriog (N)

to **eye her lustfully/wantonly**: taflu llygad gafr arni, ei llygadu'n awchus

eye of a needle: crau nodwydd

an **eye opener**: agoriad llygad

Her eyes are bigger than her stomach: Mae ei llygaid yn fwy na'i bol(a)

with her **eyes lowered**: gan edrych i lawr, a'i llygaid ar ei lawr

~

Her face showed she was happy: Roedd hi'n hapus (ar) ei golwg, Yn ôl ei golwg roedd hi'n hapus

face to face: wyneb yn wyneb

to **face up to ...**: wynebu ... *It was difficult for her to face up to the fact that her business was failing: Roedd yn anodd iddi hi wynebu'r ffaith bod ei busnes yn methu.*

to **fail completely to ...**: methu'n glir/lân/ llwyr â ...

to **fail to ...**: methu (â) ...

to **fail to notice ...**: methu sylwi ar ..., peidio â sylwi ar ..., ffael sylwi ar ...

to **fail when close to success**: boddi yn ymyl y lan

failing that ...: yn niffyg hynny ...

Perhaps we'll meet in Cardiff – failing that, I'll call on you in Bangor: Efallai byddwn ni'n cyfarfod yng Nghaerdydd – yn niffyg hynny mi wnaf i alw heibio ym Mangor.

a **faint recollection of her**: brith/rhyw gof amdani hi *I have only a faint recollection of her: Dim ond rhyw gof amdani hi sydd gen i.*

to **faint with fear**: llewygu o/gan ofn

to have a **fair crack of the whip**: cael cyfle/chwarae teg

fair wear and tear: traul dderbyniol/normal

a **fairies' blessing**: bendith y mamau

fairly good: lled dda, eithaf da, yn weddol o dda, od o dda, go lew (N)

a **fairly large amount**: cryn dipyn, tipyn go lew (N)

fairly well: go lew (N), yn weddol (S) *She did fairly well in the examinations so far as I know: Gwnaeth hi'n o lew yn yr arholiadau am wn i.*

to have **faith in s.o./sth:** credu/ymsyddiried/ffyddio yn rhn/rhth, bod â ffydd yn rhn/rhth

to **fall about laughing:** chwertthin nerth ei chernau (*hi), chwertthin dros bob man, chwertthin dros y lle

to **fall apart at the seams:** ymddatod, dod oddi wrth ei gilydd, mynd ar chwâl

to **fall asleep:** syrthio (N)/cwympto (S) i gysgu

to **fall behind:** colli'r ôl, syrthio'n ôl *She was determined not to fall behind in her payments: Roedd hi'n benderfynol o beidio â cholli'r ôl gyda'i thaliadau.*

to **fall between two stools:** syrthio rhwng dwy stôl

to **fall foul of her:** sathru ar ei chyrn, pechu yn ei herbyn

to **fall foul of the law:** torri'r gyfraith, mynd i afael y gyfraith

to **fall headlong:** syrthio/cwympto ar ei hyd

to **fall in love with ...:** ymserchu yn ..., syrthio/cwympto mewn cariad â/efo/gyda ...

to **fall into abeyance:** peidio, pallu, dod i ben, darfod *The old custom fell into abeyance: Peidiodd yr hen arfer. Darfu'r hen arfer.*

to **fall into arrears with her rent:** mynd i ddyled gyda'i/efo'i rhent

to **fall into disuse:** mynd allan/ma's o arfer

to **fall into place:** disgyn i'w lle (*hi)

to **fall off** (i.e. decline): lleihau, gostwng *Sales of paintings have fallen off: Mae gwerthiant darluniau wedi lleihau.*

to **fall on bad/hard times:** profi/wynebu adfyd/drygfyd

to **fall out** (i.e. quarrel): mynd ynghyd ben a chlustiau, mynd wrth y pen a'r clustiau,

cweryla, ffraeo (S), ymrafael(io), cecru (S), cwympto i ma's (S) *That's the first time they have been together without falling out: Dyna'r tro cyntaf iddyn nhw fod gyda'i gilydd heb fynd ynghyd ben a chlustiau.*

to **fall over backwards to please them:** gwneud ei gorau glas i'w plesio nhw (*hi)

to **fall over each other trying to ...:** baglu dros ei gilydd i drïo ... *They were falling over one another trying to please her: Roedden nhw'n baglu dros ei gilydd i drïo'i boddhau.*

to **fall over sth:** syrthio (N)/cwympto (S) ar draws rhth

to **fall short of ...:** syrthio'n fyr/brin o ... *Her conduct fell short of the standard we expect of members of the Society: Syrthiodd ei hymddygiad yn fyr o'r safon rydym yn ei disgwyl gan aelodau'r Gymdeithas.*

to **fall short of expectations:** siomi'r disgwyliadau

to **fall through** (i.e. fail): methu, ffaelu (S) *The scheme has fallen through: Mae'r cynllun wedi methu.*

They've fallen out: Does dim Cymraeg rhyngddyn nhw, Maen nhw wedi cweryla/ffraeo

a **false address:** cyfeiriad gwneud/ffug

false teeth: dannedd gosod, dannedd dodi (S)

a **familiar figure:** ffigwr cyfarwydd

familiar with ...: cynefin â ..., cyfarwydd â ...

to **familiarize them with ...:** eu cynefino nhw â ...

famous for ...: enwog am ...

Fancy her believing that! A meddwl iddi hi greu ddu hynny!

Fancy that! 'Tawn i'n marw!, Pwy fyddai'n meddwl!, Peidiwch â dweud!, Glywsoch chi'r fath beth?, Gwedwch y gwir! (S), 'Dawn i byth o'r fan!, Chlywais i ffaswn beth!

She is **far and away the best**: Hi ydy'r orau o bell ffordd/o dipyn/o ddigon

far and wide: ar hyd ac ar led *You could search far and wide and not find a kind a person: Gallech chi chwilio ar hyd ac ar led heb ddod o hyd i un mor garedig.*

far off the mark: ymhell ohoni *His estimate was far off the mark: Roedd ei amcangyfrif ymhell ohoni.*

far too expensive: rhy ddud o lawer

far too much: gormod o bell ffordd/ o lawer/o dipyn

She is **far-seeing**: Mae hi â llygaid yn ei phen, Mae ei phen yn ei llygaid

fast and furious: fel coblyn, fel Jehu (of driving)

to do a **favour for/to s.o.**: gwneud cymwynas â rhn

her **favourite** (of a person): kannwyll ei llygad *Although she loved all her grandsons Ceri was her favourite: Er ei bod hi'n caru ei hwyrion i gyd Ceri oedd kannwyll ei llygad.*

to **fear for her**: ofni/pryderu/poeni yn ei chylch

to be in/have a **fear of sth**: ofni rth, bod ag ofn rth, dychryn at rth

to **fear that she is stealing**: ofni ei bod hi'n lladrata, ofni iddi ladrata

to **feast on mushrooms**: gwledda/gloddesta ar fadarch

to **feather her (own) nest**: pluo ei nyth, hel mêl i'r cwch (N), troi'r dŵr i'w melin ei hun

fed up to the back teeth with ...: wedi glân alaru ar ..., wedi hen syrffedu ar ..., wedi cael llond bol o ...

She is **fed up with ...**: Mae hi wedi cael llond bol ar ..., Mae hi wedi alaru/ diflasu/syrffedu/blino/danto (S) ar ...

to **feel an effect**: profi/teimlo effaith

to **feel an urge to paint**: teimlo awydd peintio/darlunio

to **feel comfortable about sth**: bod yn gysurus ynghylch rth

to **feel deep down**: teimlo ar ei chalon (*hi), teimlo ym mêr ei hesgyrn

to **feel for her** (i.e. sympathize): teimlo drosti

to **feel her way**: ymbalfalu (am) ei ffordd

to **feel in her bones that he was ...**: teimlo ym mêr ei hesgyrn ei fod ...

to **feel inclined to ...**: teimlo awydd ..., teimlo fel ... *After taking the drink she felt inclined to stay: Ar ôl cymryd y ddiod roedd hi'n teimlo fel aros.*

to **feel like doing it**: cael/clywed (N) awydd gwneud y peth

to **feel pleased with herself**: teimlo'n falch/fodlon â'i hunan

to **feel resentment towards her**: dal dig arni/ati hi, dal dig yn ei herbyn

to **feel slighted**: teimlo sarhad

to **feel sth to the quick**: teimlo rth i'r byw

to **feel the effect of it**: clywed (N)/teimlo (S) effaith y peth

to **feel the weight of sth**: clywed (N)/teimlo (S) pwysau rth

to **feel up to it**: teimlo'n barod/alluog i wneud y peth

It **feels as if it's going to snow**: Mae ias/naws eira ynddi

She **feels homesick**: Mae hiraeth arni hi

She **feels like shouting**: Mae chwant arni hi weiddi

She **feels the pinch** (i.e. is short of money): Mae'n mynd yn big arni (N), Mae'n galed/fain arni

feet of clay: traed o bridd/glai *Despite his dignity she knows he has feet of clay: Er gwaethaf ei urddas mae hi'n gwybod bod ganddo draed o bridd.*

to **fetch and carry for her**: gwneud negesau drosti, bod yn was bach iddi

few and far between: prin, anaml

few apples (i.e. not many): ychydig iawn o afalau, go ychydig o afalau *There were few apples left over: Roedd ychydig iawn o afalau ar ôl.*

a few apples: ychydig o afalau *There were a few apples left over: Roedd ychydig o afalau ar ôl.*

a few boys: ambell fachgen/hogyn *A few boys were loitering behind the library: Roedd ambell hogyn yn loetran tu ôl i'r llyfrgell.*

a few of them: ambell un *A few of them were damaged: Roedd ambell un wedi cael ei ddifrodi.*

the field of view: y maes gwelediad/arsyllu

to fight against sleep: gwrthod cysgu, ymladd â chwsg, brwydro yn erbyn cwsg

to fight against the odds: brwydro yn nannedd anfanateision

to fight for a cause: ymladd dros achos

to fight for (i.e. on behalf of) **her:** ymladd drosti hi

to fight for the right to ...: ymladd dros yr hawl i ...

to fight off an illness: gwrthsefyll salwch, ymladd yn erbyn gwaeledd

to fight shy of going: osgoi mynd, ymgadw rhag mynd

to fight tooth and nail: ymladd ewinedd a dannedd, ymladd nerth de(n)g ewin

to fight with (i.e. against) **her:** ymladd â/gyda/efo hi, ymladd yn ei herbyn

a figure of fun: testun sbort/chwerthin/hwyl

to figure out what it means: deall beth mae'n (ei) olygu

to figure out a puzzle: datrys pos

to fill the bill: bod yn addas, bod yn ddigon da, ateb y diben

The final outcome was ...: Diwedd y gân oedd ...

to find fault: gweld bai

to find her back was turned: cael ei chefn *Whenever they find her back is turned they take a rest: Pryd bynnag y cân nhw ei chefn maen nhw'n llaesu dwylo.*

to find her guilty: ei chael hi'n euog

to find it difficult: ei chael hi'n anodd, ei gweld hi'n anodd

to find she had done sth: cael ei bod wedi gwneud rth

to find sth: cael hyd i rth, dod o hyd i rth

to find sth just to her taste/liking: cael rth at ei dant

She finds it much easier to ...: Mae'n haws o lawer ganddi hi ...

a fine figure: corff lluniaidd

a fine figure of a man: dyn nobl yr olwg, dyn urddasol/golygus

a fine figure of a woman: gwraig dal a lluniaidd, gwraig hardd

Fine for some! Braf ar rai!

a fine mess: andros o lanastr, tipyn o gawl (S)

a finger in every pie: â bys ymhob brywes *Although she was not so busy as the other members, she had a finger in every pie: Er nad oedd hi mor brysur â'r aelodau eraill, roedd hi â bys ymhob brywes.*

Her fingers are all thumbs: Mae hi'n fodiau i gyd, Mae hi'n fysedd i gyd (S)

to finish with her: darfod/gorffen/cwpla (S) â hi

the first blush of dawn: glas/toriad y wawr

at first light: ar doriad dydd

first of all: gyntaf oll, yn y lle cyntaf, i ddechrau

first thing in the morning: ben bore *First thing in the morning I light the fire: Ben bore bydda' i'n cynnau'r tân.*

to fish for compliments: chwilio am ganmoliaeth, disgwyl lledod

to fish in troubled waters: pysgota mewn dŵr llwyd

fit as a fiddle: mor iach â'r gneuen, cyn iached â chricsyn, mor iach â'r dydd

to fit her out with clothes: ei dilladu hi

to fit in with her plans: cyd-daro/cyd-fynd â'i chynlluniau

to fit like a glove: ffitio i'r dim, ffitio fel maneg

fitting for her to go: addas/priodol iddi hi fynd

five minutes walk from ...: pum munud o waith cerdded o ...

to fix her attention on ...: hoelio ei llygaid/meddwl/sylw ar ...

to fix her eyes on him: hoelio'i sylw/llygaid arno, craffu arno

The contest was fixed: Roedd yr ornest wedi'i threfnu o flaen llaw

to flake out: llewygu

flat on her back: ar wastad ei chefn

She flatly denies it: Mae hi'n gwadu'r du'n wyn, Mae hi'n gwadu coed a maes/mynydd, Mae hi'n gwadu'r peth ar ei ben

to flatter her: ei gwenieithio hi, llyfu ei thraed hi, tynnu llaw dros ei phen *Mike knows how to flatter her: Mae Meic yn gwybod sut i lyfu ei thraed hi.*

to flee from ...: cilio oddi wrth/rhag ..., ffoi rhag ...

her flesh and blood: ei chig a gwaed

a flight of stairs: rhes o risiau

to flog a dead horse: cicio ceffyl marw, aredig tywod

a flood of memories: llanw o atgofion, fflyd o atgofion (N)

to fly in the face of authority: herio awdurdod

the fly in the ointment: y drwg yn y caws, y gwybedyn yn yr ennaint

to fly into a rage: mynd fel (y) coblyn, mynd yn gidwm (gwyllt), gwylltio'n gacwn, colli limpín (N)

to fly off at a tangent: mynd ar ôl ysgyfarnog/sgwarnog

to fold one's arms: croesi/plethu'ch breichiau, cario'r gath, cario cathod, dandwn y gath

to follow suit: efelychu *She watched how the Italians ate their spaghetti and tried to follow suit: Gwyliodd hi fel yr oedd yr Eidalwyr yn bwyta'u sbageti a cheisio eu hefelychu.*

to follow the party line: dilyn arweiniad y blaid

to follow the straight and narrow (path): dilyn y llwybr cul

The following will appear in the play: Bydd y rhai a ganlyn yn ymddangos yn y ddrama

following at her heels: wrth/yn ei chynffon (*hi), wrth ei chwt (*hi) (S) *Every morning she can be seen in town with five children following at her heels: Bob bore gellir ei gweld hi yn y dref gyda phum plentyn wrth ei chynffon.*

following her dismissal: yn sgil ei/ar ôl ei diswyddo/diswyddiad

She is fond of cats/swimming: Mae hi'n hoff o gathod/nofio, Mae'n hoff ganddi gathod/nofio (N), Mae hi'n dwli ar gathod/nofio

food and drink: bwyd a llyn

the foot of the hedge: sawdl/bôn y clawdd, tin y berth

to wait for nine hours (past or future): aros am naw awr *I had to wait for nine hours: Bu'n rhaid i mi aros am naw awr.*

for nine hours (past up to the present): ers naw awr *I have been waiting for her for nine hours: Rwy'n aros amdani hi ers naw awr.*

for nine miles: am naw milltir *He wandered for nine miles: Crwydrai am naw milltir.*

to have whinberries for pudding: cael llus yn bwddin

to buy a cake **for Sunday**: prynu cacen/teisen at y Sul

for supper: i swper *Come for supper: Dewch i swper. There will be spinach for supper: Bydd sbigoglys i swper.*

for ten years (i.e. since ten years ago): ers deng mlynedd

for today: am heddiw

for a bit of fun: am hwyl, am swae *She hid the keys for a bit of fun: Fe guddiodd hi'r allwedd i am swae.*

for a good cause: at achos da

for a little while (in the past): ers tipyn

for a long time: am hydoedd, am sbel hir (S)

for a long while (in the past): ers amser, ers meitin, ers hydoedd, ers tro byd, ers talwm (N), ers llawer dydd (S)

for a moment: am ennyd/eiliad

for a penny: er ceiniog, am geiniog

for a short spell: am bwl/blwc/ennyd

for a while: dros gyfnod, am beth amser

for ages (in the past): ers cantoedd, ers oes pys, ers llawer dydd

for all I know: am wn i, hyd y gwn i, cyn belled ag y gwn i

for all that: er hynny i gyd, er hynny oll *For all that, she was a kind woman: Er hynny i gyd, roedd hi'n ferch garedig.*

for all the tea in China: am bris yn y byd, am holl aur Periw, dros ei chrogi (*hi) *She would not do that for all the tea in China: Fasai hi ddim yn gwneud hwnnw am bris yn y byd.*

for all the world (in an affirmative sentence): yn union, yn gwmws (S) *She behaved for all the world as if the house were hers: Roedd hi'n ymddwyn yn union fel mai hi oedd piau'r tŷ.*

for all the world (in a negative sentence): er dim, dros ei chrogi (*hi), am bensiw

She would not say that for all the world: Fasai hi ddim yn dweud hynny er dim.

for better or for worse: er gwell er gwaeth

for certain: i sicrwydd

for days on end: am ddyddiau bwygilydd

for ever: am byth, hyd byth, dros byth (see also forever)

for ever and a day: beunydd a byth, byth a beunydd, beunydd ben

for ever and ever: byth bythoedd, yn oes oesoedd, am byth

for example: er enghraifft

for fear of ...: o ofn ..., rhag ofn i ...

for good or for ill: er da neu er drwg, er gwell neu er gwaeth

For goodness sake!: Wir dduwc!, Yn enw'r coblyn!, Da chi!, Er mwyn dyn/ y nefoedd!

to buy sth **for her**: prynu rhth iddi hi

to buy sth **for her cough/birthday**: prynu rhth at ei pheswch/phen blwydd

to buy sth **for her holiday**: prynu rhth ar gyfer ei gwyliau

for her age: o'i hoed *She is very tall for her age: Mae hi'n dal iawn o'i hoed.*

for her benefit/good: er ei lles/budd

for her pains: am ei phoen

for her sake: er ei mwyn hi

for her trouble: am ei thrafferth

for hire: ar log, er llog

for hours on end: am oriau (bwygilydd)

You are **for it!**: Rwyf ti amdani hi!

She won't be here **for long**: Fydd hi ddim yma fawr

for love or money: am bris yn y byd (in a negative sentence), am y byd

for months on end: am fisoedd bwygilydd, am fisoedd o'r bron

for my part: o'm rhan i

to sell **for next to nothing**: gwerthu am y nesaf peth i ddim

for no earthly reason: heb reswm yn y byd

for once: am unwaith

for one thing: yn un peth *She will not accept the ring. For one thing it is the wrong size: Fydd hi ddim yn derbyn y fodrwy. Yn un peth dydy'r maint ddim yn iawn.*

for quite a while: am dipyn go law

for sale: ar werth

for some reason: am ryw reswm *I don't feel I can trust her for some reason: Dw i ddim yn teimlo medra i ymddiried ynddi hi am ryw reswm.*

for some time (in the past): ers tro *He had been complaining for some time about his leg: Basai'n cwyno ers tro efo'i goes.*

for that matter: o ran hynny

for that reason: am hynny, gan hynny

for the benefit/good of ...: er lles ...

for the best: er y gorau, am y gorau

for the common good: er lles pawb

for (the) lack of ...: o ddiffyg ..., yn niffyg ... *She was weak for lack of food: Roedd hi'n wan o ddiffyg bwyd.*

for (the) lack of anything better: yn niffyg dim gwell

for the life of her: yn ei byw, dros ei chrogi *She couldn't for the life of her finish the cake: Fedrai hi ddim yn ei byw gorffen y deisen. I wouldn't for the life of me stay there: Fyddwn i ddim yn aros yno dros fy nghrogi.*

for the most part: ar y cyfan, at ei gilydd, am ran helaeth *The holiday was enjoyable for the most part: Roedd y gwyliau yn bleserus at ei gilydd.*

for the rest of her life: hyd fedd, am weddill ei hoes

for the sake of ...: er mwyn ...

for the sake of appearances: er mwyn cadw parch/wyneb

for the sake of peace and quiet: er mwyn distawrwydd

for the time being: am y tro, dros dro, dros amser, am rŵan (N), am nawr (S)

for the use of ...: at wasanaeth ..., at ddefnydd ..., at ddiben ... *These chairs are for the use of the patients: Mae'r cadeiriau hyn at wasanaeth y cleifion.*

instructions for the use of ...: cyfarwyddyd ynghylch sut i ddefnyddio ...

For two pins I would have thrown it in his face: Bu ond y dim i mi daflu'r peth yn ei wyneb

for want of ...: as for for (the) lack of ...

to forbid her to drink: gwahardd/gwarafun iddi yfed, ei gwahardd rhag yfed

forced smiling: gwenu gwneud

to be a foregone conclusion: bod yn anochel

to forestall them: achub y blaen arnyn nhw

forever (i.e. without respite): byth a hefyd, yn ei gwaith (*hi) (N) *She is forever ironing: Mae hi yn ei gwaith yn smwddio.*

to forget (about) sth: anghofio am rth

to forget the message: anghofio'r neges

to forget to do sth: anghofio gwneud rth

to forget what she looks like: colli (ad)nabod arni

to forgive her (for) her mistake: maddau ei chamgymeriad iddi hi, maddau iddi am ei chamgymeriad

to be forgotten (about) by her: mynd dros gof ganddi

a form of sth: ffurf ar rth *'Dod' is a form of 'dyfod': Ffurf ar 'dyfod' yw 'dod'.*

her former self: ei hen hunan

foul play: trosedd, anfadwaith

fountain pen: pin llenwi

the four corners of the world: pedwar ban (y) byd

a free agent: rhyddweithredwr
to have a free hand: cael llaw rhydd/
 penrhyddid/tragwyddol heol
 She has **free range of the place:** Mae
 ganddi hi ryddid y lle
free time: amser rhydd (N), amser
 bant (S)
freelance: see **go freelance**
to freeze hard: rhewi'n gorn, chwipio
 rhewi
to freeze on the spot: rhewi'n stond,
 rhewi yn y fan a'r lle
fresh air: awyr iach, gwynt ffres
 There is **friction between them:** Mae'n
 ddrwg rhyngddydd nhw, Dydyn nhw ddim
 yn cyd-dynnu'n dda
friendly with you: agos atoch chi
friends with us: tipyn o ffrindiau/lawiau
 (N) gyda/efo ni *Her family are now friends
 with us: Mae ei theulu hi yn dipyn o ffrindiau
 gyda ni bellach.*
to frighten her: codi/hala (S) ofn arni
 She is **frightened of sth:** Mae arni ofn
 rthh, Mae hi'n dychryn(u) at rth
It's a frightful/frightening thing: Mae'n
 ddychryn o beth, Mae o'n beth
 dychrynlyd/ofnadwy/brawychus/
 arswydus
frightfully expensive: dychrynlyd o ddrud
to be frittered away: mynd rhwng y cŵn
 a'r brain, wedi ei fradu (S) *The money
 she won was frittered away within a year:
 Aeth yr arian enillodd hi rhwng y cŵn a'r
 brain o fewn blwyddyn.*
from smoking: o (y)smygu *She died from
 smoking cigarettes: Bu hi farw o (y)smygu
 sigarêts.*
from afar: o bell, o hirbell
from all over the world: o bedwar ban (y)
 byd, o bellter byd
 people **from all walks of life:** pobl o bob
 cefndir/gradd

from daybreak to nightfall: o fore gwyn
 tan nos
from end to end: o'r naill ben i'r llall, o
 ben bwygilydd *She walked along Offa's
 Dyke from end to end: Cerddodd hi ar hyd
 Clawdd Offa o'r naill ben i'r llall.*
from hand to mouth: o'r llaw i'r genau
from head to foot: o'r corun i'r sawdl/
 sodlau, o wadn y troed hyd y corun/pen
from her: oddi wrthi hi (S), ganddi hi (N)
*I got a present from her: Ces i anrheg oddi
 wrthi hilganddi hi.*
from her head to her foot: o'i phen i'w
 thraed, o'i chorun i'w sawdl/sodlau
to recite from memory: adrodd ar dafod
 leferydd, adrodd ar ei chof (*) *She was
 fond of reciting poetry from memory: Roedd
 hi'n hoff o adrodd barddoniaeth ar dafod
 leferydd.*
from now on: o hyn ymlaen, o hyn allan
 (N), o hyn ma's (S), bellach
 She appeared **from nowhere:**
 Ymddangosodd hi yn ddisymwth
from pillar to post: o bared i bost, o goed
 i gastell, o bost i bentan, o bant i bentan
from that time on(wards): byth oddi ar
 hynny, o hynny allan
from the bottom/depth of her heart:
 o eigion ei chalon, o'r galon, o waelod ei
 chalon
from the cradle to the grave: o'r crud i'r
 bedd
to come from the gutter: dod o fol/fôn/tin
 y clawdd
from the horse's mouth: o lygad y
 ffynnon *She got the story from the horse's
 mouth: Cafodd hi'r hanes o lygad y ffynnon.*
from the very beginning: o'r dechrau
 cyntaf, o'r dechrau un
from then on: o hynny ymlaen, o hynny
 allan (N), o hynny ma's (S), bellach, byth
 oddi ar hynny

from time to time: o dro i dro, o bryd i'w gilydd, o bryd i bryd, ambell dro, ambell waith, ar dro, nawr/rŵan ac yn y man, nawr/rŵan a phryd arall

from today onwards: o heddiw ymlaen, o'r dydd heddiw ymlaen, o'r dydd heddiw allan

from top to bottom: o'r bôn i'r brig *The house was dirty from top to bottom: Roedd y tŷ'n fudr o'r bôn i'r brig.*

from top to toe: as for **from head to foot**

from under ...: oddi dan ..., oddi tan ...

I see **from your face ...:** Rwy'n gweld ar eich wyneb ...

to frown at ...: gwgu ar ...

frozen stiff: wedi fferru, wedi rhewi'n gorn

to fulfil a promise/vow: cyflawni addewid/aduned

for a full hour: am awr gron *She had been standing there for a full hour: Roedd hi wedi bod yn sefyll fan yna am awr gron.*

full length: ar ei hyd (i gyd) *She tripped and fell full length: Baglodd hi a syrthio ar ei hyd.*

full of cold: yn swp o annwyd, yn tsiwps o annwyd (S)

She is **full of her own importance:** Mae hi'n llawn ohoni ei hun, Mae hi'n fi fawr, Mae ganddi dipyn o stumog (S)

to be full of mischief: berwi o ddireidi, bod yn ddireidus/ddrygionus iawn

full of zest: yn ei afiaith (*ef)

full to capacity (with people): dan (ei) sang, yn llawn dop *The hall was full to capacity: Roedd y neuadd dan sang.*

full to capacity with ...: dan ei sang o ...

full to the brim: llawn hyd yr ymylon

fully grown: yn ei llawn dwf (*hi)

to fume in/with rage: malu ewyn, ffromi, cynddeiriogi

to furnish expensively: hel tipyn go lew i'r cwch (N) *I could see immediately that they*

had furnished the place expensively: Medrwn i weld yn syth eu bod wedi hel tipyn go lew i'r cwch.

to fuss about/over s.o.: ffwdanu/ffysan (S) am/ynghylch rhn

~

the gable end of the house: talcen y tŷ

to gain admittance to ...: cael mynd i mewn i ..., cael mynediad i ...

to gain credence: cael coel

to gain ground (i.e. to make progress): ennill tir

to gain strength: codi cefn *She is now gaining strength after her illness: Erbyn hyn mae hi'n codi cefn ar ôl ei hafiechyd.*

to gain the upper hand over ...: cael y llaw uchaf/drechaf ar ...

She is **game for anything:** Mae hi'n barod am unrhyw beth

a game of chance: chwarae damwain/hap/siawns, haphchwarae

to gape at ...: rhythu/syllu ar ...

The **gas is on:** Mae'r nwy'n llifo

to gather dust: hel llwch (N), casglu llwch (S)

to gather that ...: casglu bod ... *You will have gathered that I haven't much interest in astrology: Byddwch wedi casglu nad oes gen i fawr o ddiddordeb mewn astroleg.*

to gaze at/(up)on ...: syllu ar ...

generally true: cyffredinol wir *I don't think that is generally true: Dw i ddim yn meddwl bod hynny'n gyffredinol wir.*

generous in her praise: yn hael ei chlod

gentle with ...: tirion/tyner wrth .../tuag at ...

the genuine article: y gwir beth

- a germ of an idea:** egin syniad *A germ of an idea came into her mind: Daeth egin syniad i'w phen.*
- a gesture towards ...:** osgo at ... *She has made no gesture towards forgiving her brother: Dydy hi ddim wedi gwneud osgo at faddau'i brawd.*
- to get a dressing down:** cael y drefn, cael drwg, cael pryd o dafod
- to get a fair crack of the whip:** cael cyfle teg, cael chwarae teg
- to get a foot in the door of ...:** cael pig i mewn i ... *She succeeded in getting her foot in the door of the advertizing industry: Llwyddodd hi i gael ei phig i mewn i ddiwydiant hysbysebu.*
- to get a girl into trouble:** cael merch i helynt/drafferth, rhoi clec/cyw i ferch (N)
- to get a glimpse of her:** cael golwg arni, cael cip arni
- to get a move on:** brysio, rhoi traed arni
- to get a pleasant surprise:** siom ar yr ochr orau *She was expecting them to be complaining as usual but when they started speaking to her she got a pleasant surprise: Roedd hi'n disgwyl iddyn nhw gwyno fel arfer ond pan ddechreuon nhw siarad â hi cafodd hi siom ar yr ochr orau.*
- to get a raw deal from her:** cael cam ganddi
- to get a view of her:** cael golwg arni
- to get a word in edgeways:** cael gair i mewn (yn wysg ei ochr), cael ei phig i mewn (*hi)
- to get accustomed to ...:** cynefino â ..., dod i arfer â/efo ...
- to get ahead:** dod ymlaen, dod yn ei blaen (*hi)
- to get along well with her:** cyd-dynnu â/efo hi
- to get an advantage over ...:** cael y blaen ar ..., cael mantais ar ... *By arriving early she got an advantage over the other candidates: Wrth gyrraedd yn gynnar cafodd hi'r blaen ar yr ymgeiswyr eraill.*
- to get an opportunity to ...:** cael cyfle i ..., cael bachiad i ...
- to get ... as a present:** cael ... yn anrheg
- to get at her:** bod yn ei phen, bod â'i lach arni hi (*ef), ei chorddi hi *Huw got at her every day telling her to mend the car: Roedd Huw yn ei phen hi bob dydd yn dweud wrthi am drwsio'r car.*
- to get away:** cymryd y goes/traed, dianc *The police arrived in a short while but she got away: Cyrhaeddodd yr heddlu ymhen dipyn ond cymerodd hi'r goes.*
- to get away with it:** peidio â chael ei dal (*hi), osgoi cosb
- to get back into the rut:** troi'n ôl i'r hen rigolau
- to get better:** gwella
- Get better soon!** Brysia/Brysiwch i wella!
- to get blind drunk:** meddwi'n chwil/dwil/gaib
- to get by:** ymdopi *We won't have much money but we will get by: Fydd gennyn ni fawr o arian ond byddwn ni'n ymdopi.*
- to get close to ... (in time):** tynnu at ... *It's getting close to ten o'clock: Mae hi'n tynnu at ddeg o'r gloch.*
- to get cracking:** mynd ati, dechrau arni
- to get down to brass tacks:** dod/mynd at wraidd/graidd/galon y mater/busnes/ broblem
- to get even with her:** dial arni hi, talu'r pwyth yn ôl iddi
- to get fed up with ...:** alaru ar ..., cael llond bol o/ar ..., syrfeddu ar ...
- to get going:** cychwyn, ei chychwyn hi, codi stêm
- to get her breath back:** cymryd/cael ei gwynt/hanadl ati
- to get her hands on sth:** cael rth i'w dwylo, rhoi ei phump ar rth *He needed*

- to get his hands on a lot of money:* Roedd arno angen cael llawer o arian i'w ddwylo.
- to get her into trouble with the police:** creu helynt/trafferth iddi gyda'r/efo'r heddlu
- to get her message:** deall/dallt (N) beth sy(dd) ganddi, dallt y dalltins (N)
- to get her out of trouble:** ei thynnu hi o helynt/drafferth
- to get her own way:** cael gwneud fel y mynnai hi, cael ei ffordd ei hun(an)
- to get herself caught/arrested:** cael ei dal
- to get herself organized:** hel ei hun(an) at ei gilydd (N), cael ei hun(an) i drefn
- to get hold of ...:** cael gafael ar ... *As she fell she tried to get hold of the rope:* Wrth iddi syrthio ceisiodd gael gafael ar y rhaff.
- to get hold (i.e. possession) of sth:** cael rhth i'w dwylo (*hi)
- to get hold of the wrong end of the stick:** casynio/camgymryd yn llwyr, methu'n arw, deall rhth o chwith
- to get hurt:** cael anaf/dolur (S)/niwed
- to get in a flap:** mynd i ffwdan
- to get in her hair (i.e. annoy her):** bod yn dân ar ei chroen, mynd dan ei chroen
- to get into contact with ...:** dod i gysylltiad gyda/efo/â ...
- to get into deep water:** mynd i ddyfroedd dyfnion *She got into deep water when the conversation turned to economics:* Aeth hi i ddyfroedd dyfnion pan drodd y pwnc i economeg.
- to get into hot water:** mynd i helynt/drafferth, ei chael hi, cael helynt
- to get into mischief/trouble:** mynd i helynt/drafferth
- to get into the habit of doing it:** magu'r arfer o wneud y peth, mynd i'r arfer o wneud y peth
- to get it all buttoned up:** trefnu'r cyfan, cael popeth i fwcwl
- to get it in the neck:** ei chael hi('n enbyd/arw)
- to get married to her:** cael ei draed dan y bwrdd, hongian ei het ar yr hoelen *It was obvious he was hoping to get married to her:* Roedd yn amlwg ei fod e'n gobeithio cael ei draed dan y bwrdd gyda hi.
- to get on:** dod yn ei blaen (*hi), llwyddo, ffynnu *I wanted to see how the workmen were getting on on the roof:* Roeddwn i am weld sut roedd y gweithwyr yn dod yn eu blaen ar y to. *She studied diligently in order to get on:* Roedd hi'n astudio'n ddyfal er mwyn iddi ddod yn ei blaen.
- to get on her feet (e.g. in business, or after an illness):** cael ei chefn ati *After losing so much in the fire she is still trying to get back on her feet:* Ar ôl colli cymaint yn y tân mae hi'n dal i geisio cael ei chefn ati.
- to get on her nerves:** mynd ar ei nerfau, mynd dan ei chroen, mynd yn dân ar ei chroen, tynnu ei chlustiau
- to get on in the world:** dod ymlaen yn y byd
- to get on like a house on fire:** cyd-dynnu'n wych
- to get on together:** gyrru ymlaen, cytuno *Success will depend on how well they get on together:* Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ba mor dda byddan nhw'n gyrru ymlaen.
- to get on well with ...:** cyd-dynnu â/efo/gyda ... *Although she liked the work she did not get on well with her boss:* Er ei bod hi'n hoffi'r gwaith doedd hi ddim yn cyd-dynnu efo'i phennaeth.
- It's easy to **get on with her:** Mae'n hawdd gwneud â/efo/gyda hi
- Get on with it!** Ati â thi/chil!, Bant â thi/chil! (S)
- to get one up on ...:** cael rhagor ar ... *She got one up on her brother when she won the first prize:* Cafodd hi ragor ar ei brawd pan enillodd hi'r wobwr gyntaf.

- to **get one's act together**: cael tipyn o siâp/lun arni
- to **get one's own back**: talu'r pwyth yn ôl, dial ar ... *She got her own back by causing them to miss their train: Talodd hi'r pwyth yn ôl trwy beri iddyn nhw gollï'u trê.*
- to **get out of hand**: mynd yn afreolus/ddi-drefn
- to **get out of the car**: mynd allan/ma's o'r car
- to **get over** ...: dod dros ..., bwrw heibio ... *It will take a week or two to get over her disappointment: Bydd hi'n cymryd wythnos neu ddwy i ddod dros ei siom.*
- to **get over being homesick**: bwrw ei hiraeth (*ef/hi)
- to **get over it** (usually an illness or injury): dod trwyddi/drwyddi *Eventually she got over it: O'r diwedd daeth hi drwyddi.*
- to **get over one's shyness**: bwrw swildod
- to **get people's backs up**: tynnu ffræe yn ei phen (*hi), codi gwrychyn/mwnci pobl *Every time she mentions politics she gets people's backs up: Bob tro mae hi'n sôn am wleidyddiaeth mae hi'n tynnu ffræe yn ei phen.*
- to **get pleasure in** ...: ymhyfrydu yn ...
- to **get rattled**: cynhyrfu, mynd yn gynnwrf i gyd
- to **get reeling drunk**: meddwi'n chwil/dwll
- to **get revenge**: talu'r hen chwech yn ôl, talu'r pwyth yn ôl, dial ar ...
- to **get rid of** ...: cael gwared ar/â ..., mynnu gwared ar/â/rhag ..., cael ymadael â ..., gwaredu ar/rhag ...
- to **get rid of her**: gweld ei chefn hi
- to **get round to** ...: dod at ... *At last she got round to the question of cost: O'r diwedd mi ddaeth hi at fater y gost.*
- to **get s.o.'s back up**: digio rhn, codi gwrychyn/mwnci rhn
- to **get sth across to her**: cyfleu rhth iddi hi, argraffu arni
- to **get sth down to a fine art**: gwneud crefft o rth
- to **get sth from her**: cael rhth oddi wrthi hi
- to **get sth off the ground**: rhoi rhth ar hwyl/ar waith/ar gerdded, lansio rhth
- to **get tangled up**: mynd yn g(y)lymau
- to **get tangled up in** ...: mynd ynghlwm/ yn sownd yn/mewn ...
- to **get the best of an argument**: ennill dadl
- to **get the better of her**: mynd yn drech na hi, cael y trechaf arni hi, cael y llaw uchaf arni hi, cael y maes arni hi, mynd â'r maes arni
- to **get the blame for** ...: cael y bai am ..., cael drwg am ... *She always gets the blame for her brother's misbehaviour: Bob amser mae hi'n cael drwg am gamymddygiad ei brawd.*
- to **get the boot**: cael y droed/sac
- to **get the wrong end of the stick**: camddeall
- to **get things done**: rhoi gwaith drwy ei dwylo (*hi) *She is the best for getting things done: Hi ydy'r gorau am roi gwaith drwy ei dwylo.*
- I cannot **get through to her** (i.e. make her understand): Alla' i ddim cael ganddi ddeall, Dydy hi ddim yn fy neall i
- to **get through to her** (on the phone): cysylltu â/efo hi
- to **get to grips with** ...: mynd i'r afael â ... *It takes time to get to grips with major problems in a new job: Mae'n cymryd amser i fynd i'r afael â'r problemau pennaf mewn swydd newydd.*
- to **get to know from** ...: cael gwybod gan ... *She got to know about him from her sister: Cafodd hi wybod amdano gan ei chwaer.*
- to **get to know s.o.**: dod i (ad)nabod rhn

to **get to the bottom of sth**: mynd i berfedd/waelod/wraidd rhth

to **get undressed**: tynnu (oddi) amdani (*hi), tynnu ei dillad (oddi) amdani (*hi)

to **get up** (from one's bed): codi

to **get up and go**: ei gloywi/gwadnu hi
When his father came in they decided to get up and go: Pan ddaeth ei dad i mewn penderfynon nhw ei gloywi hi.

to **get up from her knees**: codi oddi ar ei gliniau

to **get up on the wrong side of the bed**: codi'r ochr chwith i'r gwely

to **get upset about/over** the cruelty: cymryd ati dros/oherwydd y creulondeb, gofidio am y creulondeb

to **get used to living** here: cynefino â/efo byw fan yma, dod i arfer â/efo byw fan yma

to **get used to things** (after a change has occurred): dod i arfer (â phethau), arfer/yngyfefino/yngyfarwyddo/dygymod â phethau *It will take time to get used to things: Bydd hi'n cymryd amser i ddod i arfer.*

to **get weaving**: mynd ati, bwrw/ymroi iddi, gafaal ynddi

to **get wind of ...**: cael achlust o ..., clywed si/sôn am ...

to **get worked up**: mynd i stêm *She got worked up whenever s.o. mentioned her ex-husband: Byddai hi'n mynd i stêm pryd bynnag soniai rhn am ei chyn wŕ.*

to **be getting at her**: bod yn ei phen
After her unfortunate mistake everyone in the office was getting at her: Ar ôl ei gwall anffodus roedd pawb yn y swyddfa yn ei phen.

to **be getting on a bit (in age)**: tynnu ymlaen (N), bwrw ymlaen (S), mynd ymlaen mewn dyddiau, bod mewn tipyn/gwth o oed, mynd i oed

It is **getting on for** seven o'clock: Mae hi'n gyrru ar/tynnu at saith o'r gloch

She is **getting on for** sixty years old: Mae hi'n gyrru ar/tynnu at drigain oed

getting worse: ar i waered, ar i lawr, tuag i lawr *It's obvious that she's getting worse: Mae'n amlwg ei bod hi ar i waered.*

to **gird up their loins**: gwregysu eu lwynau/llwynau, ymwregysu

a **girl with her head in the clouds**: hogan/merch a'i phen yn y gwynt, merch benchwiban

the **gist of the argument**: craidd y ddadl, esgyrn sychion y ddadl

to **give a broad hint that ...**: rhoi gair i gall bod ..., rhoi ar ddeall bod ...

She doesn't **give a fig/hoot/tinker's cuss**: Dydy hi ddim yn hidio/malio/rhoi botwm/corn/botwm/ddraen/gwelltyn/blewyn

to **give a good account of herself**: rhoi cyfrif da ohoni'i hun

to **give a hint that ...**: awgrymu bod ..., rhoi gair i gall bod ..., rhoi ar ddeall bod ...

to **give a pat on the back**: curo cefn

to **give a reason for ...**: rhoi rheswm dros ...

to **give a toast**: cynnig llwncdestun

to **give an undertaking to finish the job**: addo gorffen y dasg, ymgymryd â gorffen y dasg

to **give approval of/to ...**: rhoi sêl ei bendith ar ... (*hi) *She gave her approval to the agreement: Rhoddodd hi sêl ei bendith ar y cytundeb.*

to **give as a pledge/security**: rhoi ar wystl, rhoi'n ernes

to **give as a present**: rhoi yn anrheg

to **give as good as one gets**: rhoi dau chwech am swllt

to **give birth to ...**: esgor ar ..., dwyn ... i'r byd, rhoi genedigaeth i ...

to **give chapter and verse**: rhoi pennod ac adnod

- to **give credence to** ...: rhoi coel ar ...
- to **give everyone a fair share of the cake**: rhannu'r dorth yn deg
- to **give free rein to her imagination**: rhoi rhaff i'w dychymyg, rhoi rhwydd hynt i'w dychymyg
- to **give ground**: tynnu'n ôl, encilio *She insisted that her friend was innocent but she had to give ground when she saw all the evidence: Roedd hi'n taeru bod ei chyfaill yn ddieuog ond roedd hi'n gorfod tynnu'n ôl pan welodd hi'r holl dystiolaeth.*
- to **give grudgingly**: estyn ar hyd ei din (*ef), rhoi o'i anfodd (*ef) *Although he was the child's father he gave grudgingly to support him: Er ei fod yn dad i'r plentyn estynnodd ar hyd ei din ar gyfer ei gynnal.*
- to **give her a bit of rope** (i.e. a bit of freedom): rhoi rhaff iddi hi
- to **give her a blank cheque to do whatever she wants**: gadael iddi hi wneud yr hyn a fyddo (gostied a gostio), rhoi penrhyddid iddi
- to **give her a chance**: rhoi cyfle/lle iddi hi *Give her a chance to sleep: Rhowch le iddi hi gysgu.*
- to **give her a dig in the ribs**: rhoi pwniad/pwt/hwb iddi yn ei hasennau
- to **give her a dose of her own medicine**: rhoi blas ei ffisig/moddion ei hun iddi hi
- to **give her a free rein to** ...: rhoi ffrwyn/rhwydd hynt iddi hi i ... *She gave the children free rein to play in the wood: Rhoddodd hi rwydd hynt i'r plant i chwarae yn y goedwig.*
- to **give her a good telling off**: rhoi llond pen iddi (S), rhoi pryd o dafod iddi, rhoi ei hyd a'i led iddi (N), dweud ei hyd a'i led wrthi
- to **give her a name**: rhoi enw arni hi
- to **give her a pat on the back**: curo ei chefn, ei chanmol
- to **give her a piece of my mind**: rhoi blas fy nhafod iddi hi, rhoi llond pen iddi hi (S)
- to **give her a rough time**: ei chamdrin hi, bod yn gas wrthi hi
- to **give her a suspicious look**: edrych yn chwithig arni hi
- to **give her** (i.e. to her) **expert advice**: ei rhoi hi ar ben y ffordd
- to **give her her due**: cadw chwarae teg iddi hi, rhoi ei haeddiant iddi, bod yn deg â hi
- to **give her mind to** ...: rhoi ei bryd ar ... *I have given my mind to preparing the work for publication: Rwy wedi rhoi fy mryd ar baratoi'r gwaith i'w gyhoeddi.*
- to **give her no peace until she** ...: tarfu arni nes iddi ...
- to **give her one's word**: addo iddi hi
- to **give her** (i.e. to her) **support** (moral or practical): bod yn gefn iddi hi
- to **give her the boot/push**: cael gwared â/arni hi, rhoi blaen troed iddi hi
- to **give her the cold shoulder**: ei hanwybyddu hi, troi ei drwyn arni (*ef)
- to **give her the slip**: llithro heibio iddi hi, ei hosgoi hi
- to **give her to understand that she would not be welcome**: rhoi ar ddeall iddi hi na fyddai croeso iddi
- to **give in**: ildio *She was determined not to give in: Roedd hi'n benderfynol o beidio ag ildio.*
- to **give it teeth** (i.e. effectiveness): rhoi dannedd/grym iddo
- to **give one an appetite/desire for** ...: codi stumog/awydd at ...
- give or take a few**: mwy neu lai *She took a hundred photographs give or take a few: Tynnodd hi gant o luniau fwy neu lai.*
- to **give rise to** ...: rhoi bod/bodolaeth i ... *Your decision will give rise to a lot of*

animosity: *Bydd eich penderfyniad yn rhoi bod i lawer o elyniaeth.*

to **give s.o. sth:** rhoi rhth i rn

to **give the game/show away:** gollwng y gath o'r cwd *They wanted to keep their destination a secret but Gwladys inadvertently gave the game away: Roedden nhw am gadw pen eu taith yn gyfrinach ond gollyngodd Gwladys y gath o'r cwd.*

to **give the lie to ...:** gwrth-ddweud ... *Their actions gave the lie to their claim that they wanted to help her: Roedd eu gweithredoedd yn gwrth-ddweud eu honiad bod arny'n nhw eisiau ei chynorthwyo.*

to **give to Oxfam:** rhoi at Oxfam

to **give up swimming:** rhoi'r gorau i nofio

to **give up all hope:** rhoi pob gobaith heibio

to **give up his/her ...:** rhoi'r gorau i'w ... *When she was sixty she gave up her motorbike: Pan oedd hi'n drigain oed rhoddodd hi'r gorau i'w beic modur.*

to **give up learning/trying to do sth:** rhoi'r ffidil yn y to *After two years' learning to drive he decided to give it up: Ar ôl dwy flynedd o ddysgu gyrru penderfynodd e roi'r ffidil yn y to.*

to **give up the habit:** rhoi'r gorau i'r arferiad, gadael yr arferiad heibio

to **give vent to her anger:** arllwys/tywallt/ gollwng ei ffynigrwydd/llid/dicter

to **give vent to her grievance(s):** arllwys ei chwd (S)

to **give way** (i.e. yield): ildio *She was determined not to give way: Roedd hi'n benderfynol o beidio ag ildio.*

to **give way** (i.e. collapse): syrthio/cwmpo, suddo

to **give way to ...:** ildio i ...

given half a chance: ar ddim, gyda dim (S) *She will cheat you given half a chance: Bydd hi'n eich twyllo chi ar ddim.*

She was **given to understand that she was ...:** Cafodd hi ei rhoi ar ddeall ei bod ...

to be **glad of ...:** llawenhau wrth ..., bod yn falch o ...

glad rags: dillad/carpau gorau

to **glance at/over ...:** tafllu/bwrw golwg/ cipolwg ar/dros ...

a **glimmer of fire:** llygedyn o dân

a **glimmer of hope:** llygedyn o oibaith/ olau

to **gloat over ...:** gorawenu/gorfoleddu dros ...

to **gloss over her mistakes:** gwneud yn fach o'i chamgymeriadau

to **glow with pride:** gwrido gan falchder

to **gnash one's teeth:** rhincian dannedd, gwasgu dannedd

to **go about her business:** mynd o gwmpas ei phethau

to **go according to plan:** mynd yn ôl y disgwyl

to **go ahead** (i.e. proceed): mynd rhagddi (*hi) *She was not able to leave the area while the investigations were going ahead: Fedrai hi ddim ymadael â'r ardal tra oedd yr ymchwiliadau'n mynd rhagddynt.*

to **go along with ...** (i.e. agree or accompany): cefnogi ... (heb frwdfrydedd), cytuno â ..., cydgerdded â ..., cyd-fynd â ... *She went along with the decision because she could not think of an acceptable alternative: Roedd hi'n cefnogi'r penderfyniad oherwydd na allai feddwl am ddewis derbyniol arall.*

Does she **go anywhere?:** Fydd hi'n mynd i rywle?

to **go astray:** mynd ar ddisberod/gyfeiliorn

to **go at a steady pace:** mynd gan bwyll, mynd dow-dow (N)

to **go at it:** mynd ati *When she heard the news she immediately went at it writing letters to the newspapers: Pan glywodd hi'r*

newyddion aeth hi ati i sgrifennu llythyrau i'r papurau newydd.

to **go at it hammer and tongs**: mynd ati nerth de(n)g ewin, mynd ati â'i holl nerth (*ef/hi), mynd ati fel lladd nadroedd, mynd ati'n galed

to **go away**: mynd bant (S)/i ffwrdd

to **go back (home)**: ei throi hi, mynd adref, mynd tua thre (pronounced 'sha thre') (S) *It's midnight – I must go back: Mae'n ganol nos – rhaid i mi ei throi hi.*

to **go back on her word**: cilio oddi wrth ei gair, torri'i gair

to **go back to her roots**: mynd yn ôl at ei gwreiddiau

to **go bad** (i.e. rotten): mynd yn ddrwg/bwdr, pydru

They will **go bankrupt**: Byddan nhw'n mynd yn fethdalwyr, Bydd yr hwch yn mynd yn trwy'r siop, Byddan nhw'n mynd i'r wal/clawdd

to **go broke**: torri, mynd yn fain arni (*hi), mynd i'r wal *She has gone broke: Mae hi wedi torri. Mae (hi) wedi mynd yn fain arni hi.*

to **go down a blind alley**: dilyn trywydd ofer

to **go down the wrong way** (i.e. when swallowing): mynd i lawr y ffordd groes/ y camdwl

to **go downhill** (fig.): mynd rhwng y cŵn a'r brain, mynd ar i waered/ar y goriwaered *After her death the business went downhill very quickly: Ar ôl ei marwolaeth aeth y busnes rhwng y cŵn a'r brain yn sydyn.*

to **go expressly to ...**: mynd yn unswydd i ... *She went expressly to complain about the shouting: Aeth hi'n unswydd i gwyno am y gweiddi.*

to **go for a dip**: mynd i drochi/ymdrochi

to **go freelance**: mynd ar ei liwt ei hun(an) (*ef/hi), cael ei thraed yn rhydd (*hi)

to **go from bad to worse**: mynd o ddrwg i waeth

to **go from strength to strength**: mynd o nerth i nerth

to **go furtively to s.o.**: sleifio at rn

to **go grey** (referring to hair): britho

to **go her own way**: mynd i ben ei helynt *She got a lot of advice but she insisted on going her own way: Cafodd hi lawer o gyngor ond penderfynodd fynd i ben ei helynt.*

to **go home**: as for **go back (home)**

to **go into a blind panic**: mynd i banic glas

to **go into a sulk**: llyncu mul, pwdu

to **go into decay**: dirywio, mynd ar waeth, gwaethygu, mynd ar i lawr, dadfeilio

to **go into details about ...**: manylu ar ...

to **go into liquidation**: mynd i'r wal, ymddiddymu

to **go like clockwork**: gweithio/mynd fel cloc

to **go near to ...**: cyrchu at ..., mynd ar gyfyl ..., mynd yn agos at ...

to **go off at a tangent**: mynd ar ôl ysgyfarnog

to **go off the deep end**: gwylltio'n gacwn, mynd o'i chof (*hi)

to **go on**: mynd ymlaen *Then she went on to Cardiff: Wedyn aeth hi ymlaen i Gaerdydd.*

to **go on an eating binge**: mynd ar sbri bwyta, hel yn ei bol (*hi) (N)

to **go on and on** (talking): bwrw drwyddi/trwyddi

to **go on foot**: cerdded, ei throedio hi

to **go on talking for a long time**: mynd ymlaen yn hir

to **go on the rocks**: mynd yn llongddrylliad, mynd i'r gwellt, dod i ben *The marriage went on the rocks within a year: Aeth y briodas yn llongddrylliad o fewn blwyddyn.*

to **go out** (rather than stay at home):
codi/mynd allan (N), mynd ma's (S)
*Aren't you going out tonight?: On'd wyt ti'n
codi allan heno?*

to **go out of her way to do sth**: mynd i
drafferth/cymryd trafferth (S) arbennig i
wneud rth *She would go out of her way to
ensure that her guests would enjoy their visit:
Byddai hi'n mynd i drafferth arbennig i
sicrhau y byddai ei gwsteion yn mwynhau eu
hymwelïad.*

to **go out on the town**: mynd ar sbri

to **go over her head** (i.e. go directly to
one's superior): mynd dros ei phen (*hi)

to **go over it with a fine tooth comb**:
mynd trwy'r peth â chrib mân/fân

to **go right for/with her**: gweithio o'i
phlaid hi, llwyddo ganddi *Nothing goes
right for her: Does dim yn gweithio o'i phlaid
hi.*

to **go round the bend**: mynd o'i chof
(*hi), drysu, hurtio

to **go the way of all flesh**: mynd ar/i
ffordd yr holl ddaear/fyd, marw

to **go the whole hog**: mynd i'r eithaf/pen,
mynd bob cam o'r ffordd

Do I have to **go through with** the plan?:
Oes rhaid i mi fynd ymlaen â'r cynllun?

to **go to see**: mynd i weld

She would **go to any lengths**: Byddai hi'n
gwneud unrhyw beth yn y byd

She would **go to great lengths to** ...:
Byddai hi'n mynd i drafferth i ...

to **go to her head**: codi/mynd i'w phen,
codi yn ei phen *Her success has gone to
her head: Mae ei llwyddiant hi wedi codi i'w
phen.*

to **go to pot**: mynd â'i phen iddi (*hi)
*The chapel has gone to pot this year: Mae'r
capel wedi mynd â'i ben iddo eleni.*

to **go to rack and ruin**: mynd rhwng y
cŵn a'r brain, mynd yn draed defaid
Since Robert died the house has gone to rack

*and ruin: Ers i Robat farw mae'r tŷ wedi mynd
rhwng y cŵn a'r brain.*

to **go to the dogs** (i.e. sink in people's
esteem): mynd i'r cŵn

to **go to the wall** (i.e. become bankrupt):
mynd i'r wal

to **go with the stream**: canlyn y llif, mynd
gyda'r llif

to **go wrong**: mynd o/yn chwith

God willing!: os Duw a'i myn(n), a Duw'n
caniatáu

That **goes without saying**: Mae hynny'n
amlwg

It **goes without saying that she is** ...:
Does dim rhaid dweud ei bod hi ...

going around: ar led, ar gerdded *There is
a rumour going around that she is very ill:
Mae si ar led ei bod hi'n wael.*

a **going concern**: busnes gweithredol/ar
fynd

She must have been **going like the
clappers**: Mae'n rhaid ei bod hi'n taranu
mynd, Mae'n rhaid ei bod hi'n mynd fel
cath i gythraul/fel Jehu/fel trên

going on: ar gerdded, ar dro *There's sth
very odd going on: Mae rhth od iawn ar
gerdded.*

Golly!: Myn gafr!

to have been **gone a long time**: bod wedi
hen fynd *She is beginning to worry because
he has been gone a long time: Mae hi'n
dechrau pryderu achos ei fod wedi hen fynd.*

a **good mile**: milltir go dda (N), cryn filltir

She is **good at physics**: Mae hi'n un dda
mewn ffiseg

She is **good at remembering** ...: Mae hi'n
un dda am gofio ...

a **good distance**: cryn bellter, pellter diogel
*She decided to live a good distance from all
her relatives: Penderfynodd hi fyw pellter
diogel oddi wrth ei pherthnasau i gyd.*

good for toothache: da at y ddannoedd

Good for you! Chwarae teg i chi!

Good gracious/heavens! Nefi blw/las/wen!, Rargian fawr!, Nefoedd!, Esgob/Esgyrn Dafydd!, Brenin/Brensiach y bratiau! (N)

It is a **good idea**: Mae'n syniad da, Mae'n dda o beth *It is a good idea to keep a spare key*: Mae'n dda o beth cadw allweddlagoriad sbâr.

It is a **good job she decided to go**: Mae'n dda/beth da iddi hi benderfynu mynd, Gorau oll iddi benderfynu mynd

Good Lord! O'r Mawredd!, Mawredd Mawr!

Good luck to her! Pob lwc iddi (hi)!, Lwc/Mawr dda iddi (hi)!, Pob rhwyddineb iddi (hi)!

I have a **good mind to ...**: Bron na wnawn i ... *I've a good mind to go there myself*: Bron nad awn i yno fy hun.

It is very **good of you to ...**: Chwarae teg i chi am ..., Un da wyt ti i ...

Good riddance to her! Gwynt teg ar ei hôl!, Gwynt teg o'i hôl!, Gwynt teg iddi hi!

It is a **good thing**: Mae hi'n dda o beth/beth da *It was a good thing she arrived early*: Roedd hi'n dda o beth ei bod hi wedi cyrraedd yn gynnar.

a **good thing for producing a shine**: peth da at sgleinio/at greu sglein

It would be a **good thing if we were to ask her**: Byddai hi'n eithaf peth inni ofyn iddi hi

It is a **good thing she called**: Lwc ei bod hi wedi galw

Goodness me! Gwarchod pawb!, Nefi blw!, Mawredd!, Pobl bach y Bala! (N)

goose-pimples: croen gŵydd, croen iâr

to **gorge herself on raspberries**: bwyta llond ei bol o fafon

to **gossip about other people's affairs**: trin ceffyl pobl eraill, clepian, clebran, hel

clecs (N), hel chwedlau (N), hel straeon (N), cloncan (S)

You've **got another think coming!**: Fe gei di weld peth arall!, Bydd rhaid i ti ailfeddwl!

She had the **grace to admit that ...**: Bu hi'n ddigon graslon i gyfaddef bod ...

to **grasp sth** (physically): cydio/gafael yn rthh

to **grasp the opportunity**: achub y cyfle, dal ar y cyfle

to **grate on her ear**: merwino ei chlust

to **grate on her nerves**: crafu ei nerfau, bod yn dân ar ei chroen

to **grease her palm**: iro ei llaw

a **great demand/call for ...**: mynd mawr ar ..., galw mawr am ... *At present there is a great demand for purple hats*: Ar hyn o bryd mae mynd mawr ar hetiau porffor.

great pals: llawiau garw, cyfeillion mynwesol

It is a **great pity**: Mae'n drueni/bitri mawr, Mae'n resyn o beth (N), Mae'n resyn garw (N), Mae'n bechod (N) *It was a great pity she left the valley*: Roedd yn resyn o beth iddi hi adael y cwm.

a **great support to her**: cefn mawr iddi hi *Her family have been a great support to her in her tribulation*: Mae ei theulu wedi bod yn gefn mawr iddi hi yn ei phrofedigaeth.

green with envy: gwyrdd o genfigen, yn berwi o eiddgedd

greying hair: gwallt brith

to **grieve about/over s.o./sth**: gofidio/galaru am/dros rn/rth

to **grimace at ...**: tynnu stumiau ar ..., gwneud cleme/siopsau ar ... (S), gwneud ceg gam ar ... (N)

to **grin and bear it**: dioddef yn ddistaw

to **grind s.o. down**: cael yr afael drechaf ar rn *It was the prairie that ground down her mother*: Y paith gafodd yr afael drechaf ar ei mam.

to **grit her teeth**: gwasgu ei dannedd

grounds for divorce: rhesymau dros ysgariad

There are **grounds for believing that ...**:

Mae lle i gredu bod ...

grown up: yn ei llawn dwf (*hi)

a **grudging offer**: cynnig o hyd braich

A grudging offer is worse than no offer at all:

Mae cynnig o hyd braich yn waeth na dim cynnig o gwbl.

to **grumble at her**: cega/arthio/lladd/
rhedeg/swnian/cwyno (S) arni hi

to **guarantee the money for** that purpose:
gwarantu'r arian at y pwrpas hwnnw

to **guard her from/against** thieves: ei
gwarchod rhag lladron

a **guest speaker**: gŵr gwadd

a **guide dog**: ci tywys

guilty of ...: euog o ...

to **gush over her**: perlesmeirio drosti

a **gust of wind**: awel/gwth/cawad/chwa/
cwthwm/chwaff (S) o wynt



the **habit of ...**: yr arfer o ...

a **habitual drunkard**: meddwyn diymatal/
wrth reddf

a **hackneyed phrase**: ystrydeb

She **had better ...**: (Mae'n/Basai'n) well
iddi hi ... *You had better leave
immediately: Well i ti adael yn syth.*

We've **had it**: Mae hi wedi canu arnon ni
*If the plan fails I've had it: Os gwneith y
cynllun fethu bydd hi wedi canu arna' i.*

to **hail from ...**: hanfod o ..., hanu o ...

hair covering a bald area: gwallt to

with her **hair in a mess**: â'i gwallt am ei
dannedd

a **hair parting**: rhes(en) wen, rhaniad
gwallt

hale and hearty: llond ei chroen, mewn
cas cadw da (S), fel y gneuen *She still
looked hale and hearty after a week in
hospital: Roedd hi'n dal i edrych yn llond ei
chroen ar ôl wythnos yn yr ysbyty.*

to **half agree**: lled-gytuno

half done/finished: ar hanner ei orffen, ar
ei hanner

half in jest: rhwng chwarae a difrif

half open: lled agored, cilagored

to **hammer home the truth**: hoelio'r
gwirionedd

to work **hand in glove with each other**:
cydweithio'n glôs, gweithio trwy'i gilydd

hand to hand: dwrn tra dwrn *There was
hand-to-hand fighting in the streets: Roedd 'na
frwydro dwrn tra dwrn ar y strydoedd.*

handed down: o law i law *The children
had only handed-down clothes: Dim ond dillad
o law i law oedd gan y plant.*

a **handful** (see also **real handful**): llond
llaw/dwrn *There were not many there –
only a handful: Doedd 'na ddim llawer yno –
dim ond llond llaw.*

a **handle of a cup**: clust/dolen cwpan

the **handle of the racket**: coes y rhaced

handmade products: gwaith llaw

Her **hands are tied**: Mae ei dwylo
ynghlwm

hands of a clock: bysedd cloc

a **handsome profit**: elw sylweddol/mawr

handy with his hands: un da ei law, un
deche (S)

to **hang a door**: gosod/hongian drws

to **hang a murderer on a gallows**: crogi
llofrudd ar grocbrwn

to **hang about/around**: sefyllian, loetran

to **hang by the neck**: crogi gerfydd y
gwddf/gwddw

to **hang her head**: gostwng ei phen

to **hang in the balance**: bod yn y fantol

to **hang on every word**: gwrandu'n astud

to **hang on like grim death to ...**: dal am ei bywyd yn ... (*hi), glynu fel gele(n) wrth ...

to **hang on to ...**: hongian wrth ..., dal/cydio/gafael yn ..., dal gafael yn ...

to **hang out washing**: rhoi dillad ar (y) lein, taenu dillad, rhoi dillad ma's (S)

Hang the cost!: Costied a gostio!

to **hang up her boots** (fig.): crogi ei thelyn ar yr helyg, rhoi'r twls ar y bar (S)

to **hang wallpaper**: gosod/hongian papur wal, papuro, rhoi/dodi papur ar wal

I'll be **hanged if I'll go!**: Af i ddim dros fy nghrogi!

hanging on to s.o.'s apron strings: wrth sawdl rhn, yn dynn wrth linydd ffeudog rhn
The child was for ever hanging on to his mother's apron strings: Roedd y plentyn byth a beunydd wrth sawdl ei fam.

hanging over their heads (i.e. threatening them): yn eu bygwth, yn crogi uwch eu pennau

to **hanker after sth**: dyheu/hiraethu am rth, bod ag awydd rhth, dymuno rhth

She **happened to see** them in town yesterday: Digwyddodd hi eu gweld nhw yn y dre ddoe

happy as a lark/king: hapus fel y gog, mor llon â brithyll, mor llawen â'r gog

hard as flint: caled fel callestr

hard as iron: (caled) fel haearn Sbaen

hard at it: wrthi'n ddygn *After moving to Wales she was hard at it learning Welsh: Ar ôl mudo i Gymru roedd hi wrthi'n ddygn yn dysgu Cymraeg.*

hard cash: arian sychion

to be **hard done by**: cael cam *Women are hard done by: Mae merched yn cael cam.*

It is **hard luck that she ...**: Mae'n hen dro iddi hi ... *It's hard luck that she had to miss all the celebrations: Mae'n hen dro iddi hi orfod colli'r holl ddathliadau.*

hard of hearing: trwm ei chlyw (*hi), hwydrwm ei chlustiau *Don't talk so loud – I'm not hard of hearing: Paid â siarad mor uchel – dw i ddim yn drwm fy nghlyw.*

She is **hard pressed**: Mae hi dan bwysau

She was **hard put to it to explain**: Fe'i cafodd hi'n anodd egluro

It is **hard to the touch**: Mae e'n/o'n galed i'w gyffwrdd/deimlo (*ef)

She is **hard up**: Mae'n mynd yn big/fain arni, Mae hi'n brin o arian/bres, Mae hi'n dynn arni

the **hardest part of the day's work**: pwys a gwres y dydd

She can **hardly ...**: Ar ei gorau/Prin/O'r braidd y gall/medr hi ... *She can hardly boil an egg: Ar ei gorau y gall hi ferwi wy.*

hardly anyone: nemor un, fawr neb, prin un ohonynt, braidd neb (S) *There was hardly anyone there: Doedd nemor un yno.*

hardly anything: nemor ddim, fawr o ddim, braidd dim (S) *There was hardly anything left: Doedd nemor ddim ar ôl. Doedd fawr o ddim ar ôl.*

Hardly likely!: Go brin!

hardly likely ...: go brin ..., prin y ... *I am hardly likely to remember: Go brin cofiaf i. Prin y cofiaf i.*

to **harm her prospects**: amharu ar ei gobethion

to **harp on about ...**: rhygnu ymlaen am ..., rhygnu ar ... *She was harping on about the same old subject: Roedd hi'n rhygnu ar yr un tant.*

She **has a bee in her bonnet**: Mae rhyw chwilen yn ei phen

She **has a cheek to ask**: Mae wyneb ganddi i ofyn, Mae ganddi wyneb i ofyn

She has a cold: Mae annwyd arni hi, Mae ganddi hi annwyd (N)

She has a high temperature: Mae gwres uchel arni, Mae ganddi hi wres uchel (N)

She has a rough idea how ...: Mae ganddi hi frasamcan/(ryw) syniad pa mor ...

She has a rough idea how heavy they are: Mae ganddi hi frasamcan pa mor drwm maen nhw.

She has a rough idea how to ...: Mae ganddi hi frasamcan/(ryw) syniad sut mae ... *She has a rough idea how to get there: Mae ganddi hi ryw syniad sut mae cyrraedd.*

She has a smattering of ...: Mae ganddi grap ar ... *Although she has lived in Wales for ten years she has only a smattering of Welsh: Er ei bod yn byw yng Nghymru ers deng mlynedd dim ond crap ar y Gymraeg sydd ganddi hi.*

She has an axe to grind: Mae ganddi gylllell i'w hogi

She has an eye for ...: Mae ganddi hi lygad da am ... (N), Mae llygad dda (gy)da hi am ... (S), Mae hi â llygad da/dda (S) am ..., Mae hi'n un dda am ddeuwis ... *She has an eye for valuable antiques: Mae ganddi hi lygad da am hen bethau gwerthfawr.*

She has got used to ...: Mae hi wedi ymgyfarwyddo/(hen) arfer/dod yn gyfarwydd â/efo/gyda ...

She has had more than enough: Mae hi wedi cael hen ddigon/mwy na digon/ei gwala *I am not doing any more – I've had more than enough: Dydw i ddim yn gwneud rhagor – rydw i wedi cael hen ddigon.*

She has had to ...: Mae hi wedi gorfod ..., Bu'n rhaid iddi hi ... *I have had to speak impromptu many times: Rydw i wedi gorfod siarad heb baratoi lawer gwaith.*

She has her hands full (of work or things): Mae ganddi hi lond ei dwylo/lond côl o waith

She has no cause for complaint: Does ganddi hi ddim lle/achos i gwyno/achwyn

She has no cause to worry: Does ganddi hi ddim lle/achos i boeni

She has not much about her: Mae hi heb lawer o gamp arni

She has not stirred (from her bed) yet: Dydy hi ddim wedi rhoi tro eto

The play has sth to do with the murder of a girl: Mae a wnelo'r ddrama (rth) â llofruddiaeth merch (N), Mae'r ddrama'n ymwneud â llofruddiaeth merch

She has to go: Mae('n) rhaid iddi hi fynd, Mae hi'n gorfod mynd

She hates to be flattered: Mae'n gas ganddi gael ei gwenieithio

hatred of/towards ...: cas tuag at ..., cas wrth ...

to have a bad effect on her: dweud arni *Her recent experience will have a bad effect on her: Bydd ei phrofiad diweddar yn dweud arni.*

to have a chip on one's shoulder: dal dig, bod â'ch corn dan bawb

to have a crush on her: gwirioni/ffoli/dwli (S) arni

to have a deep desire to ...: gwir deimlo ar ei chalon ynghylch ... (*hi) *If you had a deep desire to learn Welsh you would start tomorrow: Tasech chi'n gwir deimlo ar eich calon ynghylch dysgu Cymraeg basech chi'n dechrau yfory.*

to have a difficult time with her: cael llaw drom gyda/efo hi *She had a difficult time with her mother before she died: Cafodd hi law drom gyda'i mam cyn iddi farw.*

to have a dig at her: rhoi pwyth/pulsen (N)/bipsan (S) iddi hi

to have a foot in both camps: rhedeg gyda'r ci a chydya'r ysgyfarnog, gweiddi hys gyda'r cŵn a hwi gyda'r cadno (S), gweiddi hai efo'r cŵn a hwi efo'r geinach (N)

- to **have a frog in her throat**: bod â chrygni ar ei llais, bod yn gryglyd
- to **have a narrow escape**: dianc o drwch blewyn, dianc â chroen eich dannedd, cael dihangfa gyfyng
- to **have a quick look at/over ...**: bwrw/taflu golwg ar/dros ..., taro cipolwg/golwg ar/dros ..., cael cip ar/dros ...
- to **have a rough idea**: gwybod amcan/yn fras (N)
- to **have a short break**: rhoi clun i lawr, cymryd hoe (S) *You may have a short break every hour: Cewch chi roi clun i lawr bob awr.*
- to **have a word in her ear**: chwythu yn ei chlust
- to **have an/the opportunity to ...**: cael (y) cyfle i ... *You will have the opportunity to get on in the BBC: Byddwch chi'n cael y cyfle i ddod yn eich blaen yn y BBC.*
- to **have another helping**: cymryd rhagor/'chwaneg
- I don't **have anything to do with such things**: Does gen i ddim i'w ddweud wrth bethau felly
- to **have designs on her**: bod â'i lygad arni (*ef), ei llygadu hi'n awyddus
- to **have done with ...**: rhoi'r gorau i ... *Let us have done with recriminations: Gadewch i ni roi'r gorau i wrthgyhuddiadau.*
- to **have enough and to spare**: cael ei gwala a'i gweddill, cael digon a pheth dros ben
- to **have enough on one's plate**: bod â digon ar ei phlât (*hi), bod yn gyfrifol am ddigon o orchwylion
- to **have fun at her expense**: cael hwyl am ei phen
- to **have her back to the wall**: bod â'i chefn at y wal, bod mewn caethgyfle
- to **have her finger in every pie**: bod â'i bys ym mhob brywes
- She needs to **have her head read** (for being so stupid): Mae arni hi eisiau berwi ei phen
- to **have her say**: cael dweud ei dweud
- to **have her watched**: ei rhoi hi dan wylidwriaeth
- to **have it all one's own way**: cael rhwydd hynt, cael tragwyddol heol
- to **have kittens** (with fright etc.): cael cathod bach/braw/ofn
- to **have mercy on her**: trugarhau wrthi hi, tosturio wrthi hi
- to **have more than enough of** studying: cael llond bol(a) ar astudio
- to **have more than enough of her**: cael llond bol(a) ohoni/arni hi, diflasu arni hi
- to **have more than one string to one's bow** (see also **have two strings to one's bow**): godro mwy nag un fuwch
- I **have no idea**: Wn i ar wyneb y ddaear, Wn i ddim byd, Dwn i'm byd (N), Does gen i'm syniad (N), Does dim amcan 'da fi (S) *I've no idea where she lives: Wn i ar wyneb y ddaear lle mae hi'n byw.*
- to **have one's cake and eat it**: ei chael hi bob ffordd, cadw'r dorth a'i bwyta
- to **have one's head screwed on (the right way)**: Bod â hen ben ar eich ysgwyddau, bod yn ddoeth/gall
- You **have only to say the word**: ar flaen gair *I will help – you have only to say the word: Gwna' i helpu – ar flaen gair.*
- to **have pity on ...**: tosturio wrth/dros ..., teimlo dros ...
- to **have revenge on ...**: ymddial/dial ar ..., talu'r pwyth yn ôl i ...
- to **have second thoughts about ...**: ailfeddwl am ...
- to **have sth to do with ...**: ymwneud â ..., bod a wnelo rth â ... *She knew the letter would have sth to do with her divorce: Roedd hi'n gwybod basai'r llythyr yn ymwneud â'i hysgariad.*

to **have suspicions about** ...: drwgdybio/
amau ...

to **have the edge on her**: bod â mantais
arni

to **have the gift of being able to** ...:
meddu ar y ddawn i ...

to **have the reputation of being** ...: cael
yr enw o fod ..., cael y gair o fod ...
She has the reputation of being very generous:
Mae hi'n cael y gair o fod yn dra haelionus.

to **have time on one's hands**: bod â
digionedd o amser hamdden

I don't **have to** ...: Does dim rhaid i mi/
fi ..., Dydy hi ddim yn rhaid i mi/fi ...,
Dw i ddim yn gorfod ..., Caf i beidio
â ...

They **have to go**: Maen nhw'n gorfod
mynd, Mae rhaid iddyn nhw fynd

to **have two strings to one's bow**: bod yn
feistr ar ddwy grefft, godro mwy nag un
fuwch

to **have very acute hearing**: clywed fel
cath

to **have words with her**: cael geiriau â hi,
ffraeo â hi (S)

Have you any idea ...?: Oes gynnoch chi
(unrhyw) syniad ...? (N), Oes (unrhyw)
amcan 'da chi? (S)

having no equal: heb ei ail (*ef)

to **hazard a guess**: bwrw amcan

a **hazy recollection of** ...: glas gof o/
am ..., brith gof o/am ..., cof brith
am ... *She has a hazy recollection of the
war: Mae ganddi hi frith gof am y rhyfel.*

head and shoulders above ...: pen ac
ysgwydd uwchben/yn uwch na ...

head first: llwrw ei phen, yn wysg ei phen
(*hi) *She fell off the back of a lorry head
first: Syrthiodd hi oddi ar gefn lori yn wysg ei
phen.*

to **head for the coast**: ei chychwyn/gwneud
hi am yr arfordir, anelu am yr arfordir,
cychwyn i'r arfordir

head (n)or tail: na phen na chynffon, na
rhych na chefn/gwellt, na rhawn na
bwgan (N) *I can't make head or tail of
these instructions. Alla' i ddim gwneud na
phen na chynffon o'r cyfarwyddiadau hyn.*

head over heels in love/debt: dros ei
phen a'i chlustiau mewn cariad/dyled

to **head straight for** ...: ei gwneud hi'n
syth am ... *We are heading straight for the
pub: Rydyn ni'n ei gwneud hi'n syth am y
dafarn*

a **head-on collision**: gwrthdrawiad penben

to **heap insults on her**: ei henllibio hi, ei
blagardio hi

to **heap praises on her**: ei chanmol hi i'r
cymylau

to **hear about/of** ...: clywed (sôn) am ...

to **hear all the latest about what she
has been doing**: clywed ei hanes, cael
cownt ohoni

to **hear sth from her**: clywed rtht/clywed
am rth ganddi/oddi wrthi hi

with her **heart in her boots**: â'i chalon yn
ei (he)sgidiau

with her **heart in her mouth**: â'i chalon
yn ei gwddf/gwddw

Her heart is in the right place: Mae ei
chalon yn ei lle

in the **heart of the country**: ym
mherfeddion y wlad, yng nghanol y wlad,
yn y cefn gwlad

the **heart of the matter**: perfedd/craidd y
mater

I'm **heartily sick of it**: Rydw i wedi hen
syrffedu/ddiflasu arno, Rydw i wedi cael
llond bol(a) ohono

to **heave a sigh of relief**: rhoi ochenaid o
ryddhad

to **heed her**: malio ynddi hi, hidio ynddi/
amdani hi *Don't mind her – she complains
about everyone: Paid â malio ynddi hi – mae
hi'n cwyno am bawb.*

to **heed her word**: dal ar ei gair, gwrando arni

hell for leather: fel cath i gythraul, fel cath o dân, fel Jehu *The thief dropped the bag and ran hell for leather down the street: Gollyngodd y lleidr y bag a rhedeg fel cath i gythraul i lawr y stryd.*

a **hell of a ...**: uffern o ..., yffach o ... (S)

help given grudgingly: help llaw chwith
She can't **help how she feels**: Does ganddi ddim help am y ffordd mae hi'n teimlo
She can't **help it**: All hi mo'r help (S), Fedr hi ddim helpu

a **helping hand**: help llaw

That is **her concern** (see also **their concern**): Rhyngddi hi a'i phethau mae hynny

here and there: hwnt ac yma, yma ac acw, yma a thraw

here it is for what it's worth: dyma hi am ei gwerth

The practice is **here to stay**: Mae'r arfer(iad) wedi ennill ei phlwyf

to **hide from ...**: cuddio/celu/ymguddio rhag/oddi wrth ...

to **hide her talents**: cadw ei channwyll dan lestr *After hiding her talents for years she is now prominent in the community: Ar ôl cadw ei channwyll dan lestr am flynyddoedd mae hi bellach yn flaengar yn y gymdeithas.*

to **hide sth from ...**: cuddio/celu/cwato (S) rhth rhag/oddi wrth ...

to search **high and low**: chwilio o bant i bentan/dalar

a very **high price**: pris buwch, crocbris
She has a **high regard for** the solicitor:
Mae ganddi hi feddwl uchel o'r cyfreithiwr, Mae hi'n meddwl y byd o'r cyfreithiwr

high time: hen bryd, hwyr glas *It is high time she stopped smoking: Mae'n hen bryd iddi hi beidio â smygu.*

highly dangerous: peryg bywyd

highly respected: uchel ei pharch (*hi)
She is highly respected in the City: Mae hi'n uchel ei pharch yn y Ddinas.

to **be his own master**: bod yn feistr arno fel/fo ei hun

to **hit the nail on the head**: taro'r hoelen ar ei phen, ei bwrw hi yn ei thalcen, taro'r hoelen ar ei chlopa (S) *She hit the nail on the head in saying there were too many people in Britain: Trawodd hi'r hoelen ar ei phen wrth ddweud bod gormod o bobl ym Mhrydain.*

The place is a **hive of activity**: Mae'r lle fel ffair/yn ferw o brysurdeb/fel ffair y Waun (S)

to **hold a candle to ...** (used negatively): dal cannyll i ... *They can't hold a candle to her in the field of crystallography: Allan nhw ddim dal cannyll iddi hi mewn crisialeg.*

to **hold a conversation**: cynnal sgwrs, ymgomio, ymddiddan, sgwrsio, w(h)jilia (S)

to **hold back from** doing it: ymatal rhag gwneud y peth

to **hold back the tears**: cadw'r dagrau'n ôl

to **hold her breath**: dal ei gwynt, atal ei hanadl

to **hold her ground** (in an illness/argument etc.): dal ei thir

to **hold her hand**: dal (yn) ei llaw *She had to hold her mother's hand tight in case she stumbled: Roedd rhaid iddi hi ddal yn dynn yn llaw ei mam rhag ofn iddi hi faglu.*

to **hold her head high** (i.e. without shame): dal ei phen i fyny/lan

to **hold her responsible for sth**: ei dal hi'n gyfrifol am rth

to **hold her tongue**: dal ei thafod, cnoi ei thafod, atal ei thafod

Hold on a moment!: Gan bwyll! (S), Hanner munud!, Dal dy wynt/ddŵr! (N)

to **hold on to ...**: dal ei gafaél ar ... *She held on to her purse until she reached home:*
Daliodd ei gafaél ar ei phwrs nes iddi gyrraedd adref.

to **hold out** (e.g. against attack): dal/
goddef/gwrthsefyll (ymosodiad)

They have a **hold over her**: Mae hi yn eu gafaél, Mae ganddyn nhw afaél arni

to **hold water**: dal dŵr

to **hold with ...**: cefnogi ..., cytuno â ...
She doesn't hold with gambling: Dydy hi ddim yn cefnogi hapchwarae.

a **hollow victory**: buddugoliaeth wag

the **honest truth**: calon y gwir

the **honour of ...**: yr anrhydedd o ... *She was pleased to have the honour of meeting them: Roedd hi'n falch o gael yr anrhydedd o gyfarfod â nhw.*

to **hoot with laughter**: gweiddi/hwtian chwerthin

to **hope for ...**: gobeithio am ...

to **hope for the best**: gobeithio'r gorau

to **hope to hear**: gobeithio clywed

hopping mad: gwyllt gacwn, yn grac ofnadwy (S)

She has a **horror of snakes**: Mae nadroedd yn codi arswyd/braw arni hi

to get **hot under the collar**: gwylltio, codi gwrychyn

the **hour of her departure** (i.e. death): awr ei hymddatodiad

hours on end: oriau bwygilydd

How expensive is ...?: Pa mor ddrud yw ...?

How am I supposed to know?: Sut ydw i i fod i wybod?

to say **how angry she was**: dweud mor ddig roedd hi

How come?: Sut hynny/felly?

How come she is going?: Sut mai hi sy'n mynd?, Pam taw hi sy'n mynd? (S)

How dirty the house is!: Futred ydy'r tŷ! (N), Am dŷ brwnt! (S)

How does one go about it?: Sut mae mynd o'i chwmpas hi?

How does she stand concerning ...?: Sut mae hi arni ynglŷn â ...?, Ble mae hi'n sefyll ynglŷn â ...?

How little one hears of her these days!: Leied a glywir amdani hi y dyddiau yma!

How many are here?: Faint sydd yma?

How many books are there in the school library?: Faint o lyfrau sydd yn llyfrgell yr ysgol?

How much is this book?: Faint yw'r llyfr hwn?

How on earth ...?: Sut aflwydd ...?, Sut ar y ddaear ...?, Sut yn y byd ...?
How on earth did you find her?: Sut aflwydd daethoch chi o hyd iddi hi?

How should I know?: Sut ydw i (i fod) i wybod?

... how to get there: ... sut mae cyrraedd, sut i gyrraedd *She knew how to get there: Roedd hi'n gwybod sut i gyrraedd.*

... how to run a business: ... sut mae rhedeg busnes, ... sut i redeg busnes

however long: er cyhyd, er mor hir, pa hyd bynnag

hue and cry: gwaedd ac ymlid

a **huge man**: clamp o ddyn mawr, cawr o ddyn, clorwth o ddyn mawr (S)

a **huge task**: anferth o dasg

to **humble oneself**: llyfu'r llwch, iselhau eich hun

a **hundred times over**: ar ei ganfed

a **hunk of a man**: cwllfyn o ddyn

to **hurt her feelings**: brifo ei theimladau

hush money: arian mudandod, arian taw



The **ice had been broken**: Roedd y garw wedi'i dorri

identical with ...: yr un ffunud â ..., yr un peth yn union â ..., yr un boerad â ...

to identify with ...: uniaethu â/efo/gyda ...

an **idle threat/wish**: bygythiad/dymuniad ofer

an **idyllic place**: paradwys/nefoedd o le, gwynfyd

if by any chance ...: os ar antur/siawns ..., os digwydd i ... *If by any chance you see the man, tell her: Os digwydd ichi weld y dyn dywedwch wrthi hi.*

if difficulties arise: os ceir/cyfyd anawsterau

if I am not very much mistaken: os nad ydw i'n methu'n arw (N), os nad ydw i'n hollol anghywir

if it comes to that: o ran hynny *You complain that I was out till eleven last night. If it comes to that, where were you till three on Sunday morning?: Rwynt ti'n cwyno i fi fod allan tan un ar ddeg neithiwr. O ran hynny, lle roeddet ti tan dri fore dydd Sul?*

if it comes to the worst: os daw'r gwaethaf, os daw hi i'r pen

if it's all the same to you: os nad oes dim gwahaniaeth gynnoch chi (N), os nad oes ots 'da chi (S), os bydd yn iawn i chi *Thank you for your offer but I prefer to stay here, if it's all the same to you: Diolch am eich cynnig ond mae'n well gen i aros fan yma, os nad oes dim gwahaniaeth gynnoch.*

if (she's) given the chance: os daw ar ei llaw (hi), os caiff hi gyfle *She will be a great singer if given the chance: Bydd hi'n gantores o fri os daw ar ei llaw.*

if that is the case: os felly y mae, os yw hynny'n wir, os dyna fel y mae

if the need arises: os bydd rhaid/galw/gofyn

if the opportunity should arise: os daw'r cyfle

if you don't hear anything to the contrary: os na chlywch chi'n wahanol

if you really must: os bydd/oes rhaid (i chi), (cyn) belled (â) bod rhaid i chi (N) *Go to Bangor if you really must!: Ewch i Fangor os oes rhaid i chi!*

She can **ill afford to ...**: Prin y gall/medr hi fforddio ...

ill at ease: anesmwyth, anniddig, anghysurus

to be ill with a cold: bod yn sâl/dost (S) dan annwyd

to imagine all sorts of horrors/difficulties: codi pob math o fwganod *After an experience like that it is easy to imagine all sorts of horrors: Ar ôl profiad fel hynny mae'n hawdd codi pob math o fwganod.*

to imagine the worst: hel meddyliau (N) *Don't imagine the worst – I'm sure she is safe: Peidiwch â hel meddyliau – rwy'n siŵr ei bod hi'n ddiogel.*

immediately to hand (for her): wrth law ganddi (N), at ei llaw *She prefers to cook in her own kitchen where everything is immediately to hand for her: Mae'n well ganddi hi goginio yn ei chegin ei hun lle mae popeth wrth law ganddi.*

She is **immersed in her work**: Mae hi wedi ymgoll'n llwyr yn ei gwaith

to impair the effectiveness of sth: amharu ar effeithioldeb rthw

to be impartial: cadw'r ddysgl yn wastad *When she deals with her daughter and her stepdaughter she is always impartial: Wrth ymwneud â'i merch a'i llysfarch bydd hi'n cadw'r ddysgl yn wastad bob amser.*

to be impatient at/with ...: bod yn ddiamynedd â ...

to **implore s.o. for ...**: crefu/deisyf(u)/erfyn/ymbil(io) ar rn am ...

to **implore s.o. to ...**: crefu/deisyf(u)/erfyn/ymbil(io) ar rn i ... *She implored him not to drink so much: Ymbiliodd hi arno i beidio ag yfed cymaint.*

an **important day**: diwrnod mawr/pwysig
It is **important to be early**: Mae'n bwysig bod yn gynnar

to **impose her will on him**: gorfodi ei dymuniad/hewyllys arno, mynnu ei ffordd ag e

She was **impressed by** the orchestra:
Gwnaeth y gerddorfa argraff (dda) arni

impudent to ...: yn hy(f) ar/wrth ..., yn bowld ar/wrth ..., yn haerllug at/wrth ..., yn eofn (ewn) ar ... (S)

four feet **in height**: pedair troedfedd o uchder

She'll be back **in a fortnight**: Bydd hi 'nôl ymhen/o fewn/mewn pythefnos

in a month's time: ymhen y mis, o fewn mis, mewn mis

in a backward direction: drach ei chefn (*hi), yn wysg ei chefn (*hi), llwrw ei chefn (*hi), tuag yn ôl

in a bad mood: â chroen ei thin ar ei thalcen (*hi), ar gefn ei cheffyl (cwta/gwyn) (*hi), mewn hwyl ddrwg, mewn hwyliau drwg, drwg ei hwyl (*ef/hi), isel ei hysbryd (*hi) *After losing her purse she was in a bad mood over the weekend: Ar ôl colli ei phwrs roedd hi â chroen ei thin ar ei thalcen dros y Sul.*

She is **in a bad way**: Mae'n ddrwg arni hi, Mae hi mewn cyflwr gwael, Mae'n wael ei byd

She is **in a better mood**: Mae hwyliau gwell arni hi

in a big way: ar raddfa eang/fawr *She is selling shoes in a big way: Mae hi'n gwerthu esgidiau ar raddfa eang.*

in a blaze of glory: yn ogoneddus, mewn gogoniant

in a blaze of publicity: yng nghanol cyhoeddusrwydd tanbaid

to **go in a body**: mynd yn llu, mynd ar y cyd

She is **in a depressed state**: Mae'r felan arni hi, Mae hi'n isel ei hysbryd, Mae hi'n ddigalon/ddi-hwyl

in a dilemma/quandary about what to say: mewn cyfyng-gyngor/penbleth ynghylch beth i'w ddweud

in a few words: ar fyr eiriau

in a fix: mewn cawl (S), mewn picil, mewn strach (N), mewn helbul, mewn cyfyng-gyngor

to be **in a flap**: drysu, mynd i ffwdan, ffrwscio (N), gwylltu (S)

in a flash (i.e. very short time): ar drawiad amrant, mewn chwinciad chwannen, chwap

to be **in a flat spin**: bod wedi drysu'n lân, methu gwybod i ba ffordd i droi

in a forward direction: (tuag) ymlaen, yn ei blaen (*hi), wysg ei thrwyn (*hi)

in a good mood: mewn hwyl dda, mewn hwyliau da

in a grudging manner: rhwng bodd ac anfodd

to be **in a huff**: pwdu, sorri

in a hurry: ar ffrwst, mewn brys, ar frys

I am **in a last-minute rush**: Mae hi'n hwi rhed a brysia arna i, Mae hi'n ben set arna i (N)

in a leisurely manner: o dow i dow, wrth ei phwysau (*hi), yn hamddenol

in a little/short while (see also **in a very short time**, (a) **little while ago**): ymhen ychydig/dipyn, toc, cyn bo hir, yn y man, maes o law, ar fyr o dro

to be **in a mess**: bod yn draed moch arni (*hi), bod mewn picil/cawl (S) *I am in a mess: Mae'n draed moch arna' i.*

in a minute: yn y funud, mewn munud
She will be here in a minute: Daw hi yn y funud.

in a moment: mewn chwinciad/chwipyn, ar drawiad amrant, cyn pen dim, ar amrantiad

in a pickle: mewn picil, mewn cawl (S)

in a position to ...: ar dir i ..., mewn ffordd i ... *With all her children in school she was in a position to start teaching again: A'i phlant i gyd yn mynd i'r ysgol roedd hi ar dir i ddechrau dysgu unwaith eto.*

in a squatting posture: ar/yn ei chwrcwd (*hi)

in a stealthy manner: o lech i lwyn *She approached them in a stealthy manner: Nesaodd hi atyn nhw o lech i lwyn.*

in a sulk: â'i phen yn ei phlu (*hi), fel iar dan badell, wedi pwdu/sorri *She is staying in her bedroom in a sulk: Mae hi'n aros yn ei llofft â'i phen yn ei phlu.*

in a tight corner/spot: mewn congl, mewn cyfyng-gyngor, mewn helynt/helbul/trafferth/penbleth

She is **in a towering rage**: Mae hi'n wyllt gynddeiriog (N), Mae hi'n wyllt gacwn (S), Mae hi'n gandryll ulw

in a tremendous hurry: fel cath ar dân, fel cath i gythraul, ar frys gwyllt

in a very bad mood: yn ei chythraul (*hi), mewn hwyliau drwg iawn

in a very short time: mewn chwip o dro, mewn amser byr iawn, ar fyr o dro

in a vile temper: yn ei chythraul (*hi)
Don't say a word to her – she is in a vile temper: Paid â dweud yr un gair wrthi – mae hi yn ei chythraul.

in a wild rush: ar frys gwyllt

in a word (i.e. briefly): mewn gair

in accord with her: yn unol â hi

in addition to that: gyda hynny, yn ogystal â hynny, ar ben hynny, heblaw hynny

in advance: rhag llaw

in aid of ...: at ..., er budd ... *She is collecting money in aid of the homeless: Mae hi'n hel pres at y digartref.*

in all modesty: gyda phob gwyleidd-dra
She said, in all modesty, that she was the best candidate: Dywedodd hi gyda phob gwyleidd-dra mai hi oedd yr ymgeisydd gorau.

in all seriousness: mewn difrif calon, o ddiffrif calon

in all things: ym mhob dim

in all weathers: ym mhob tywydd, ar bob hin/tywydd

in an emergency: mewn argyfwng, mewn taro

in an hour's time: ymhen awr, o fewn awr, mewn awr

in an instant: as for in a moment

in an unbroken sequence: yn un llinyn/rhes

in an underhand way: (o) dan din, yn llechwraidd *She tried in an underhand way to find out where they lived: Ceisiodd hi o dan din ddarganfod lle roedden nhw'n byw.*

in an untidy mess: yn blith draphlith, yn un llanastr, yn aflêr, yn draed moch, yn sang-di-fang, yn siop siafins

in any case: p'r un bynnag, sut bynnag, pa beth/fodd bynnag

in anything: mewn dim *She has no interest in anything: Does ganddi ddim diddordeb mewn dim.*

in arrears: mewn ôl-ddyled, mewn dyled

She is **in bad odour with them**: Mae hi wedi pechu yn eu herbyn

in bad taste: di-chwaeth *Her story was in bad taste: Roedd ei stori yn ddi-chwaeth.*

in black and white (i.e. in writing): ar ddu a gwyn, mewn du a gwyn

in bouts: ar byliau, ar blyciau

in bright sunshine: yn llygad yr haul, yn yr heulwen

in broad daylight: gefn dydd golau, liw dydd, yng ngolau dydd

in case: rhag ofn

in case she worries: rhag (ofn) iddi hi boeni.

in case of fire: rhag ofn tân

in case of need: at/wrth raid, rhag angen, os bydd angen

in chapel: yn y capel

in character with ...: yn gydnaws â ..., yn cydweddu â ...

to be in charge: bod mewn gofal, bod wrth y llyw

to be in charge of ...: bod yn gyfrifol am ..., bod yn ben ar ... *She is in charge of the nursery school: Mae hi'n gyfrifol am yr ysgol feithrin.*

to be in charge of s.o.: bod â gofal am rn, gwarchod rhn, bod yn gyfrifol am rn

in church: yn yr eglwys

in close conversation: geg yng ngheg, yng nghegau'i gilydd *She found them in the kitchen in close conversation: Daeth hi o hyd iddyn nhw yn y gegin geg yng ngheg.*

in clover: ar/wrth ben ei digon, uwchben ei digon (*hi)

in cold blood: mewn gwaed oer

in command: wrth y llyw

to be in command of ...: bod yn ben ar ..., bod â rheolaeth ar ...

in common with ...: yn gyffredin â ..., ar y cyd â ...

in comparison with ...: o'i chymharu â/efo ... (*hi)

in confidence: yn gyfrinachol *He told her in confidence: Dywedodd wrthi'n gyfrinachol.*

to be in conflict with her: tynnu'n groes iddi hi, gwrthdaro â hi

a report that is in conflict with other statements: adroddiad nad yw'n cytuno â datganiadau eraill

in confusion: blith draphlith, yn draed moch, mewn dryswch

in connection with ...: ynglŷn â ..., yn gysylltiedig â ...

in consequence: o ganlyniad

in consequence of ...: o ganlyniad i ..., yn dilyn ..., o achos ..., oherwydd ...

to be in contact with her: bod mewn cysylltiad â hi

to be in contention with her: ymryson â hi

in corroboration of ...: yn gadarnhad i ...

in debt to her: dan ddyled iddi hi, mewn dyled iddi hi, yn ei dyled, yn ddyledus iddi

to be in decline (describing a business): mynd rhwng y cŵn a'r brain, mynd ar drai, mynd ar i waered *The company was in decline before the building was condemned: Roedd y cwmni'n mynd rhwng y cŵn a'r brain cyn i'r adeilad gael ei gondemnio.*

in deep water: mewn trafferth/trybini, mewn anawsterau

in default of ...: yn niffyg ...

in defiance of her family: yng ngwaethaf dannedd/er gwaethaf ei theulu

to live in difficult circumstances: byw yn mhig y frân, byw lle mae'r brain yn marw *She succeeded in difficult circumstances: Llwyddodd hi ym mhig y frân.*

She is in dire straits: Mae'n fain arni hi

in disarray/disorder: mewn anhrefn, yn blith draphlith, ar draws ac ar hyd

in disgrace: dan warth, mewn gwarth

to be in dread of hearing sth: bod ag ofn clywed rhth

in due course: ymhen amser, ymhen y rhawg, ymhen hir a hwyr, yn ei bryd

in earnest: o eigion calon, o waelod calon, o ddirifri

in easy stages: fesul camau hawdd, wrth ei phwysau (*hi)

in every respect: ym mhob modd/ffordd

in existence (usually referring to sth written): ar glawr *The original manuscript is in existence and it is possible to see it in the National Library: Mae'r llawysgrif wreiddiol ar glawr ac mae'n bosibl ei gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol.*

in fashion: mewn ffasiwn, mewn bri, yn y ffasiwn, ffasiynol

in favour of ...: o blaid ...

to be in favour with her: bod yn uchel/hoff ganddi

in fine fettle: iach a heini, fel y gog

in fits and starts: ar hyrddiau

in flight (i.e. fleeing): ar ffo

in flower: yn ei blodau (*hi), blodeuo, mewn blodau

in force (i.e. operating): mewn grym *Is the new rule in force?: Ydy'r rheol newydd mewn grym?*

in front of ...: o flaen ...

in full: yn llawn; hyd adref *She paid the bill in full: Talodd hi'r bil yn llawn. She got revenge in full: Talodd hi'r pwyth hyd adref.*

She got a hundred pounds **in full settlement of the debt:** Cafodd hi gan punt i dalu'r ddyled yn llawn

in full swing: ar ei anterth (*ef)

in full view of everybody: o flaen llygaid pawb

in fun: o ran hwyl, er mwyn hwyl

The car is **in gear:** Mae'r car yn ei/yr afael

in good favour with s.o.: yn llyfrau (da) rhn *She raised the subject of her promotion since she knew she was in good favour with the manager: Cododd hi fater ei dyrchafiad gan iddi wybod ei bod yn llyfrau'r rheolwr.*

in good order/repair: mewn cyflwr da

She is **in good shape/trim:** Mae hi â siâp da arni, Mae hi mewn gwedd dda, Mae hi'n heini/sionc, Mae graen arni hi

in good spirits: yn ei hwyliau, yn ei llawn hwyliau (*hi), mewn hwyl dda

in good time: mewn da bryd

in hand: dan law, mewn llaw *I can now confirm that the matter is in hand: Bellach medraf gadarnhau bod y mater dan law.*

in harness: yn y tresi, yn yr harnais

In heaven's name why?: Yn enw popeth pam?, Neno'r Tad pam?

in her bad books: dan ei llach, allan o'i ffafr *I have no wish to meet her – I am in her bad books: 'Sgen i ddim awydd cyfarfod â hi – 'dw i dan ei llach.*

in her best form: ar/yn ei huchelfannau, yn ei hwyliau, yn cael hwyl arni *Nobody can beat Huw when he is in his best form: All neb guro Huw pan fydd e ar ei uchelfannau.*

in her bones: ym mêr ei hesgyrn *She knew in her bones that they did not intend to come back: Roedd hi'n gwybod ym mêr ei hesgyrn nad oedden nhw'n bwriadu dod yn ôl.*

in her care: dan ei gofal, dan ei haden

Everything is **in her favour:** Mae popeth o'i phlaidd, Mae pob mantais ganddi

in her field (of interest): yn ei lein/maes

in her footsteps: yn ôl ei thraed *She hopes her daughter will follow in her footsteps: Mae hi'n gobeithio (y) bydd ei merch yn dilyn yn ôl ei thraed.*

in her good books: see **in good favour**

in her nature: yn ei gwaed, yn ei chroen *There was not a trace of jealousy in her nature: Nid oedd arlliw o genfigen yn ei gwaed.*

in her own good time: yn ei hamser da ei hun, wrth ei phwys, yn ei phwysau

in her own little world: yn ei byd bach ei hun

in her own rut: yn ei rhych/rhigol ei hun

in her possession: yn eiddo iddi hi, yn ei meddiant, ar/yn ei helw, i'w helw

in her prime: yn ei blodau, yn ei hanterth

in her right mind: yn ei hiawn bwyll *She was not in her right mind when she asked you to steal the money: Doedd hi ddim yn ei hiawn bwyll pan ofynnodd i chi ddwyn yr arian.*

in her stockinged feet: yn nhraed ei 'sanau

There was more poverty **in her time:**
Roedd rhagor o dlodi yn ei chyfnod/
dyddiau hi

in her way (i.e. obstructing her): ar ei ffordd

in high dudgeon: ar gefn ei cheffyl gwyn (*hi), yn ddig iawn

in high spirits: fel y gog, mewn hwyliau da, yn llawn hwyll/asbri

in his prime: yn ei anterth, yn ei flodau

in his shirt-sleeves: yn llewys ei grys

in honeyed words: yn fêl ac yn fefus, yn fêl i gyd

in honour of ...: er clod ...

in hospital: yn yr ysbyty

in hot pursuit of s.o.: ar war rhn, ar sodlau rhn, ar drywydd rhn *She got away but the owner was in hot pursuit: Dihangodd hi ond roedd y perchennog ar ei gwar.*

in hot weather: ar wres, mewn tywydd poeth/cynnes

in ignorance: yn ddiarwybod

in ignorance of ...: heb wybod (am) ...

in intimate conversation: yng nghegau'i gilydd *She found them in the kitchen in intimate conversation: Daeth hi o hyd iddyn nhw yn y gegin yng nghegau'i gilydd.*

in its entirety: yn ei grynsyth, yn gyfan, yn ei gyfanrwydd *The valuable collection was there in its entirety in the dirty cellar: Roedd y casgliad gwerthfawr yno yn gyfan yn y seler fudr.*

in its new form/guise: ar ei newydd wedd *Everyone was satisfied with the design in its new form: Roedd pawb yn fodlon ar y cynllun ar ei newydd wedd.*

in jest: o fregedd (N), o ran hwyl, yn gellweirus/chwareus *She said it in jest: Dywedodd hi'r peth o fregedd.*

in keeping with her character: yn unol/gydnewws/cydweddu â'i chymeriad

She is in league with them: Mae hi wedi ymgynghreirio â nhw

to be in love with her: bod mewn cariad â hi, ymserchu ynddi

in loving memory (of ...): er serchog/serchus gof (am ...)

She is in low spirits: Mae hi'n ddigalon, Mae hi yn y felan, Mae hi'n isel ei hysbryd

in many respects: ar lawer/sawl cyfrif, mewn sawl modd

in many ways (i.e. of assessing it): ar lawer cyfrif/cownt, ar sawl cyfrif *The design is better in many ways: Mae'r cynllun yn well ar lawer cyfrif.*

in memory of ...: er cof am ...

in mind: dan sylw, mewn golwg *I knew what he had in mind: Roeddwn i'n gwybod beth oedd ganddo dan sylw.*

in mourning: mewn galar, yn ei galar (*hi), mewn du *She is in mourning: Mae hi yn ei galar.*

in my life: yn fy nydd, yn fy myw *I have never in my life heard such rubbish: Dw i erioed yn fy nydd wedi clywed y fath sothach.*

in next to no time: mewn dim (o dro), mewn chwinciad (chwannen), cyn pen dim, mewn fyr o dro, chwarp

in no time at all: as for in next to no time

in no way: dim ar un wedd *I'm not paying for that – in no way!: Dw i ddim am dalu am hwnnw – dim ar un wedd!*

to get in on the act: cymryd/chwarae ei rhan (*hi), achub (ar) y cyfle

in one piece (i.e. unscathed): â chroen cyfan, yn iach ei chroen (*hi) *She succeeded in escaping in one piece: Llwyddodd hi i ddianc â chroen cyfan.*

in one respect: ar un olwg, ar un cyfrif

in one sense: ar un ystyr

in one's stride: ar drot, ar chwarae bach

in order (i.e. acceptable) **for her to ...:** yn iawn iddi hi ... *Is it in order for me to ask a question?: Ydy hi'n iawn i mi ofyn cwestiwn?*

in order of seniority: o hynaf i hynaf

in order that she is ...: er mwyn iddi hi fod ...

in order to ...: er mwyn ..., er ... *She would walk to work in order to save money: Cerddai hi i'w gwaith er (mwyn) arbed pres.*

in part: mewn rhan, yn rhannol

in partnership with ...: ar y cyd â ..., mewn cydweithrediad â ... *She is going into business in partnership with her brother: Mae hi'n dechrau busnes ar y cyd â'i brawd.*

in plain words/language: yn blwmp ac yn blaen, heb flewyn ar ei thafod (*hi)

She was **in pocket:** Roedd hi ar ei hennill

She is **in poor shape:** Mae hi â siâp gwael arni, Mae hi mewn cyflwr gwael

She is **in possession of all her faculties:** Mae hi o gwmpas ei phethau

in preparation for ...: ar gyfer ..., at ... *She collected a lot of firewood in preparation for the winter: Casglodd hi lot o goed tân ar gyfer y gaeaf.*

in preparation for her: ar ei chyfer

in print: ar glawr, ar ddu a gwyn; mewn print

in progress: ar waith *The kitchen extension is in progress at last: Mae'r estyniad i'r gegin ar waith o'r diwedd.*

in proportion to ...: yn gymesur â ... *The cost was in proportion to the time he spent on the work: Roedd y gost yn gymesur â'r amser a roddodd i'r gwaith.*

She has promotion **in prospect:** Mae ganddi ddyrchafiad mewn golwg

in public: ar goedd, ar gyhoedd, yn gyhoeddus, ar osteg

in question: dan sylw *The book in question is now available: Mae'r llyfr dan sylw ar gael bellach.*

in remembrance of ...: er coffa am ..., er cof am ...

in reserve: wrth gefn (of resources); dan ewinedd, dan ei hewin (*hi) (of talent) *She has quite a bit of money in reserve: Mae ganddi hi gryn dipyn o bres wrth gefn.*

to do a favour in return (for ...): gwneud cymwynas yn ei thro (*hi), gwneud cymwynas yn dâl (am ...)

in school: yn yr ysgol

a bitch **in season** (i.e. on heat): gast yn ei thymor, gast a gwres arni

in short: ar fyr, yn fyr, mewn gair *In short, I had lost everything: Ar fyr, roeddwn i wedi colli pob dim.*

to be in short supply: bod yn brin

in sight (see also **into sight**): yn y golwg, mewn/o fewn golwg

in small stages: gam a cham, fesul cam, gam ceiliog

in so far as she is/was ...: i'r graddau ei bod hi ... *In so far as she improved her status she was successful: I'r graddau ei bod hi wedi gwella ei statws roedd hi'n llwyddiannus.*

in some place: yn rhywle

in some respects: mewn rhai pethau, o ran rhai pethau, ar ryw olwg

in some ways (i.e. of assessing it): ar sawl cyfrif, o ran rhai pethau

in speech: ar dafod leferydd/ar lafar *'Swn' is heard in speech instead of 'baswn': Mae 'sw'n' yn cael ei glywed ar lafar yn lle 'baswn'.*

in spite of ...: er gwaethaf ..., ar waethaf ... *In spite of her illness she is*

- busy about the house:** *Er gwaethaf ei salwch mae hi'n brysur o gwmpas y tŷ.*
- in spite of her:** er ei gwaethaf
- in spite of her fierce opposition:** er gwaethaf ei gwrthwynebiad cryf, er ei gwaethaf yn ei dannedd
- in spite of herself:** er ei gwaethaf, o anfodd ei gên *She came in spite of herself: Daeth hi o anfodd ei gên.*
- in spite of that:** eto i gyd, er gwaethaf hynny *In spite of that they arrived in time: Eto i gyd cyrhaeddodd nhw mewn pryd.*
- to be in stitches laughing:** chwerrthin yn ei dyblau (*hi), chwerrthin yn ei dau ddwbl a phlet (*hi) (S)
- in succession:** yn olynol, yn llinyn, o'r bron (S) *She won the raffle twice in succession: Enillodd hi'r raffl ddwywaith yn olynol.*
- to be in terror:** bod â'i chalon yn ei (he)sgidiau (*hi), bod ag arswyd, arswydo
- to be/go in terror of her life:** dychryn/ofni am ei bywyd/hoedl
- in that case:** gan hynny, os felly
- in that respect:** yn hynny o beth, o ran hynny
- It's in the bag:** Mae'n sicr/siŵr/saff
- to be in the balance:** bod yn y glorian/fantol *His reputation was in the balance: Roedd ei enw da yn y glorian.*
- to bring her up in the bosom of the church:** ei magu yng nghôl yr eglwys/ar fronnau'r eglwys
- in the circumstances:** (o) dan yr amgylchiadau
- in the cold light of day:** yng ngolau'r wawr
- in the course of time:** gydag amser, ymhen yr hir a'r hwyr, yn nhrefn amser
- in the dark:** yn y niwl/tywyllwch; heb glem
- in the driver's seat:** wrth y llyw
- in the early morning:** cyn codi cŵn Caer, yn y bore bach, ben bore (N) *In order to avoid the heavy traffic she got up in the early morning: Er mwyn osgoi'r drafnidiaeth drom cododd cyn codi cŵn Caer.*
- in the evening(s):** gyda'r nos, gyda'r hwyr, fin nos, gyda'r diwedydd (S) *We would go for a walk in the evenings: Bydden ni'n mynd am dro fin nos.*
- in the eyes of ...:** ym marn ..., yn ôl ... *It was a success in the eyes of the Council: Roedd hi'n llwyddiant ym marn y Cyngor.*
- in the face of ...:** yn nannedd ..., er gwaethaf ... *She went ahead in the face of the fierce opposition of her family: Aeth hi ymlaen yn nannedd gwrthwynebiad ffyrnig ei theulu.*
- in the field of drama/sport:** ym maes drama/chwaraeon
- in the form of ...:** ar lun ..., ar wedd ..., ar ffurf ... *She made a cake in the form of a cottage: Gwnaeth hi deisen ar lun bwthyn.*
- in the front line:** ym mlaen y gad *In the battle for animal rights she was always in the front line: Yn y frwydr dros hawliau anifeiliaid roedd hi'n gyson ym mlaen y gad.*
- in the fullness of time:** yng nghyflawnder (yr) amser, ymhen yr hir a'r hwyr
- in the gathering darkness:** yn y tywyllwch cynyddol
- in the guise of friends:** dan rith cyfeillion
- She is in the habit of doing it:** Mae hi'n arfer gwneud y peth
- in the image of ...:** ar ddelw ...
- in the land of the living:** ar dir y (rhai) byw
- in the last resort:** yn niffyg dim arall, pan fetho popeth arall, os aiff i'r pen
- in the lead:** ar y blaen
- in the long run:** yn y pen draw, yn y tymor hir

in the manner of ...: ar lun ..., fel ...
She speaks in the manner of a politician: Mae hi'n siarad ar lun gwleidydd.

in the middle of ...: ar ganol/hanner ..., yng nghanol ...

in the middle of a spell of heavy rain: yn nhwll y glaw

in the middle of nowhere: ymhell o bobman

in the middle of the night: berfedd nos, gefn nos, gefn trymedd nos, yn nyfnder nos

in the middle of winter: yn nhwll y gaeaf, yn nhrymder gaeaf

in the nick of time: yn llygad yr amser, mewn union bryd, dim ond cael a chael, ar y funud olaf, ond mewn pryd

in the offing: yn y golwg, yn yr arfaeth, ar ddigwydd *There are two more commissions in the offing: Mae dau gomisiwn ychwanegol yn y golwg.*

in the palm of her hand: ar gleidr ei llaw, ar bant/dor ei llaw

in the pipeline: ar y gweill

in the possession of ...: yn eiddo i ..., ar/yn/i elw ..., ym meddiant ... *Those jewels are now in the possession of Sir Huw: Mae'r gemau yna yn eiddo i Syr Huw bellach.*

in the presence of ...: yng ngŵydd ..., o flaen ... *She laughed at me in the presence of my friends: Chwarddodd hi am fy mhen yng ngŵydd fy nghyfeillion.*

in the rain: ar y glaw, yn y glaw *Don't go out in this rain, stupid!: Paid â mynd allan ar y glaw 'ma, y lembo!*

She is in the right: Mae hi yn ei lle, Mae hi'n gywir/iawn *She was in the right after all: Roedd hi yn ei lle wedi'r cwbl.*

to be in the running: bod ynddi, bod yn y ras

in the same boat (i.e. predicament): yn yr un cwch, yn yr un sefyllfa

in the same breath: ar yr un gwynt/anadl

in the shape of ...: ar ddelw ..., ar lun ..., ar ffurf ...

in the short term: yn y tymor byr

in the teeth of substantial opposition: yn nannedd/er gwaethaf gwrthwynebiad sylweddol

in the twinkling of an eye: ar drawiad amrant, mewn chwinc(iad), chwap

in the vicinity: yn y cyffiniau, yn ymyl, ar bwys (S), yn yr ardal *There was no trace of the lion in the vicinity: Doedd dim ôl o'r llew yn y cyffiniau.*

in the wake of ...: yn sgil ... *In the wake of all the publicity she received hundreds of letters: Yn sgil yr holl gyhoeddusrwydd derbyniodd hi gannoedd o lythyrau.*

in the way (i.e. causing an obstruction): ar y ffordd, dan draed *Am I in the way?: Ydw i ar y ffordd?*

in the whole wide world: yn y byd mawr crwn, yn y byd crwn cyfan

in their old age: yn eu hen ddyddiau, yn eu hydref, yn hydref eu dyddiau

in this respect: yn hyn o beth, o ran hyn

in top form: yn cael hwyl arni, ar uchelfannau'r maes, yn ei hwyliau

to be in touch with her: bod mewn cyswllt/cysylltiad â hi

to get in touch with her: dod/mynd i gysylltiad â hi, cysylltu â hi

in town: yn y dre(f)

to sing in tune: canu mewn cywair/tiwn

to be in two minds about ...: cloffi rhwng dau feddwl ynglŷn â ... *She was in two minds about going to university: Roedd hi'n cloffi rhwng dau feddwl ynglŷn â mynd i'r brifysgol.*

in use: ar arfer, ar waith, ar ddefnydd, mewn defnydd *Such greetings have been in use for centuries: Mae cyfarchiadau cyffelyb ar arfer ers canrifoedd. The new machine is now in use: Mae'r peiriant newydd ar waith bellach. Gold is in use in electronics these*

days: Mae aur ar ddefnydd mewn electroneg y dyddiau yma.

in view (i.e. in mind): mewn golwg, dan ystyriaeth *What important changes do you have in view?: Pa newidiadau o bwys sydd gennych chi mewn golwg?*

in view (i.e. in sight): yn y golwg, mewn/o fewn golwg

in view of her behaviour: o ystyried ei hymddygiad

in view of the facts: yn wyneb y ffeithiau

equal in width to ...: cyfled â ..., yr/o'r un lled â ...

in writing: ar glawr, ar ddu a gwyn, ar bapur

to move with the times: canlyn yr oes, bod ynddi hi

to mow hay/grass: lladd gwair, torri glaswellt

I didn't hear **much** singing: Chlywais i fawr o ganu

much less: llai o lawer, llawer llai

much less bread: llai o lawer o fara

much more: mwy o lawer, llawer mwy

much more bread: mwy o lawer o fara

much more colourful: mwy lliwgar o lawer

They are **much of an age:** Maen nhw tua'r un oed

I **much prefer** the radio: Mae'n well gen i'r radio o lawer, Mae'n well o lawer gen i'r radio

books that are **much sought after:** llyfrau â galw mawr amdany'n nhw

much to her surprise: er mawr syndod iddi hi

a **much used path:** llwybr coch

much worse: saith gwaeth, llawer gwaeth, gwaeth o lawer

to mull over: see **mill over**

Mum's the word!: Taw piau hi!

She **must** know them (i.e. it must be that she knows them): Mae'n rhaid ei bod hi'n eu (had)nabod nhw

She **must** visit them: Mae rhaid iddi hi ymweld â nhw

He **must have** lost his keys: Mae'n rhaid ei fod wedi colli ei allweddi/agoriadau

to **mutter under her breath**: siarad dan ei dannedd

muttering complaints under her breath: â grwnach yn ei gwddf/gwddw
She left the room muttering complaints under her breath: Ymadawodd hi'r stafell â grwnach yn ei gwddf.

a **mutual dislike**: anhoffter o'r ddwy ochr, anhoffter o'i gilydd, anhoffter y naill o'r llall

My word!: Ar fy llw!, Myn brain/diain/ asgrwn i!

a **mystery story**: stori ddatgelu, stori ddirgelwch

~

a **nail in her coffin**: hoelen yn ei harch

a **nasty bitchy woman**: hen ast/sguthan

She is a **nasty piece of work**: merch gas ydy hi, hen sguthan yw hi

nasty to ...: cas wrth ... *Don't be nasty to your little brother: Paid â bod yn gas wrth dy frawd bach.*

to **near** the town centre: dynesu at ganol y dref

near at hand: wrth law, gerllaw, o fewn cyrraedd

She is **near her time** (i.e. to give birth): Mae hi'n barod i esgor, Mae hi'n agos at ei hamod/thymp

to be **near (to) ...**: bod ar gyfyl ..., bod yn agos at ..., bod ar bwys ... (S), bod yn ymyl ...

nearer to ...: nes at ...

nearer to one's goal: yn nes i'r lan

It is **nearly five** (o'clock): Mae hi bron yn bump, Mae hi'n tynnu at bump (o'r gloch), Mae hi ar ddannedd pump

nearly dead: bron â marw *She was nearly dead: Roedd hi bron â marw.*

She **nearly fainted**: Bu bron iddi hi lewygu
nearly frozen stiff: bron â fferru/sythu (S)

to be **nearly ready**: bron â bod yn barod
Come in, she's nearly ready: Dewch i mewn, mae hi bron (â bod) yn barod.

neat and tidy: fel pin mewn papur

It is **necessary in order to live**: Mae'n angenrheidiol at fyw

a **neck-and-neck finish**: diwedd cyfartal/ cael a cael

I **need hardly tell you**: Prin bod rhaid i mi ddweud wrthoch chi

She **needs to be told ...**: Mae eisiau dweud wrthi hi ...

She **needs to have her head read** (for being so stupid): Mae arni hi eisiau berwi ei phen

neither before nor after: na chynt na chwedyn *She got no payment from him, neither before nor after: Chafodd hi ddim tâl oddi wrtho na chynt na chwedyn.*

That is **neither here nor there**: Dydy hynny nac yma nac acw, Dydy hi ddim o bwys

neither of us is ...: dydy'r un ohonon ni ... *Neither of us is brave enough to tell her: Dydy'r un ohonon ni'n ddigon dewr i ddweud wrthi hi.*

to **nestle down in ...**: swatio mewn/yn ...

never again: byth eto, byth wedyn *She promised she would never again be late: Addawodd hi na fyddai hi'n hwyr byth eto.*

never at a loss for words: parod ei thafod/hateb (*hi) *She is one who is never at a loss for words: Un barod ei thafod ydy honno.*

Never mind!: Hidia befo! (N), Na hidia! (S), 'Sdim ots!

Never mind how she is: Na hidiwch sut mae hi, 'Sdim ots sut mae hi

next door to ...: drws nesaf at/i ...

next time: y tro nesaf

next to nothing: y nesaf peth i ddim, y peth nesaf i ddim, ail i ddim (S) *They were worrying about next to nothing: Roedden nhw'n poeni am y nesaf peth i ddim.*

next to the window: nesaf at y ffenest

the night before last: echnos

to nip out: picio allan/ma's

There is **no accounting for taste:** Pawb â'i chwaeth, Pawb at y peth y bo

It is of **no avail:** Ni thycia ddim, Mae'n ofer

She will be **no better off:** Fydd hi ddim yn well arni, Fydd hi ddim ar ei hennill, Fydd hi ddim yn well ei byd

She has **no cause to worry:** Does ganddi hi ddim lle i boeni

It is **no concern of mine:** Nid ydy'n fusnes i mi

There is **no doubt about it:** Does dim dau amdani (S), Does dim dwywaith amdani

There was **no end to ...:** Doedd dim pall/pen ar ... *There was no end to the banging and the shouting: Doedd dim pall ar y curo a'r gweiddi.*

No fear! Dim peryg(l)!

There should be **no give** in the beam: Ddylai'r trawst ddim ildio

There is **no harm** in asking: Does dim drwg/o'i le mewn gofyn, Waeth i chi ofyn ddim

There is **no harm in your** trying: Fyddi di ddim gwaeth o drïo

She has **no heart in the work:** Does ganddi hi ddim calon at y gwaith

She has **no idea:** Does ganddi hi ddim syniad, Does dim amcan/clem 'da hi (S)

She has **no inkling:** Does ganddi hi ddim crap (N), Does dim clem 'da hi (S)

There is **no knowing:** Does (g)wybod yn y byd

There is **no knowing** how she does it: Does dim gwybod/Does (g)wybod sut mae hi'n gwneud y peth, 'Bod yn y byd sut mae hi'n (ei) wneud o (N)

There is **no knowing how** wealthy she is: Does dim (modd) gwybod pa mor gyfoethog ydy hi

no man's land: tir neb

no matter how strong she is: (ni) waeth/'sdim ots pa mor gryf yw hi

no matter what Mum says: (ni) waeth/'sdim ots beth ddywed Mam

no matter what she is doing: (ni) waeth/'sdim ots beth mae hi'n (ei) wneud

There is **no point in her** arriving so early: Waeth iddi hi heb â chyrraedd mor gynnar, Does dim diben iddi gyrraedd mor gynnar

She is **no respecter of persons:** Dydy hi ddim yn dderbyniwr wyneb, Mae hi'n ddi-dderbyn-wyneb

There is **no sign of her:** Does dim golwg/hanes ohoni hi, Does dim sôn amdani hi (S)

They have **no stomach for ...** (are revolted by): Does ganddyn nhw ddim stumog at ...

There was **no stopping her:** Doedd dim stopio arni hi, Doedd dim modd ei rhwystro

There is **no telling what** she will do: Does wybod beth wneith/wnaiff hi, Nid oes modd dweud beth wneith/wnaiff hi, Pwy all ddweud beth wnaiff/wneith hi?

(with) **no thanks to ...:** heb ddiolch i ...

I have **no time for her:** Does gen i ddim amynedd â/gyda/efo hi

There are **no two ways about it:** Does dim dwywaith amdani, Does dim dau amdani (S)

It is **no use** complaining: Waeth heb â chwyno

There was **no way she could** ...: Nid oedd na byw na bod na châi hi ...

There is **no way she will** do that: Wneith/Wnaiff hi mo(ho)no ar gyfrif yn y byd/dros ei chrogi, Does dim modd y gwneith/gwnaiff hi hynny

There is **no way she will wear** that suit again: Does dim dichon/modd y gwisgith/gwisgiff hi'r siwt yna eto, Wneith/Wnaiff hi ddim gwisgo'r siwt yna eto am bris yn y byd

She was **no wiser for/after** seeing her solicitor: Doedd hi fymryn elwach/yn gallach o weld ei chyfreithiwr

(It is) **no wonder (at all)** ...: Does rhyfedd (yn y byd) ... *No wonder she got a divorce: Does rhyfedd iddi gael ysgariad.*

No wonder she is ...!: Pa ryfedd ei bod hi ...!, Does rhyfedd ei bod hi ...!

no worse for trying: dim gwaeth o drio *You'll be no worse for trying: Fyddwch chi ddim gwaeth o drio.*

nobody in his right mind: neb yn ei iawn bwyll/synnwyr, neb sydd o gwmpas ei bethau

Nobody is supposed to ...: Does neb i fod i ... *Nobody is supposed to know: Does neb i fod i wybod.*

Nobody saw anything of her afterwards: Welodd neb ddim lliw/smic ohoni hi wedyn

to **nod to her** to come: amneidio arni hi i ddod

none other than ...: neb llai/amgen na ..., nid amgen na ... *I was welcomed by none other than Sir Huw himself: Ces i fy nghroesawu gan neb llai na Syr Huw ei hunan.*

none the worse: dim mymryn gwaeth/yn waeth, dim blotyn/tamaid gwaeth (S) *After she washed them they were none the worse: Ar ôl iddi hi eu golchi nhw doedden nhw ddim mymryn gwaeth.*

She is **none the worse (for wear)**: Mae hi'n ddianaf/groeniach, Dydy hi ddim

gronyn/blewyn/mymryn yn waeth o'r herwydd

a **nosy person**: hen drwyn, busneswr, un fuseslyd (*hi)

It is **not a bad idea/thing**: Dydy hi ddim yn ddrwg o beth *It wouldn't be a bad idea for her to apply for the post: Fasai hi ddim yn ddrwg o beth iddi hi gynnig am y swydd.*

There was **not a moment's peace from** ...: Doedd na byw na bod/bywyd/marw efo/gyda ... *There was not a moment's peace from her until she got her own way: Doedd na byw na bod efo hi nes iddi gael ei ffordd ei hun.*

That car is **not a patch on yours**: Dydy'r car yna ddim i'w gymharu â'ch un chi/ ddim yn yr un cae â'ch un chi

not a single word: na bw na be, dim siw na miw, dim gair o'i phen, dim smic *Although we spoke to her from time to time we got not a single word from her: Er inni siarad â hi o bryd i'w gilydd chawson ni ddim bw na be ganddi.*

not a snowflake's chance in hell: dim gobaith caneri/mul *She hadn't a snowflake's chance in hell of getting the job: Doedd ganddi hi ddim gobaith caneri o gael y swydd.*

not a trace of ...: na lliw na llun o ..., na llun na lliw o ..., dim argoel o ...

Not again!: Ddim eto!

not all that good: dim crystal â hynny

not all there (referring to mental ability): dim yn llawn llathen, dim hanner call/pan, heb ei llyfu (*hi) (S), wedi hanner ei llyfu (*hi) (S), heb fod yn y ffrwn yn ddigon hir, ddim cweit y peth

and **not before time**: ac nid cyn pryd, a hen bryd hefyd

not by a long chalk/shot: ddim o bell ffordd

not by any means: ddim ar unrhyw gyfrif, ddim ar gyfrif yn y byd

It did **not come to anything**: Ddaeth dim ohono

not enough by half: dim digon o'r hanner

not for the life of me: dim yn fy myw glas

I would not for the life of me say such a thing to my mother: Faswn i ddim yn fy myw yn dweud y fath beth wrth fy mam.

I would **not for the world ...**: Faswn i ddim yn cymryd y byd â ..., Faswn i ddim dros fy nghrogi'n ...

It is **not generally known that** she is wealthy: Ychydig a wŷr ei bod hi'n gyfoethog

It is **not good form**: Mae'n annerbyniol/anfoesgar, Mae'n groes i'r drefn

She is **not in a good mood**: Does fawr o hwyl(iau) arni hi, Dydy hi ddim yn ei hwyliau gorau

She is **not in the same league/class as ...**: Dydy hi ddim yn yr un cae â ...

not in the slightest: dim o gwbl *She is not worrying in the slightest: Dydy hi ddim yn poeni o gwbl.*

She is **not keen on going**: Does dim taro arni hi am fynd, Does ganddi hi fawr o awydd mynd (N), Does dim awydd mynd arni hi, Dydy hi ddim yn awyddus i fynd

She does **not know she is born**: Dydy hi ddim yn gwybod ei geni *Some people don't know they are born: Dydy rhai pobl ddim yn gwybod eu geni.*

not known to her: heb fod yn hysbys iddi hi

Not many people attended: Doedd fawr o neb yn mynychu

not much good at ...: dim gwerth am ... *She is not much good at writing letters: Dydy hi ddim gwerth am sgrifennu llythyrau.*

There is **not much more (of) ...**: Does 'na fawr fwy o ... (N)

She is **not much of a singer**: Dydy hi fawr o gantores, Dydy hi ddim llawer o gantores

not much respect for ...: dim llawer o barch at/gegw ar (S) ... *She hasn't much respect for her boss: Does dim llawer o gewc 'da hi ar ei bos.*

not on any account: ddim ar (yr) un cyfrif, ddim ar unrhyw gyfrif, ddim ar gyfrif yn y byd *She can't stay here – not on any account: Chaiff hi ddim aros fan yma – ddim ar yr un cyfrif.*

They are **not on good terms**: Mae'n ddrwg rhyngddydd nhw, Mae'n ddrwg rhyngddynt a'i gilydd

They are **not on speaking terms**: Does fawr o Gymraeg rhyngddydd nhw, Dydydd nhw ddim yn siarad â'i gilydd

Not on your life!: Dim perygl(!)

Not one of them is ...: Dydy'r un ohonyn nhw ... *Not one of them is able to read: Dydy'r un ohonyn nhw'n medru darllen.*

She is **not quite sure**: Dydy hi ddim yn hanner/gwbl siŵr *She was not quite sure whether she could come: Doedd hi ddim yn hanner siŵr (a) allai hi ddod.*

not really: ddim felly *Was it fine? Not really, it rained occasionally: Oedd hi'n braf? Ddim felly, roedd hi'n bwrw glaw o bryd i bryd.*

You would **not see her for dust**: Welech chi mo(ho)ni gan lwch, Dim ond ei chefn welech chi

She does **not see the wood for the trees**: Mae hi'n methu (â) gweld y coed gan brennau

Not so: Nid felly *She won of course? Not so, she twisted her ankle and fell headlong: Enillodd hi wrth gwrs? Nid felly, trodd ei ffêr a syrthio ar ei hyd.*

She is **not struck on going**: as for **not keen on going**

She is **not supposed to ...**: Dydy hi ddim i fod i ... *You are not supposed to eat in the lounge: Dydydd chi ddim i fod i fwyta yn y lolfa.*

She is **not supposed to mention the divorce**: Ddylai hi ddim sôn am yr ysgariad

Not that I am aware of: Ddim hyd y gwn i

He is **not the only fish in the sea/pebble on the beach**: Mae digon o bysgod eraill yn y môr

There was **not the slightest trace of her there**: Doedd na migwrn nac asgwrn ohoni yno, Doedd dim sôn amdani

Not there!: Ddim (i) fan 'na!

not to ...: dim i ... *You are not to eat in the church*: Dydydych chi ddim i fwyta yn yr eglwys.

Not to beat about the bush ...: A dod at y pwynt ..., Heb hel dail ... (N)

not to have to ...: peidio â gorfod ... *It is a relief not to have to get up at five o'clock every morning*: Mae'n rhyddhad peidio â gorfod codi am bump o'r gloch bob bore.

not to mention ...: heb sôn am ..., heblaw am ..., ar wahân i ... *She has a mansion in Wales not to mention her three houses in England*: Mae ganddi hi blasty yng Nghymru heb sôn am ei thri thŷ yn Lloegr.

Not to mince one's words ...: A siarad yn blwmp ac yn blaen ..., A siarad heb flewyn ar eich tafod ..., A dweud y caswir ...

to be careful **not to offend her**: ei thrin hi â chylllell a ffordd

not to put too fine a point on it: a siarad yn blwmp ac yn blaen

not up with the latest news or gossip: ar ei hôl hi gyda'r/efo'r clecs diweddaraf *After being in England for months she is not up with the latest gossip*: Ar ôl bod yn Lloegr am fisoedd mae hi ar ei hôl hi efo'r clecs diweddaraf.

I am **not useful with my hands**: Mae gen i ddwy law chwith, Dw i ddim yn ddech (S)

She is **not very intelligent**: Does dim rhwng ei dwy glust

She is **not very well**: Dydy hi ddim yn hanner da, Dydy hi ddim yn dda iawn, Dyw hi ddim yn hwylus (S)

not without some effort: nid ar chwarae bach *She passed her exams but not without some effort*: Pasiodd hi ei harholiadau ond nid ar chwarae bach.

She does **not worry about anyone**: Dydy hi'n poeni dim am neb

She's **not worth paying any attention to**: Dydy hi ddim yn werth ei rhegi

Not yet!: D(d)im eto!

nothing at all: ufflon/uffach o ddim, dim oll, dim yn y byd

nothing availed: doedd dim yn tycio

nothing better/more/other than a ...: ddim amgen na(g) ... *His remark was nothing better than an insult*: Doedd ei sylw e ddim amgen na sarhad.

nothing but (a) ...: as for **nothing better/more/other than (a)**

nothing for it but to ...: dim (byd) amdani ond ... *There was nothing for it but to start swimming for the shore*: Doedd dim byd amdani ond dechrau nofio am y lan.

nothing like (a) ...: dim byd tebyg i ... *She's nothing like Betty*: Dydy hi ddim byd tebyg i Beti.

She is **nothing like as wealthy as her sister**: Dydy hi ddim hanner mor gyfoethog â'i chwaer

She had **nothing on** (i.e. no clothes): Doedd dim amdani hi, Roedd hi'n borcyn/noethlymun

She had **nothing on yesterday** (i.e. nothing arranged): Doedd ganddi hi ddim trefniadau ddoe

It was **nothing short of ...**: Doedd hi'n ddim llai na ...

It is **nothing to do with me**: Does a wnelo fi ddim byd â'r peth, Does a wnelo hyn ddim â mi, Dyw e/hi ddim i ymwneud â fi

nothing to her name: dim byd ar ei helw
After the fire she had nothing to her name: Ar ôl y tân doedd ganddi hi ddim byd ar ei helw.

There's nothing to it: Does dim byd haws

There is nothing wrong with the car: Does dim o'i le ar y car

to notice her: sylwi arni hi

now and again/then: bob hyn a hyn, yn awr a phryd arall, nawr ac eilwaith, bob nawr ac yn y man (S)

now I come to think of it ...: erbyn meddwl ...

Now is when the whole family is busy:
Dyma'r adeg y mae'r teulu i gyd yn brysur

Now of all times!: Nawr/Rŵan o bob adeg!

She is **nowhere near as** heavy as her sister:
Dydy hi agos mor/Dydi hi ddim hanner mor drwm â'i chwaer

He is **nowhere to be seen:** Does dim golwg/argoel ohono yn unman

~

to obey a command: ufuddhau i orchymyn

to obey her: ufuddhau iddi hi

an object of derision: testun hwyl/gwawd/ sbort

the object of her affections: gwrthrych ei serchiadau

to observe silence: cadw'n ddistaw

to be obsessed with ...: gwirioni ar/â ..., ffoli ar ..., bod yn llawn o ...

to obtain on credit: cael ar lab (N), cael ar slât (S), cael ar goel

obvious from her manner of speaking:
amlwg (oddi) wrth ei dull o siarad

an occasional pub: ambell dafarn

to occur to her that ...: ei tharo hi bod ..., taro i'w meddwl bod ... *It occurred to her that she was in a dangerous situation: Roedd hi'n taro i'w meddwl ei bod hi mewn sefyllfa beryglus.*

It occurred to her to say ...: Roedd hi'n meddwl dweud ..., Roedd yn ei tharo hi i ddweud ...

an odd glove: maneg weddw

odds and ends: petheuach, trugareddau
She was spending a lot of money on odds and ends: Roedd hi'n gwario llawer o arian ar betheuach.

of all things: o bob peth, o bob dim *She gave me a pair of pink trousers of all things: O bob peth rhoddodd hi drowsus pinc i mi.*

Is it of any importance?: Ydy hi o ryw wahaniaeth?

of course (i.e. certainly): wrth gwrs

a woman of few words: gwraig dawedog, merch brin ei geiriau

of flesh and blood: o gig a gwaed

of good breeding: o waed da

of great concern to her: agos at ei chalon
It was animal welfare that was of greatest concern to her: Lles anifeiliaid oedd agosaf at ei chalon.

of great moment: o bwys mawr

of great value: gwerthfawr; o fawr werth (when negated as in 'Dydy'r gadair o fawr werth')

of her own accord: o'i gwirfodd, ohoni'i hun(an) *She brought the children back of her own accord: Daeth hi â'r plant yn ôl o'i gwirfodd.*

of her own free will: o'i bodd, o'i gwirfodd

a friend of hers: cyfaill iddi hi

one of humble descent: un o dras werinol, un o'r werin

to be of independent means: bod yn annibynnol yn ariannol, byw ar incwm preifaf

of its own accord: ohono'i hun (*ef) *The clock stopped of its own accord: Stopio ohono'i hun wnaeth y cloc.*

of little/no account/moment: dibwys, digyfrif, dinod

of little value: bychan ei gwerth (*hi)

a friend of long standing: cyfaill ers amser maith

of mixed blood/race: o hanner gwaed

It was of no avail: Doedd dim yn tycio, Ni thyciai ddim, Roedd yn ofer *I begged her to go but it was of no avail: Mi erfyniais i arni hi i fynd ond doedd dim yn tycio.*

of no fixed abode: heb gartref sefydlog

of no use to her: o ddim defnydd iddi hi *That machine is of no use to you: Dydy'r peiriant yna o ddim defnydd i chi.*

of one accord: yn unfryd unfarn

of the same mind: ar yr un tir, o'r un meddwl/farn/tyb *I expected to fall out with her but after five minutes talking we were of the same mind: Roeddwn i'n disgwyl ffraeo â hi ond ar ôl pum munud o sgwrsio roedden ni ar yr un tir.*

to be of the same mind as she is: bod o'r un farn â hi, bod yn unfryd â hi

off by heart: ar ei chof (*hi) *She knew her speech off by heart: Roedd hi'n gwybod ei haraith ar ei chof.*

She is feeling off colour: Dydy hi ddim yn teimlo'n dda/hwylus, Mae hi'n ddi-hwyl

She is off form: Does dim hwyl arni, Dydy hi ddim yn ei hwyliau

off her own bat: o'i phen a'i phastwn ei hun, o'i pherfedd a'i phastwn *She decided to go on an Wlpan course off her own bat: Penderfynodd hi fynd ar gwrs Wlpan o'i pherfedd a'i phastwn.*

The hotel is off the beaten track: Mae'r gwesty'n ddiarffordd/anghysbell

off the cuff: yn fyrfyfyr, o'r frest *She spoke for an hour off the cuff: Roedd hi'n siarad am awr yn fyrfyfyr.*

off the record: (yn) answyddogol

Off to battle they go/went! I'r gad â nhw!

She is **off work:** Mae hi adref o'i gwaith

to offend her: tramgwyddo yn ei herbyn, ei digio/thramgwyddo hi

to be offended at/by ...: cymryd ei thramgwyddo gan ..., digio wrth ...

She was not offended by her aunt's comments: Doedd hi ddim yn cymryd ei thramgwyddo gan sylwadau ei modryb.

to offer an excuse: rho(dd)i/cynnig esgus

to offer sth to s.o.: cynnig rth i rn

Oh for some food! O am fwyd!

old and worn out: ar ei hen sodlau

old as the hills: (hen) fel pechod

Old bean/friend! Yr hen goes!

an old bitch: hen (y)sguthan/ast

an old bore: hen fys

an old hand at ...: hen law ar ...

old hands at ...: hen ddwylo ar ... *They are old hands at drystone walling: Maen nhw'n hen ddwylo ar godi wal sych.*

an old maid: hen ferch

the old old story: yr un hen gân

the old ones: yr hen rai/do/oruchwyliaeth

an old saying: hen air

an old skinflint: hen groen/gÿb

an old softy: hen frechdan/wlanen

an old wives' tale: hen chwedl, coel/chwedl gwrrach/hen wrach

on a bike/horse: ar gefn beic/ceffyl

on a charge of ...: ar gyhuddiad o ...

on a high: ar frig y byd, yn ei hwyliau (*ef/hi)

on account of ...: oherwydd ..., achos ..., ar sail ..., ar gyfrif ...

on all fours: ar ei phedwar (*hi)

to be **on an equal footing with her**: bod yn gyfartal â hi

on any account: ar unrhyw gyfrif, ar (yr) un cyfrif, ar gyfrif yn y byd, er dim *She must not on any account eat garlic: Mae rhaid iddi hi beidio â bwyta garleg ar unrhyw gyfrif.*

on approval: ar brawf *The book was sent on approval: Anfonwyd y llyfr ar brawf.*

on arrival: wrth gyrraedd, wrth lanio (by boat or plane)

on average: ar gyfartaledd

They are **on bad terms**: Mae pethau'n ddrwg rhyngddynt, Does fawr o Gymraeg rhyngddynt

on bail of £1,000 for sth: ar fechniaeth o £1,000 am rth

on balance: wedi cymryd popeth i ystyriaeth, o ystyried popeth *On balance she was pleased to be able to leave earlier: Wedi cymryd popeth i ystyriaeth roedd hi'n falch o gael gadael yn gynt.*

on bare boards: ar lawr caled

on behalf of ...: ar ran ..., dros ... *She apologized on behalf of her brother: Ymddiheurodd hi ar ran ei brawd. She went to the funeral on behalf of her brother: Aeth hi i'r angladd dros ei brawd.*

on board (i.e. on a boat): ar y bwrdd, ar long

to go to Bala **on business**: mynd i'r Bala ar berwyl/fusnes

on call: at alw

on condition that she can come: dan/ar yr amod (y) bydd hi'n cael dod, ond iddi hi gael dod

on condition that she is ...: dan/ar yr amod ei bod hi ...

on considering: erbyn ystyried/meddwl *On considering I think that it is not she who is to blame: Erbyn ystyried rwy'n meddwl nad hi sydd ar fai.*

on credit: ar goel, ar lab (N), ar slât (S) *She bought the dress on credit: Prynodd hi'r ffrog ar goel.*

on different wavelengths from each other (fig.): am y pared/clawdd â'i gilydd

the painting **on display**: y peintiad a arddangosir

on each side of ...: o bobtu i ...

on edge: ar binnau, ar bigau'r drain *She is always on edge in his company: Mae hi bob amser ar binnau yn ei gwmmi.*

on everyone's lips: yng ngheg y byd, ar lafar gwlad *By tomorrow her offence will be on everyone's lips: Erbyn yfory bydd ei throredd yng ngheg y byd.*

They are **on first-name terms**: 'Ti' a 'thithau' yw hi rhyngdyn nhw

to be **on good terms with ...**: bod yn gyfeillgar â ..., bod ar delerau da â ...

a bitch **on heat** (i.e. in season): gast yn ei thymor, gast a gwres arni

on her account (i.e. because of her, for her sake): o'i hachos hi, er ei mwyn hi, o'i herwydd (hi) *I wasted a whole day on your account: Rydw i wedi gwastraffu diwrnod cyfan o dy achos di.*

on her coat-tails: wrth ei chynffon/chwt

on her conscience: ar ei chydwybod

on her father's side (of the family): o du ei thad, ar ochr ei thad

on her feet (i.e. being worn): am ei thraed

on her guard: ar ei gwyliadwriaeth

on her haunches: ar/yn ei chwrcwd

on her heels (i.e. close behind): wrth ei sawdl

on her high horse: ar gefn ei cheffyl (gwyn)

to be **on her mettle**: bod ar ei phrawf

on her own: ar ei phen ei hun(an)

on her own account: ar ei liwt ei hun *She set up as a consultant on her own account:*

Ymsefydlodd hi fel ymgynghorydd ar ei liwt ei hun.

- on her own admission:** yn ôl ei chyfaddefiad ei hun
- on her own ground** (i.e. near her home): ar ei thomen ei hun(an), yn ei chynefin, yn ei chymdogaeth, yn ei milltir sgwâr
- on her own initiative:** ar ei chorn ei hun
- to be **on her side:** cadw ei hochr, cadw arni hi, cadw ei rhan, bod o'i hochr hi
- on her toes:** ar flaenau ei thraed
- on her trail:** ar ei sathr, ar ei thrywydd, ar ei gwar, ar ei gwarthaf
- on her travels:** ar ei hynt, ar ei chrwydr(i)adau, ar ei thaith/theithiau
- on my own:** ar fy mhen fy hun(an), fy hunan bach, wrtho fy hun(an)
- on my word of honour:** ar fy ngwir/llw/ngair
- on no account:** ar unrhyw gyfrif, ar (yr) un cyfrif, ar gyfrif yn y byd, er dim *She must on no account eat garlic: Mae rhaid iddi hi beidio â bwyta garlleg ar unrhyw gyfrif.*
- to be **on one's guard against** ...: ymochel/gwyllo rhag ...
- on our own:** ar ein pennau ein hun(ain)
- on pain of** ...: dan boen ... *She told him not to leave his dog in her office on pain of losing his job: Dywedodd hi wrtho am beidio â gadael ei gi yn ei swyddfa hi dan boen colli ei swydd.*
- on purpose:** o fwriad, o bwrpas
- on second thoughts** ...: erbyn meddwl ...
- to be (working) **on short time:** gweithio oriau byrion
- They are not **on speaking terms:** Does dim Cymraeg rhyngddy nhw
- on tenterhooks:** ar bigau'r drain
- on that occasion** (past or future): (ar) hynny o dro

- on that very day:** ar yr union ddiwrnod, yng nghorff y dydd hwnnw, o fewn corff y dydd hwnnw
- on the alert:** gwyliadwrus, gochelgar, ar wyliaidwriaeth, ar flaenau'i thraed (*hi)
- to be **on the alert against** ...: gwyllo rhag ...
- on the bare ground:** ar y ddaear galed
- She is **on the bottle:** Mae hi'n yfwr trwm, Mae hi'n codi'r bys bach, Mae hi'n potio
- It is quite **on the cards that she will be there:** Siawns na fydd hi yno, Mae'n debyg(ol) (y) bydd hi yno
- on the contrary:** i'r gwrthwyneb, ar y gwrthwyneb *She thought she had angered me but, on the contrary, I was delighted: Roedd hi'n meddwl ei bod hi wedi fy nigio i ond, i'r gwrthwyneb, roeddwn i wrth fy modd.*
- on the doorstep:** ar ben y drws
- on the dot** (referring to time): i'r eiliad, yn brydlon *The performance started on the dot: Dechreuodd y perfformiad i'r eiliad.*
- to be **on the fence:** bod yn amhleidiol, methu penderfynu ynglŷn â rhyth
- She is always **on the go:** Mae hi'n wastad yn brysur/ar fynd
- on the ground:** ar lawr
- on the grounds that she was/is** ...: ar y tir/sail ei bod hi ... *She was excused on the grounds that she was too busy: Cafodd hi ei hesgusodi ar y tir ei bod hi'n rhy brysur.*
- on the horns of a dilemma:** mewn cyfyng-gyngor, yn gyfyng arni o'r ddeutu (*hi)
- on the increase:** ar gynnydd
- on the lookout for** ...: ar sgawt am ... *She is on the lookout for a second-hand car: Mae hi ar sgawt am gar ail-law.*
- on the loose:** ar led, ar gerdded, â'i thraed yn rhydd (*hi)
- on the mend:** ar wellhad/wella
- on the move:** ar gerdded

on the off chance of meeting her: yn y gobaith o gyfarfod â hi

on the opposite side of the street to the church: am y stryd â'r eglwys, gyferbyn â'r eglwys *Her house is on the opposite side of the street to the church: Mae ei thŷ am y stryd â'r eglwys.*

on the opposite side of the wall to you: am y pared â chi

on the other side of the river: yr ochr draw i'r afon *She could see them on the other side of the river: Gallai hi eu gweld nhw yr ochr draw i'r afon.*

on the outskirts of ...: ar gyrion ... *Her house is on the outskirts of the town: Mae ei thŷ ar gyrion y dref.*

on the point of ...: ar fin ..., ar ..., ar fedr ... *She was on the point of retiring when she was promoted: Roedd hi ar fin ymddeol pan gafodd hi ei dyrchafu.*

on the pretext (of) ...: dan gochl ..., dan yr esgus ..., o esgus ... *She demanded the money on the pretext that she was a trustee: Gofynnodd hi am yr arian dan gochl ei bod yn ymddiriedolwr.*

on the quiet (i.e. secretly): yn ddistaw bach/fach, ar y ciw-ti (S) *She got a bit of financial help on the quiet: Cafodd hi dipyn o gymorth ariannol yn ddistaw bach.*

on the right track: ar ben y ffordd, ar y trywydd iawn/cywir *She knew she was on the right track and would succeed in the end: Roedd hi'n gwybod ei bod hi ar ben y ffordd a byddai hi'n llwyddo yn y pen draw.*

on the rocks: heb yr un geiniog, heb ddimai goch, heb gragen i ymgrafu, heb yr un ffaden, ar y clwt (S)

on the run: ar herw, ar ffo

on the scrap heap: ar y domen

on the skew/slant: ar ogwydd, ar oleddf, ar y sgiw

to collapse and die **on the spot:** syrthio'n gelain, marw yn y fan a'r lle

to run **on the spot:** rhedeg yn ei hunfan (*hi).

on the spur of the moment: ar gynhyrriad y foment, yn fyrfyfyr, yn ddifeddwl *She bought the ridiculous hat on the spur of the moment: Prynodd hi'r het chwerrthinlyd ar gynhyrriad y foment.*

on the threshold of ...: ar drothwy ... *She was on the threshold of an exciting career: Roedd hi ar drothwy gyrfa gyffrous.*

on the tip of my tongue: ar flaen fy nhafod

They won the cup four times **on the trot:** Enillion nhw'r cwpan bedair gwaith yn olynol/ar ôl ei gilydd/o'r bron

The milk is **on the turn:** Mae'r llaeth/llefrith ar droi

to be **on the up and up:** bod ar i fyny, ffynnu *I don't trust people who are on the up and up: Dw i ddim yn ymddiried mewn pobl sydd ar i fyny.*

on the wane: ar gil/drai

to be **on the warpath:** bod am waed rhn

on the whole: at ei gilydd, drwodd a thro, ar y cyfan

They are **on their beam ends:** Mae hi wedi mynd yn fain arnyn nhw, Mae'n gyfyng arnyn nhw

on this occasion: (ar) hyn o dro

on tiptoe: ar flaenau ei thraed (*hi)

to get **on top of her** (fig.): mynd yn drech na hi, ei llethu hi *Her troubles were getting on top of her: Roedd ei helyntion yn mynd yn drech na hi.*

on top of it all: i goroni'r cyfan, ar ben y cyfan, ar ben popeth/pob dim *On top of it all she had to repair the washing machine before going to bed: I goroni'r cyfan roedd rhaid iddi hi atgyweirio'r peiriant golchi cyn mynd i'r gwely.*

to sit **on top of the fire** (to keep warm): eistedd â'i thrwyn yn y tân (*hi), eistedd ar ben y tân

to be **on top of the job/work**: bod ar war y gwaith *Within a month of returning she was again on top of the work: O fewn mis o ddychweilyd roedd hi ar war y gwaith eto.*

on top of the world: ar/wrth ben ei digon (*hi), uwchben ei digon (*hi), ar frig y byd, fel y gog

on tour: ar daith

She usually has her mother **on tow**: Mae hi'n arfer llusgo'i mam i'w chanlyn, Fel arfer mae hi â'i mam wrth ei chynffon/ chwt

on trial: ar brawf *The new machine was still on trial: Roedd y peiriant newydd ar brawf o hyd.*

on trust: ar goel

once again: o'r newydd, o newydd, unwaith eto

once and for all: unwaith ac am byth

once in a blue moon: unwaith yn y pedwar amser/tro, yn bur anaml

one at a time: un ar y tro, (o) fesul un (ac un), bob yn un, yn un ac un

one behind the other: tu ôl i'w gilydd

one between two: un bob yn ddau, un rhwng dau

one by one: as for **one at a time**

one each: un yr un, bob o un

She has **one foot in the grave**: Mae hi ar war ei phwll, Mae hi ym mhorth y fynwent

one hell of a ...: clamp o ...

She is recovering from **one of her turns**: Mae hi'n dod dros un o'i phyliau

the **one that causes difficulties**: y drwg yn y caws, yr un sy'n codi bwganod *Every time we try to arrange to go away grandfather is the one that causes difficulties: Bob tro rydyn ni'n ceisio trefnu i fynd i ffwrdd taid ydy'r drwg yn y caws.*

one to the other: y naill wrth y llall

to be **one up on ...**: cael/ennill y blaen ar ... *She bought the car to be one up on her neighbours: Prynodd hi'r car er mwyn cael y blaen ar ei chymdogion.*

one way or another: rywffordd/rywfodd/rywsut neu'i gilydd

the **ones who left**: y sawl/y rhai/y rheini a ymadawodd

open handed (i.e. generous): llaw-agored, hael *When her children ask her for money she is usually open handed: Pan fydd ei phlant yn gofyn iddi am bres bydd hi'n llaw-agored fel arfer.*

to **open her eyes wide**: agor ei llygaid yn fawr

to **open his/her big mouth**: lledu ei hopran *We would still have been the best of friends if you had not opened your big mouth: Basen ni'n dal i fod yn bennaf ffrindiau tasech chi ddim wedi lledu eich hopran.*

to **open slightly**: cil-agor

to **open s.o.'s eyes to ...**: agor llygaid rhn i ... *She opened my eyes to the corruption that went on in the city: Agorodd hi fy llygaid i'r llygredigaeth oedd yn mynd ymlaen yn y ddinas.*

to **open the window a bit**: agor mymryn ar y ffenest

an **opportune moment/time**: amser cymeradwy/cyfleus/manteisiol

opposed to ...: yn erbyn ... *She is opposed to exporting live animals: Mae hi yn erbyn allforio anifeiliaid byw.*

to sit **opposite her at the table**: eistedd am y bwrdd â hi

the **opposite sex**: y rhyw arall

opposite (to) ...: gyferbyn â ..., gogyfer â ...

oppressed with misfortune: mewn byd garw, yn dywyll arni, mewn trybini

... or other: ... neu'i gilydd *There was sth or other hurting my foot: Roedd rth neu'i gilydd yn brifo fy nhroed.*

to **order her to stand**: gorchymyn iddi (hi) sefyll

the **other day**: y diwrnod/dydd o'r blaen
We went to Llandudno the other day: Buon ni yn Llandudno y diwrnod o'r blaen.

the **other evening**: y noson o'r blaen, pa noson (S)

She has **other fish to fry**: Mae ganddi bethau gwell i'w gwneud

out and about with ...: ar grwydr gyda/efo ..., ar hyd y fan/lle gyda/efo ..., ar hyd ac ar led gyda/efo ...

an **out and out denial**: gwadiad llwyr

an **out and out liar**: celwyddgi llwyr/rhonc

We were **out by a long way**: Roedden ni'n bell ohoni, Roedden ni'n methu o dipyn

out for her blood: am ei gwaed

out for the count: anymwybodol, wedi'i llorio (*hi)

She was **out like a light**: Aeth hi allan fel diffodd kannwyll, Aeth hi ma's fel hól

out of compassion: o dosturi

out of breath: wedi colli'i gwynt (*hi), a'i hanadl yn ei dwrn/gwddf (*hi), a'i gwynt yn ei dwrn/gwddf (*hi) (S), allan/ma's (S) o anadl/wynt

out of character: yn groes i'w hanian/chymeriad (*hi)

out of character with ...: yn anghydawns â ...

out of consideration for her: o barch tuag ati hi

out of doors: (y) tu allan, (y) tu fa's (S)
The children were playing out of doors: Roedd y plant yn chwarae tu allan.

out of earshot: o glyw

The car is **out of gear**: Mae'r car allan o'i/o'r afael

out of habit: o arfer(iad) *She asked out of habit more than out of interest: Holodd hi o arferiad yn fwy nag o ddiddordeb.*

out of hand: heb ystyriaeth, heb oedi, yn ddi-oed *She was sacked out of hand: Cafodd hi ei diswyddo heb ystyriaeth.*

out of her depth (lit. and fig.): allan o'i dyfnder

to be **out of her mind** (with anger or insanity): bod o'i chof, bod o'i phwyll, colli arni ei hun, bod â cholled arni

out of her sight (see also **out of sight**): o'i golwg, yn ei chefn

out of idle curiosity: o chwilfrydedd pur

out of keeping with the rest of the story: yn anghyson/anghydnaws â gweddill yr hanes

out of order (of person or papers): allan/ma's o drefn *The chairman ruled that she was out of order: Dyfarnodd y cadeirydd ei bod hi allan o drefn.*

The phone was **out of order**: Roedd rhyw gam-hwyl ar y ffôn, Roedd y ffôn wedi torri

It looks **out of place** in the kitchen: Mae golwg ryfedd arno yn y gegin

out of pocket: ar ei cholled (*hi) *Despite the compensation she was out of pocket: Er gwaethaf yr iawndal roedd hi ar ei cholled.*

to be ten pounds **out of pocket**: bod ar ei cholled o ddeg punt (*hi)

out of range: pell o gyrraedd

out of reach: allan o gyrraedd

out of respect for her: o barch tuag ati/iddi hi

to do sth **out of revenge**: gwneud rhith o ran dial/o ran talu'r pwyth

out of sight (see also **out of her sight**): o'r golwg

out of sorts: allan/ma's o hwyl

out of the blue: yn hollol annisgwyl

out of the corner of her eye: trwy gil ei llygad

out of the frying pan into the fire: o'r ffrimpan (S)/ badell ffrïo i'r tân, o'r mwg i'r tân

out of the ordinary: anghyffredin, eithriadol, gwahanol

out of the question: allan/ma's o bob rheswm, amhosibl

out of the running: allan/ma's ohoni, allan/ma's o'r ras

to get out of the way: mynd allan/ma's o'r ffordd, mynd o dan draed

Her achievements are nothing **out of the way:** Dydy ei gorchestion ddim yn anghyffredin/eithriadol/arbennig, Mae ei gorchestion yn ddigon cyffredin

She is not yet **out of the wood:** Dydy hi eto allan/ma's o drafferthion/o'r gors, Mae hi'n dal i fod mewn helbul/peryg(l)

She is **out of touch with** recent research: Mae hi wedi colli gafael ar ymchwil ddiweddar

out of tune: allan o gywair, digywair
to sing **out of tune:** canu allan ohoni, colli'r traw

out of turn: o flaen ei thro (*hi) *She went out of turn: Aeth hi o flaen ei thro.*

out of work: heb waith, yn ddi-waith, yn segur, ar y clwt

out on the booze: ar y sbri/cwrw

out on the streets: ar hyd y stryd

out-of-pocket expenses: treulïau parod
It needs painting **outside and inside:** Mae arno angen/eisiau paent oddi allan ac oddi mewn/y tu mewn

She has got them **over a barrel:** Maen nhw ar ei thrugaredd/ar gleddr ei llaw

over and over: o hyd (ac) o hyd, drosodd a thro(sodd) *She kept on asking the same question over and over: Roedd hi'n dal i ofyn yr un cwestiwn o hyd o hyd.*

over her: am ei phen, drosti (hi) *S.o. spilt tea over her: Colodd rhn de am ei phen.*

over her meal: dros ei bwyd, wrth fwyta *She took time over her meal: Cymerodd hi amser dros ei bwyd.*

over next to nothing: am y nesaf peth i ddim *They were quarrelling over next to nothing: Roedden nhw'n ffræo am y nesaf peth i ddim.*

over the edge: dros y dibyn/yr ymyl

over the length and breadth of the country: ar hyd a lled y wlad, ledled y wlad

over the moon: wrth ei bodd (*hi), uwchben ei digon (*hi), yn ei seithfed nef (*ef/hi)

over the past years: dros war/ysgwydd y blynyddoedd

over the top: dros ben llestri *I thought she was going over the top when she said it was a superb meal: Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n mynd dros ben llestri pan ddywedodd hi fod y pryd yn rhagorol.*

to overcome her difficulties: dod dros ei hanawsterau

to overcome her shyness: dod allan o'i chragen, bwrw ei swildod

overflowing with hatred: yn gyforiog/berwi o gasineb

overshadowed by ...: yn nghysgod ...

She **owes money right, left and centre:** Mae dyledion i bawb arni hi, Mae hi dros ei phen a'i chlustiau mewn dyled, Mae arni hi arian i bawb

She **owns the outfit:** Hi piau'r drol/cwbl



to pack her bags and go: hel ei phac (N), codi ei chwt a'i heglu hi

packed full: dan ei sang, llawn dop *The hall was packed full: Roedd y neuadd dan ei sang.*

to **paddle her own canoe**: rhwyfo ei chwch ei hun(an)

to **be paid by the week**: cael cyflog fesul wythnos

She's a real **pain in the neck**: Mae hi'n un ddfilas, Mae hi'n bigyn yn y glust, Mae hi'n ddanno(e)dd o ferch

to **palm sth off on her**: rhoi rthth gwael/ffug iddi

to **be part and parcel of ...**: bod yn rhan hanfodol o ...

part of her nature (i.e. innate): yn nhorriad ei bogail *Helping other people is part of her nature: Mae rhoi cymorth i bobl eraill yn nhorriad ei bogail.*

to **part with ...**: ymadael â ..., gollwng ei gafael ar ... (*hi)

to **partake/participate in ...**: cyfranogi yn/o ..., cydgyfranogi â ..., bod yn rhan o ..., cymryd rhan yn/mewn ..., ymuno yn/mewn ...

to **partake of food**: bwyta *Then she beckoned to them to partake of the meal: Wedyn amneidiodd hi arnyh nhw i fwyta'r pryd o fwyd.*

I don't **particularly want to go**: Does gen i fawr o amynedd/awydd/chwant mynd

partly in jest: rhwng chwarae a difrif, rhyw hanner cellwair

to **be party to the plot**: bod yn gyd-gynllwyniwr, bod â rhan yn y cynllwyn, bod yn gyfrannog/gyfrannwr yn y cynllwyn

to **pass a test/an examination**: llwyddo mewn prawf/arholiad

to **pass away** (i.e. die): mynd i'w hateb/haped (*hi), huno, marw, croesi'r afon

to **pass away suddenly and peacefully**: marw fel diffodd kannwyl

to **pass by on the other side** (without offering help): mynd o'r tu arall heibio

to **pass herself off as a doctor**: cogio/smaliu/esgus ei bod yn feddyg

to **pass the time**: difyrru'r amser

to **pass the time of day with her**: dweud ambell air wrthi, ei chyfarch (hi)

a **passing phase**: chwiw, peth dros dro

past the gate: heibio i'r glwyd/lldiart/g(i)ât

a **patch of land**: lled troed (o dir), clwt/darn o dir *She had only a patch of land, but it was enough for her: Doedd ganddi hi ddim ond clwt o dir ond roedd yn ddigon iddi.*

Her **patience was exhausted**: Roedd pall ar ei hamynedd

Her **patience was wearing thin**: Roedd hi bron â cholli amynedd

to **pave the way**: palmantu'r/paratoi'r ffordd

to **pay a hundredfold/a hundred times over/very well**: talu ar ei ganfed *It pays a hundred times over to be kind to other people: Mae'n talu ar ei ganfed i fod yn garedig wrth bobl eraill.*

to **pay a visit to ...**: ymweld â ...

to **pay attention to ...**: dal sylw ar ..., rhoi sylw i ...

to **pay by cheque**: talu â/trwy siec

to **pay by instalments**: talu fesul tipyn, talu gan bwyll bach

to **pay by the hour**: talu yn ôl yr awr, talu fesul awr

to **pay cash**: talu ar law, rhoi arian parod

to **pay dearly for ...**: talu'n hallt am ...

to **pay for her to go**: talu iddi hi fynd

to **pay her a compliment**: rhoi pluen iddi hi, talu teyrnged iddi hi

to **pay her back with interest**: ei rhoi hi iddi yn ei dannedd

to **pay her for us to go**: talu iddi hi i ni gael mynd

to **pay her for working**: talu iddi hi am/i weithio

to **pay in advance**: talu ymlaen/o flaen llaw, talu rhag blaen

to **pay off an old score**: talu'r pwyth, talu'r hen chwech yn ôl, talu hen gownt, talu chwyl

to **pay one's last respects to ...**: talu'r gymwynas/deyrnged olaf i ...

to **pay through the nose**: talu trwy ei thrwyn (*hi), talu'n hallt, talu crochris (cf. *cost an arm and a leg*)

to **pay tribute to ...**: talu teyrnged i ..., rhoi teyrnged i ...

a **peace offering**: awgrym o gymod, heddoffrwm, offrwm heddwch

to **peck at one's food**: pigo bwyta

to **peep at ...**: sbecian ar ..., ciledrych ar ..., cewcan/ciwco ar ... (S)

to **penetrate sth**: treiddio i rth

to **penetrate to the bone**: treiddio at yr asgwrn

to be **penny wise and pound foolish**: achub y blewyn a cholli'r bwrn, rhoi'r dorth a gofyn y dafell, gwario swllt er ennill ceiniog

People find it difficult to ...: Mae pobl yn cael gwaith i ..., Mae pobl yn ei chael yn anodd i ...

perfectly correct: yn llyga(i)d ei lle (*hi)
She was perfectly correct when she said that the lecture would be boring: Roedd hi yn llygad ei lle pan ddywedodd y basai'r ddarlith yn ddiiflas.

perhaps she will come: siawns na ddaw hi, efallai y daw hi

to **permit her to go**: gadael/caniatáu iddi (hi) fynd

to be **permitted to go**: cael mynd

She is **pernickety about/with her food**: Mae hi'n ddicra ynghylch ei bwyd, Mae hi'n fisi ynghylch ei bwyd (N), Mae hi'n neis ar ei bwyd (S)

to **persevere in ...**: dal wrth ... *She persevered in speaking Welsh*: Roedd hi'n dal wrth siarad Cymraeg.

to **persevere with sth**: dygnu arni â rth, dal at rth, dyfalbarhau â rth

a **person of many talents**: pry(f) garw, cyw o frid

to **persuade her to ...**: ei darbwyllo/chymell/hwyllo hi i ...

to **pervert judgement**: gwyro barn *She changed only one or two words but that was enough to pervert judgement on the article*: Newidiodd hi un neu ddau air yn unig ond roedd hynny'n ddigon i wyro barn ar yr erthygl.

her **pet theory**: ei hoff ddamcaniaeth

to **peter out**: diffodd yn raddol, dod i ben, mynd i'r gwellt, dirwyn i ben

to **phone to apologize**: ffonio er mwyn/i ymddiheuro

She is a **physical wreck**: Mae hi'n llanast(r) corfforol, Mae hi'n dra ysig o gorff

physically handicapped: dan anfantais gorfforol, yn anabl, yn ffaeledig

to **pick at sth**: pigo rth

I would be able to **pick her out in a crowd**: Gallwn i ei (had)nabod hi yng ngheg y frân/mewn tyrfa

the **pick of the bunch**: y gorau o'r cyfan

to **pick on her**: pigo arni hi

to **pick up a (news)paper at the shop**: codi papur (newydd) o'r siop

pie in the sky: breuddwyd gwrach

a **piece of cake** (lit.): tamaid/ychydig/darn o deisen/gacen

It's a **piece of cake** (fig.): Mae'n hawdd iawn, Does dim byd haws, Mae'n hawdd fel dŵr/baw, Mae fel chwarae plant

a **piece of her mind**: tamaid o'i cheg, pryd o dafod *When they arrived an hour late they got a piece of her mind*: Pan gyrhaedd

- nhw awr yn hwyr mi gawson nhw damaid o'i cheg.*
- to **piece together**: cyfannu, rhoi at/wrth ei gilydd
- a **piercing wind**: gwynt llym/main/treiddgar, gwynt traed y meirw (an east wind)
- a **pig in a poke**: cath mewn cwd
- to **pilfer**: mân-ladrata
She's a **pilferer**: Mae ganddi ddwylo blewog/ law flewog.
- to be **pilferred**: cael traed *The handbook has been pilferred: Mae'r llawlyfr wedi cael traed.*
- to **pin her faith on ...**: seilio ei ffydd (hi) ar ...
- to **pine after/for ...**: galaru/hiraethu ar ôl/am ...
- pins and needles**: pinnau bach, pryfed mân (N)
- to be **pipped at the post**: cael ei threchu ar y munud/funud olaf, boddi yn ymyl y lan
- pitch black**: du fel y fagddu, du fel y frân, fel bol buwch (ddu), pygddu
- pitch dark**: mor dywyll â'r fagddu, tywyll fel bol buwch (ddu)
- pitched battle**: cad ar faes, cad Gamlan, brwydr benben *There was a pitched battle between the police and the students: Roedd cad ar faes rhwng yr heddlu a'r myfyrwyr.*
- to **pity ...**: tosturio dros/wrth ..., teimlo dros ...
- plain as a pikestaff**: mor amlwg â chilbost/golau dydd/haul ar bost
- plastered with ...**: yn blastr o ... *The wall was plastered with posters: Roedd y wal yn blastr o bosteri.*
- to **play for** Cardiff: chwarae dros Gaerdydd
- to **play for time**: chwarae i ennill amser
- to **play havoc with ...**: gwneud llanast(r) ar/o ..., chwarae'r diawl â ...
- to **play merry hell**: chwarae'r diawl/ andros/coblyn/aflwydd
- to **play one's cards right**: chwarae'n ddeheuig
- to **play second fiddle to her**: dod yn ail iddi hi
- to **play the piano/harp/violin etc**: canu'r piano/delyn/ffidil a.a.
- to **play with fire**: chwarae â than *I warned them that stealing from a karate black-belt was playing with fire: Rhybuddiais i nhw mai chwarae â than oedd lladrata oddi ar wregys ddu mewn karate.*
- to **plead on behalf of ...**: eiriol/ymbil/pledio/erfyn/deisyf(u) dros/ar ran ...
- to be **pleasantly surprised**: cael ei siomi ar yr ochr orau (*ef/hi) *She was expecting bad news but she got a pleasant surprise: Roedd hi'n disgwyl newyddion drwg ond cafodd ei siomi ar yr ochr orau.*
- to **please her**: rhyngu ei bodd (hi), ei boddhau/bodloni hi
- to be **pleased** (for purely selfish reasons, about another's misfortune): llyfu ei bysedd *The reporter was pleased when he realized that he had a good story about the disaster: Roedd y gohebydd yn llyfu ei fysedd wrth sylweddoli bod ganddo stori dda ynglŷn â'r drychineb.*
- to be **pleased to go home**: bod yn falch o fynd adref
- pleased to be able to go**: yn falch o gael mynd *She was pleased to be able to go home at last: Roedd hi'n falch o gael mynd adre o'r diwedd.*
- pleased to have a bit of help**: yn falch o dipyn o help *She would be pleased to have a bit of help in the garden: Basai hi'n falch o dipyn o help yn yr ardd.*
- pleased to see the back of her**: yn falch o gael ei chefn
- plenty of cheek/nerve**: digon o wyneb *She had to put up with plenty of cheek from her neighbours' children: Roedd rhaid iddi hi*

ddioddef digon o wyneb oddi wrth blant ei chymdogion.

- to **pluck up one's courage**: magu plwc/dewrder
- to **plumb the depths of despair**: taro'r gwaelod
- to **ply her with questions**: ei holi hi'n daer, holi ei pherfedd
- to **ply s.o. with sth**: rhoi rhth i rn drosodd a throsodd/yn ddi-ball *Throughout the evening they plied her with wine and chocolate: Trwy gydol y nos roedden nhw'n rhoi gwin a siocled iddi hi drosodd a throsodd.*
- to **point an accusing finger at ...**: estyn bys at ...
- to **poke fun at s.o.**: gwatwar(u) rhn, gwawdio rhn, chwerthin ar ben rhn, gwneud sbort am ben rhn
- to **poke her head out of the window**: brathu ei phen drwy'r ffenestr
- to **poke her nose in** (i.e. interfere): rhoi ei phig i mewn
- to **poke her nose into ...**: rhoi ei phig i mewn i ..., brathu ei phen i ...
- to **polish it**: rhoi sglein arno
- a **pompous man**: gŵr mawr, un llond ei (e)sgidiau
- a **pompous woman**: gwraig fawr, un llond ei (he)sgidiau
- to **ponder over ...**: cnoi cil ar ..., myfyrio ar ...
- poor as a church mouse**: mor dlawd â llygoden eglwys, cyn dloted â llygoden eglwys, fel llygoden eglwys
- Poor chap!**: Bechod drosto!, Druan ohono!, Druan â fe/fo!
- The **poor dear!**: Y greadures fach!
- Poor old thing!**: Hen begor!, Yr hen druan!, Yr hen dlawd! (N), Y creadur! (N)
- The/You **poor thing!**: as for **Poor old thing!**

Poor you!: Druan â chi!, Druan ohonoch chi!

- to **possess ...**: medd(iann)u ar ...
- It is **possible to rest**: Mae'n bosibl gorffwys
- It is **possible to go by bus**: Mae modd mynd ar y bws/gyda'r bws
- a **pound (£) a pound (lb)**: punt y pwys
- a **pound each**: punt yr un, bob o bunt
- to **pour oil on troubled waters**: lleddfud llid, tawelu'r storm
- to **pour over ...**: arllwys (S)/tywallt (N) ar ... *Pour the cream over the strawberries: Arllwyswch yr hufen ar y mefus.*
- to **pour with rain**: tresio bwrw (N), tywallt (N)/arllwys (S) y glaw, ei harllwys hi (S), pistyllio bwrw
- There has been **practically no response**: Fu bron ddim ymateb
- to **practise a trade**: dilyn/canlyn/ymarfer crefft
- to **practise what she preaches**: dilyn ei phregeth ei hun(an), dweud ac yn gwneud
- Praise be to God**: Boed mawl i Dduw
- to **praise s.o. to the skies**: canmol/codi rhn i'r cymylau
- to **prattle on**: malu awyr, malu sôn, rwdlian (N), pratian (N), brywlan (S)
- prattling non-stop**: fel melin glap/glep, fel prep melin bupur, fel pwll y môr
- to **pray for success**: gweddïo am lwyddiant
- to **pray for her**: gweddïo drosti
- to **pray for her to come**: gweddïo iddi hi ddo
- to **pray to him**: gweddïo arno
- to **preach at her**: anelu pregeth ati
- to **preach to her**: pregethu iddi/wrthi
- I **prefer honey**: Mae'n well gen i fêl (N), Mae'n well 'da fi fêl (S)

to be **pregnant**: bod yn feichiog, disgwyl, bod dan ei gofal, magu esgyrn bychain (N), magu mân esgyrn (N)

to **prepare a corpse for the coffin**: troi corff heibio

to **prepare against the floods**: gofalu/ paratoi rhag y llifogydd

to **prepare dinner/breakfast**: hwylio cinio/brecwast, gofalu am ginio/frecwast

to **prepare for the funeral**: paratoi at yr angladd

to **prepare the bed**: cyweirio'r gwely, taenu'r/tannu'r gwely, gwneud y gwely

to **prepare to leave the nest** (i.e. home): magu adenydd

the **present day**: (y dydd) heddiw, y dydd/ dwthwn hwn

a **present for John**: anrheg i John

to **present her to him**: ei chyflwyno hi iddo

to **press her to ...**: gwasgu arni hi i ...
They were always pressing her to give more money: Roedden nhw bob amser yn gwasgu arni hi i roi rhagor o arian.

to be **pressed for time**: bod ar frys, bod yn brin o amser

pretence of ...: esgus ... *She took the gift without any pretence of gratitude: Cymerodd hi'r anrheg heb esgus diolchgarwch.*

to **pretend**: cymryd arni hi, ffugio, cogio, esgus (bod) *Don't pretend you don't know. Paid â ffugio nad wyt ti'n gwybod. For two years she has pretended to be a doctor: Ers dwy flynedd mae hi'n cymryd arni ei bod yn feddyg.*

to **pretend to be asleep**: cysgu llwynog, cysgu ci bwtsiwr *She is only pretending to be asleep, so that she can hear some gossip: Dim ond cysgu llwynog mae hi er mwyn clywed mân siarad.*

to **pretend to be working hard**: dal (y) slac yn dynn (S) *They pretended to work hard in case they were without work the next*

day: Roedden nhw'n dal y slac yn dynn rhag bod heb waith drannoeth.

She **pretended not to notice**: Wnaeth hi ddim cymryd arni/esgus ei bod hi'n sylwi a **pretty kettle of fish**: tipyn o gawl, cawl, llanast(r)

to **prevail upon her to do sth**: pwysu arni hi i wneud rhyth

to **prevent her (from) escaping**: ei rhwystro/hatal hi rhag dianc

to **prey on her mind**: poeni ei meddwl, aflonyddu/chwarae ar ei meddwl

to **prick up her ears**: moeli/codi ei chlustiau

to **proceed against ...** (in law): mynd yn erbyn ..., dwyn achos yn erbyn ...

to **proclaim sth to them**: cyhoeddi rhyth iddynt

to **produce an unpleasant feeling in the stomach**: codi cnoi/pÿch

to **produce foam**: bwrw ewyn, malu ewyn

to **proffer her hand**: estyn ei phump/llaw, cynnig ei llaw

to be **proficient in karate**: medru karate

to **profit from ...**: elwa ar ... *They were all guilty of profiting from the work of the smugglers: Roedden nhw i gyd yn euog o elwa ar waith y smyglwyr.*

to **prohibit her from entering**: ei gwahardd hi rhag mynd i mewn

to **promise her a new dress**: addo ffrog newydd iddi hi

to **promise the earth/moon**: addo môr a mynydd

to **promise to go**: addo mynd

It **promises to be fine**: Mae'n addo'n braf

She is **prone to blame** other people: Mae hi'n chwannog/tueddu i feio pobl eraill

proof against rusting: diogel rhag rhwd

That is **proof that she is** talented: Dyna brofi ei bod hi'n dalentog

proportionate to ...: cymesur â ...

a/the proprietor of ...: perchennog(ar) ar ...

She is the proprietor of a restaurant: Mae hi'n berchen ar fwyty.

prospect(s) of ...: golwg (am) ... *There is*

no prospect of an early election: Does dim

golwg am etholiad cynnar. There is no

prospect of failure: Does dim golwg methu.

to protect from ...: noddi/amddiffyn/

cadw/diogelu rhag ...

protection for ...: amddiffyniad ar

gyfer ..., noddfa i/ar gyfer ... *The refuge*

is a valuable protection for women who have

suffered abuse: Mae'r lloches yn noddfa

werthfawr ar gyfer gwagedd sy wedi cael eu cam-drin.

to be proud about ...: ymfalchïo yn ...,

bod yn falch o/am ...

proud as a peacock: cyn falched â'r paun,

mor falch â'r paun/ag alarch ar lyn/

â phriodas

to be/stand proud of the surface: bod yn

glir o'r wyneb, bod uwchlaw'r wyneb

to provide against the floods: gofalu rhag

y llifogydd

to provide for a rainy day: achub angen,

cadw afraid ar gyfer rhaid

provided I can rest later: ond i mi/fi gael

hoe (S)/seibiant yn nes ymlaen

provided I don't forget: ond i mi/fi beidio

ag anghofio

provided (that) ...: (cyn) belled (â)

bod ..., a bwrw bod ..., os ..., cyhyd â

bod ... *You may borrow the book provided*

you take care of it: Cewch chi fenthyg y llyfr

cyn belled â'ch bod yn gofalu amdano. You

may sit here provided you are quiet: Cewch chi

eistedd yma os ydych chi'n dawel.

provided (that) she goes: a bwrw ei bod

hi'n mynd, cyhyd â'i bod hi'n mynd

to provoke her: tynnu arni hi, ei

phryfocio/phrofocio hi, ei herio/phoeni hi

to pry into her private and public life:

chwilio ei phac, holi ei pherfedd

public opinion: llais y wlad

to puff and blow: chwythu fel morfil,

dyhefod (S)

to pull a face: tynnu gwep, tynnu ystum,

tynnu wyneb

to pull a wry face at ...: gwneud ceg gam

ar ...

to pull faces at ...: tynnu (y)stumiau ar ...,

gwneud cymachau (S)/strymantau (S)

ar ..., gwneud wynebau/tsiopsau (S)

ar ...

to pull her chestnuts out of the fire:

llosgi bysedd drosti, achub ei chroen

to pull her leg (i.e. joke): tynnu ei choes

to pull her socks up: torchi'i llewys, gafael

ynddi

to pull her weight: tynnu ei phwysau

to pull herself together: dod ati'i hun

to pull in (to the side of the road): tynnu i

mewn, tynnu i'r ochr

to pull it off: llwyddo, dod i ben â hi

to pull on the reins of her horse: tynnu

yn awenau ei cheffyl

to pull out (i.e. withdraw): tynnu'n ôl *She*

pulled out at the last minute: Tynnodd hi'n ôl

ar y funud olaf.

to pull out a dent: codi tol

to pull out all the stops: gwneud ei gorau

glas (*hi), rhoi pob gewyn ar waith

to pull round (i.e. start to improve during

a serious illness): gwella, bywiogi

to pull s.o./sth to pieces: beirniadu

rhn/rhth yn llym/arw, tynnu rhn/rhth yn

dipiau/ddarnau, lladd ar rn/rth

to pull strings: tynnu gwifrau

to pull the rug from under her: tynnu tir

dan ei thraed

to pull the wool over her eyes: taflu

llwch i'w llygaid

to **pull through** (i.e. recover from an illness): tynnu trwyddi

to **pull up her socks**: as for **pull her socks up**

to be **pulled up by the police**: cael ei dal/stopio gan yr heddlu (*hi)

to **pump for information**: holi a stilio (N), holi ei pherfedd (*hi)

to **punish s.o. for ...**: cosbi rhn am ...

pure luck: lwc mul/mwnci

purple patches: clytiau porffor, darnau blodeuog

to **pursue from pillar to post**: ymlid o goed i gastell

to **push a pram/bike**: hwylio pram/beic

to **push her aside**: ei gwthio (hi) i'r naill du/ochr, ei gwthio (hi) o'r neilltu *We can't ignore their request and push them aside like that: Allwn ni ddim anwybyddu eu cais a'u gwthio nhw i'r naill du fel yna.*

to **push one's way through** a crowd: ymwithio trwy dorf

to **push up the market price**: codi'r farchnad, gwthio pris y farchnad i fyny

She is **pushed for time**: Mae'n gyfyng/fain arni am amser, Mae'r amser yn brin arni

to **put a bold front on it**: rhoi golwg ddewr arni, dal brawd wyneb (N)

to **put a different complexion on it**: rhoi lliw arall ar y peth, newid y peth yn llwyr

to **put a dog down**: rhoi ci i gysgu

Put a jerk in it!: Gafael ynddi!

to **put a spoke in her wheel**: torri ar ei chwarae, rhoi ffon yn ei holwyn

to **put a stop to it**: rhoi stop arni

to **put about ...**: taenu ..., rhoi ar led ... *She put about the story that her husband was having an affair: Rhoes hi si ar led bod ei gŵr yn caru ar y slei.*

to **put an edge on** a blade: hogi llafn

to **put an end to ...**: cau'r drws yn glep ar ..., rhoi pen/terfyn ar ...

to **put an end to that matter/argument by a decisive action**: rhoi caead ar biser hwnnw, rhoi pen ar y mwdwl

to **put aside** (for keeping): rhoi i'r naill ochr/du, rhoi o'r neilltu

put by for ...: wrth law/gefn at ... *She believed in having money put by for any unexpected demand: Credai hi mewn cael arian wrth law at unrhyw alwad sydyn.*

put by for a rainy day: wrth gefn *She has quite a bit of money put by for a rainy day: Mae ganddi hi gryn dipyn o bres wrth gefn.*

to **put her affairs in order**: rhoi/gwneud trefn ar ei phethau

to **put her at her ease**: ei gwneud hi'n gartrefol

to **put her back up**: codi ei gwrychyn

to **put her feet up**: rhoi ei thraed ar y pentan

to **put her finger on ...**: rhoi ei bys ar ... *She was not able to put her finger on the cause of her suspicion: Doedd hi ddim yn medru rhoi ei bys ar achos ei hamheuaeth.*

to **put her foot down** (i.e. insist): rhoi ei throed i lawr

to **put her in a bad temper**: codi cythraul tu mewn iddi hi, ei rhoi hi mewn hwyl ddrwg

to **put her in her place**: ei rhoi hi yn ei lle *At first she was very critical but her boss soon put her in her place: Yn y dechrau roedd hi'n feirniadol iawn ond yn fuan rhoddodd ei phennaeth hi yn ei lle.*

to **put her in the way of** making money: ei galluogi hi i/rhoi cyfle iddi hi ennill arian

to **put her nose out of joint**: troi ei thrwyn, ei bwrw hi oddi ar ei hechel, ei chythruddo hi

to **put her nose to the grindstone**: rhoi ei thrwyn ar y maen

- to **put her off** going: peri/achosi iddi beidio â mynd
- to **put her off her mettle/metal**: tanseilio/andwyo ei dewrder/hyder
- to **put her off her stride/stroke**: ei bwrw hi oddi ar ei hechel, ei bwrw hi o'i chymal
- to **put her off the scent**: ei harwain hi oddi ar y trywydd
- to **put her on her mettle/metal**: ei herio hi i wneud ei gorau glas
- to **put her pride in her pocket**: llyncu'i balchder
- to **put her shoes on hurriedly**: taro (e)sgidiau am ei thraed
- to **put her through a searching interrogation**: ei holi hi y tu chwith(ig) allan, holi ei pherfedd
- to **put her through her paces**: ei rhoi hi ar brawf
- to **put her through it/the hoop**: ei rhoi hi drwy'r felin
- to **put her to shame**: codi cywilydd arni hi
- to **put her tongue out at s.o.**: tynnu ei thafod ar rn
- to **put her up to doing sth**: ei hannog hi i wneud rhth, peri iddi (hi) wneud rhth, dweud wrthi am wneud rhth
- to **put herself in a difficult situation**: rhoi ei phen yn y dorch *She put herself in a difficult situation by promising to meet the train: Rhoddodd hi ei phen yn y dorch wrth addo cwrdd â'r trên.*
- to **put herself out for them**: mynd i drafferth er eu mwyn nhw
- to **put in a good word for her**: dweud gair o'i phlaid hi, dweud geirda drosti
- to **put in a safe place**: rhoi i/ar gadw
- to **put in an appearance**: dangos ei hwyneb (*hi)
- to **put in for a job**: cynnig/ymgeisio am swydd, gwneud cais am swydd
- to **put new life into old bones** (usually ideas/beliefs etc. that have become moribund): cynhyrfu'r esgyrn sychion
- to **put obstacles in her way**: rhoi rhwystrau ar ei ffordd
- to **put off writing** the letter: oedi cyn ysgrifennu'r llythyr, gohirio ysgrifennu'r llythyr
- to **put on airs**: lledu ei hesgyll (*hi)
- to **put on record or in writing**: rhoi ar gof a chadw, rhoi mewn du a gwyn, rhoi ar glawr *She decided to put it in writing: Penderfynodd hi roi y peth ar gof a chadw.*
- to **put on side** (i.e. be pretentious): ei dangos ei hun(an) (*hi), rhodresa
- to **put on weight**: ennill/magu pwysau, magu bol (N), rhoi pwysau (N), dodi pwysau ymlaen (S)
- to **put one in mind of ...**: dwyn ar/ i gof ...
- to **put one's foot in it**: rhoi troed ynddi
- to **be put out about/by ...**: cynhyrfu ynghylch ... ffrwcsio ynghylch ... (N), bod wedi cymryd ati'n arw ynghylch ...
- to **put out the fire**: diffodd y tân
- to **put some money/savings behind one**: magu cefn
- to **put s.o. in the shade**: rhoi rhn yn y cysgod, taflu/bwrw rhn i'r cysgod
- to **put s.o. on the right track/road**: rhoi'r wagan ar yr haearn, rhoi rhn ar ben y ffordd
- to **put s.o. to work on ...**: gosod/rhoi rhn ar waith ar ...
- to **put s.o.'s back up**: digio rhn, codi gwrychyn rhn
- to **put sth across to her**: cyfleu rhth iddi hi
- to **put sth away**: dodi rhth ymaith (S), rhoi rhth i ffordd (N), rhoi rhth heibio

to **put sth in order**: rhoi trefn ar rth
 to **put sth right**: unioni rthh
 to **put sth up for sale**: doddi (S)/rhoi rhth ar werth
Put that in your pipe and smoke it!:
 Llynca di hwanna!, Dyna ti bilsen i'w llynca!
 to **put the blame on ...**: bwrw'r/dodi'r (S)/rhoi'r bai ar ...
 to **put the cart before the horse**: rhoi'r drol o flaen y ceffyl
 to **put the cat among the pigeons**:
 tarfu'r colomennod, cynhyrfu'r dyfroedd
 to **put the final touches to ...**: caboli ...
 to **put the place on the map**: enwogi'r lle, dwyn bri i'r lle
 to **put the screws on her**: gwasgu'n dynn arni, gwasgu ar ei gwynt, tocio'i hesgyll
 to **put the tin lid on the plan**: rhoi terfyn/pen ar y cynllun
 to **put the toys away**: rhoi'r teganau i gadw/heibio
 to **put the wind up s.o.**: codi ofn/braw ar rn, dychryn rhn, rhoi llond tin/twll o ofn i rn
 to **put the world to rights**: rhoi'r byd yn ei le
 to **put their heads together**: gwasgu/rhoi eu pennau ynghyd
 to **put them in retreat**: troi eu cad, eu gyrru ar ffo
 to **be put through the mill**: cael ei throï trwy'r felin (*hi)
 to **put to flight**: gyrru ar ffo
 to **put to one side**: rhoi/dodi (S) i'r naill ochr/du, rhoi/dodi (S) o'r neilltu, rhoi/dodi (S) heibio
 to **put to soak**: rhoi yng ngwlych, rhoi i fwydo, gwlychu *She put the beans to soak overnight: Rhoddodd hi'r ffa yng ngwlych dros nos.*

to **put two and two together**: rhoi dau a dau ynghyd/at ei gilydd, tynnu casgliadau
 to **put up at a hotel**: lletya mewn gwesty
 to **put up with ...**: dygymod â ..., dioddef ... *She could not put up with waiting so long: Allai hi ddim dygymod ag aros cymaint.*
 to **put up with one another ...**: cydymddwyn â'i gilydd ..., goddef ei gilydd
 to **put upon her**: peri/achosi trafferth iddi hi
 to **put work out to contract/tender**: gosod gwaith ar gynnig/dendr
Putting that aside ...: Ar wahân i hynny ...



a **quack doctor**: doctor bôn clawdd, crachfeddyg
 to **quarrel with s.o.**: mynd i'r glust â rhn, tynnu ym mhen rhn, ffraeo â/gyda/efo ..., cweryla gyda ... (S) *Once again she quarrelled with her mother: Unwaith eto aeth hi i'r glust â'i mam.*
 to **quench her thirst**: torri ei syched
 to **be quick off the mark**: cychwyn ar unwaith, cychwyn yn syth
 a **quick temper**: tymer wyllt, byrbwylltra, tymer fain (N)
 a **quick-tempered child**: plentyn gwyllt ei dymer
 a **quick-witted person**: un chwim ei meddwl (*hi), un sydyn, un ffraeth ei thafod (*hi)
quite a distance: cryn bellter, eithaf pellter
quite a bit: cryn dipyn, eithaf tipyn
quite a lad (esp. with women): dipyn o (a)deryn, rêl (a)deryn *Bleddyn is quite a lad: Mae Bleddyn yn rêl 'deryn.*

quite a long time: sbel go hir, eithaf sbel

quite a lot: cryn lawer, cryn dipyn

quite a stormy night: noson go fawr

It gave her quite a turn: Rhoddodd gryn ysgytwad iddi

quite another matter: peth hollol wahanol, peth arall hollol

quite as much as ...: lawn gymaint â ...

*She did not swear quite as much as before:
Regai hi ddim lawn gymaint ag o'r blaen.*

quite bad: eithaf drwg, pur/go ddrwg

quite good: pur dda, eithaf da, go dda

quite likely: pur debyg, eithaf tebyg

quite poorly: digon cwla (N)/sâl, eithaf gwael/tost (S)

quite slow(ly): yn ara(f) deg/bach

quite so much: lawn gymaint *She did not attract quite so much attention: Thynnodd hi ddim lawn gymaint o sylw.*

quite well: pur dda, eithaf da, go dda

to quote chapter and verse: rhoi pennod ac adnod



It was a race against time: Cael a chael oedd hi, Roedd hi'n fain/gyfyng arno am amser (*ef)

to rain cats and dogs: bwrw hen wragedd a ffyn, tresio bwrw (N)

to rain heavily: pistyllio bwrw, tywallt (N)/arllwys (S) y glaw, tresio bwrw (N), ei harllwys hi (S)

to raise a fist to ...: codi dwrn ar ...

to raise a loan on ...: codi arian ar ...

to raise an irrelevant matter: codi ysgyfarnog/sgwarnog *Whenever I try to discuss going abroad she raises some irrelevant matter: Pa bryd bynnag rwy'n ceisio trafod mynd tramor mae hi'n codi ysgyfarnog.*

to raise her hackles: codi ei gwrychyn

to raise her hopes too high: codi gormod ar ei gobeithion

to raise her voice: codi ei chloch

to raise money for ...: codi pres/arian at/ar ...

to raise the spectre of all sorts of difficulties: codi bwganod, codi pob math o fwanod

to raise the subject: codi'r pwnc (i'r gwynt)

to raise the tone of the conversation: codi lefel y sgwrs

to rake in the cash: gwneud arian/pres fel y grof/y mwg/slecs

The tickets **range from three to forty pounds:** Mae'r tocynnau'n amrywio o dair punt i ddeugain punt

That would be **rather a pity:** Basai hynny'n bechod o beth

She is **rather stupid:** Does dim byd rhwng ei dwy glust, Mae hi fel coes brws/fel sledj

a raucous voice: llais fel brân

a rave review: adolygiad tanbaid/brwd

raw flesh: cig amrwd; cig noeth

a ray of hope: llygedyn o obaith

to reach a conclusion/agreement: dod i gasgliad/gytundeb

to reach out for ...: ymestyn at ...

to react to sth: adweithio i rth

to read about ...: darllen am ...

to read somewhere (e.g. in a newspaper): darllen yn rhywle

ready for the visitors: yn barod ar gyfer/am yr ymwelwyr

ready for the morning: yn barod at y bore

one who is **ready to do anyone a favour:** un barod ei chymwynas (*hi)

ready to go: yn barod i fynd

ready-made clothes: dillad parod

a **real feast for the eyes**: digon o sioe, tipyn o ryfeddod *Your garden is a real feast for the eyes: Mae'ch gardd chi'n ddigon o sioe.*

a **real handful** (i.e. troublesome): llond llaw *That's the child who is a real handful: Dyna'r plentyn sy'n llond llaw.*

It's the **real McCoy**: Dyma'r gwir beth
I **really mean it**: Rydw i'n siarad o ddifrif

a **reason for this**: rheswm dros/am hyn
She has **reason to believe ...**: Mae ganddi le i gredu ...

to **reason with her**: dal pen rheswm/stori â/fo hi, ymresymu â hi

to **receive sth from her**: derbyn rhth oddi wrthi hi (S), derbyn rhth ganddi hi (N)

receiving attention: dan law/ystyriaeth *I can now confirm that the matter is receiving attention: Bellach rydw i'n medru cadarnhau bod y mater dan law.*

reception room: ystafell groeso
I would **recognize her anywhere**: Baswn i'n ei (had)nabod hi ym mhig y frân

recommended by him: dan ei fendith, wedi'i chymeradwyo ganddo (*hi)

to **record in writing**: rhoi ar gof a chadw, rhoi ar glawr, rhoi mewn du a gwyn

to raise a **red herring**: codi ysgyfarnog/sgwarnog

reeling drunk: meddw chwil/gorn/gaib, chwil gorn

to **refer to ...**: cyfeirio at ...

to **refrain from swearing**: ymatal rhag rhegi, ymgadw rhag rhegi

to **refrain from talking**: atal tafod

to **refuse her a drink**: gwarafun/gwrthod diod iddi hi

to **refuse to speak**: gwrthod/pallu siarad

to **refuse to commit oneself about the incident**: gwrthod dweud dim pendant ynghylch y digwyddiad

to **regain consciousness/composure**: dod ati'i hun(an) (*hi) *In a short while she regained consciousness and asked what had happened: Yn y man daeth hi ati'i hun a gofyn beth oedd wedi digwydd.*

She wrote **regarding ...**: Ysgrifennodd hi ynglŷn â/ynghylch/parted ...

regardless of the consequences: heb falio ffeuen, heb falio am neb na dim *She cancelled the excursion regardless of the consequences: Canslodd hi'r wibdaith heb falio am neb na dim.*

to **regret ...**: (e)difaru/edifarhau (am) ..., edifeirio (am) ..., bod yn edifar am ..., bod yn edifar ganddi ... (*hi) (N) *She regrets buying the car: Mae hi'n 'difaru prynu'r car. Mae'n edifar ganddi brynu'r car.*

to **regret extremely/hugely**: (e)difaru am bob blewyn ar ei phen (*hi)

to **regret that she said ...**: (e)difaru iddi hi ddweud ..., (e)difaru ei bod hi wedi dweud ...

... **reigns!**: ... piau hi! *Elvis reigns!:* *Elvis piau hi!*

to **rejoice in/about/over ...**: gorfoleddu yn/am ..., llawenhau ar/yn ..., llawenychu yn ..., ymlawenhau/ymlawenychu yn ...

to **relate sth to her**: traethu ar rth iddi hi, adrodd rhth wrthi hi

to **be related to ...**: perthyn i ...

to **be reluctant to ...**: bod yn gyndyn o ..., bod yn ôl o ...

to **remember about ...**: cofio am ...

Remember me to Huw!: Cofiwch fi at Huw!

to **remember to come**: cofio dod, cofio am ddod

to **remind her of the holiday**: atgoffa/atgofio hi am y/o'r gwyliau

to **remind her of it** (in order to annoy her): bwrw'r peth i'w dannedd, taflu'r peth yn ei dannedd *She crashed the car*

- ten years ago and her husband is constantly reminding her of it: Drylliodd hi'r car ddeng mlynedd yn ôl ac mae ei gŵr yn wastad yn bwrw'r peth i'w dannedd.*
- to **remind her to do sth:** atgoffa/atgofio hi i wneud rth
- to **renew on her promise:** troi yn ei charn, torri ei haddewid
- to **renounce ...:** ymwadu â ..., ymwrthod â ...
- to **repay you:** talu'n ôl i chi
- to **repeat over and over again:** dweud a dweud
- to **repent for ...:** (e)difaru/edifarhau am ..., bod yn edifar am ..., syrthio ar ei bai am ... (*hi)
- to **reply on behalf of ...:** ateb dros/ar ran ...
- to **reply to her:** ateb iddi hi
- to **report sth to the police:** adrodd rth wrth yr heddlu, hysbysu'r heddlu
- to **get a sharp reprimand:** cael/derbyn blaen tafod llym, cael ei cheryddu (*hi)
When she arrived home after midnight she got a sharp reprimand: Pan gyrhaeddodd hi adre ar ôl canol nos cafodd hi flaen tafod llym.
- to **reproach her for ...:** edliw iddi hi am ..., ei cheryddu hi am ...
I reproached her for coming home so late: Edliwiais i iddi hi am ddod adre mor hwyr.
- to **rescue her from drowning:** ei hachub (hi) rhag boddi
- to **resent criticism:** bod yn ddiig wrth feirniadaeth
- to **resent her enjoying herself:** gwarafun iddi ei mwynhau ei hun *After her ordeal I didn't resent her enjoying herself. Ar ôl ei phrawf llym doeddwn i ddim yn gwarafun iddi ei mwynhau ei hun.*
- to **resign herself to her fate:** plygu i'r drefn, derbyn ei thynged
- to **resign oneself to going:** derbyn gorfod mynd, ymfodloni ar fynd
- to **resolve on a course of action:** penderfynu ar ffordd o weithredu
- to **resolve to go:** penderfynu mynd
- to **resort to ...:** defnyddio ..., troi at ...
In the end he had to resort to bribery: Yn y pen draw bu rhaid iddo ddefnyddio llwgrwobrwyath.
- respect for ...:** parch i/at ... *I have great respect for her opinion: Mae gen i barch mawr i'w barn hi. I have great respect for Nelson Mandela: Mae gen i barch mawr at Nelson Mandela.*
- to **respond to her request:** ymateb i'w chais
- responsible for ...:** cyfrifol am ...
- the rest of my life:** gweddill fy oes/mywyd
- to **rest on her laurels:** gorffwys ar ei bri/chlodydd, llaesu dwylo
- to **restrict s.o./sth:** cyfyngu ar r'n/rth
- to **result from ...:** deillio o ...
- to **retire from work:** ymddeol, bwrw'r/tynnu'r harnais, rhoi'r twls ar y bar (S)
- to **retire into herself:** mynd i'w chragen
- to **retreat from ...:** cilio rhag ...
- to **retreat into her shell:** as for retire into herself
- to **return a letter:** anfon llythyr yn ôl
- to **return a verdict of guilty:** cael y diffynnydd yn euog
- by **return of post:** efo troad y post (N), gyda throad y post
- to **return to Wales:** dychwelyd i Gymru
- to **return to her:** dychwelyd ati hi
- to **reveal to her:** dadlennu wrthi hi
- to **revive an old quarrel:** codi hen grach
- to **revolt against ...:** codi yn erbyn ..., fffieiddio at ..., gwaredu at/rhag ...
- It revolts her:** Mae'n codi cyfog/pwys arni hi
- to **ride a horse:** marchogaeth

to **ride the waves**: hwylio'r tonnau

to **right a wrong**: unioni cam

It's **right down her street**: Mae'n ei tharo hi i'r dim, Mae'n un o'i phethau hi

They will never be **right for each other**:

Wnân nhw byth mo'r tro i'w gilydd

right from the start: o'r dechrau/cychwyn cyntaf, o'r dechrau un

a **right of way**: hawl tramwy

right or wrong: yn gam neu yn gymwys

Right or wrong I am going to mention her

divorce: Yn gam neu yn gymwys rwy'n mynd i sôn am ei hysgariad.

a/the **right to** ...: yr hawl i ...

She has the **right to say** ...: Hi piau'r dweud ..., Mae ganddi'r hawl i ddweud ...

It's **right up her street**: as for **right down her street**

to place sth the **right way up**: gosod rhth â'i du uchaf i fyny/â'i ben i fyny

to **ring a bell** (lit.): canu cloch

to **ring a bell** (fig.): canu cloch, taro deuddeg/tant

to **ring true** (fig.): swnio'n wir, taro deuddeg

to **ring with emotion**: atseinio â theimlad

When she spoke of her dead child, her words

rang with emotion: Pan soniai hi am ei

phlentyn marw, atseiniai ei geiriau â theimlad.

to **rise to the occasion**: ymateb i'r gofynion/amgylchiadau, bod yn deilwng o'r achlysur

the **rising generation**: y to sy'n codi, yr oes sy'n codi, yr egin oes

to **rivet her eyes on** ...: hoelio ei llygad ar ...

to **roar with laughter**: gweiddi/rhuo chwerthin

to **roll about laughing**: chwerthin dros bob man, chwerthin dros y lle, rowlio chwerthin

to **roll in the aisles**: as for **roll about laughing**

a **roll of cloth**: rholyn/rhòl/corn (S) o frethyn

to **roll up** a newspaper: rholio/rholian papur newydd

to **roll up his sleeves**: torchi ei lewys

to **roll up in force**: dod yn llu

to **roll up into a ball** (oneself): ymdorchi

to be **rolling in money**: bod yn graig o arian

root and branch: brig gwraidd a bôn, gwreiddyn boncyff a changen, gwraidd a changen *The industry was changed root and branch: Cafodd y diwydiant ei newid brig, gwraidd a bôn.*

the **root cause of the trouble/problem**:

gwreiddyn y drwg, y drwg yn y caws

rooted to the spot: yn stond, wedi'i

hoelio i'r man/fan (*ef/hi), wedi'i

gwreiddio yn ei hunfan (*hi)

rough and ready: rhywsut rywffodd, rhywsut rywsut

a **rough estimate**: amcan llygad a lled llaw, brasamcan

a **rough estimate of** ...: brasamcan am/ o ...

a **round of drinks**: diod i bawb

to **round on her**: troi yn ei herbyn (ac ymosod arni)

She has **round shoulders**: Mae ganddi hi war crwm, Mae hi'n crymu

to work **round the clock**: gweithio ddydd a nos, gweithio rownd y rîl/cloc

round the corner from/to ...: rownd y gornel/gongl (N) i ... *The chapel is round the corner from the pub: Mae'r capel rownd y gongl i'r dafarn*

slim **round the waist**: main am ei chanol (*hi)

to **rub her up the wrong way**: codi ei gwrychyn

to **rub salt in the wound**: rhoi halen ar y briw

to **rub shoulders with ...**: cymdeithasu/ cymysgu â ...

to **rubber-stamp** a recommendation: amenio/ategu argymhelliad

to **ruffle her feathers**: codi ei gwrychyn, sathru ar ei chorn/chyrn

rule of thumb: synnwyr (y) bawd/fawd

to **rule out an option**: diystyru dewis

to **rule over** (i.e. dominate) ...: arglwyddiaethu ar ...

The **rumour is going round**: Mae'r stori'n dew (ac yn denau), Mae si ar led *The rumour is going round that she is in prison: Mae'r stori'n dew mai yn y carchar mae hi.*

Rumour is rife: as for **rumour is going round**

to **run a blockade**: torri gwarthae

to **run an errand**: mynd ar neges

to **run down ...** (i.e. criticize): lladd ar ..., rhedeg ar ... *She was constantly running down her husband: Roedd hi'n wastad yn lladd ar ei gŵr.*

to **run for her life**: rhedeg am ei bywyd

She had a **run for her money**: Cafodd hi gwerth ei harian

to **run from her**: rhedeg rhagddi/oddi wrthi hi

to **run in the family**: rhedeg yn y teulu, rhedeg yng ngwaed y teulu, rhedeg yn y gwaed *Long arms run in the family: Mae breichiau hir yn rhedeg yng ngwaed y teulu.*

to **run into** four figures: dod i fwy na mil

to **run into debt**: mynd i ddyled, rhedeg dyled

to **run into difficulties**: cael anawsterau

a **run of good luck**: cyfnod/pwl (N) lwcus

to have the **run of her house**: cael mynd i bob man yn ei thŷ, cael rhyddid ei thŷ

to **be run off her feet**: cael ei chadw'n brysur iawn, ar fynd o hyd *Since her brother and his family arrived she has been run off her feet: Ers i'w brawd a'i deulu gyrraedd mae hi wedi bod ar fynd o hyd.*

She was **run off her feet with work**:

Roedd ei gwaith yn drech na hi

to **run off with ...**: dwyn ..., dwgyd ... (S) *S.o. has run off with my new hat: Mae rhn wedi dwyn fy het newydd.*

a **run on ...**: mynd ar ... *There is a run on large hats these days: Mae mynd ar hetiau mawr (ion) y dyddiau yma.*

to **run on (the) rocks** (lit. and fig.): mynd ar greigiau

to **run out**: gorffen, darfod, dod i ben *Our stock of marmalade has run out: Mae ein stoc ni o farmléd wedi gorffen.*

to **run out of ...**: mynd yn brin o ..., dod i ben ... *We are running out of marmalade: Rydyn ni'n mynd yn brin o farmléd. Rydyn ni'n dod i ben y marmaléd. Mae'r marmaléd yn dod i ben.*

to **run out of patience**: colli pob amynedd

to **run out of steam**: chwythu plwc, mynd i'r gwellt, diffygio

to **run out on ...**: gadael ... *Within three months of meeting Mal she ran out on her husband: O fewn tri mis iddi gyfarfod â Mal roedd hi wedi gadael ei gŵr.*

to **run over a dog**: mynd dros gi

to **be run over by a car**: cael ei tharo i lawr gan gar (*hi)

to **run pipes along the wall**: gosod pibelli ar hyd y wal

to **run rings around her**: rhoi tri thro am un iddi hi *That little boy runs rings around his parents: Mae'r bachgen yna'n rhoi tri thro am un i'w rieni.*

to **run short of bread**: mynd yn brin o fara, mynd yn brin arni am fara (*hi)

to **run to her**: rhedeg ati hi

to **run true** (referring to a wheel): rhedeg yn gywir/union

to **run up a flag**: codi/dyrchafu baner

to **run up against a difficulty**: cyfarfod/cwrdd ag anhawster yn annisgwyl

to **run with the hare and hunt with the hounds**: gweiddi hai efo'r cŵn a hwi efo'r geinach (N), gweiddi hys gyda'r cŵn a hwi gyda'r cadno (S)

She is **running a high temperature**: Mae gwres uchel arni

running expenses: treuliau cynnal

running late: (rhedeg) dros ei hamser (*hi), yn rhedeg yn hwyr *The programme was running late: Roedd y rhaglen dros ei hamser.*

a **run-of-the-mill** camera: camera cyffredin

to **rush at her**: rhuthro arni hi

to **rush for** ...: rhuthro am ...

to **rush from the danger**: rhuthro rhag y perygl

a **rush job**: gwaith brysio/ffwrdd-â-hi

to **rush towards** ...: rhuthro (tuag) at ...

to **rustle up sth to eat**: gwneud tamaid i'w fwyta, gweithio pryd o fwyd (S)

~

safe as houses: fel y graig/banc, hollol ddiogel

a **safe distance**: pellter diogel *She kept a safe distance between her and her ex-husband: Roedd hi'n cadw pellter diogel rhyngddi a'i chyn ŵr.*

safe to assume: yn ddiogel/saff cymryd *It is safe to assume she will come: Mae'n saff cymryd y daw hi.*

It is **safe to say**: Mae'n ddiogel dweud

to **safeguard her from s.o./sth**: ei diogelu rhag rhn/rhth

She is **said to be very generous**: Mae sôn ei bod hi'n hael(ionus) iawn

I'm not in the **same league as you**: Dw i ddim yn yr un cae â chi

the **same two**: yr un ddau

The **sands are running out**: Mae'r amser bron ar ben, Mae'n mynd yn hwyr yn y dydd

to be **satisfied with** ...: bod yn fodlon ar ..., bodloni ar ... *She was satisfied with her results: Roedd hi'n fodlon ar eu canlyniadau.*

to **save her from drowning/the fire**: ei hachub (hi) rhag boddi/y tân

to **save her from disgrace**: ei harbed (hi) rhag gwarth

to **save her own skin/hide**: achub ei chroen ei hun *She let him go to gaol to save her own skin: Gadawodd hi iddo fynd i'r carchar i achub ei chroen ei hun.*

to **save her skin**: dros ei chrogi *She could not stop talking to save her skin: Allai hi ddim peidio â siarad dros ei chrogi.*

to **save her the trouble of going**: arbed iddi hi (y drafferth o) fynd

to **save money in** a bank: cynilo/cadw arian mewn banc

to **save up for/towards** a holiday: cynilo ar gyfer gwyliau, cynilo tuag at wyliau

Save your breath!: Dal dy wynt!, Arbed dy dafod!

to **saw off** two inches: llifio dwy fodfedd

Come early, **say** seven o'clock: Dewch yn gynnar, efallai/dyweder saith o'r gloch

to **say anything in order to** ...: taeru du yn wyn er mwyn ... *Don't believe her – she would say anything in order to get her own way: Peidiwch â'i choelio hi – basai hi'n taeru du yn wyn er mwyn cael ei ffordd ei hun.*

to **say in the same breath**: dweud yn yr un gwynt

to **say it to her face**: dweud y peth yn ei hwyneb, dweud wrthi heb hel dail

That does not **say much for her** sense of humour: Dydy hynny ddim yn dangos llawer o synnwyr digrifwch ar ei rhan hi

We'll **say no more about it**: Taw piau hi

to **say the same old story**: mynd trwy ei bethau, rhygnu yn yr un hen rigol

to **say things that are better not said**: rhoi gormod o raff i'w thafod (*hi)

to **say under her breath**: dweud dan/drwy/rhwng ei dannedd, dweud dan ei gwynt

say what she/he will: dywedded a fynno, dywedded beth bynnag a ddywedo, beth bynnag a ddywed *Say what she will, I am sure that she made a bad decision: Dywedded a fynno, rwy'n sicr ei bod hi wedi gwneud penderfyniad drwg.*

They can **say whatever they like**: Gallan nhw ddweud beth fynnan nhw

Say when! (on pouring a drink): Dywedwch faint!

to make him a **scapegoat**: ei drin o/e yn fwrch dihangol

scarcely breathing: prin/o'r braidd yn anadlu

They were **scarcely speaking to each other**: Does 'na fawr o Gymraeg rhyngddydd nhw

She was **scared stiff/out of her wits**: Roedd hi wedi dychryn yn arw, Roedd hi wedi dychryn am ei bywyd/hoedl, Roedd hi wedi cael llond twll o ofn

scattered in all directions: i'r pedwar gwynt, i bedwar gwynt y nefoedd, i bedwar ban byd, ar wasgar

The/You **scoundrell!**: Y cynllwyn!, Y dihiryn!

to **scowl at** ...: gwgu ar ...

scrawly writing: traed brain

to **scream her head off**: sgrechian nerth (esgyrn) ei phen

to **screen new members**: gwirio/archwilio cymeriadau aelodau newydd

to **screw up her eyes/face**: crychu ei llygaid/hwyneb

to **screw up one's courage**: magu plwch

to **scrimp on food**: cynילו/tolio (S) ar fwyd, bod yn gynnill â bwyd

to **scrutinize her background**: edrych ei dannedd

to **scrutinize sth/s.o.**: craffu ar rth/rn

to **seal her lips**: plethu ei cheg

her **seal of approval**: sêl ei bendith

to **search for** ...: chwilio am ..., ymorol am ..., edrych am ...

to **search for excuses**: hel esgusion, chwilio am esgusodion, ymesgusodi

to **search high and low**: chwilio o bant i dalwr/bentan

It is **second nature to her**: Mae'n reddf ynddi hi, Mae'n ail natur iddi hi

to **see about** doing sth: gofalu/ymorol am wneud rth, gofalu/ymorol ynghylch gwneud rth

to **see eye to eye with** ...: gweld lygad yn llygad â ..., cydsynio â ...

to **see her out**: parhau/para tra bydd hi *These new clothes will see her out: Bydd y dillad newydd yma'n parhau tra bydd hi.*

Can you **see it anywhere?**: Allwch chi weld y peth yn rhywle?

to **see it through**: dod trwyddi/drwyddi *She had to look after her father for three months but she saw it through: Roedd hi'n gorfod gwarchod ei thad am dri mis ond daeth hi drwyddi.*

to **see the back of s.o.**: cael cefn rhn *She would be glad to see the back of that man: Byddai hi'n falch o gael cefn y dyn yna.*

to **see the nasty side of her character**: gweld ei childdannedd/gwaethaf hi

to **see to it that she** ...: gofalu/sicrhau ei bod hi ...

See what I mean?: Weli di beth sydd gen i?

Could you **see your way to** giving a loan?:
Allech chi gytuno i roi benthg?

to be **seeing things**: gweld blew ei llygaid
(*hi) *Don't take any notice of her – she has been seeing things: Paid â chymryd dim sylw ohoni hi – mae hi wedi bod yn gweld blew ei llygaid.*

to **seek sth from her**: ceisio rhth ganddi
hi

She **seemed not to** hear you: Doedd hi
ddim fel tasai/petai/pe bai hi'n dy glywed
di

What **seemed to** vex her most was ...: Yr
hyn oedd i'w weld yn ei digio hi fwyaf
oedd ...

She **seemed to be** sleeping: Roedd hi fel
tasai/petai/pe bai hi'n cysgu

She **seems** disappointed: Mae hi fel petai'n
siomedig

It **seems as if/though** ...: Mae fel petai/pe
bai/tasai ..., Mae'n ymddangos bod ...
It seems as though her disappointment has affected her confidence: Mae fel petai ei siom hi wedi effeithio ar ei hyder. It seems as if she has changed her mind: Mae'n ymddangos ei bod hi wedi newid ei meddwl.

It **seems that** ...: Mae'n debyg bod ...,
Mae'n debyg i ..., Mae'n ymddangos
bod ... *It seems that they are now married: Mae'n debyg eu bod nhw'n briod. It seems that I cried non-stop: Mae'n debyg i mi grio'n ddi-baid.*

It **seems to me that she is** ...: Mae'n
debyg gen i ei bod hi ... (N), Mae'n
edrych i fi ei bod hi ..., Mae'n
ymddangos i mi ei bod hi ...

She **seems to me to be** a very intelligent
girl: Rwy'n ei gweld hi'n ferch ddeallus
iawn

She was **seething (with hatred)**: Roedd
hi'n berwi/byrlymu (o gasineb)

to **seize an opportunity**: achub cyfle/
oedfa/tymor

to **seize s.o. as a hostage**: cymryd rhn ar
wystl

to **seize the opportunity to** ...: dal ar y
cyfle i ..., achub y cyfle i ...

She was **seized with remorse**: Daeth pwl
o edifeirwch drosti

to be **self-confident**: teimlo ei thraed dani
(*hi) *After her success in her job she is self-confident: Ar ôl iddi hi lwyddo yn ei swydd mae hi'n teimlo ei thraed dani.*

to **sell like hot cakes**: gwerthu fel slecs

semblance of ...: llun ar/o ... *She looked at me without any semblance of recognition: Edrychodd hi arnaf heb lun ar adnabyddiaeth.*

to **send her packing**: peri iddi hel ei phac
(N), cael gwared â hi, dangos y drws iddi

to **send her spinning**: ei llorio hi, ei bwrw
hi oddi ar ei hechel, ei gyrru hi'n
bendramwnwgl

to **send s.o. to Coventry**: diarddel/
esgymuno/anwybyddu rhn

to **send to** (not to a person) ...: anfon i ...
I sent a ticket to the office: Anfonais docyn i'r swyddfa.

to **send to her**: anfon ati hi

her **sense of smell**: ei synnwyr arogleuo, ei
harogliad, ei gallu clywed oglau (N), ei
gallu gwynto (S)

to **separate the sheep from the goats**:
didoli'r/gwahanu'r/rhannu'r defaid a'r
geifr

to **separate the wheat from the chaff**:
nithio'r/rhannu'r grawn oddi wrth yr us

to **serve an apprenticeship**: bwrw
prentisiaeth

to **serve at the table**: gweini wrth y
bwrdd (N)/ford (S)

to **serve her master**: gweini ar ei
meistr/i'w meistr

to **serve its purpose**: ateb ei diben (*hi)

It will **serve no useful purpose**: Wnaiff hi
mo'r tro

to **serve on** a committee: gwasanaethu ar bwyllgor

to **serve the purpose**: (cael) gwneud y tro

to **serve time (in prison)**: gwneud/bwrw ei chyfnod/thymor yn y carchar (*hi)

to **serve two masters**: gwasanaethu dau arglwydd

It **serves her right!**: Di-fai gwaith â/arni hi!, Eithaf gwaith iddi hi!, Eithaf peth iddi hi!

to **set about it** (i.e. some task): taro ati, mynd ati, bwrw iddi

to **set fire to sth**: rhoi rhth ar dân, llosgi rhth

to **set great store by ...**: gwneud cyfrif o ..., bod â meddwl uchel o ... *She sets great store by being fashionable: Mae ganddi feddwl uchel o fod yn ffasiynol.*

to **set her at her ease**: ei gwneud hi'n gartrefol

to **set her mind on** going: rhoi ei bryd ar fynd

to **set her teeth on edge**: mynd trwy ei dannedd, codi d(e)incod arni, bod fel/codi d(e)incod ar ei dannedd

She is very **set in her ways**: Mae hi'n geidwadol/ddinewid iawn ei ffordd

to **set off**: hel ei thraed (*hi) (N)

to **set off/out for home**: troi am adref, ei throi hi, mynd/troi tua thre (pronounced 'sha thre') (S)

She is **set on** telling him the truth: Mae hi'n benderfynol o ddweud y gwir wrtho

to **set one's face against it**: gwrthwynebu'r peth yn gryf

to **set out** (on a journey): cychwyn, dechrau (S)

She **set out to** insult them: Ei bwriad oedd eu sarhau nhw

to **set sail**: codi hwyliau

to **set sth alight/on fire**: as for **set fire to sth**

to **set the dog on her**: hysio'r/gyrru'r ci arni

to **set the table**: hulario'r/hwylio'r bwrdd/ford (S), gosod y bwrdd/ford (S)

to **set to** (i.e. begin a task): taro ati, mynd ati, dechrau arni

to **settle a debt to the last farthing**: talu'r hatling/ffyrlling eithaf/olaf

to **settle an argument**: torri dadl *The argument was settled by agreeing to share the cost: Torrwyd y ddadl drwy gytuno i rannu'r gost.*

to **settle an old score**: talu'r hen chwech yn ôl, talu chwyl, talu'r pwyth

She had to **settle for less**: Bu'n/Bu rhaid iddi gytuno i dderbyn llai, Bu'n/Bu rhaid iddi fodloni ar lai

to **settle her for the night**: ei gwneud hi'n gysurus ar gyfer y nos

to **settle on** (i.e. agree on) ...: cytuno ar ... *They settled on ten pounds: Cytunon nhw ar ddeg punt.*

shabbily dressed: drwg/llwm ei thrwsiad (*hi)

a **shabby act**: tro gwael/brwnt

to cast a **shadow over** ...: taflu cysgod dros ..., rhoi tan gwmwl *Her death cast a shadow over their lives for more than two years: Tafloodd ei hangau gysgod dros eu bywydau am fwy na dwy flynedd.*

shadows under her eyes: cleisiau dan ei llygaid

a **shady character**: aderyn brith, cymeriad brith

to **shake hands vigorously**: ysgwyd llaw at y penelin

to **shake her fist at him**: codi'i dwrn arno

to **shake off a cold**: bwrw annwyd

to **shake off a malaise/depression**: esgor clefyd/y felan

to **shake off the dust of somewhere from her feet**: ysgwyd llwch rhywle i

- ffwrdd oddi ar ei thraed, troi ei chefn ar rywle
- to **shame her**: codi cywilydd arni
- Shame on you!**: Rhag eich cywilydd chi!, Cywilydd arnat!
- It is a **shame she wasted so much time**: Gresyn iddi hi/Mae'n drueni iddi hi wastraffu cymaint o amser
- She was **shamed into** doing it: Gwnaeth hi'r peth o ran cywilydd
- a **shameful thing**: cywilydd o beth, peth cywilyddus *It is a shameful thing that he spends so much on gambling: Mae'n gywilydd o beth ei fod yn gwario cymaint ar hapchwarae.*
- to **share a common boundary**: taro ar ei gilydd, bod ochr yn ochr *Although their gardens share a common boundary they have never spoken to each other: Er bod eu gerddi yn taro ar ei gilydd dydyn nhw erioed wedi siarad â'i gilydd.*
- a **sharp eye**: llygad barcud
- sharp eyesight**: llygaid cath/barcud
- a **sharp tongue**: tafod fel rasel/gwiber
- sharp tongued**: (un) llym ei dafod (*ef) *Her mother is kind enough but sometimes she is rather sharp tongued: Mae ei mam yn ddigon caredig ond weithiau mae hi braidd yn llym ei thafod.*
- to **shatter into small fragments**: malu'n deilchion, malu'n dipiau, torri'n yfflon (S)
- to **shed light on** ...: taflu golau/goleuni ar ...
- to **shed old feathers**: bwrw plu
- to **shed old fur/hair**: bwrw blew
- to **shed old skin**: bwrw croen
- to **shed tears**: beichio crio/wylo, llefain (y glaw) (S), colli dagrau, gollwng dagrau, tywallt dagrau (N)
- sheet lightning**: dreigiau mellt
- to **shelter from** ...: cysgodi rhag ...
- to **ship water**: gollwng dŵr (i mewn)
- a **shiver down her spine**: ias drwy/i lawr ei chefn, ysgryd drwy ei chorff
- to **shoot a film**: gwneud ffilm
- to **shoot at her**: saethu ati hi, tanio arni hi
- shop cake**: teisen/cacen brŷn, teisen/cacen ffenest (S)
- short and to the point**: yn blwmp ac yn blaen, yn gryno, yn doc ac yn blaen (N)
- a **short cut** (to somewhere): llwybr llygad/tarw
- short of a miracle** she will die: heb wyrth bydd hi'n marw, oni cheir gwyarth bydd hi'n marw
- short of money**: prin o arian/bres, byr o arian/bres, ar y clwt (S)
- short of rebuilding the house completely**: ac eithrio/heb ailadeiladu'r tŷ'n llwyr
- short of sth to say**: prin o rth i'w ddweud *She is never short of sth to say: Dydy hi byth yn brin o rth i'w ddweud.*
- short sighted**: byr ei golwg (*hi)
- a **short way off**: ychydig draw, gerllaw, yn ymyl
- a **short way off from** ...: heb fod ymhell/nepell o ..., nid ymhell/nepell/yn bell o ...
- a **short while ago**: ychydig yn ôl, gynnau (fach)
- a **shot in the arm**: hwb (i'r galon), symbyliad
- a **shot in the dark**: cynnig ar antur
- a **shotgun wedding**: priodas orfod
- I **should think**: dybiwn i *There's more snow to come, I should think: Mae 'na fwy o eira i ddod, dybiwn i.*
- to **shoulder a responsibility**: rhoi ei hysgwydd dan faich (*hi)
- shoulder to shoulder**: ysgwydd yn/wrth ysgwydd

I shouldn't wonder: synnwn i ddim/
damaid/fwnci *She will go to prison, I
shouldn't wonder: Bydd hi'n mynd i'r carchar,
synnwn i ddim.*

to shout at ...: gweiddi/bleoddio/
bleoddian/llefain ar ...

to shout at the top of her voice: gweiddi
nerth (esgyrn) ei phen

to shout sth from the rooftops: gweiddi/
cyhoeddi rth o bennau'r tai

to show her in: dod â hi i mewn, ei
hebrwng (hi) i mewn

to show her sth: dangos rth iddi hi

to show her the ropes: ei rhoi/dodi (S) hi
ar ben y ffordd

to show her true colours: dangos ei
hochr

to show how angry she feels: dangos ei
dannedd

to show mercy to ...: trugarhau wrth ...

The motion was carried by a **show of
hands:** Derbyniwyd y cynnig trwy
bleidlais cyhoeddus/godi dwylo

to show off: ei dangos ei hun(an) (*hi),
lledu ei brest (*hi), lledu ei hesgyll (*hi)

to show remorse: dangos cnofa
cydwybod, dangos edifeirwch, (e)difaru

to show s.o. the door: dangos y drws i rn

to show sth to her: as for **show her sth**

to show that he was the boss: dangos ei
hun(an) yn feistr/ben

to show the way (how to do sth): rhoi ar
ben (y) ffordd *If you don't know how to
make soup she will show you the way: Os nad
wyt ti'n gwybod sut i wneud cawl bydd hi'n dy
roi di ar ben y ffordd.*

to show them a clean pair of heels:
dangos ei chefn iddyn nhw (*hi)

to show willing: dangos parodrwydd, bod
yn geffyl parod

to shrink in the wash: mynd i mewn/cilio
wrth ei olchi (*ef)

to shrug off a difficulty: taflu anhawster
oddi ar ei gwar (*hi)

to shut the door in her face: cau'r drws
ar ei dannedd

Shut up! Cau dy geg!, Ca(u) dy ben/
glop! (S)

to be sick and tired of it: bod wedi glân
syrffedu/hen flino/ddiflasu/alaru arno
*I am sick and tired of hearing that tune every
day: Rydw i wedi hen flino ar glywed yr alaw
yna bob dydd.*

a sick joke: jôc ddi-chwaeth

to be sick to death of it: as for **sick and
tired of it**

sickeningly sweet: chwydlyd/cyfoglyd o
felys

side by side: wrth ochrau'i gilydd, ochr yn
ochr, elin wrth elin, yn gyfochrog

to move sideways: symud yn wysg/llwrw ei
hochr (*hi)

a sigh of relief: anadliad/ebychiad o
ryddhad

a sight for sore eyes: balm i'r llygad/
llygaidd

no sign of ...: dim golwg o ... (N), dim sôn
am ... *There was no sign of her for hours:
Doedd dim golwg ohoni hi am oriau.*

to sign one's name: torri'i henw (*hi),
llofnodi

Silly idiot! Y penbwll!, Y lembo! (N)

a silly story: stori asgwrn pen llo

It is silly to smoke: Mae'n wirion/hurt/ffôl
(y)smygu

similar to ...: tebyg i ... *Their house is
similar to ours: Mae eu tŷ nhw'n debyg i'n
tŷ ni.*

to sin against her: pechu yn ei herbyn

since a long time/a while ago: ers tro
byd, ers llawer dydd (S), ers talwm (N),
ers meitin

since (i.e. because) **she is here:** gan ei bod
hi yma

since that time: oddi ar yr amser yna/
y cyfnod hwnnw

since the year dot: ers cyn y Dilyw, ers
oes pys

since then: oddi ar hynny, o hynny
ymlaen, er hynny

since time immemorial: er cyn cof

since we met: oddi ar i ni gwrdd (S)/
gyfarfod

to sing her praises: canu ei chlod/
chlodydd

to sing sharp: canu'n fain

to sing to the tune ...: canu ar y dôn/
alaw ... *We always sing that hymn to the
tune Cwm Rhondda: Rydyn ni bob amser yn
canu'r emyn hwnnw ar y dôn Cwm Rhondda.*

to sit an exam: sefyll arholiad

Sit down and rest!: Gorffwyswch ben
isa'ch cefn!, Cymerwch hoe! (S)

to sit next to ...: eistedd nesaf at/
wrth ochr ...

to sit on the fence: peidio ag ochri,
eistedd ar y clawdd

to sit up: codi ar ei heistedd (*hi)

She has got him **sized up:** Mae hi'n gwybod
ei hyd a'i led

to skin you of every penny: mynd â'ch
croen, eich blingo o bob ceiniog *She'll
skin you of every penny you've got if you let
her: Bydd hi'n mynd â'ch croen os byddwch
chi'n gadael iddi hi.*

to sleep around: mynd o wely i wely

to sleep in the gutter: cysgu yn llety'r
falwoden, cysgu dan y sêr

to sleep like a log: cysgu fel pren/mochyn/
twrch/y clawdd

to sleep rough: as for **sleep in the gutter**

to sleep soundly: cysgu'n drwm/sownd

Sleep tight!: Cysga/Cysgwch yn dawel!

a sleeping bag: sach gysgu/cysgu, cwdyn
cysgu

Not the **slightest bit** more effective than ...:
dim mymryn mwy effeithiol na ...

the slightest thing: y dim lleiaf *The
slightest thing will annoy her: Bydd y dim
lleiaf yn ei digio.*

She is **slightly** taller: Mae hi'n dalach o
ychydig/flewyn, Mae hi'n ychydig yn
dalach

to slink over to ...: sleifio at ...

to slip her memory/mind: mynd o'i chof,
mynd o'i meddwl, gollwng dros gof,
gollwng yn angof

a slip of a boy: bachgennyn, crwt, crwtyn
bach

a slip of a girl: cangen (o ferch), llafnes (o
ferch), genethig, sbrigen, hogan fach (N),
croten fach (S)

to slip out to the shop: picio allan i'r siop

to slip through her fingers: mynd rhwng
ei dwylo

to slip up: gwneud camgymeriad, llithro

She is a **slippery customer:** Mae hi'n bryf
garw, Mae hi'n fflïar, Mae hi'n llysywen
o ferch

to slog (away) at it: pannu arni gyda'r
peth (S), pydru arni efo'r peth (N),
dygnu arni gyda'r peth, dal ati *She
slogged at the project for six months and then
published the book: Bu hi'n pannu arni gyda'r
prosiect am chwe mis ac wedyn cyhoeddodd
hi'r llyfr.*

to slog her guts out: ei lladd ei hun, bod
wrthi fel lladd nadroedd, gweithio â'i
de(n)g ewin

slow on the uptake: hwyrdwrwm ei
chlustiau (*hi), araf ei deall (*hi)

She won't be **slow to say that:** Fydd hi
ddim yn ôl o ddweud hynny, Fydd hi
ddim ar ôl yn dweud hynny

slowly and steadily: gan bwyll (bach), yn
ara' bach

small beer: (lit.) diod fain, cwrw gwan;
(fig.) pethau dibwys/tila

small change: newid mân, arian gleision

small coal (i.e. coal in fine granules): glo mân, seics, manlo

the small hours of the morning: oriau mân y bore

the small of her back: ei meingefn, main ei chefn

small of stature: bach/bychan o gorff

small talk: mân siarad, clecs

the smart set: y criw ffasiynol

smashed to pieces: yn yfflon, wedi malu'n deilchion

She has a **smattering of ...:** Mae ganddi hi grap ar ... *Although she has lived in Wales for ten years she has only a smattering of Welsh: Er ei bod hi'n byw yng Nghymru ers deng mlynedd dim ond crap ar y Gymraeg sydd ganddi.*

to smile at ...: gwenu ar ...

a smooth operator: un go gyfrwys, un bachog (*ef), tipyn o fflïar (N)

a snack to keep one going: tamaid i aros pryd

to snap her fingers (in contempt) at ...: rhoi clec ar ei bawd ar ..., clecian ei bysedd ar ...

to snap up sth: dal rhth ar gip, cipio/bachu rhth *She intended to snap up the picture before anyone else noticed how cheap it was: Roedd hi'n bwriadu dal y llun ar gip cyn i neb arall sylwi pa mor rhad oedd e.*

to snarl at ...: chwyrnu/ysgyrnygu ar ...

Her debts snowballed: Cynyddai ei dyledion fel caseg eira

to be snowed in/up: cael ei chau (i mewn) gan eira (*hi)

to be snowed under by/with work: cael ei boddi dan bwysau gwaith (*hi), cael ei chau i mewn dan bwysau gwaith (*hi)

so and so (i.e. a person whose name is irrelevant): hon-a-hon, hwn-a-hwn

so be it: boed felly, bydded felly

to be so bold as to ...: bod mor hy(f)/ewn â ... *May I be so bold as to ask her age?: Ga' i fod mor hy â gofyn ei hoed?*

so cold that she could not ...: mor oer nes iddi hi fethu ..., mor oer fel roedd hi'n methu ..., mor oer fel na allai/fedrai hi ...

so far as I am concerned: o'm rhan i

so far as I can see: hyd y gwelaf i, hyd y medraf/gallaf i weld

so far as I could see: hyd y medrwn/gallwn i weld

so far as I know: am wn i, hyd y gwn i, ar ddim a wn i

so far as that is concerned: o ran hynny

so he says: chwedl yntau

so it appears/would appear: yn ôl pob golwg, felly mae'n ymddangos *She has left her husband, so it appears: Mae hi wedi gadael ei gŵr, yn ôl pob golwg.*

so little opportunity: cyn lleied o gyfle *There is so little opportunity for her to get a job in the area where she grew up: Mae cyn lleied o gyfle iddi hi gael swydd ym mro ei mebyd.*

so long as she doesn't get hurt: dim ond iddi beidio â chael ei brifo

so many fewer people: cymaint llai o bobl

so mean as to ...: mor grintach(lyd)/fêh/gybyddlyd â ... *She was so mean as to refuse to buy a programme: Roedd hi mor grintachlyd â gwrthod prynu rhaglen.*

So much for that! Dyna ben ar hynny!, Dyna ddigon am hynny!

so much less food: cymaint llai o fwyd

So much the better! Gorau i gyd!, Gorau yn y byd!, Gorau oll!

so that she can see: fel ei bod hi'n gallu/medru gweld, fel (y) gall/medr hi weld

So that's what it is! Dyna beth sydd felly!, Dyna beth ydy e/hi felly!

so they say: yn ôl pob sôn, yn ôl y sôn

... so to speak: ... fel petai *After his visit she was smouldering in her anger so to speak: Ar ôl ei ymweliad roedd hi'n mudlosgi yn ei dicter fel petai.*

soaking wet: gwlyb domen, gwlyb socian, yn tsiwps (S)

sober as a judge: mor sobr â sant

a so-called expert: arbenigwr honedig, rhyw arbenigwr bondigrybwyll, rhyw grach-arbenigwr, arbenigwr chwedl yntau (*ef)

She's a **soft touch:** Mae'n hawdd agor ei phwrs

to soften her attitude towards ...: lliniaru yn ei hagwedd tuag at ...

She is **sold out of pears:** Mae hi wedi gwerthu'r gellyg i gyd, Does ganddi hi ddim gellyg ar ôl

some men (plural of 'a man'): rhai dynion

some men (plural of 'some man'): rhyw ddynion

some of the ...: rhywfaint/peth o'r ...
Some of the money will go to the hospital: Bydd rhywfaint o'r arian yn cael ei roi i'r ysbyty.

some event or other: rhyw ddigwyddiad neu'i gilydd

some time before: o'r blaen, rywbryd cyn hynny *She had been there some time before: Roedd hi wedi bod yno o'r blaen.*

somehow or other: rywfodd/rywsut neu'i gilydd, ryw ffordd neu'i gilydd, rywsut rywfodd

someone not to be trusted: aderyn brith, cymeriad brith, person di-ddal

someone of dubious character: aderyn du, dafad ddu

someone or other: rhn neu rywrai, rhn neu'i gilydd

someone quick to pick a quarrel: aderyn drycin

someone who stays out late at night: aderyn y nos

someone who wants to be in the limelight: ceffyl blaen

something for a cold: rhth at annwyl

something of no value: seren bren *The jewel I found on the beach was sth of no value: Dim ond seren bren oedd y thws ffeindiais i ar y traeth.*

something or other: rhth neu'i gilydd

something she can't stand: tân ar ei chroen, rhth na all (hi) ei oddef *Thunder is sth she can't stand: Mae'r taranau yn dân ar ei chroen.*

something trivial: mater dibwys, rhywbeth di-werth

something similar: rhth yn debyg, yn debyg rhywfaint, braidd yn debyg

somewhere here: rywle fan hyn *My arm hurts somewhere here: Mae fy mraich yn brifo rywle fan hyn.*

somewhere in the region of a hundred: tua chant, o gwmpas y cant, ar draws cant

She would **sooner die:** Byddai'n well ganddi farw

sooner or later: yn hwyr neu'n hwyrach

The **sooner the better:** Gorau po gyntaf

Sooner you than me! Gwell chi na mi/fi!

to soothe her: esmwytho/esmwytháu arni, ei chysuro

to sorrow after her: gofidio/galaru ar ei hôl/drosti, hiraethu amdani, gweld ei heisiau

I am sorry for ...: Mae'n ddrwg gen i am ..., Mae'n flin (gy)da fi am ... (S)
I am sorry for being so late: Mae'n ddrwg gen i am fod mor hwyr.

I am sorry for her: Mae'n ddrwg gen i drosti, Rwy'n gofidio drosti

She is a **sorry sight:** Mae golwg druenus arni

a **sorry state of affairs**: sefyllfa druenus

I am **sorry to say**: Mae'n ddrwg gen i ddweud, Mae'n flin (gy)da fi ddweud

to **sort him out**: ei rhoi hi iddo (fe/fo)

She **sounds like** an honest woman: Yn ôl y sôn mae hi'n ferch onest, Mae'n ymddangos ei bod hi'n ferch onest

sour grapes (lit. and fig.): grawnwin surion *It was sour grapes on his part that he refused to congratulate her on her victory: Grawnwin surion ganddo fe oedd gwrthod ei llongyfarch hi ar ei buddugoliaeth.*

to go to the **source** (of the information): mynd at lygad y ffynnon

the **source of the river**: blaen/llygad yr afon

to **sow his wild oats**: byw'n wyllt/ofer, hau hadau gwylltion

to **sow the seeds of hatred/contention/discontent**: hau dannedd dreigiau

to **sow the wind and reap the whirlwind**: hau'r gwynt a medi'r corwynt

Spare me!: Gwared fi!, A'm gwaredo!

spare time: oriau hamdden

sparks are sure to fly: mae'r gwreigion yn siŵr o dasgu

to **speak about** ...: sôn/siarad am ...

to **speak all at the same time**: siarad ar draws ei gilydd

to **speak at great length on** ...: siarad yn bur faith ar ..., siarad am hydoedd ar ...

to **speak disparagingly of her**: siarad yn fach amdani, lladd arni, dweud yn ddrwg amdani hi, ei bychanu

to **speak formally to** ...: llefaru wrth ..., siarad yn ffurfiol â ...

to **speak her mind**: dweud ei meddwl

to **speak ill of her**: as for **speak disparagingly of her**

to **speak impudently to** ...: gollwng tafod ar ..., bod yn haerllug wrth ... *Don't you speak (impudently) to your mother like*

that!: *Paid ti â gollwng dy dafod ar dy fam fel 'na!*

to **speak in a mixture of Welsh and English**: siarad siprys

to **speak in ignorance**: siarad dan ei dwylo (*hi) *She wasn't speaking in ignorance when she said they intended to sell the house: Doedd hi ddim yn siarad dan ei dwylo pan ddywedodd eu bod am werthu'r tŷ.*

to **speak insolently to her**: rhoi tafod drwg iddi hi, rhoi pryd o dafod iddi, gollwng tafod arni hi *Although she was kind to the children they would often speak insolently to her: Er ei bod hi'n garedig wrth y plant, yn aml bydden nhw'n rhoi tafod drwg iddi.*

to **speak of** ...: sôn am ..., siarad am ...

to **speak off the cuff**: siarad o'r frest, siarad yn fyrfyfyr

to **speak on behalf of** ...: siarad dros ..., siarad ar ran ...

to **speak out against** ...: codi ei llais/llef yn erbyn ... (*hi)

to **speak plainly and impartially**: siarad yn blwmp ac yn blaen, dweud y plaendra, siarad heb flewyn ar dafod

to **speak to** ...: siarad â/gyda/efo ..., llefaru wrth ...

to **speak tongue in cheek**: siarad â thafod yn y foch

to **speak up for her**: achub ei cham, siarad o'i phlaid

to **speak well of her**: dweud yn dda amdani

to **speak with a lisp**: siarad â deilen/blewyn ar ei thafod (*hi), siarad â thafod tew

to **speak with feeling**: siarad o galon/ar ei chalon (*hi)

to **speak with spirit**: siarad yn frwd/selog
speaking for myself: o'm rhan i (fy hun)
and speaking of ...: ac o sôn am ...

It **speaks volumes for her loyalty**: Mae'n glod mawr i'w theyrngarwch (hi)

She **speaks with a stammer**: Mae hi'n siarad ag atal (dweud), Mae atal dweud arni

to **specialize in ...**: arbenigo yn/mewn ...

to **go specially/specifically to meet her**: mynd yn unswydd/benodol i gyfarfod/gwrdd (S) â hi

She has a **speech impediment**: Mae nam ar ei lleferydd

to **spell it out**: dweud y cyfan, dweud yn fanwl *Do I have to spell it out?: Oes rhaid i mi ddweud yn fanwl?*

to **spend Christmas**: bwrw'r/treulio'r Nadolig

to **spend every penny one has**: blingo'r gath hyd at ei chynffon

to **spend money**: gwario arian/pres, hala arian (S)

to **spend the holidays**: bwrw'r/treulio'r/hala'r (S) gwyliau

to **spend the weekend**: bwrw'r/treulio'r/hala'r (S) Sul

to **spend time**: bwrw/treulio/hala'r (S) amser

her **sphere of influence**: maes/cylch ei dylanwad

spick and span: fel pin mewn papur

to **spill blood**: tywallt gwaed

to **spill over ...**: colli/gollwng ar ... *Don't spill the milk over the book: Paid â cholli'r llaeth ar y llyfr.*

to **spill the beans** (fig.): gollwng y gath o'r cwd, agor ei cheg (*hi)

to **spin out an explanation**: hwyhau/estyn eglurhad/esboniad

a **spinster**: hen ferch

the **spitting image of ...**: yr un ffunud â ..., yr un boerad â ... (*hi)

to **splash her money about**: afradu/taflu ei harian/phres, gwario'n ffôl

to **splash out** on a month's holiday: gwario ar fis o wyliau

played feet: traed chwarter i dri

to **split hairs**: hidlo gwybed, hollti blew

to **split her sides laughing**: torri ei bol gan chwerthin, chwerthin yn ei dyblau/dau ddwbl

to **split the difference**: rhannu'r gwahaniaeth, cyfarfod yn y canol

to **split the money three ways**: rhannu'r arian/pres rhwng tri, rhannu'r arian yn dri

She was **spoiling for a row**: Roedd hi'n ysu am ffræ/gweryl

spot on: i'r dim, i drwch y blewyn *The glass fitted the window spot on: Roedd y gwydr yn ffitio'r ffenestr i drwch y blewyn.*

to **spot with rain**: pigo bwrw, trio bwrw

to **spread happiness**: creu llawenydd

The inflammation has **spread to the face**: Mae'r llid wedi cyrraedd yr wyneb

to **sprinkle the floor with powder**: gwasgaru'r/ysgeintio'r powdr dros y llawr

to **square an account**: setlo cyfrif, talu dyled

to **square an account with her**: talu'r pwyth (yn ôl) iddi hi, talu hen gownt iddi hi (N), sychu'r slât yn lân, setlo'r cyfrif

a **stag party**: noson i'r dynion

to **stagger working hours**: darwahanu/gwasgaru/stagro oriau gwaith

to **stake her claim to part of the land**: datgan ei hawl i ran o'r tir

to **stake her life on it**: rhoi ei phen i'w dorri, mentro ei bywyd ar y peth *I would stake my life on it that Nan and Dan will have got married before the end of the year: Rhown i fy mhen i'w dorri y bydd Nan a Dan wedi priodi cyn pen y flwyddyn.*

a **stake in** the country's future: rhan/budd yn nyfodol y wlad

to **stall for time**: oedi i ennill amser, hel dail (N)

to **stamp about**: clocsio, troedio'n drwm

to **stamp down** the soil: sathru'r pridd, damsang y pridd (S)

to **stamp on ...**: sathru/mathru/damsang (S) ar ...

to **stamp out a disease**: difa/dileu/lladd clefyd/haint

to **stamp out of** the house: ei throedio/gwadnu hi o'r tŷ

She doesn't **stand a chance of** winning:
Does ganddi (hi) obaith ennill, Does dim gobaith iddi (hi) lwyddo

to **stand about on one's own** (esp. in a crowd): sefyll/sefyllian fel pelican *She was standing about on her own until Huw arrived: Roedd hi'n sefyll fel pelican nes i Huw gyrraedd.*

to **stand around**: sefyllian, loetran

to **stand aside in favour of** a better candidate: tynnu'n ôl er mwyn ymgeisydd gwell, ildio i well ymgeisydd

to **stand bail for her**: mynd yn feichiau drosti, dal mechniaeth drosti/ar ei rhan, ei mechnïo hi

to **stand by what she said**: sefyll at ei gair, glynu wrth yr hyn (a) ddywedodd hi

to **stand down**: tynnu'n ôl

to **stand erect**: codi yn ei sefyll, sefyll yn syth/gefnysyth

to **stand for ...**: sefyll o blaid/dros ... *She stands for sexual equality: Mae hi'n sefyll dros gydraddoldeb rhywiol.*

She won't **stand for it**: Chymerith hi mohono, Wneith o mo'r tro ganddi (N), Wnaiff hi ddim ei ddioddef/oddef

I can't **stand her**: Ni allaf mo'i dioddef, Does 'da fi gynnig iddi (S)

to **stand her ground**: sefyll ei thir

It will **stand her in good stead**: Bydd (e/o) o fudd/les/fantais iddi hi, Bydd yn

fuddiol/llesol/fanteisiol iddi hi, Bydd yn dda iddi hi wrtho

to **stand in awe of s.o.**: bod yn llawn parchedig ofn tuag at rn

to **stand in for her**: dirprwyo drosti, cymryd ei lle

to **stand in her way**: sefyll ar ei ffordd

to **stand in the breach**: sefyll yn y bwlch, camu i'r adwy

to **stand on ceremony**: bod yn ffurfiol/ddefodol

to **stand on her dignity with them**: sefyll ar ei hurddas gyda/efo nhw, bod yn hunanbwysig â nhw, mynnu parch ganddyn nhw

to **stand on her own two feet**: cael ei thraed dani, sefyll ar ei gwadnau/sodlau/thraed ei hun *After years of hard work she is now standing on her own two feet: Ar ôl blynyddoedd o waith caled mae hi bellach wedi cael ei thraed dani.*

to **stand out for** a change in the rules: mynnu cael newid yn y rheolau

to **stand over her**: sefyll uwch ei phen

to **stand stock-still**: sefyll yn stond

to be able to **stand the strain**: gallu/medru dal y pwysau

to **stand the test of time**: dal prawf amser

to **stand together**: sefyll ochr yn ochr *They stood together on many important issues: Roedden nhw'n sefyll ochr yn ochr ar lawer o faterion pwysig.*

to **stand treat for everyone**: talu dros bawb

to **stand up**: codi ar ei thraed (*hi)

to **stand up and be counted**: dangos ei hochr (*hi)

to **stand up for her**: achub ei cham, sefyll rhyngddi a'r ddrycin, cynnal ei breichiau
a **standing jump**: naid stond

- a **standing order** (at a bank): archeb reolaidd/barhaol
- a **standing rule**: rheol sefydlog
- She **stands to gain** a fortune: Mae ganddi ffortiwn i'w hennill
- She **stands to lose** a lot of money: Mae perygl iddi hi golli llawer o arian
- to **stare at** ...: dal golwg ar ..., rhythu/ syllu ar ...
- to **start from scratch**: dechrau o'r dechrau, cychwyn o ddim
- to **start off on the right foot**: cychwyn/ dechrau yn iawn
- to **start off on the wrong foot**: cychwyn/ dechrau yn wael/chwithig
- to **start talking to s.o.**: torri gair/geiriau â rhn
- to **start the ball rolling**: (generally) gwthio'r cwch i'r dŵr; (open a discussion) agor trafodaeth
- to **start up an engine**: tanio peiriant
- to **start (with) a cold**: hel annwyd (N)
- She has a **state-of-the-art computer**: Mae ganddi'r cyfrifiadur diweddaraf un
- a **staunch supporter of the cause**: colofn yr achos
- to **stay away from** ...: cadw draw o ...
- to **stay for/to dinner**: aros/sefyll (S) i ginio
- to **stay overnight**: aros/sefyll (S) dros nos
- to **stay up** (i.e. not go to bed): aros ar ei thraed (*hi)
- to **stay up late**: aros ar ei thraed (yn hwyr) (*hi)
- to **stay where she is**: aros ar/yn ei hunfan, sefyll ar/yn ei hunfan (S)
- to **stay with her**: aros gyda/efo hi, sefyll gyda hi (S)
- Steady does it!**: Pwyll piau hi!, Gan bwyll!
- to **steal a march on them**: achub y blaen arnyh nhw
- to **steal away**: sleifio/ymlithro ymaith, mynd ymaith yn llechwraidd/lladradaidd
- to **steal her thunder**: dwyn ei chlodydd
- to **steal in**: ymlithro/sleifio i mewn, dod i mewn yn llechwraidd/lladradaidd
- to **steal sth from her**: dwyn/lladrata/ dwgyd (S) rtht oddi arni
- to **steal the limelight**: dwyn yr holl sylw, dod yn geffyl blaen
- to **steer a middle course**: torri llwybr canol
- to **steer clear of him**: peidio â mynd ar ei gyfyl, ei osgoi
- to **stem from** ...: deillio/tarddu o ...
- to **stem the flow**: atal y llif
- step by step**: o gam i gam, fesul cam, gam wrth gam, gam a cham
- to **step down from her office as secretary**: rhoi'r gorau i'w swydd fel ysgrifennydd
- to **step into the breach**: camu i'r adwy
- to **stick at it**: dal ati
- to **stick her nose into** ...: brathu ei phen i ..., rhoi ei phig i mewn i ..., ymyrryd/ ymyrraeth â ... *I told her to stop sticking her nose into my business: Dywedais i wrthi hi am beidio â brathu ei phen i'm busnes i.*
- to **stick her oar in**: rhoi ei bys yn y brywes, rhoi ei phig i mewn, ymyrryd, ymyrraeth
- to **stick one's neck out**: mentro'ch pen, gweithredu'n fentrus, ei mentro hi
- to **stick out her tongue**: tynnu'i thafod, hwpo'i thafod ma's (S)
- to **stick out like a sore thumb**: sefyll allan fel/bod mor amlwg â 'fffeiriad mewn ffair/tafarn, sefyll allan fel/bod mor amlwg â llaid ar farch gwyn
- to **stick to** ...: glynu wrth ...
- to **stick to my teeth**: glynu yn fy nannedd
- to **stick up for her**: achub ei cham, cadw ei phlaidd/chefn/rhan

She is **still alive**: Mae hi'n dal i fyw, Mae hi'n dal yn fyw, Mae hi'n dal i fod yn fyw

still going (strong): ar ei thraed o hyd (*hi), dal i weithredu *I was surprised that the company was still going: Roeddwn i'n synnu bod y cwmni ar ei draed o hyd.*

still growing: ar ei phrifiant (*hi), ar ei thwf (*hi)

I **still haven't seen the cat**: Welais i byth mo'r gath, Rydw i heb weld y gath o hyd

still in existence: ar gael a chadw, ar gadw, ar glawr, yn bod o hyd

still more: mwy fyth *That made him suspect still more that the man was a thief: Roedd hynny'n gwneud iddo amau'n fwy fyth mai lleidr oedd y dyn.*

still standing: ar ei thraed o hyd (*hi)
The old Norman church is still standing: Mae'r hen eglwys Normanaidd ar ei thraed o hyd.

She is **still there**: Mae hi yno byth/eto, Mae hi yno o hyd

to be **still worrying**: dal i boeni

to **stir up** hatred: ennyn/ysgogi casineb

stone by stone: bob yn faen, fesul maen, garreg ar garreg

She will **stop at nothing**: Gwneith/Gwnaiff hi unrhyw beth, Does dim a'i rhwystra, (Ni) all dim ei hatal

to **stop dead/short**: sefyll yn stond, stopio'n stond

to **stop dwelling upon ...**: rhoi heibio ...
One must stop dwelling upon doubts about Europe: Rhaid rhoi heibio'r amheuan am Ewrop.

to **stop her from ...**: ei stopio/hatal/rhwystro hi rhag ...

to **stop short of ...**: ymatal rhag ..., gwneud popeth ond ... *She stopped short of calling him a liar: Roedd hi'n ymatal rhag ei alw'n gelwyddgi.*

a **stopgap**: peth/ateb dros dro, peth i lenwi bwlch; brechdan/tamaid i aros pryd

a **storm is brewing**: mae hi'n hel (N)/bygwth storm, mae storm yn ymgasglu

a **stormy night**: noson fawr/ddrycinog/ o ddrycin

The **story is around**: Mae'r stori yn dew, Mae'r si ar led *The story is around that she is getting a divorce: Mae'r stori yn dew ei bod hi'n cael ysgariad.*

a **straight whisky**: wisgi plaen

the **straight and narrow path**: y llwybr cul (ac union)

straight away: yn syth, ar unwaith, ar ei hunion (*hi), yn syth bin, chwap

to look **straight into each other's eyes**: edrych ym myw llygaid ei gilydd

straight on: ar ei hunion (*hi), yn syth ymlaen

to **strain every sinew**: rhoi pob gewyn ar waith

straitened circumstances: cyni, adfyd

to leave her **stranded**: ei gadael hi ar y clwt/yn ddiymgeledd

Strange to say ...: Rhyfedd sôn ...

a **strapping woman**: cloben o ddynes, merch lysti, strapen (S)

a **straw in the wind**: sŵn ym mrig y morwydd

She is **streets ahead of them**: Mae hi'n frenin iddyn nhw, Mae hi led cae ar y blaen

to **strengthen her hand**: cryfhau ei dwylo, cynnal ei breichiau

to **stretch out for ...**: ymestyn at ... *It was painful for her to stretch out for the switch: Roedd hi'n boenus iddi hi ymestyn at y swits.*

strictly speaking: a bod yn fanwl gywir

to **strike a balance between them**: dal y fantol rhyngddydd nhw, dal y ddysgl yn wastad

to **strike a bargain**: taro bargaen

- to **strike a chord**: taro tant *That name strikes a chord: Mae'r enw 'na'n taro tant.*
- to **strike against** ... (i.e. to hit): bwrw/taro yn erbyn ...
- to **strike her** (i.e. occur to her): ei tharo hi (yn ei thalcen) *It struck her that she would arrive too early if she did not slow down: Roedd yn ei tharo hi (y) basai hi'n cyrraedd yn rhy gynnar tasai hi ddim yn arafu.*
- to **strike the right note**: taro'r nodyn iawn/cywir
- to **strike up a friendship with** ...: dechrau cyfeillachu â ..., dechrau mynd yn gyfaill i ..., dechrau cyfeillgarwch â ... *She struck up a friendship with one of the teachers: Dechreuodd hi gyfeillachu ag un o'r athrawon.*
- to **strike while the iron is hot**: bwrw (S)/ taro/curo tra bo'r haearn yn boeth
- to **strip down a machine**: tynnu peiriant yn ddarnau/oddi wrth ei gilydd
- to **strive not to** ...: ymdrechu i beidio â ..., ymlafnio peidio â ...
- to **strive to win**: ymdrechu/ymegnio i ennill, ymlafnio ennill
- to **strive with might and main to** ...: ymdrechu braich ac ysgwydd i ..., rhoi pob gwyn ar waith i ...
- a **stroke of genius**: fflach o athrylith
- to **stroke the cat**: rhoi mwythau i'r gath, mwytho'r gath, anwesu'r gath
- strong liquor**: diod gadarn/gref, peth yfed
- to **struggle to** ...: ymdrechu/ymegnio i ..., ymlafnio ..., stryffagligo i ... (N)
- to **stub out a cigarette**: diffodd sigarét, stympio sigarét (N)
- stubborn as a mule**: fel mwlsyn (S), (y)styfnig fel mul, wedi llyncu mul
- studded with** ...: brith gan/o ...
- a **stumbling-block**: maen tramgwydd/rhwyst, carreg/craig rwyst
- a **stump of an arm**: pwt o fraich, bôn braich
- a **stupid person**: hen gwcw, hurtyn/twpsyn (*ef), hurten/twpsen (*hi), sledj (S)
- a **subject she has at her fingertips**: pwnc ar flaen ei thafod, pwnc ar flaenau'i bysedd *She was pleased they asked her to give a talk about philosophy because that was a subject she had at her fingertips: Roedd hi'n falch eu bod nhw wedi gofyn iddi roi sgwrs am athroniaeth gan fod hynny yn bwnc ar flaen ei thafod.*
- a **substantial amount of** ...: corff o ..., maint sylweddol o ... *She has written a substantial amount of poetry: Mae hi wedi cyfansoddi corff o farddoniaeth.*
- substantial wealth**: cyfoeth o sylwedd, cyfoeth sylweddol
- to **succeed in starting her car**: llwyddo i danio ei char
- to **succumb to** ...: plygu/ymostwng/ildio i ...
- such weather**: y fath dywydd
- such a woman**: y fath wraig, y gyfryw wraig, merch o'r fath
- such a matter**: hynny o beth
- such a night as this**: y fath noson â hon
- such a thing**: y fath beth, y ffasiwn beth (N), y cyfryw beth *She should not say such a thing: Ddylai hi ddim dweud y fath beth.*
- such a thing as** ...: y fath beth â ... *I have never before seen such a thing as that: Dw i erioed wedi gweld y fath beth â hwnnw.*
- on **such an occasion**: ar achlysur o'r fath
- such and such a person**: hon-a-hon (*hi), hwn-a-hwn (*ef)
- such and such a thing**: peth a'r peth
- such things**: pethau felly, pethau o'r fath, pethau o'r math hwn
- She suddenly decided to write a novel**: Cododd i'w phen i sgrifennu nofel, Cymerodd hi yn ei phen i sgrifennu nofel.
- She suddenly realized that** ...: Bu'n ei bwrw yn ei thalcen bod/mai/taw ...

to **sue s.o. (for ...)**: canlyn/erlyn rhn (am ...), rhoi'r gyfraith ar rn, mynd â rhn i'r llys

to **suffer from ...**: dioddef o ...

to **suffer terribly**: dioddef yn arw

to **suffer (wrong) at her hands**: cymryd (cam) ganddi hi, cael cam dan ei dwylo, dioddef (cam) ganddi *You are not the first to suffer at her hands: Nid chi ydy'r cyntaf i gymryd cam ganddi hi.*

suffering from a heavy cold: yn swp/ tsiwps o annwyd *She has been suffering from a heavy cold over the weekend: Mae hi wedi bod yn swp o annwyd dros y Sul.*

She is **suffering from depression**: Mae hi yn y felan, Mae'r felan arni hi, Mae hi'n isel ei hysbryd, Mae hi'n dioddef o iselder ysbryd

to **suit her**: gweddu iddi hi, mynd yn dda iddi hi, yn ei tharo (hi)

a **suit of clothes**: pâr o ddillad

suitable for her: addas ar ei chyfer hi, yn ei tharo (hi) *I think this room will be suitable for her: Rydw i'n meddwl (y) bydd y stafell yma'n addas ar ei chyfer hi.*

to **summon (up) courage**: magu asgwrn cefn, magu plwc

Sunday-best clothes: dillad parch

to **supply s.o. with ...**: cyflenwi rhn â ... *They were able to supply the shop with fresh eggs: Roedden nhw'n medru cyflenwi'r siop ag wyau ffres.*

a **supply teacher**: athro cyflenwi/llanw, athrawes gyflenwi/llanw

to **support her** (by voting for her): rhoi anadl o'i phlaid hi *We should all support her in the election: Dylen ni i gyd roi anadl o'i phlaid hi yn yr etholiad.*

to be a **support to her**: bod yn gefn iddi hi, cynnal ei breichiau

to **support wholeheartedly**: cefnogi hyd adref, cefnogi i'r carn

to be **supposed to ...**: bod i fod i ... *She was supposed to wash the dishes: Roedd hi i fod i olchi'r llestri.*

sure enough: bid siŵr/sicr *Sure enough there she is: Bid siŵr dyna hi.*

sure of ...: sicr/siŵr o ...

sure to succeed: sicr/siŵr o lwyddo

to be **sure where she is going** (to further her interests): bod yn siŵr o'i siwrnai *It is not surprising she is now on the board of directors – she was always sure where she was going: Does dim rhyfedd ei bod hi ar y bwrdd cyfarwyddwyr – roedd hi bob amser yn siŵr o'i siwrnai.*

You **surely don't expect me to believe that!**: Dwyt ti erioed yn disgwyl i mi gredu hynny!

by **surface mail**: trwy bost tir a môr

to (have a) **surfeit of ...**: diflasu/syrffedu ar ..., cael llond bol ar ..., hen flino ar ...

to **surmount her difficulties**: dod dros ben/gogsgyn ei hanawsterau

It wouldn't **surprise me**: Synnwn i ddim/damaid/fwnci *It wouldn't surprise me if she were to go to prison: Synnwn i ddim pe bai hi'n mynd i'r carchar.*

She was **surprised at hearing**: Roedd yn syn/rhyfedd ganddi hi wrth glywed ... (N), Roedd hi'n synnu clywed/wrth glywed ...

I am **surprised at her**: Rwy'n synnu ati hi, Mae hi'n fy synnu i

She is **surprised at/about sth**: Mae hi'n synnu at/am rth

She was **surprised to hear ...**: as for **surprised at hearing ...**

It is **surprising for her to eat so much**: Mae'n syn iddi hi fwyta cymaint, Mae'n syn ei bod hi'n bwyta cymaint

surprisingly pleased: yn od o falch, syndod o falch

to **survive where others fail**: byw lle mae bai brain yn marw

to **suspect as much**: amau braidd/
cymaint, meddwl braidd/cymaint

to **swallow in one draught**: llyncu ar ei
thalcen (*hi), llyncu ar ei ben/ar un
gwynt/ar un cynnig, llyncu'n llyfn

to **swallow it hook, line and sinker**:
llyncu'r stori'n gyrn croen a charnau,
llyncu'r abwyd/cyfan, llyncu'n ddihalen

swarming with ...: yn fyw o ..., yn heigio
o ... *The meat was swarming with maggots:*
Roedd y cig yn fyw o gynrhon.

I would **swear** she was there: Baswn i'n
taeru ei bod hi yno, Elwn ar fy llw ei bod
hi yno

to **swear at her**: ei rhegi hi, rhegi arni hi

to **swear by all that is holy**: tyngu ar ei
pheth mawr

to **swear in** a witness: rhoi tyst ar ei llw
(*hi)

to **swear like a trooper**: rhegi fel cath/
paun/melin/tincer/cwrcyn

to **swear that black is white**: taeru du yn
wyn *Don't believe her – she would swear
that black is white in order to get her own
way: Peidiwch â'i choelio hi – basai hi'n taeru
du yn wyn er mwyn cael ei ffordd ei hun.*

to **swear that she was wearing pink**: taeru
ei bod hi'n gwisgo pinc

to **swear to come back**: tyngu i ddod yn ôl

I **swear to it**: Mi af i ar fy llw

She would **swear to that**: Âi (hi) ar ei llw
dros hynny

to **swear to the truth of that**: tystio i
wirionedd hynny (ar lw)

She **swears by** garlic and spinach: Mae hi'n
credu'n gryf mewn garlleg a phigoglys

She will have to **sweat it out**: Bydd rhaid
iddi ddiodef hyd y pen

to **sweep it under the carpet**: ysgubo'r
peth dan y carped/o'r golwg

to **sweep the board** (at a game): ennill y
cyfan/cwbl, clirio'r bwrdd, cipio'r cwbl

a **sweeping assertion**: dweud mawr

a **sweet tooth**: dant melys

She **swept into the hall**: Daeth hi i mewn
i'r neuadd fel llong hwyliau, Hwylodd hi
i mewn i'r neuadd

to **swim against the tide**: hwylio/rhwyfo
yn erbyn y llanwy llif

to **swing into action**: mynd ati o ddifri(f),
bwrw iddi

to **switch off a lamp/radio/heater**:
diffodd lamp/radio/twymydd

to **switch on a heater**: cynnau/tanio
twymydd, troi twymydd ymlaen

to **switch on a lamp**: rhoi/dodi (S) lamp
(ymlaen), cynnau lamp

to **switch on the radio**: troi'r radio
ymlaen

to **sympathize with her**: teimlo drosti hi,
cydymdeimlo â hi



to **take a back seat**: cilio i'r cefndir, ildio'r
lle blaenaf

to **take a bath**: cael bath

to **take a beating**: cael cweir, cael ei churo
(*hi), cael cot/coten (S)

to **take a breather**: cymryd hoe fach, cael
ei gwynt ati (*hi), cael wiff (S)

to **take a day off from working**: rhoi
diwrnod i'r brenin, cael hoe o'r gwaith

to **take a delight in ...**: cael pleser yn/
mewn ..., ymhyfrydu yn/mewn ...

to **take a dim view of it**: gwgu/ffromi ar y
peth

to **take a dislike to her**: rhoi cas arni hi,
rhoi'i gas arni hi (*ef), cymryd yn ei
herbyn

to **take a false step** (i.e. make a mistake):
cael/cymryd cam gwag

- to **take a firm stand**: sefyll yn gadarn/
ddiysgog/ddi-ildio
- to **take a good look at it**: cymryd golwg
iawn arni hi
- to **take a leaf out of her book**: dilyn ei
hesiampl, gwneud yr un peth â hi
- to **take a liking to her**: cymryd ati hi *He
took a liking to her as soon as he saw her:*
Cymerodd e ati hi cyn gynted ag y gwelodd hi.
- to **take a liking to it**: mynd/dod i'w hoffi,
mynd/dod yn hoff ohono (*ef), cymryd
ato (*ef)
- to **take a newspaper**: cael/derbyn papur
newydd
- to **take a photograph/picture**: tynnu llun
- to **take a pride in ...**: ymfalchïo yn ...
*She took a pride in her home: Roedd hi'n
ymfalchio yn ei chartref.*
- to **take a rest**: cymryd/cael hoe, gorffwys,
llaesu dwylo, cael ei gwynt ati (*hi)
- Take a rest from ironing!**: Gadewch/
Rhowch lonydd i'r smwddio!
- to tell her she can **take a running jump**:
dweud wrthi am fynd i grafu/i'r diawl
- to **take a short cut**: dilyn y llwybr llygad/
tarw, achub (y) ffordd
- to **take a short rest**: as for **take a breather**
- to **take a swipe at her**: estyn ergyd ati hi
- to **take a tilt at her**: lladd arni hi, ei
beirniadu hi
- to **take a turn for the better**: gwella, troi
ar wella
- to **take a turn for the worse**: gwaethygu,
mynd o ddrwg i waeth
- to **take a weight off her mind**: mynd â
baich oddi ar ei meddwl
- to **take action**: gweithredu
- to **take advantage of ...**: cymryd/achub
mantais ar ..., manteisio ar ...
- to **take after her mother**: tynnu ar ôl ei
mam
- to **take aim at ...**: anelu at ...
- to **take an examination**: sefyll arholiad
- to **take an interest in ...**: ymhêl â ... *She
takes an interest in all sorts of things: Mae
hi'n ymhêl â phob math o bethau.*
- Don't **take any notice of her**: Paid â hidio
amdani hi, Gad hi dan sylw (S)
- to **take as security**: cymryd ar wystl/yn
ernes
- to **take care of ...**: tendio ar ..., gofalu/
ymorol am ...
- to **take comfort in ...**: ymgysuro yn/
mewn ...
- to **take cover**: cysgodi, ymochel, ymogel,
ymguddio
- to **take delight in ...**: cael pleser yn/
mewn ..., ymhyfrydu/ymbleseru yn/
mewn ...
- to **take drastic action**: gweithredu'n
eithafol
- to **take effect**: cael effaith; dod i rym *The
tablets took effect within five minutes: Cafodd
y tabledi effaith o fewn pum munud. The new
rules took effect on the following day: Daeth y
rheolau newydd i rym drannoeth.*
- to **take everything you've got**: mynd â'ch
croen, eich blingo *She will take everything
you've got if you let her: Aiff hi â'ch croen os
gwnewch chi adael iddi hi.*
- to **take exception to sth**: gweld beiau yn
rth; digio wrth rth
- to **take for granted that she may/can go**:
cymryd yn ganiataol y caiff hi fynd
- to **take from ...**: cymryd/derbyn gan ...
(N), cymryd oddi wrth ... (S) *She would
never take sweets from a stranger: Fasai hi
byth yn cymryd melysion gan ddieithryn.*
- to **take heart**: codi ei chalon (*hi)
- Take heart!**: Cwyd dy galon!
- to **take heed** (i.e. to be careful): cymryd
pwyll
- Take heed!**: Gan bwyll!

to **take heed of** ...: rhoi/talu sylw i ...

You should have taken heed of all the warnings you got from the doctor: Dylech chi fod wedi talu sylw i'r holl rybuddion gawsoch chi gan y meddyg.

It will **take her all her time** to complete that: Bydd hi yn ei gwaith yn cyflawni hynny

to **take her arm**: cydio yn ei braich

to **take her at her word**: ei chymryd hi ar ei gair, ei choelio/chredu hi, derbyn ei gair *When she promised to help I took her at her word: Pan addawodd hi roi cymorth fe'i cymerais i hi ar ei gair.*

to **take her breath away** (with surprise): cipio/cymryd ei hanadl/gwynt ymaith, mynd â'i hanadl/gwynt

to **take her by surprise**: ei dal hi ar y gamfa, ei syfrdanu hi

to **take her by the arm**: cydio ynddi gerfydd ei braich

to **take her down a peg**: tynnu blew(yn) o'i thrwyn, torri ei chrib, ei rhoi hi yn ei lle *She mentioned his failure in the examinations in order to take him down a peg: Soniodd hi am ei fethiant yn yr arholiadau er mwyn tynnu blew o'i drwyn.*

to **take her last breath** (i.e. die): anadlu/tynnu ei hanadl olaf, tynnu ei thraed ati

to **take her side**: cadw ei hochr, cadw arni hi *I took her side in the argument: Roeddwn i'n cadw ei hochr yn y ddadl.*

to **take her temperature**: cymryd/mesur ei gwres

to **take her time**: cymryd ei hamser, ymbwyllio

to **take her to task**: ei galw hi i gyfrif, ei cheryddu/thafodi/dwrddio hi, dweud y drefn wrthi

to **take her up on it**: derbyn ei chynnig i wneud y peth

to **take her word for it**: as for **take her at her word**

to **take his hat/cap off to** ...: tynnu ei het/gap i ...

to **take hold of** ...: cydio yn ..., dal ar ..., ymafael yn ..., gafael yn ...

to **take in** (e.g. a skirt to improve the fit): tynnu i mewn, lleihau

to **take in paying guests**: cadw lletywyr

to **take in the news**: treulio'r newydd(ion)

to **take industrial action**: gweithredu'n ddiwydiannol

to **take into account** ...: ystyried ..., gwneud cyfrif o ... *After taking everything into account there was no profit at all: Ar ôl ystyried popeth doedd dim elw o gwbl.*

to **take it as an insult**: cyfrif y peth yn sarhad

to **take it badly**: cymryd y peth o chwith

to **take it for granted that** she may/can go: as for **take for granted that**

to **take it in turns**: cymryd eu tro *The children took it in turns to wash the dishes: Roedd y plant yn cymryd eu tro i olchi'r llestri.*

to **take it into her head that** ...: cymryd yn ei phen bod/mai/taw ..., tybio bod/mai/taw ... *She took it into her head that the ticket was for her: Cymerodd hi yn ei phen mai iddi hi oedd y tocyn.*

to **take it into her head to** ...: cymryd yn ei phen i ... *She took it into her head to go on a cruise: Cymerodd hi yn ei phen i fynd ar fordaith.*

to **take it to heart**: gwasgu'r peth at y galon, teimlo'r peth i'r byw

to **take its course**: cymryd ei chwrs (*hi)

to **take its toll of** ...: gwneud difrod/niwed mawr i ... *Smoking had taken its toll of her health: Roedd ysmegu wedi gwneud difrod mawr i'w hiechyd.*

to **take leave of her senses**: ymadael â'i synhwyrau, dechrau drysu

- to **take no heed of her warning**:
anwybyddu ei rhybudd hi
- to **take no notice of ...**: cau llygaid ar ..., gwneud na chlust na chwedl o ...
- to **take notes**: codi/cymryd nodiadau
- to **take objection to sth**: digio wrth rth, gweld bai ar rth, gwrthwynebu rthth
- to **take off her clothes**: tynnu ei dillad, tynnu amdani *She was too tired to take off her clothes: Roedd hi'n rhy flinedig i dynnu ei dillad.*
- to **take off her glasses**: tynnu ei sbectol
- to **take offence at ...**: cymryd ei thramgwyddo gan ... (*hi), cymryd ati o achos ..., pwdu ... *She did not take offence at her aunt's comments: Doedd hi ddim yn cymryd ei thramgwyddo gan sylwadau ei modryb.*
- to **take on ...**: ymgymryd â ... *She agreed to take on the extra work: Cytunodd hi i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol.*
- to **take on the responsibility of doing ...**: cymryd arni (hi ei hun) i wneud ... (*hi) *After her husband died she took on the responsibility of completing his work: Wedi i'w gŵr farw cymerodd arni hi ei hun i gwblhau'i waith.*
- to **take one's time**: cymryd pwyll, ymbwylllo
- to **take over**: meddiannu, cymryd (drosodd)
- to **take part in ...**: cymryd rhan yn/ mewn ...
- to **take photographs**: tynnu lluniau
- to **take place**: digwydd (cf. **take s.o.'s place**) *The accident took place on Thursday night: Digwyddodd y ddamwain nos Iau.*
- to **take possession of ...**: cymryd meddiant o ..., meddiannu ...
- to **take pride in ...**: ymfalchïo (yn) ... *She took pride in being able to speak Welsh: Roedd hi'n ymfalchïo ei bod yn medru'r*
- Gymraeg. She took pride in her horse: Roedd hi'n ymfalchïo yn ei cheffyl.*
- to **take pride of place**: cymryd y lle blaenaf
- to **take s.o. apart**: tynnu rhn yn bedwar aelod a phen, beirniadu rhn yn llym/arw
- to **take s.o.'s place**: cymryd lle rhn (cf. **take place**)
- to **take sth at its face value**: derbyn rthth ar ei olwg
- to **take sth from her**: cymryd/dwyn rthth ganddi hi (N), cymryd/dwyn rthth oddi wrthi hi (S).
- to **take sth in bad part**: pwdu/sorri o achos rthth
- to **take sth in good part**: derbyn rthth heb ddigio *He took the joke in good part: Derbyniodd e'r jôc heb ddigio.*
- to **take sth in her stride** (i.e. without difficulty): gwneud rthth ar ei cherdedd, gwneud rthth yn ddidrafferth, gwneud rthth ar chwarae bach
- to **take sth in one's stride** (i.e. without preparation): derbyn rthth fel y daw, derbyn rthth heb gynhyrfu
- to **take sth into consideration**: cymryd rthth i ystyriaeth
- to **take sth lying down**: llyncu rthth heb ddweud gair, derbyn rthth heb ymateb
- to **take sth the wrong way**: cymryd rthth o chwith, cymryd rthth yn groes
- to **take sth to pieces**: tynnu rthth yn ddarnau/dipiâu (N)
- to **take steps to ...**: paratoi i ...
- to **take stock of the situation**: mesur a phwyso'r sefyllfa
- to **take that for granted**: cymryd hynny'n ganiataol
- to **take the bloom off sth**: pylu rthth
- to **take the bull by the horns**: cymryd gafaal yng nghyrn yr aradr, cydio yn y danadl, mentro'r gwaethaf

to **take the chill off** the milk: torri'r ias ar y llaeth/llefrith

to **take the edge off** a blade: pylu llafn

to **take the gloss off sth**: pylu sglein rhth

to **take the huff**: pwdu, llyncu mul (N)

to **take the liberty of** advising her: mentro ei chynghori hi

to **take the opportunity to ...**: achub/dal ar y cyfle i ...

to **take the water** (at a spa): profi'r dŵr

to **take the weight off her feet**: rhoi/dodi (S) ei phwysau i lawr

to **take the wind out of her sails**: mynd â'r gwynt o'i hwyliau, rhoi pin yn ei (hy)swigen, tynnu'r chwydd ohoni

to **take the words out of my mouth**: dweud fy nweud, dweud yr hyn roeddwn i am ei ddweud

Take these!: Hwda/Hwdiwch rhain! (N), Hwre/Hwr(i)wch rhain! (S)

to **take to drink**: dechrau llymeitian/diota/llyncu, mynd ar y ddiod, potio, codi bys bach

to **take to one's heels**: cymryd y carnau/goes/gwadnau/traed, ei gwadnu/baglu/throi hi *They took to their heels when they saw me: Gwnaethon nhw ei gwadnu hi pan welson nhw fi.*

to **take to poetry**: cymryd at farddoniaeth

to **take to singing**: cymryd at ganu, cael blas ar ganu

to **take to the mountains**: ffoi i'r mynyddoedd

to **take to the bottle**: cael blas ar y botel, mynd ar y ddiod

to **take turns**: as for **take it in turns**

to **take two bites at a cherry**: rhoi dau gynnig ar rth

to **take umbrage at her** remark: digio wrth ei sylw, sorri/pwdu o achos ei sylw

to **take unfair advantage of ...**: achub mantais ar ..., cymryd mantais o ...

to **take up** painting: dechrau ymhél ag arlunio

to **take up a career**: ymgymryd â gyrfa, cychwyn gyrfa, cychwyn ar yrfa

to **take up a challenge**: derbyn her

to **take up a lot of her time**: llenwi llawer o'i hamser hi

to **take up a lot of room**: cymryd/llenwi llawer o le

to **take up a post** (i.e. a job): dechrau (ar) swydd, dod i swydd

to **take up an idea**: cydio mewn syniad, derbyn syniad

to **take up an offer**: derbyn cynnig

to **take up residence**: ymsefydlu, ymgartrefu

to **take vengeance on her for her** treachery: dial arni am ei bradwriaeth

Take your time!: Cymer/Cymerwch bwyll!

to be **taken ill**: cael ei tharo'n wael (*hi)

It **takes some beating!**: Chewch chi mo'i well!

That **takes some doing**: Mae hynny'n dipyn o gamp

She **takes too much for granted**: Mae hi'n rhagdybio gormod

taking everything into account/consideration: rhwng pob peth, ac/o ystyried popeth, a chymryd popeth at ei gilydd *Taking everything into account she was a successful president: Rhwng pob peth bu hi'n llywydd llwyddiannus.*

taking into consideration her ...: yn wyneb ei ... *Taking into consideration her apology I am willing to excuse her: Yn wyneb ei hymddiheuriad rwy'n fodlon ei hesgusodi hi.*

to **talk about ...**: siarad am ..., sgwrsio am ..., trafod ...

to **talk aloud**: siarad yn uchel

to **talk at cross-purposes**: siarad am y clawdd/pared, siarad o bobtu'r gwrych

- to **talk behind her back**: siarad yn ei chefn
- to **talk big**: siarad wrth y pwys, ymffrostio, brolio
- to **talk big and do little**: siarad wrth y pwys a byw wrth yr owns, dweud heb wneud
- to **talk down to them**: siarad yn nawddoglyd â nhw, siarad i lawr â nhw
- to **talk loudly**: as for **talk aloud**
- to **talk nineteen to the dozen**: siarad pymtheg (yn) y dwsin/i'r dwsin, siarad fel melin bupur/pwll y môr
- to **talk nonsense**: malu awyr, malu sôn
- to **talk non-stop**: siarad yn ddi-baid/gyson, siarad fel melin bupur/glep, siarad fel pwll y môr, siarad fel clap y felin
- to **talk off the top of one's head**: siarad ar amcan/antur, siarad o'r frest
- to **talk the hind legs off a donkey**: as for **talk non-stop**
- to **talk through her hat/the back of her neck**: siarad trwy ei het, malu awyr, siarad lol, siarad ar ei chyfer (*hi)
- to **be talked about by everyone**: bod yng ngheg y byd
- like **talking to a brick wall**: fel siarad â'r/gyda'r/efo'r wal, fel siarad â choes brws
- She **talks a lot**: Mae hi'n geg i gyd/hen geg
- to **tamper with ...**: ymyrryd/ymyrraeth â ...
- to **tap a telephone**: cysylltu dyfais wrando â llinell ffôn; clustfeinio ar sgwrs ffôn
- a **taste off/for ...**: blas ar ... *I should like a taste of it: Hoffwn i ryw flas arno. She has a taste for large cars: Mae ganddi flas ar geir mawr.*
- It **tastes good**: Mae blas da arno, Mae'n flasus
- to **taunt her with sth**: dannod rhth iddi, taflu rhth yn ei dannedd, edliw rhth iddi
- to **tax her patience**: bod yn fwrn arni, trethu ei hamynedd
- to **teach her maths**: dysgu mathemateg iddi hi
- to **teach her how to change a wheel**: dysgu iddi hi sut mae/sut i newid olwyn
- to **teach her to swim**: dysgu iddi nofio, ei dysgu i nofio
- to **teach your grandmother to suck eggs**: dweud/dysgu pader wrth berson (i.e. a parson)
- She cannot **tear herself away from her book**: Fedr hi mo'i thynnu ei hun(an) oddi wrth ei llyfr, All hi ddim gollwng y llyfr
- to **tear to ribbons/shreds** (fabric or argument): tynnu'n gareiau, malu'n dipiau (N)/ddarnau, torri'n yfflon (racs) (S)
- to **tease her**: tynnu arni hi, ei phlagio/phoeni hi, tynnu ei choes
- to **teem with ...** (i.e. to contain a lot of): heigio o ..., berwi o ..., bod yn fyw o ...
The town was teeming with people: Roedd y dref yn berwi o bobl.
- to **tell a string/tissue of lies** (see also **tissue of lies**): palu/rhaffu celwyddau, dweud celwydd fel ci'n cerdded
- to **tell from ...**: dweud ar ... *You can tell from her eyes that she is disappointed: Rydych chi'n gallu dweud ar ei llygaid ei bod hi wedi cael ei siomi.*
- to **tell her about ...**: dweud wrthi hi am ...
- to **tell her from her twin sister**: (ad)nabod un efeilles oddi wrth y llall
- to **tell her not to laugh**: dweud wrthi am beidio â chwerthin
- to **tell her off**: rhoi tafod/pryd o dafod/drwg iddi hi *I told them off for being late: Rhois i dafod iddyn nhw am fod yn hwyr.*
- to **tell her straight to ...**: dweud wrthi'n blaen am ..., dweud wrthi heb hel dail,

- dweud wrthi'n ddiflewyn ar dafod *I felt like telling her straight to stop prattling:*
Roeddwn i'n teimlo fel dweud wrthi'n blaen am beidio â malu awyr.
- to tell him all her troubles and anxieties:** dweud ei thywydd wrtho, bwrw ei bol/perfedd iddo, arllwys ei chwd
- to tell on her** (i.e. affect her): dweud arni
Her grief has told on her: Mae ei gofid wedi dweud arni.
- to tell on her** (i.e. inform on her): dweud amdani *Her brother decided to tell on her: Penderfynodd ei brawd ddweud amdani.*
- to tell right from wrong:** dweud/gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg, didoli'r da a'r drwg
- to tell tales about ...:** hel (N)/cario clecs/straeon am/ar ... *She was always telling tales about the people of the village: Roedd hi byth a beunydd yn hel clecs am bobl y pentref.*
- to tell tales on** (i.e. inform on) ...: achwyn/cwyno ar ..., cario straeon am ... (N), dweud ar ... *The children were telling tales on one another: Roedd y plant yn achwyn ar ei gilydd.*
- to tell that she is ...:** gweld ei bod hi ... *One can tell that she is angry: Gellir gweld ei bod hi'n ddi.*
- to tell the time:** dweud/dangos faint yw hi o'r gloch, dweud/dangos faint o'r gloch yw hi
- to tell them apart:** gwahaniaethu/dweud y gwahaniaeth rhyngddynt
- a telling off:** llond ceg, pryd o dafod, ceryddu
- a temporary expedient:** ateb dros dro
- to tend to ...:** tueddu i ... *She tends to agree with everything the chairman says: Mae hi'n tueddu i gytuno â phopeth mae'r cadeirydd yn ei ddweud.*
- a tendency to complain:** tuedd i gwynol/achwyn
- tender to/with ...:** tyner wrth ...
- a term of abuse:** sarhad
- to be terminally ill:** bod yn y pen arni hi (*hi), bod yn ddirifol wael
- terms of reference:** amodau gorchwyl, cylch gorchwyl/perthnasol
- a terraced house:** tŷ teras/rhes, tŷ mewn rhes/rhesaid
- a terrible one for leg pulling:** sgut am dynnu coes
- a terrible pity:** hen biti, piti gythgam, trueni mawr
- He is a terrible sight:** Mae coblyn o olwg arno, Mae golwg ofnadwy arno
- terribly kind:** ofnadwy o garedig
- terribly shocked:** wedi dychryn am ei bywyd (*hi)
- I am terrified of mice:** Rwy'n arswydo rhag llygod, Mae llygod yn hala ofn arna'i (S)
- a test sample:** tamaid prawf
- to testify to her:** tystiolaethu iddi hi
- wetter than ever:** yn wlypach nag erioed/byth
- than others:** na'i gilydd *Some are kinder than others: Mae rhai yn fwy caredig na'i gilydd.*
- Thank goodness for that!** Diolch am hynny!, Diolch byth!
- Thank heaven!** Diolch i'r drefn/nef!
- to thank her for ...:** diolch iddi hi am ...
- to be thankful for ...:** bod yn ddiolchgar am ...
- Thanks all the same!** Diolch yr un fath!
- to express thanks for ...:** datgan(u) diolch am ...
- That is all there is:** Dyna'r cwbl/cyfan sydd
- That is all very well, but ...:** Purion, ond ..., Mae hynny'n burion, ond ...
- That is decent of her!** Chwarae teg iddi hi!

That is her all over!: Dyna hi i'r dim!

That is quite all right: Mae popeth yn iawn

That is saying quite a lot!: Mae hynny'n dipyn o ddweud!

That is the end to ...: Dyna ddarfod am ..., Dyna ddiwedd ar ...

That is their business/concern not mine: Rhyngddyn nhw a'u cawl y mae hynny, Rhwng gwŷr Pentyrch â'i gilydd (S)

that is to say ...: sef ..., hynny ydy/yw ...

That is what comes of ...: Dyna sy'n dod o ...

That is what I call a bike!: Dyna beth ydy/ yw beic!

That is what is important: Dyna sy'n bwysig

that much: cymaint â hynny

that sort of thing: y math yna o beth, y fath beth â hynny *That sort of thing makes me angry:* Mae'r math yna o beth yn fy nigio i.

that very Saturday: yr union Sadwrn

That will do for now!: Dyna ddigon am y tro!, Gwnaiiff hynny'r tro am nawr!

That would be best: Dyna fasai/fyddai orau

the then President of France: Arlywydd Ffrainc ar y pryd/(y) pryd hynny

there and then: yn y fan (a'r lle) *The girl kissed her mother there and then:* Cusanodd y ferch ei mam yn y fan.

There are no plans to ...: Does dim bwriad/cynllun i ... *There are no plans to buy more computers:* Does dim bwriad i brynu rhagor o gyfrifiaduron.

There is no accounting for taste: Pawb â'i chwaeth, Pawb at y peth y bo

There is no knowing/saying ...: Does (g)wybod ..., Does dim (dichon) gwybod, 'Bod yn y byd ... (N) *There is no knowing*

what accident could happen: Does wybod yn y byd pa ddamwain allai ddigwydd.

There is sth wrong with this clock: Mae rthth o'i le ar y cloc yma, Mae rthth yn bod ar y cloc yma

There seems to be some sort of oil on the window: Mae fel petai rhyw fath o olew ar y ffenest

There was no stopping her (talking): Doedd dim taw arni, Doedd dim pall ar ei siarad

There's a good girl!: Dyna ferch dda!, Da'r lodes! (S)

These are hers: Hi biau'r rhain, Ei rhai hi ydyn nhw

to be as thick as a plank/as two short planks: bod fel coes brws/bwrdd/ stên/wal, bod mor dwp â sledj (S), bod yn ddwl fel post (N)

They are as thick as thieves: Maen nhw'n gryn lawiau, Maen nhw yng nghegau ei gilydd, Maen nhw drwyn wrth drwyn, Maen nhw'n datws o'r un rhych

thick fog: niwl topyn/tew/trwchus

thick with dust: yn dew o lwch

to be thick-skinned: bod mor ddideimlad â ffenest, bod yn dew ei chroen (*hi)

thin as a rake: tenau fel (e)styllen, fel talcen iâr/rhaca/weiren gaws

the thin end of the wedge: blaen y gyllell

thin on the ground: prin ac anaml

the thing that causes difficulties: y drwg yn y caws, y maen tramgwydd *The lack of fresh water is the thing that causes difficulties:* Diffyg dŵr croyw yw'r drwg yn y caws.

Things are difficult for us: Mae hi'n galed arnon ni

Things are looking up: Mae pethau ar i fyny, Mae pethau'n edrych yn well/ gwella/codi, Mae gwell golwg arni, Mae hi'n goleuo

Things are not much better: Dydy pethau fawr gwell

with **things as they are:** a phethau fel (ag y) maen nhw

to **think about/of ...:** meddwl am ...

to **think big:** anelu'n uchel

She doesn't **think much of ...:** Does ganddi fawr o olwg ar ..., Does ganddi fawr i'w ddweud dros ...

to **think of buying a house:** meddwl prynu tŷ

to **think the world of ...:** meddwl y byd o ...

She **thinks no worse of him because he refused to help:** Dydy hi ddim yn meddwl llai ohono am iddo wrthod cymorth

She **thinks she is somebody:** Mae hi'n ei meddwl ei hun

this day and age: y dyddiau hyn, yr oes hon, yr oes/byd sydd ohoni

This is hers: Hi biau hwn/hon, Ei hun hi ydy hwn/hon

This is not mine: Nid fi biau hwn/hon, Nid fy un i yw hwn/hon

this much: cymaint â hyn *I'll tell you this much: Bydda' i'n dweud cymaint â hyn wrthoch chi.*

to be a **thorn in her side/flesh:** bod yn ddraen(en) yn ei hystlys, tynnu'n groes iddi, bod yn swmbwl yn y cnawd

thoroughly and methodically: o'i chwyr (*hi) *She went through the documents thoroughly and methodically: Aeth hi trwy'r dogfenni o'u cwr.*

though I say it myself: er mai/taw fi sy'n dweud

her **thoughts full of ...:** llond ei meddwl o ... *She was feeling better despite her thoughts full of sad memories: Roedd hi'n teimlo'n well er gwaethaf llond ei meddwl o gofion trist.*

a **thousand and one:** cant a mil, mil a mwy *She has a thousand and one things to*

do: Mae ganddi hi gant a mil o bethau i'w gwneud.

to **threaten her with punishment:** bygwth cosb arni hi, ei bygwth hi â chosb

to **threaten to go:** bygwth mynd

It **threatens rain/snow etc.:** Mae hi'n hel (N)/bygwth/addo glaw/eira a.a.

The situation **threatens to deteriorate:** Mae peryg(l) i'r sefyllfa waethygu

a **three-point turn:** tro ar deirgwaith

threescore years and ten: oed yr addewid

thrilled to bits with/about ...: wedi gwirioni/mopio/ffoli/dwli (S) ar ..., wrth ei bodd gyda/ynghylch ... (*hi) *She's thrilled to bits with her new cat: Mae hi wedi gwirioni ar ei chath newydd.*

through and through: trwyddi/trwyddo draw, rhonc, i'r carn *The government was corrupt through and through: Roedd y llywodraeth yn llygredig trwyddi draw. He is a traitor through and through: Mae e'n fradwr rhonc.*

through good luck: trwy drugaredd/lwc

You are **through the seat of your trousers:** Mae'ch tin chi allan/ma's

through their good offices: trwy eu cymwynasgarwch/cymorth/dylanwad

to **go through thick and thin for her:** mynd trwy'r drain a'r drysni drosti, mynd trwy'r tew a'r tenau drosti

to be **through with s.o./sth:** bod wedi darfod/gorffen â rhn/rhth

throughout her life: ar hyd ei hoes, trwy gydol ei hoes, tra bu (hi)

throughout the ages: o oes i oes, trwy'r oesoedd

throughout the morning: trwy'r bore, trwy gydol/gyfan y bore, trwy'r bore cyfan

throughout the (whole) day: trwy'r dydd, trwy gydol y dydd, o fore gwyn tan nos *She was working in the garden*

- throughout the day: Roedd hi'n gweithio yn yr ardd o fore gwyn tan nos.*
- to **throw a ball at/to s.o.:** taflu pêl at rn
- to **throw a fit:** cael ffit
- to **throw a party:** cael/rhoi/trefnu parti
- to **throw a spanner in the works:** tynnu pinnau o'i holwynion (*hi), rhoi sbrag yn yr olwyn, rhoi pin yn ei swigen
- to **throw away sth:** taflu/lluchio rhth
- to **throw cold water on ...:** taflu dŵr oer ar ...
- to **throw down the gauntlet:** rhoi her
- to **throw dust in her eyes:** taflu/rhoi llwch i'w/yn ei llygaid
- to **throw good money after bad:** taflu arian da ar ôl arian drwg
- to **throw her money around:** gwastraffu/ afradu ei harian
- to **throw her off the scent:** ei harwain hi oddi ar y trywydd
- to **throw her weight about/around:** taflu ei phwysau
- to **throw in her lot with s.o.:** bwrw ei choelbren gyda/efo rhn
- to **throw in the sponge/towel:** rhoi'r gorau iddi, rhoi'r ffidil yn y to
- to **throw it up in her face:** bwrw'r peth i'w dannedd, taflu'r peth yn ei dannedd
She crashed the car ten years ago and her husband is constantly throwing it up in her face: Drylliodd hi'r car ddeng mlynedd yn ôl ac mae'i gŵr yn wastad yn bwrw'r peth i'w dannedd.
- to **throw light on ...:** taflu golau/goleuni ar ..., taflu ffrwd o olau ar ..., goleuo
- to **throw off fatigue:** bwrw blinder
- to **throw sth away:** as for **throw away sth**
- to **throw sth overboard:** bwrw/lluchio/ taflu rhth i'r môr/dros y bwrdd
- to **throw the baby out with the bathwater:** taflu'r llo a chadw'r brych, cadw'r brych a lluchio'r babi, llosgi'r gwely i ladd chwannan
- to **throw up** (i.e. be sick): chwydu, cyfogi
- to **be thrown from pillar to post:** bod o luch i dafl (N), cael eich bwrw o bared i bost *Since the new owner came she has been thrown from pillar to post: Ers i'r perchennog newydd gyrraedd mae hi wedi bod o luch i dafl.*
- the **thrust of her argument:** pwyslais/carn/ craidd ei dadl
- thumb-nail size ...:** hyd bys o ... *She keeps a thumb-nail size radio in her pocket: Mae hi'n cadw hyd bys o radio yn ei phoced.*
- thumb-nail sketch ...:** disgrifiad cryno
- to **give a thumbs-down sign:** rhoi arwydd bawd ar ei lawr
- to **thwart or upset her plans:** rhwystro ei chynlluniau, rhoi sbrag yn ei holwyn
- to **be tickled pink with ...:** bod wrth ei bodd â ... (*hi), bod uwchben ei digon â ... (*hi)
- The **tide has turned** (lit. and fig.): Mae'r llanw wedi troi, Daeth hael ar fryn
- to **tide her over:** ei chynnal hi dros dro
- to **tidy away** the clothes: rhoi'r dillad i gadw, rhoi'r dillad heibio
- to **tidy herself up:** ei thwtio'i/thacluso'i hun(an), ymdacluso
- a **tidy sum:** swm sylweddol, swm bach diogel/teidi
- to **tidy up:** rhoi trefn ar bethau, tacluso, twtio, cymoni (S)
- to **tie her hands:** clymu ei dwylo; rhoi terfyn ar ei dewis, ei chyfyngu
- to **tie in with sth:** cysylltu â rhth
- to **tie shoelaces:** clymu lasiau/lasys (S), clymu/cau careiau'ch (e)sgidiau
- to **tie sth to ...:** clymu rhth wrth/yn/i ...
- to **tie them together:** eu clymu nhw (ynghyd)

to **tie with her for second place**: dod yn gydradd ail â hi

tied to her apron strings: wrth ei chynffon/chwt, yn rhwym/dynn/sownd wrth linyr ei ffedog

tied to one place or job: â'i phen wrth y post (*hi), fel buwch wrth bost *He was tied to his home caring for his mother until she died: Roedd e gartref â'i ben wrth y post yn gofalu am ei fam nes iddi farw.*

tied up (i.e. not free to leave): fel buwch wrth bost *I'll be tied up tomorrow with my wife being so poorly: Byddaf i fel buwch wrth bost yfory a'm gwraig mor sâl.*

They are a bit **tight for money**: Mae hi dipyn yn dynn/fain arnyh nhw am arian

It was a **tight race**: Roedd hi'n ras glòs/dynn, Cael a chael oedd hi

It's a **tight squeeze in here**: Rydyn ni fel penwaig yn yr halen, Mae hi'n gyfyng arnon ni yma

till blood was/is spilt: (hyd) at waed *They usually fight until blood is spilt: Maen nhw'n arfer ymladd hyd at waed.*

till her dying breath: hyd ei hanadl olaf, hyd y diwedd un

till one is sick and tired of it: hyd at syrffed

till she is in her grave: hyd ei bedd

Till the next time!: Tan y tro nesaf!

time after time: byth a beunydd, beunydd a byth, drosodd a thro, o hyd ac o hyd, byth a hefyd, dro a thro, dro ar ôl tro, drachefn a thrachefn/thro

time and (time) again: as for time after time

Her **time has not yet come**: Ni ddaeth ei thro/chyfle eto

Time is getting on: Mae amser yn cerdded, Mae'n hwyrhau

Her **time is up**: Mae ei hamser ar ben

She has **time on her hands**: Mae ganddi amser ar ei dwylo, Mae ei dwylo'n segur

Time will tell/show: Amser a ddengys a **timely word of advice**: gair yn ei bryd

Three **times** four is twelve: Mae pedair gwaith tri yn ddeuddeg, Mae pedwar tri yn gwneud deuddeg

Times have changed: Mae'r oes wedi newid, Mae'r rhod wedi troi, Mae'r olwyn wedi troi/wedi rhoi tro, Daeth tro ar fyd

in the **times we live in**: yn yr oes/byd sydd ohoni

a **timid man**: gwlanen o ddyn/beth, cadach/clwtyn llestri o ddyn, hen linyr trons o ddyn (N), tipyn o Sami (S)

a **tiny amount**: llond llygad aderyn, llond gwniadur

a **tiny bit of ...**: ewin o ...

to **tip her the wink**: rhoi achlust iddi, dweud wrthi'n ddirgel, rhoi awgrym cil llygad iddi hi *Although the decision of the committee was supposed to be kept secret the chairman tipped the wink to his secretary: Er bod penderfyniad y pwyllgor i fod yn gyfrinachol, rhoes y cadeirydd awgrym cil llygad i'w ysgrifennydd.*

to **tip the scale**: troi'r fantol, troi'r glorian a **tirade of insults**: llif o enllibion

to **tire of ...**: blino ar ...

tired of it: wedi alaru/blino/syrffedu arno, wedi cael llond bol ohono/arno

tired out: wedi blino'n racs (S)/lân, wedi ymlâdd

Her explanation was a **tissue of lies** (see also **tell a tissue of lies**): Roedd ei heglurhad yn uwdd (N)/rhaff o gelwyddau

tissue paper: papur sidan

tit for tat: cast am gast, dant am ddant

to a **certain extent**: i ryw raddau

to a **great extent**: i raddau helaeth, i fesur helaeth

to come to a **head**: dod i'r pen *The disagreement came to a head when she*

threatened to resign: Daeth yr anghytundeb i'r pen pan fygythiodd hi ymddiswyddo.

to all appearances: yn ôl pob golwg, i bob golwg *She has no friends in the district to all appearances: Does ganddi hi ddim cyfeillion yn yr ardal yn ôl pob golwg.*

to all intents and purposes: i bob diben/pwrpas

to and fro: yn ôl ac ymlaen, ôl a gwrthol; (when very fast) fel gwennol (y) gwehydd

to be exact: a bod yn fanwl/gywir/fanwl gywir *There are seventy-one of us, to be exact: Mae saith deg un ohonon ni a bod yn fanwl.*

to go to bed: mynd i'r gwely, clwydo

to begin with: i ddechrau, yn y lle cyntaf *To begin with I can't cook, and what's more there's no food: I ddechrau dw i ddim yn gallu coginio, ac at hynny does dim bwyd.*

She is **to blame:** Arni hi mae'r bai, Hi sydd ar fai

Who is **to blame?:** Pwy sydd ar fai?

to borrow a phrase: a benthycu ymadrodd *She has lost her bottle, to borrow a phrase: Mae hi wedi colli ei photel, a benthycu ymadrodd.*

to go to chapel/church: mynd i'r capel/eglwys/llan

to her relief: er rhyddhad iddi hi *To her relief there was nothing to pay: Er rhyddhad iddi hi doedd dim byd i'w dalu.*

to her advantage: o fantais/fudd iddi hi, er mantais iddi *The wet weather was to her advantage: Roedd y tywydd gwlyb o fantais iddi hi.*

She discovered **to her cost** that ...:

Darganfu er gofid iddi hi fod/mai/taw ...

to her face (i.e. not behind her back): yn ei hwyneb, ar draws ei dannedd/thrwy *They were pleasant enough to her face: Roedd nhw'n ddigon clên yn ei hwyneb.*

to her great disappointment: er mawr siom iddi hi *She refused to go to college, to her*

mother's great disappointment: Gwrthododd hi fynd i'r coleg, er mawr siom i'w mam.

to her heart's content: wrth fodd ei chalon, faint fyd a fynnai *Every Friday evening she eats chocolate to her heart's content: Bob nos Wener bydd hi'n bwyta siocled wrth fodd ei chalon.*

to her liking/taste: at ei dant

nothing to her name: dim byd ar ei helw *After the fire she had nothing to her name: Ar ôl y tân doedd ganddi hi ddim byd ar ei helw.*

to her way of thinking: i'w thyb hi, yn ei barn hi

to judge by the way ...: a barnu/chasglu wrth y ffordd ... *To judge by the way the audience responded, she has a brilliant career ahead of her: A barnu wrth y ffordd a ymatebodd y gynulleidfa, mae dyfodol disglair o'i blaen hi.*

house **to let:** tŷ ar osod

to name but two: ac enwi dau'n unig

to one another: y naill wrth/at y llall *They were writing letters in Welsh to one another at that time: Buon nhw'n sgrifennu llythyrau yn Gymraeg y naill at y llall yr adeg honno.*

to perfection (i.e. just right): i'r dim *The dress suited her to perfection: Roedd y ffrog yn ei gweddu i'r dim.*

to put it bluntly: a dweud y gwir yn blaen, a siarad yn blwmp ac yn blaen *To put it bluntly, he's a liar: A dweud y gwir yn blaen, celwyddgi ydy e.*

to say the least: ar y lleiaf, a dweud y lleiaf *To say the least she is proud of her long blond hair: Ar y lleiaf mae hi'n falch o'i gwallt golau hir.*

to go to school: mynd i'r ysgol

to some extent: i raddau, rhyw gymaint, rhywfaint

no jewellery to speak of: dim gemau gwerth sôn amdany'n nhw, dim gemau o bwys

to sum up ...: ar/yn fyr ..., mewn gair ..., i grynhoi ..., un gair am gant ... *To sum up, we must spend less: Ar fyr, mae rhaid i ni wario llai.*

to the accompaniment of a harp: i gyfeiliant telyn

to compete to the best of her ability: cystadlu hyd eithaf ei gallu, cystadlu orau y gallai, cystadlu ei gorau glas

to the best of my memory: hyd y cofiaf, hyd y medraf gofio

to the common good: er lles pawb

to the contrary: i'r gwrthwyneb *I heard much to the contrary: Clywais i lawer i'r gwrthwyneb.*

corrupt to the core: llygredig hyd at fêr ei hesgyrn (*hi), llygredig i'r carn/gwraidd/craidd

She got to the core of the matter: Aeth hi at graidd/galon/wraidd y mater

to the effect that ...: i'r perwyl bod ...

The report was to the effect that she must work harder: Roedd yr adroddiad i'r perwyl bod rhaid iddi hi weithio'n galetach.

to the end (of one's life): hyd y diwedd, tra bu byw, hyd y bedd *He was a patriot to the end: Gwladgarwr oedd e hyd y diwedd.*

to the fore in the field of ...: yn y blaen/yn flaen llaw/ar flaen y gad mewn ... *She is to the fore in the field of archaeology: Mae hi yn y blaen mewn archaeoleg.*

to the glory of ...: er gogoniant i ...

to the hilt: i'r carn, at y carn(au), hyd (at) y carn, hyd adref *I promised to support her to the hilt: Addewais i ei chefnogi hi i'r carn*

to the point: i'r pwynt, perthnasol, i bwrpas *She always takes a long time to come to the point: Mae hi'n wastad yn cymryd amser hir i ddod i'r pwynt. Her remarks were very much to the point: Roedd ei sylwadau hi'n berthnasol iawn.*

to the quick: i'r byw, hyd y byw *She was hurt to the quick: Roedd hi wedi brifo i'r byw.*

to jump to the side: neidio i'r naill ochr, neidio yn wysg ei hochr (*hi)

to the sound of her father snoring: yn sŵn ei thad yn chwyrru *She was trying to do her homework to the sound of her father snoring: Roedd hi'n ceisio gwneud ei gwaith cartref yn sŵn ei thad yn chwyrru.*

to the unaided eye: â'r llygad noeth

to this day: hyd heddiw, hyd y dydd heddiw

to this effect: i'r perwyl hwn *I knew I had to please her. To this effect I bought her flowers every day: Roeddwn i'n gwybod bod rhaid i mi ei boddhau. I'r perwyl hwn prynais i fiodau iddi hi bob dydd.*

to top it all: ac i goroni'r cyfan, ac ar ben y cwbl, ar ben hyn oll, yn goron ar bopeth

to go to town: mynd i'r dref

To what extent ...?: I ba raddau ...? *To what extent will this affect her career?: I ba raddau fydd hyn yn effeithio ar ei gyrfa?*

a toast (to be drunk to): llwnc destun

together with ...: ynghyd â ... *I enclose an application form together with further details about the post: Amgaeaf ffurflen gais ynghyd â manylion pellach am y swydd.*

to be told by ...: cael gwybod gan ..., cael ei hysbysu gan ... (*ef/hi)

to be told off by her for ...: cael tafod/pryd o dafod ganddi am ... *I was told off by her for arriving late: Ces i dafod ganddi am gyrraedd yn hwyr.*

It has told on her: Mae wedi dweud/effeithio arni hi, Mae wedi gadael ei ôl arni *Her father's illness over such a long period has told on her: Mae salwch ei thad dros gyfnod mor hir wedi dweud arni hi.*

to tone in with ...: cyd-fynd/cydweddu/cytgordio â ..., ymdoddi i ...

to raise the tone of the conversation: codi lefel/safon y sgwrs

too expensive by far: rhy ddrud o lawer

too many irons in the fire: gormod o heyrn yn y tân

too much by far: gormod o bell ffordd

She knew **too much for her own good:**

Roedd hi'n gwybod gormod er ei lles

too much of anything: gormod o ddim, 'rhy' o unrhyw beth (S) *Say if you have too much of anything: Dywedwch os bydd gennych chi ormod o ddim. Too much of anything is bad for you: Mae 'rhy' o unrhyw beth yn ddrwg i chi.*

There's **too much on her plate:** Mae gormod ar ei thrensiwr/phlât, Mae ei llygaid yn fwy na'i bala

tools with a sharp edge: celfi/offer miniog

to top and tail gooseberries: plicio eirin Mair, torri coesau a blaenau/pennau a chwtau eirin Mair

top brass: pobl fawr, gwŷr mawr, mawrion, byddigions, crachach

the **top dog:** gwŷr pen y domen

to be **top dog:** bod yn drech, bod yn feistr corn

the **top floor:** y llawr uchaf

to sing a **top note:** canu nodyn uchel

top people: as for **top brass**

top quality material: defnydd o'r gorau

the **top step/stair:** y gris uchaf

to **top up her glass:** ail-lenwi ei gwydryn

to **topple down/over:** troi drosodd, dymchwel, syrthio, ymhoelyd

to **toss a coin:** taflu ceiniog

to **toss and turn:** troi a throsi

totally infatuated with ...: wedi gwirioni/mopio/ffoli/dwli (ei phen) gyda/efo ... (*hi)

to **touch ...:** cyffwrdd â ...

touch and go: cael a chael *She was rescued but it was touch and go: Cafodd hi ei hachub ond cael a chael oedd hi.*

to touch his heart: mynd dan ei wasgod, cyffwrdd â'i galon *The old woman's sobbing touched his heart: Aeth igian yr hen wraig dan ei wasgod.*

She wouldn't **touch it with a bargepole:**

Fasai hi ddim yn ei chyffwrdd â phicwarch (*hi), Âi hi ddim ar ei chyfyl/yn agos ati (*hi)

a **touch-line** (in rugby): llinell ystlys

to touch on a sore point: rhoi bys ar gig noeth/friw coch, sôn am destun gofid iddi (*hi) *She touched on a sore point when she mentioned the money she got from Huw: Rhoddodd hi fys ar gig noeth pan soniodd am yr arian a gafodd hi oddi wrth Huw.*

Tough luck! Hen dro!, Gresyn!, Bechod! (N), Trueni! (S)

She is a **tower of strength to me:** Mae hi fel tŵr cadarn i mi, Mae hi'n dŵr cadarn i mi, Mae hi'n gefn mawr i mi

to be in a **towering rage:** bod yn wyllt gynddeiriog/gacwn, bod yn wallgo(f)

a **toy dog:** ci arffed, ci còl (S)

to **toy with the idea of ...:** chwarae â'r/gyda'r/efo'r syniad o ...

to **track her down:** ei dilyn i'w gwâl, dod o hyd iddi

to **trade with ...:** masnachu â ...

to **travel at a thousand miles an hour:** mynd fil milltir yr awr

to **tread in her footsteps:** dilyn ei chamre/llywbr hi, dilyn ôl ei thraed

to **tread on her corns:** sathru/damsang(u) (S) ar ei chyrn/chorn

to **tread the boards:** troedio'r llwyfan

to **treat her like a doormat:** ei sathru hi dan draed, ei thrin fel clwtyn llestri (S)

to **treat her to a box of chocolates:** prynu blwch o siocledi iddi

There is a **treat in store for her:** Mae plaser yn ei haros hi

trees in leaf: coed yn eu dail

to **tremble with fear**: crynu fel cyw mewn dwrn

to **tremble with rage**: crynu gan ddieter

tremendously important: andros o bwysig (N), hynod/ofnadwy o bwysig

(a) **tremendously noisy (one)**: andros o un swnllyd (N), un swnllyd ofnadwy

That machine is tremendously noisy: Mae'r peiriant 'na'n andros o un swnllyd.

to **trip her up**: ei baglu hi

to **trip over sth**: baglu dros rth

to **trouble her**: tarfu arni hi, ei phoeni hi
I'm sorry to trouble you: Mae'n ddrwg gen i am darfu arnoch chi.

the **trouble is ...**: y drwg ydy ..., drwg y mater ydy ... *The trouble is I haven't any money: Y drwg ydy nad oes gen i bres.*

a **trumped-up charge**: cyhuddiad ffug/celwyddog/gwneud

to **trust her (to do sth)**: ymddiried ynddi hi (i wneud rth)

to **trust her with the deeds**: ymddiried y gweithredoedd iddi hi

to **trust in her**: ymddiried ynddi hi

to **trust the arrangements to her**: ymddiried y trefniadau iddi hi

the **truth about it**: y gwir amdani *The truth about it is that the room is not yet ready: Y gwir amdani ydy nad ydy'r ystafell ddim yn barod eto.*

to **try her patience**: trethu ei hamynedd

to **try her strength against her teacher**: mesur ei nerth yn erbyn ei hathro

to **try one's hand at ...**: rhoi cynnig ar ...

to **try to dance**: ceisio/trio dawnsio

to **try to do the impossible**: taflu pluen yn erbyn y gwynt, poeri/piso i'r gwynt

to **tuck into her food**: claddu ei bwyd

Eventually we **tumbled to it**: O'r diwedd fe'i gwel(s)on ni hi, O'r diwedd mi wawriodd arnon ni

to **turn a deaf ear to her**: gwasgu clust iddi hi, troi clust fyddar iddi hi

to **turn a garment inside out**: troi dilledyn y tu chwith(ig) allan, troi gwisg o chwith

to **turn anything to her own advantage**: troi'r dŵr i'w/at ei melin ei hun

By tomorrow it will **turn cold**: Erbyn yfory bydd hi'n (dechrau) oeri

to **turn her against us**: ei thynnu hi yn ein pennau, ei throi hi yn ein herbyn *It was our refusal to look after her pigs that turned her against us: Y ffaith i ni wrthod gwarchod ei moch a'i tynnodd hi yn ein pennau.*

to **turn her back on him**: troi ei chefn arno, cefnu arno

to **turn her down flat**: ei gwrthod hi'n bendant/llwyr

She can **turn her hand to anything**: Mae hi'n medru troi ei llaw at unrhyw beth

to **turn her nose up at ...**: troi ei thrwyn ar ..., ymwrthod â ... *She turned her nose up at every offer: Trodd hi ei thrwyn ar bob cynnig.*

to **turn her off**: codi pwys/cyfog arni hi, troi arni hi; lladd ei diddordeb, ei diflasu hi

to **turn her on**: ei thanio hi, ei chyffroi/chynhyrfu hi, codi blys arni

to **turn her out of the house**: ei gyrru hi allan o'r tŷ, cael gwared arni o'r tŷ

to **turn her over to the police**: ei rhoi hi yn nwylo'r heddlu

to **turn yourself in to the police**: eich ildio/gildio eich hun(an) i'r heddlu

to **turn in her grave**: troi yn ei bedd

to **turn inside out**: troi y tu chwith(ig) allan

to **turn into a swan**: troi yn alarch

to **turn off a lamp/radio/heater**: diffodd lamp/radio/twymydd

to **turn off a tap**: cau tap

- to **turn off the gas**: diffodd y nwy
- to **turn on a heater**: cynnau/tanio twymydd, troi twymydd ymlaen
- to **turn on a lamp**: rhoi/dodi (S) lamp (ymlaen), cynnau lamp
- to **turn on a tap**: agor tap
- to **turn on her**: troi arni hi, troi yn ei herbyn *When she said she had visited her mother her father turned on her*: Pan ddywedodd ei bod hi wedi ymweld â'i mam trodd ei thad arni.
- to **turn on her heel**: troi ar ei sawdl, rhoi tro ar ei sawdl *She turned on her heel and strode out*: Trodd ar ei sawdl a brasgamu allan.
- to **turn on the radio**: troi'r radio ymlaen
- to **turn on the gas**: rhoi'r nwy (arno)
- to **turn one's back on ...**: cefnu ar ..., troi cefn ar ..., diarddel ... *After his bigamous marriage his brother turned his back on him*: Ar ôl ei briodas ddwywreigiol cefnodd ei frawd arno.
- to **turn over a new leaf**: troi dalen newydd, diwygio
- to **turn pale**: gwelwi, llwydo
- to **turn s.o. away**: gwrthod mynediad i rn *Because he was not wearing a tie he was turned away*: Oherwydd nad oedd e'n gwisgo tei gwrthodwyd mynediad iddo.
- to **turn s.o. round her little finger**: troi rhn o gwmpas ei bys bach
- to **turn sth into ...**: troi/newid rhth yn ... *She wanted to turn the house into a shop*: Roedd hi am droi'r tŷ yn siop.
- to **turn sour**: suro, troi, troi'n sur
- to **turn tail**: ei heglu hi (N), ei gwadnu/baglu hi, cymryd y goes, rhoi'r goes iddi *When the boys saw the policeman approaching they turned tail*: Pan welodd y hogiau'r plismon yn nesáu gwnaethon nhw ei gwadnu hi.
- to **turn the clock back**: troi'r cloc yn ôl
- to **turn the room upside down**: troi'r stafell â'i phen uchaf yn isaf, troi'r stafell â'i wyneb i waered
- to **turn the tables on her**: troi'r fantol yn ei herbyn, troi'r byrddau arni
- to **turn to her**: troi ati hi *I wouldn't turn to her for advice*: Faw'n i ddim yn troi ati hi am gyngor.
- to **turn up**: cyrraedd, ymddangos *She turned up in a Jaguar*: Cyrhaeddodd hi mewn Jaguar.
- It will **turn up** sometime: Daw e/hi i'r golwg/fei rywbrwyd
- to **turn up at their house**: dangos ei hwyneb yn eu tŷ (*hi), cyrraedd eu tŷ yn sydyn/annisgwyl
- Things have **turned out** well: Mae pethau wedi diweddu'n dda
- It **turned out that ...**: daeth yn wybyddus bod/mai/taw ... *It turned out that they were all very valuable*: Daeth yn wybyddus eu bod nhw i gyd yn werthfawr iawn.
- The ring **turned out to be** worthless: Darganfuon/Cawson nhw fod y fodrwy'n ddi-werth
- twice as much**: dwywaith cymaint, cymaint arall, cymaint ddwywaith
- to **tiddle her thumbs** (i.e. be idle): dal ei dwylo, plethu (ei) dwylo, troi ei bodiau
- to **twist s.o. round her little finger**: as for **turn s.o. round her little finger**
- two at a time**: fesul dau (a dau)
- two by two**: bob yn ddau
- two each**: dau yr un
- to have **two helpings**: cael dau blatiaid
- the **two of them**: hwy ill dau, y ddau ohonyn nhw
- to be **two-faced**: chwarae'r ffon ddwybig, bod yn ddau wynebog *Don't trust her – she is two-faced with everyone*: Paid ag ymddiried ynddi hi – mae hi'n chwarae'r ffon ddwybig gyda phawb.

twopenny-halfpenny things: taclau
ceiniog-a-dimai



to be **unable to ...:** methu (â) ..., bod yn
analluog i ...

to be **unable to bear the tension/
excitement:** methu (â) byw yn ei chroen
(*hi) *She was unable to bear the tension
waiting for the final whistle: Roedd hi'n methu
byw yn ei chroen wrth aros am y chwiban olaf.*

to be **unable to contain/stop oneself:**
methu (â) dal *She was so angry she was
unable to contain herself: Roedd hi mor ddig
fel roedd hi'n methu â dal.*

to be **unable to cope with ...:** colli ar ...,
methu (ag) ymdopi/ymdaro â ... *By then
she will be unable to cope with things: Erbyn
hynny bydd hi'n colli ar bethau.*

to be **unable to get a word in edgeways:**

methu â chael/methu cael pig i mewn

unable to keep a secret: llac ei thafod
(*hi), tafotrydd

to be **unable to make head or tail of it:**
methu (â) gwneud na rych na chefn/
rhawn na bwgan/phen na chwt (S)/phen
na chynffon ohono

to be **unable to restrain oneself:** as for
unable to contain oneself

to be **unable to see the wood for the
trees:** methu (â) gweld y coed gan
brennau

to be **unable to stand the pressure:**
methu (â) dal y pwysau *She was unable
to stand the pressure of her new post: Roedd
hi'n methu dal y pwysau yn ei swydd newydd.*

uncalled for: di-alw-amdano

under a cloud: dan gwmwl *Since his wife
died he has been under a cloud: Er pan fu farw
ei wraig mae e wedi bod dan gwmwl.*

under a spell: dan gyfaredd

under an assumed name: dan ffugenw/
enw ffug

to be **under an obligation to her:** bod
dan rywmau/rwymedigaeth iddi hi, bod
yn ei dyled

to be **under an obligation to meet her:**
gorfod cyfarfod â hi, bod dan orfodaeth i
gwrdd â hi

under arrest: wedi cael ei restio (*ef/hi),
yn y ddalfa

under consideration: mewn golwg, dan
ystyriaeth

to be **under cover:** bod ynghudd

under duress: dan orfod(aeth), o'i
hanfodd (*hi)

under her arm: dan ei chesail

under her breath: dan ei gwynt/dannedd/
llais

under her own steam: ar ei liwt ei hun,
heb gymorth neb arall

under her roof: dan ei chronglwyd/
nenbren

under her supervision/sway: o dan ei
chyfarwyddyd/rheolaeth

under her thumb: o dan ei hewin/hiau/
bawd

under her tutelage: wrth ei thraed

under her very nose: dan ei thrwyn

under her wing: dan ei haden

under lock and key: dan glo

She is under no illusions about them:
Dydynd nhw'n twyllo dim arni hi, Dydynd
nhw ddim yn ei thywylllo hi

under one's feet: dan draed *Whenever the
cat is awake she is under one's feet: Pa bryd
bynnag mae'r gath yn effro mae hi dan draed.*

under pressure: dan bwysau

under pressure of work: dan bwysau
gwaith

under siege: dan warchae

under suspicion: dan ddrwgdybiaeth/
amheuaeth/gwmwl

under the cover of darkness: dan lenni'r
nos

under the guise of friendship: dan gochl/
rith cyfeillgarwch

under the hammer: dan yr ordd

under the influence of ...: dan
ddylanwad ... *It is obvious that she is
under the influence of her brother: Mae'n
amlwg ei bod dan ddylanwad ei brawd.*

under the influence of alcohol: yn ei
diod (*hi), dan ddylanwad diod

under the pretext (of) ...: dan (yr)
esgus ..., o esgus ..., gan wneud
esgus ..., dan gochl ... *She refused under
the pretext of having to visit her mother:
Gwrthododd hi dan yr esgus bod rhaid iddi
ymweld â'i mam.*

She is under the weather: Mae hi'n
teimlo'n gwla/giami, Mae hi'n ddi-hwyl,
Mae hi dan y don

under their patronage/sponsorship: dan
eu nawdd *The concert was given under the
sponsorship of local industries: Rhoddwyd y
cyngerdd dan nawdd diwydiannau lleol.*

under threat of ...: dan boen ... *She had
to pay back the money under threat of
expulsion: Roedd rhaid iddi dalu'r pres yn ôl
dan boen cael ei diarddel.*

under way: ar waith, wedi dechrau
*Building the extension is under way at last:
O'r diwedd mae codi'r estyniad wedi'i
ddechrau.*

to undergo interrogation: cael ei holi
(*ef/hi), mynd dan holiadau

to undergo treatment: cael/derbyn
triniaeth

It was understood that she would ...:
Cafwyd ar ddeall y byddai hi ...

She understood that there was ...:
Cafodd hi ar ddeall fod ...

to undertake the work: ymgymryd â'r
gwaith

undue haste: brys heb angen, brys
gormodol

**She is unhappy about leaving the children
on their own:** Mae'n chwith ganddi adael
y plant ar eu pennau eu hunain, Mae hi'n
anfodlon gadael y plant ar eu pennau eu
hunain

unheard of: di-sôn-amdani, di-sôn am ei
phen (*hi), anadnabyddus *The songs
were sung by some unheard-of soprano:
Cafodd y caneuon eu canu gan ryw soprano
di-sôn-amdani.*

unkind to ...: angharedig wrth ...

unknown to me: heb yn wybod i mi, yn
ddiarwybod i mi, heb i mi wybod
*Unknown to me she wrote a letter to my
father: Sgrifennodd hi lythyr at fy nhad heb yn
wybod i mi.*

unless there is some other business: oni
bai bod rhyw fusnes arall

unless you promise: heb i chi addo, oni bai
i chi addo, oni bai eich bod chi'n addo
*Unless you promise to be there on time she
won't come: Heb i chi addo bod yno'n brydlon
ddaw hi ddim.*

**to unload her innermost thoughts/
feelings:** bwrw ei pherfedd/bol, arllwys ei
chwd *She spoke to me for hours, unloading
her innermost thoughts: Roedd hi'n siarad â fi
am oriau gan fwrw ei pherfedd.*

unsettled weather: tywydd anwadal,
tywydd cyfatal (S)

She is untidily dressed: Mae hi'n ddrwg ei
thrwsiad, Mae golwg anniben arni

until death: hyd angau, hyd y bedd

until next time: tan y tro nesaf

She is unwilling to go: Mae hi'n anfodlon
mynd

She is up against a very cunning opponent:
Mae ganddi hi wrthwynebydd cyfrwys
iawn yn ei herbyn

They are **up against it**: Mae hi'n galed/
fain/gyfyng arnyn nhw, Maen nhw (lan)
yn erbyn y wal (S)

She is **up against many difficult problems**: Mae hi'n wynebu llawer o
drafferthion

She is **up and about again**: Mae hi ar ei
thraed bellach

up for auction: dan yr ordd

up hill and down dale: dros fro a bryn
(N), dros bant a bryn (S)

to be **up in arms about ...**: bod yn ddig/
gynddeiriog/wyllt ynghylch ...

up to ten: hyd at ddeg *She counted up to
ten: Rhifodd hi hyd at ddeg. There is room
for up to ten: Mae lle i hyd at ddeg.*

Is it **up to date?**: Ydy'r peth yn
gyfamserol/ddiweddar?

It is **up to her**: Rhyngddi hi a'i phethau
(y mae), Mae e/o/hi i fyny/lan iddi hi

to be **up to her eyes with work**: bod ym
mhen ei helynt efo gwaith/yn gweithio
(N), bod hyd at ei chlustiau mewn gwaith

up to her neck: at ei gwddf/gwddw *The
water was up to her neck: Roedd y dŵr at ei
gwddw.*

She is **up to her old tricks again**: Mae
hi'n mynd drwy ei champau eto, Mae
hi'n gwneud ei hen giamocs/gastiau
arferol

It is **up to her to offer**: Ei lle hi yw cynnig,
Hi a ddylai gynnig

to be **up to no good**: gwneud rhyw
ddrygioni/ddrygau, bod ar ryw berwyl
drwg

up to now: hyd yma, hyd (yn) hyn

She is **up to sth**: Mae ganddi ryw
ddrygioni mewn golwg

up to that time/then: tan/hyd (at) hynny
*Up to then she had coped well: Hyd hynny
roedd hi wedi ymdopi'n dda.*

She is **not up yet**: Dydy hi ddim wedi codi
eto

Upon my soul!: Ar f'enaid!, 'Dawn i byth
o'r fan!

Upon my word!: Ar fy llw!, Ar fy ngair/
ngwir!

the **ups and downs of life**: troeon bywyd/
yr yrfa

to be **upset the applegart**: troi'r drol (N),
diwel y cart (S), moelyd y cwch

upside down: wyneb i waered

to **urge her on**: ei hannog/chymell/hysio
hi, rhoi anogaeth iddi hi

to **urge her to paint**: ei hannog/chymell hi
i beintio

to **urge restraint on her**: cymell iddi ei
hatal/ffrwyno ei hun(an)

to **urge that she should start to work**:
mynnu y dylai hi ddechrau gweithio

to **use a sledgehammer to crack a nut**:
cymryd gordd i dorri cneuen, llosgi'r
gwely i ladd chwannen

to find a **use for ...**: cael defnydd ar gyfer/
i ...

the **use of gold**: y defnydd o aur

to **use up what's left over**: defnyddio'r
gweddill/gweddillion/rhelyw, defnyddio'r
hyn sydd ar ôl

She **used not to smoke**: Doedd hi ddim
yn arfer ysmegu

She **used to go**: Roedd hi'n arfer mynd,
Roedd hi'n mynd

She **used to have a cat**: Roedd ganddi hi
gath, Roedd cath yn arfer bod ganddi/
gyda hi, Roedd yn arfer bod cath ganddi/
gyda hi

She is **used to it**: Mae hi'n gyfarwydd/
gynefin ag e/o/hi

She is well **used to things (by) now**: Mae
hi wedi hen gynefino erbyn hyn

She is **used to using** a chainsaw: Mae hi'n
arfer defnyddio llif gadwyn, Mae hi'n
gyfarwydd/gynefin â defnyddio llif
gadwyn

It is all **used up**: Does dim ar ôl, Does dim yn weddill

It was her **usual practice to ...**: Roedd yn arfer ganddi ... *It was her usual practice to go to town once a week: Roedd yn arfer ganddi fynd i'r dref unwaith yr wythnos.*

She did not **utter a word**: Wnaeth hi ddim torri/yn gan gair, Ddywedodd hi ddim gair o'i phen, Ynganodd hi'r un gair

utterly destitute: heb gragen i ymgrafu, heb ddimai goch/geiniog i'w henw (*hi)



a **vague idea**: rhyw fras amcan, syniad bras, rhyw syniad, synnwyr bawd

She had not the **vaguest idea**: Doedd ganddi hi mo'r syniad lleiaf

She made a **vain attempt to ...**: Gwnaeth hi ymdrech/ymgais wag/ofer/seithug i ...

if you **value your life**: os oes gennyh chi feddwl o'ch bywyd, os oes gennyh barch at eich bywyd

to **vanish into thin air**: diflannu oddi ar wyneb y ddaear, mynd i ganlyn y gwynt

to **vary in value**: amrywio o ran gwerth

to **venture upon ...**: mentro ar ...

He **verbally abuses her**: Mae e'n ei galw hi'n bob enw, Mae e'n ei difenwi hi

from the **very beginning**: o'r dechrau/ cychwyn cyntaf, o'r dechrau un

very close to ...: yn dynn at ..., yn agos at ..., bron at ... *I gave very close to a hundred pounds for the cause: Rhoddais yn dynn at gan punt at yr achos.*

this **very day**: y dydd heddiw, heddiw'n deg, y dydd hwn, heddiw ddiwethaf

very much to the point: perthnasol iawn

the **very old**: pobl oedranus/mewn gwth o oedran

to be **very shocked**: dychrynu'n lân, bod wedi dychryn yn arw (N), cael sioc ei

bywyd (*hi) *She was very shocked after seeing the accident: Roedd hi'n dychrynu'n lân ar ôl gweld y ddamwain.*

to be **very sleepy**: cysgu ar ei thrwyn (*hi) *After working till after midnight he was very sleepy during the examination: Ar ôl gweithio tan gefn nos roedd e'n cysgu ar ei drwyn yn ystod yr arholiad.*

to be **very surprised**: cael ei synnu'n fawr (*ef/hi)

the **very thing**: yr union beth, y peth i'r dim

The **very thought of it makes her tremble**: Dim ond meddwl am y peth ac mae hi'n crynu

very well: o'r gorau *Very well, let's go: O'r gorau, fe awn ni.*

Those were Huw's **very words**: Dyna union eiriau Huw

to **vest her with authority**: rhoi iddi'r awdurdod/hawl, ei harwisgo/breinio/breintio ag awdurdod

to **vest property in her**: rhoi meddiant eiddo iddi

the powers **vested in her**: yr hawliau a roddwyd iddi, yr hawliau a ymddiriedwyd ynddi

a **vested interest in ...**: buddiant breintiedig yn/mewn ...

to be **vexed at sth**: bod yn ffyrnig/grac o achos rthh

a **vexed question**: pwnc dadleuol/llog

to be **vexed with her**: digio wrthi

a **vicious circle**: cylch cythreulig/anfad/dieflig

to be a **victim of/to her charm**: ildio i'w swyn hi

to **view sth in a bad light**: gweld rthh mewn golau anffafriol

to **violate her**: ei threisio hi

to **violate her privacy**: tarfu ar ei phreifatrwydd, ymyrryd â'i phreifatrwydd
 to **violate her rights**: treisio'i hawliau hi
 to **visit ...**: ymwel(e)d â ...
 a **visiting lecturer**: darlithydd gwadd
 her **vital statistics**: ei mesuriadau hollbwysig
 to **vote for ...**: pleidleisio dros ...
 a **vote of censure**: pleidlais o gerydd
 a **vote of no confidence in her**: pleidlais o ddiffyg ffydd/hyder ynddi

~

to **wag one's finger** (in rebuke) **at ...**: codi bys at ...
 to **wage war against/on ...**: rhyfela/cynnal rhyfel yn erbyn/ar ...
 to **wait for a dead man's shoes**: disgwyl i rn farw
 to **wait for her**: disgwyl amdani/wrthi hi, aros amdani hi, disgwyl arni hi (S)
 to **wait for her to go**: aros iddi hi fynd
 to **wait on her guests**: gweini i'w/ar ei gwesteion; dawnsio tendans ar ei gwesteion
 to **wait to ...**: aros i ... *She waited to see the fireworks*: Arhosodd hi i weld y tân gwyllt.
 to **wake with a start**: deffro'n ddisymwth/sydyn
 to **walk arm-in-arm**: cerdded ym mreichiau ei gilydd, cerdded fraich ym mraich
 to **walk at her own pace**: cerdded wrth ei phwysau
 to **walk away from her**: cerdded oddi wrthi hi
 to **walk backwards**: cerdded tuag yn ôl/yn wysg/llwrw ei chefn (*hi)
 to **walk out on her**: ei gadael hi

to **walk the boards** (i.e. act on stage): troedio'r llwyfan
 to **walk the dog**: mynd â'r ci am dro
 to **walk the wards**: gweithio ar y wardiau
 to **walk up to her**: mynd ati hi
 to **walk with a limp**: hercian cerdded, cerdded yn gloff/hercio
 to **walk with a stick**: cerdded ar bwys ffon, cerdded â/efo ffon
 to **walk with an ambling gait**: cerdded ling-di-long
 to **be walking on air**: bod uwchben ei digon (*hi), bod yn y seithfed nef
 to **be walking out with her**: ei chanlyn hi
 to **wander about the country**: crwydro'r wlad, crwydro o amgylch y wlad
 to **wander around**: troi ei thraed (*hi), crwydro'n wysg ei thrwyn (*hi)
 the **waning moon**: y lleuad ar gil/ar ei gwendid
 She **is wanted by the police**: Mae'r heddlu'n chwilio amdani/ei herlid, Mae'r heddlu ar ei hôl/thrywydd
 She **wants the best of both worlds**: Mae hi am gael y gorau o'r ddau fyd, Mae hi am fwyta'r dorth a'i chadw
 a **war of attrition**: rhyfel athreuliol
 a **war of words**: ymryson geiriol
 to **ward off an illness**: cadw salwch draw, cadw rhag salwch, osgoi salwch
 to **warm the cockles of the heart**: rhoi hwb i'r galon, cynhesu'r galon
 to **warm to her**: cynhesu wrthi/ati hi *She warmed to the lecturer during the discussion*: Roedd hi'n cynhesu wrth y darlithydd yn ystod y drafodaeth.
 to **warm to her subject**: cael hwyl ar ei phwnc, cael gwynt dan adain gyda'i phwnc
 to **warm up**: cynhesu, twymo

to **warn her of** a danger: ei rhybuddio o berygl, ei rhybuddio rhag perygl

to **warn her to** ...: ei rhybuddio hi i ...

a **warning of** ...: rhybudd o ...

to **wash her hands of** ...: golchi ei dwylo â ... *He declared that he would wash his hands of the whole conspiracy: Datganodd y basai'n golchi ei ddwylo â'r cynllwyn cyfan.*

The stain will **wash out**: Daw'r staen allan o'i olchi/wrth ei olchi, Bydd golchi'n codi'r staen

to **wash up (the dishes)**: golchi'r llestri

She is **washed out**: Mae hi wedi ymlâdd, Mae hi wedi blino'n lân, Mae hi ar lawr (S)

The match was **washed out**: Rhoes/Rhoddodd glaw derfyn ar y gêm

a **waste of time**: gwastraff (ar) amser

to **waste one's breath**: siarad yn ofer

to **waste time**: gwastraffu/colli amser

s.o. **wasted by disease**: rhn curiedig/nychlyd, rhn wedi'i gurio gan glefyd

She had to **watch every penny**: Bu'n rhaid iddi edrych yn llygad pob ceiniog

to **watch out for her**: cadw llygad allan amdani hi

Watch out in case she slips!: Gwylia/Gofala (S) rhag (ofn) iddi hi lithro!

to **watch over** ...: gwylio dros ...

like **water off a duck's back**: fel dŵr oddi ar gefn hwyaden

to **water sth down**: gwanhau/teneuo/cymedroli/glastwreiddio rhth

wattle and daub: bangorwaith a dwb

to **wave down a car**: codi llaw i stopio car

to **wave goodbye to them**: codi'i llaw arnyh nhw mewn ffarwel (*hi), ffarwelio â nhw

to **wave them goodbye**: as for **wave goodbye to them**

to **wave to her**: chwifio arni hi, codi llaw arni hi, ei chyfarch *She waved to me: Cododd ei llaw arnaf i.*

to **waver between two options**: cloffi rhwng dau feddwl

to **wax and wane**: mynd ar gynydd ac ar gil

to **wax lyrical about** ...: parablu yn huawdl am ...

a **way of life**: dull o fyw

It is the **way of the world**: Dyna ffordd pethau, Dyna fel (y) mae hi, Dyna'r drefn

a **way out of a difficulty**: dihangfa rhag anhawster

the **way things are going**: fel mae pethau'n mynd *We will be penniless the way things are going: Byddwn ni heb yr un geiniog fel mae pethau'n mynd.*

the **way things are in the world**: (fel mae pethau'n mynd) yn y byd sydd ohoni *You can't be sure you'll still be working next month the way things are in the world: Allwch chi ddim bod yn sicr y byddwch chi'n dal i weithio'r mis nesaf yn y byd sydd ohoni.*

There is a **way to** ...: Mae ffordd/modd i ..., Mae dull o ... *There is a way to build a wall without using cement: Mae ffordd i godi wal heb ddefnyddio sment.*

She has a **way with dogs**: Mae hi'n un dda gyda chŵn/efo cŵn

we three (i.e. the three of us): ni'n tri/tair, (ni) ill tri/tair *We two went: Aethon ni'n dau. Aethon ni ill dau.*

we Welsh: ni'r/ninnau'r Cymry

to feel **weak at the knees**: teimlo'n sigledig braidd, teimlo'n simsan

a **weak point/spot**: man gwan *Chocolate is her weak point: Siocled yw ei man gwan.*

to **wear a carpet threadbare**: treulio carped hyd at yr edau/ly cotwm

to **wear a hole in her stocking**: treulio ei hosan yn dwll

to **wear her heart on her sleeve**: dangos ei theimladau

to **wear herself out** digging potatoes: ymlâdd yn codi/tynnu tatws, ei lladd ei hun yn codi/tynnu tatws

to **wear out** (clothes etc.): treulio

to **wear the trousers**: gwisgo'r clos (N), gwisgo'r bais a'r clos (N), gwisgo'r trywsus/britshys (S), gwisgo'r llodrau *It is plain to see that Elin wears the trousers in that family: Mae'n ddigon hawdd gweld mai Elin sy'n gwisgo'r clos yn y teulu hwnnw.*

Her patience is **wearing thin**: Mae ei hamynedd hi bron ar ben, Mae ei hamynedd hi'n cyrraedd pen ei dennyn

to **weave a spell**: bwrw hud

a **web of lies**: rhaff o gelwyddau, uwd o gelwyddau (N)

a **week on/next Wednesday**: wythnos i ddydd Mercher (nesaf)

a **week tomorrow**: wythnos i yfory

a **week's work/journey**: gwaith wythnos

to **weep for her (after her death)**: wylo/llafain (S) ar ei hôl

to **weep for/with joy**: wylo o/gan lawenydd

to **weep her heart out**: wylo'i chalon/henaid

to **weep over** a misfortune: wylo dros anffawd

to **weep profusely**: wylo'n hidl, llafain y glaw (S)

to **weigh (heavily) on her mind**: pwyso ar ei meddwl

to **weigh her words**: pwyso/mesur/pwyso a mesur ei geiriau

to **weigh out some corn**: pwyso mesur o ŷd

to **weigh up**: pwyso a mesur *She sat down to drink her beer and weigh up the situation: Eisteddodd hi i yfed ei chwrw a pwyso a mesur y sefyllfa.*

weighed down with books: dan ei baich/phwn/llwyth o lyfrau (*hi)

to be **weighed down with misfortunes**: bod dan faich o anffodion, cael ei llethu gan anffodion (*hi)

a **weight off one's mind**: rhyddhad

She would be **well advised** to leave early:

Byddai'n ddoeth iddi ymadael yn gynnar

She was **well and truly beaten**: Cafodd ei churo'n llwyr/maeddu'n lân, Cafodd hi gweir (N)/goten (S) go iawn

She is **well aware** of her weaknesses: Mae hi'n dra ymwybodol o'i gwendidau, Mae hi'n gwybod ei gwendidau o'r gorau, Mae ei gwendidau'n amlwg/hysbys iddi

well covered (i.e. plump): llond ei chroen (*hi), mewn cas cadw da

Well done!: Go dda! (N), Da iawn, ti/chi!

well informed about local gossip: â chlust at y ddaear *She knew that her sister was always well informed about local gossip: Roedd hi'n gwybod bod ei chwaer yn wastad â chlust at y ddaear.*

They are **well off** (i.e. well-to-do): Maen nhw ar/wrth ben eu digon, Maen nhw uwchben eu digon, Mae hi'n dda/fyd da arnyn nhw, Dydyn nhw ddim yn gwybod eu geni

She is **well over** sixty: Mae hi'n bell dros ei thrigain

She is **well provided for**: Mae ganddi hi ddigon wrth gefn

She was **well turned out**: Roedd hi'n dwt/daclus/ddestlus/drwsiadus

She is **well up in her field/subject**: Mae hi'n hyddysg yn ei phwnc/maes, Mae hi'n adnabod ei phwnc yn drwyadl, Mae hi'n arbenigwraig/giamster yn ei phwnc/maes

well used to ...: wedi hen arfer ... *She was well used to working till midnight: Roedd hi wedi hen arfer gweithio tan hanner nos.*

She is still wet behind the ears: Mae hi'n ddbrofiad/anaeddfed o hyd, Mae hi fel llo gwlyb

She is a wet blanket: Mae hi'n wyneb ffidil, Mae hi'n gadach gwlyb

to wet her whistle: gwlychu corn ei gwddf/gwddw, cael diferyn/dropyn, gwlychu ei llwnc

What a feast! Am wledd!, A sôn am wledd!

What a fine day it is! Am braf!

What a mess! Am olwg!, Am lanast(r)! (N), Am annibendod! (S)

What a scoundrell! Am ddihiryn!, A sôn am ddihiryn!

What a shame! (Dyna/Am) drueni/bechod/resyn!

What about ...?: Beth am ...?

What business has she to interfere?: Pa hawl sydd ganddi hi i ymyrryd?

What does she mean by that?: Beth mae hi'n (ei) feddwl/olygu wrth hynny?

What good is she if she can't ...?: I beth mae hi'n dda os na fedr/all hi ...?

What good is this?: I beth mae hwn yn dda?, Pa ddefnydd sydd i hwn?

What has that got to do with ...?: Beth sydd a wnelo hynny â ...?

What is done is done: A wnaed a wnaed, Paid (â) disgwyl eira'r llynedd nôl

What is it like being an MP?: Sut beth ydy bod yn AS?

What is more ...: Ar ben hynny ..., Yn ogystal *What is more we have run out of tea: Ar ben hynny does gennyn ni ddim te.*

What is she driving at?: Beth sydd ganddi hi mewn golwg/dan sylw?, Beth mae hi'n (ei) olygu?

What is that for?: I beth mae hwnna'n dda?

What is the good of this?: as for **What good is this?**

What is the matter?: Beth sy'n bod? Beth sydd o'i le?

What is the matter with ...?: Beth sy'n bod ar ...?, Beth sydd ar ...?, Beth sydd o'i le ar ...?

What is the matter with the girl?: Be' haru hi? (N), Beth sydd arni hi?

What is the point of your being here?: I beth ydych chi'n dda yma?

What is the use of anyone trying?: Pa haws ydy neb o geisio? (N), Beth ydy neb haws o geisio? (N), Pa ddiben ceisio/trio?

What is this all about?: Beth yw ystyr peth fel hyn?, Beth sy'n digwydd?

That's what it is all about: Dyna hanfod y peth

What kind of ...?: Sut ...?, Pa fath o ...?
What kind of garden is it?: Sut ardd ydy hi?

What on earth ...?: Beth ar y ddaear ...?, Beth gynllwyn/gebyst (N)/ddiawl ...?, Beth yn y byd ...? *What on earth are you doing?: Be' gynllwyn rwy'ti'n (ei) wneud?*

what she heard: yr hyn (a) glywodd hi
What she heard today is a disgraceful slander: Mae'r hyn glywodd hi heddiw yn enllib gwarthus.

What sort of ...?: as for **What kind of ...?**

What the devil ...?: as for **What on earth ...?**

What will become of her?: Beth ddaw ohoni hi?

what with ... and ...: rhwng ... a ...
What with looking after her five children and running a business she hasn't much time to relax: Rhwng gofalu am ei phum plentyn a rhedeg ei busnes does ganddi hi lawer o amser i ymlacio.

what with everything: rhwng pob dim, rhwng popeth *She has a very full life what with everything: Mae ganddi hi fywyd llawn dros ben rhwng pob dim.*

what with one thing and another: rhwng y naill beth a'r llall

what you've been doing recently: dy hynt a helynt, dy hanes *Have a cup of tea and tell me what you've been doing recently:* *Cymer baned a dywed dy hynt a helynt writha' i.*

What's the big idea?: Beth (ar y ddaear) ywlydy dy feddwl?

whatever the cost: gostied a gostio *She wanted that tractor whatever the cost:* *Roedd arni hi eisiau'r tractor hwnnw gostied a gostio.*

to wheedle some money from her: mynd i'w llawes i gael arian/pres ganddi/oddi wrthi

to wheel and deal: sgemio a sgilio

when he has had a few (pints of beer): yn ei gwrw/ddiod

when it comes to paying the bill ...: pan ddaw hi'n fater o dalu'r bil ...

when it comes to the crunch/push: when ddaw hi i'r pen, pan aiff hi'n sgrech, pan ddaw hi'n ben set (N)

when it is ...: pan fydd/yw/ydy hi ...
I shall wear the coat when it is cold: *Byddaf i'n gwisgo'r gôt pan fydd hi'n oer.*

when it was cold: pan oedd hi'n oer

when my ship comes home: pan ddaw fy llong i mewn

She says 'Hello' **when passing:** Bydd hi'n dweud 'Sut mae?' wrth fynd heibio

when she is ...: pan fydd/yw/ydy hi ...
When she is working in Cardiff she visits her uncle: *Pan fydd hi'n gweithio yng Nghaerdydd bydd hi'n ymweld â'i hewythr.*

It's safe to swim **when the tide is in:** Mae'n ddiogel nofio pan fo'n llanw/pan fo'r llanw ar lawr

It's dangerous to swim **when the tide is out:** Mae'n beryglus nofio pan fo'n drai/pan fo'r môr ar drai

when the world began: yng nglas y byd, ym more'r byd, yn nechrau'r cread

when things are at their worst: pan fo pethau ar eu gwaethaf

whenever it is cold: pan fo'n oer

whenever she is at home: pa bryd bynnag mae hi gartref *Whenever she is at home she has her head in a book:* *Pa bryd bynnag mae hi gartref mae hi â'i thrwyn mewn llyfr.*

whenever she may wish to: pan fynno ei chalon, pan fydd yn taro *You may come home whenever you wish (to):* *Cewch chi ddod adre pan fynno eich calon.*

Where does he stand concerning ...: Sut mae hi arno e ynglŷn â ...?, Ble mae e'n sefyll ynglŷn â ...?

Where on earth ...?: Lle/Ble ar y ddaear/ yn y byd ...?, Lle'r aflwydd ...?, Lle andros ...? (N), Ble cythraul/diawl ...?

where she was brought up: bro ei mebyd, ei chynefin, ei bro enedigol *She would like to return to where she was brought up:* *Hoffai hi fynd yn ôl i fro ei mebyd.*

Where the devil ...?: Lle gynllwyn/gebyst (N) ... ?, Lle ddiawl ...?, Ble diawl ...?, Lle goblyn ...?, Ble coblyn ...?

whereas she was ...: tra ei bod hi'n ...
He was complaining as usual whereas she was trying to help: *Roedd o'n cwyno fel arfer tra ei bod hi'n ceisio cynorthwyo.*

wherever she wished: i'r fan a fynnai, lle mynnai

to whet her appetite: codi awch bwyd arni, codi archwaeth

whether it be in Wales or in England: boed yng Nghymru neu yn Lloegr

Whether she buys the car or not she will learn to drive: P'un a brynith hi'r car neu beidio bydd hi'n dysgu gyrru

whether to shout or laugh: pa un ai gweiddi ai/neu/ynteu chwerthin *She wasn't sure whether to shout or laugh:* *Doedd hi ddim yn siŵr pa un ai gweiddi ynteu chwerthin y dylai hi.*

Which is the way in?: Sut mae mynd i mewn?, Ble mae'r fynedfa/drws?

Which one?: Pa un?, P'un? (S), P'un? (N)

whichever (one) is ...: p'un/p'run bynnag ydy ... *Buy whichever (one) is the best: Prynwch p'un bynnag ydy'r gorau.*

whichever way ...: (pa) ffordd bynnag ...

to while away the time: lladd yr amser, bwrw'r/difyrru'r amser

while eating: dros fwyd, wrth fwyta
Don't play with the cat while eating: Paid â chwarae efo'r gath dros fwyd.

while she is here: pan fydd/yw/ydy hi yma, tra ei bod hi yma

while she was eating: pan/tra oedd hi'n bwyta, wrth (iddi hi) fwyta, tra ei bod hi'n bwyta

while she was alive: tra/pan oedd hi'n fyw

while she was living: tra bu hi'n byw

while the going is good: tra bo cyfle, tra bo'r gwynt yn yr hwylo'i phlaid (*hi)

while they are still growing: ar eu prifant *Young people, while they are still growing, should not smoke: Dylai pobl ifainc ar eu prifant beidio â smygu.*

while you are at it: tra ydych chi wrthi
to whip up sth to eat: gwneud/hel tamaid sydyn/cyflym

to whisper sth to her: sibrdw rhth wrthi hi, dweud rhth yn ei chlust

whispering together: glust yng nghlust
There they are, whispering together: Dyna nhw, glust yng nghlust.

to whistle at ...: chwibanu ar ...

to whistle for her dog: chwibanu ar ei chi
She can **whistle for her money:** Caiff hi ganu am ei harian

white as chalk/snow etc.: (gwyn) fel y galchen, fel y carlwm, cyn wynnedd â charlwm/â'r eira/â chorff/â channwyll gorff

white clouds: esgobion Bangor/Tyddewi

a white lie: celwydd golau

a whited sepulchre: bedd wedi'i wyngalchu

the whites of the eyes: gwyn llygaid

Who did (it)?: Pwy ddaru? (N), Pwy wnaeth?

who does not have ...: sydd heb ..., nad oes ganddo/ganddi ... *That's the man who does not have any children: Dyna'r dyn sydd heb blant.*

who has ...: sydd â/ag ..., (y) mae ganddo/ganddi ... *That's the man who has six dogs: Dyna'r gŵr sydd â chwe chi.*

who has a cold: sydd ag annwyd arni (*hi), (y) mae annwyd arni (*hi) *This drink is for the girl who has a cold: Mae'r ddiod yma i'r ferch sydd ag annwyd arni.*

who is interested: sydd â diddordeb, (y) mae ganddi ddiddordeb ... (*hi) *I would like to meet people who are interested in antiques: Hoffwn i gyfarfod â phobl sydd â diddordeb mewn hen bethau.*

Who knows ...? (used rhetorically): Dyn/Duw a wŷr ...! *Who knows what will happen?: Dyn a wŷr beth digwyddiff!*

Who the devil ...?: Pwy gynllwyn/gebyst (N)/ddiawl/gythraul ...?

Who the hell ...?: Pwy uffern/uffar/uffach (S) ...?

She sold the whole lot of her shares:

Gwerthodd hi ben a chorff ei chyfrannau/ei chyfrannau yn eu crynswth/y cwbl lot o'i chyfrannau

the whole world: y byd cyfan, y byd i gyd, y byd yn grwn *There is nobody like her in the whole world: Does neb fel hithau yn y byd yn grwn.*

a whole year: blwyddyn gyfan/gron *She was away a whole year: Roedd hi i ffwrdd am flwyddyn Gron.*

Why is she ...?: Pam (y) mae hi ...?

Why not?: Pam lai?

Why on earth ...?: Pam ar y ddaear ...?, Pam yn y byd ...?

why she is ...: pam mae hi ... *She is not sure why she is anxious: Dydy hi ddim yn siŵr pam mae hi'n bryderus.*

wide apart: ar led *The foal stood still, his front legs wide apart: Safodd yr ebol yn llonydd a'i ddwy goes flaen ar led.*

to be wide awake: bod yn hollol effro, bod yn effro fel y gog, bod yn gwbl ar ddi-hun

She has wide experience: Mae hi'n brofiadol tu hwnt, Mae ganddi brofiad helaeth/eang

to be wide of the mark: bod ymhell/yn bell ohoni

wide open: (agored) (yn) lled y pen, (agored) (o) led y pen, llydan agored

widely different opinions: barnau gwahanol iawn

widely held opinions: barnau/daliadau cyffredin

a widely read magazine: cylchgrawn a darllen mawr arno, cylchgrawn eang ei apêl

a wild look in her eyes: golwg wyllt i'w llygaid

to go on a wild-goose chase: rhedeg ar ôl cysgod, chwilio am nyth cwhwrw, siwrnai seithug

to be wilfully controversial: tynnu cweeryl/ffrae yn ei phen (*hi) *I was pleased she was not at the meeting – she is always wilfully controversial: Roeddwn i'n falch nad oedd hi yn y cyfarfod – mae hi bob amser yn tynnu ffrae yn ei phen.*

It will do: Gwnaiff/Gwneith y tro

She will have to go: Bydd (yn) rhaid iddi hi fynd, Bydd hi'n gorfod mynd

It will not do to hurry: Nid oes wiw brysio, Thâ hi ddim i frysio

It will not open: Mae hi'n pallu'cau (nacáu) agor

a willing horse: ceffyl parod

She is willing to stay: Mae hi'n fodlon aros

to wind her round his finger: ei throhi hi am ei fys, ei throhi hi o gwmpas ei fys

to wind to a close: dirwyn i ben

She will wind up in the House of Lords: Yn Nhŷ'r Arglwyddi bydd hi yn y pen draw

to wind up her lecture: cloi/terfynu ei darlith

to wink at her: gwneud llygad bach arni hi

to wipe the floor with s.o.: curo rhn yn lân, (y)sgubo'r llawr gyda/efo rhn, llorio rhn, sychu'r llawr â rhn, rhoi sychad i rn (S)

to wipe the slate clean: dechrau o'r dechrau eto, troi dalen newydd

to wipe the smile off her face: tynnu'r wên oddi ar ei hwyneb

wisdom teeth: cilddannedd, cefnddannedd, dannedd gofid

to be wise after the event: bod yn ddoeth drannoeth

She would be wise to ask for help: Byddai'n ddoeth iddi ofyn am gymorth

to wish for ...: dymuno (cael) ... *We all wish for peace: Rydyn ni i gyd yn dymuno cael heddwch.*

to wish her ...: dymuno ... iddi hi *We wish her a safe journey: Rydyn ni'n dymuno taith ddiogel iddi hi.*

to wish her to ...: dymuno iddi hi ... *We wish her to be happy in her new job: Rydyn ni'n dymuno iddi hi fod yn hapus yn ei swydd newydd.*

to wish her well: dymuno'n dda iddi, dymuno amser da iddi

to wish to go: dymuno mynd

wishful thinking: breuddwyd gwrach (wrth ei hewyllys), coelion blys, cred gyfeiliornus, gobaith ofer *She thought she was about to be promoted but it was only wishful thinking: Roedd hi'n meddwl ei bod hi ar fim cael dyrchafiad ond dim ond breuddwyd gwrach oedd hynny.*

to send her away **with a flea in her ear**: ei gyrru ymaith yn glustlipa

with a lock on it: a/â chlo iddo *She kept the letters in a box with a lock on it: Roedd hi'n cadw'r llythyrau mewn blwch a chlo iddo.*

with a long face: â gwep laes, yn llaes ei gwep (*hi), ag wyneb hir *He appeared with a long face, so I knew he had failed to get the post: Ymddangosodd â gwep laes, felly roeddwn i'n gwybod ei fod wedi methu cael y swydd.*

with a view to working together: gyda/efo golwg ar weithio ar y cyd

with age: gan henaint *The building is decaying with age: Mae'r adeilad yn mynd â'i ben iddo gan henaint.*

with all due respect: â phob dyledus barch

with all her heart: o ewyllys ei chalon, o waelod ei chalon, o lwyrfodd ei chalon *She hoped with all her heart that he would succeed: Roedd hi'n gobeithio o ewyllys ei chalon y byddai fe'n llwyddo.*

with all her might: ar ei heithaf glas, â'i de(n)g ewin, â'i holl nerth

with all one's might: nerth corff ac enaid, nerth de(n)g ewin, â'r de(n)g ewin

with an ambling gait: linc-di-lonc, ling-di-long, lincyn-loncyn, o glun i glun

with an ear to the ground: â chlust at y ddaear *She knew that her sister always went about with her ear to the ground: Roedd hi'n gwybod bod ei chwaer yn wastad â'i chlust at y ddaear.*

with an iron rod: â gwialen o haearn

with bad grace: yn amharod, yn anraslon

with brute force/strength: trwy fraich a chryfder, trwy nerth bôn braich

with effect from tomorrow: mewn grym o yfory, yn effeithiol o yfory

with good grace: heb ddal dig, yn raslon *She accepted her defeat with good grace: Derbyniodd hi ei trechu heb ddal dig.*

with gusto: â blas, yn frwd

with her blessing: dan ei bendith

with her hair in a mess: â'i gwallt am ei dannedd

with her head tilted: â'i phen ar dro

with her heart in her boots/mouth: â'i chalon yn ei sgidiau/gwddw

with her own two hands: â'i/efo'i de(n)g ewin *She built the hut with her own two hands: Cododd hi'r cwt efo'i deg ewin.*

with her tail between her legs: â'i chynffon yn ei gafl, â'i chwt rhwng ei choesau

with her tongue in her cheek: â'i genau am ei dannedd, â'i thafod yn ei boch, heb fod yn ddirifol, gan gellwair

a man **with influence**: dyn â dylanwad, dyn o ddylanwad

with little or no effort: ar chwarae bach, yn ddiymdrech, heb dorri chwys

with long strides: yn fras ei cham (*hi), gan gamu'n fras, yn camu'n fras

with might and main: nerth enaid a chorff, trwy fraich a chryfder, trwy nerth bôn braich

with mixed feelings: rhwng bodd ac anfodd

with no appetite (for food): heb flas at fwyd, heb archwaeht

with no ifs or buts: heb os nac oni bai

with no injury: â chroen cyfan, yn iach ei chroen (*hi) *She succeeded in escaping with no injury: Llwyddodd hi i ddianc â chroen cyfan.*

with no thanks to ...: a (does) dim diolch i ...

with one blow: ar un ergyd

with one voice: yn unllais/unfryd(ol)

with one's back to the wall: mewn cong/cyfyngder/twill, â'i chefn at y mur/wal (*hi)

with one's eyes open: yn hollol
ymwybodol, â'i llygaid yn ei phen

with outstretched arms: â breichiau ar led

with passion: o eigion calon, o waelod calon, o ddyfnder enaid

with regard to ...: o ran ..., gyda golwg ar ... *With regard to your request ...: O ran eich dymuniad ...*

with regret: gyda gofid

with so little money coming in: wrth i cyn lleiad o arian/bres ddod i mewn, ar gyflog mor isel

with some reluctance: gerfydd ei gwallt (*hi), wysg ei thrwyn (*hi) *She went to the dentist with some reluctance: Aeth hi at y deintydd gerfydd ei gwallt.*

to speak with spirit: llefaru/siarad yn frwd/selog

with the aid of ...: trwy gymorth ..., gyda chymorth ...

with the best will in the world: gyda phob ewyllys da yn y byd

with the exception of ...: ac eithrio ...

with the express purpose of ...: yn unswydd i ... *They had gone with the express purpose of causing a disturbance: Roedden nhw wedi mynd yn unswydd i godi twrw.*

with the intention of ...: efo'r/gyda'r bwriad o ..., â'i bryd ar ... *She went into the shop with the intention of stealing: Aeth hi i mewn i'r siop â'i bryd ar ddwyn.*

with the naked eye: â'r llygad noeth

with the passing of the years: gyda threigl y blynyddoedd *The stories have grown with the passing of the years: Mae'r straeon wedi tyfu gyda threigl y blynyddoedd.*

with the unaided eye: as for with the naked eye

with this end/object in view/mind: i'r perwyl/diben hwn

with time on her hands: ag amser ar ei dwylo

with tongue in cheek: â'i genau am ei dant, yn gellweirus

with tooth and nail/claw: ewinedd a dannedd, nerth de(n)g ewin *She fought with tooth and claw to keep her children: Bu hi'n ymladd ewinedd a dannedd i gadw ei phlant.*

with troubles of her own: ym mhen ei helynt *Even with troubles of her own she continued to give help to others as a counsellor: Hyd yn oed ym mhen ei helynt roedd hi'n dal i roi cymorth i bobl eraill fel cyngorydd.*

to get worse with use: gwaethygu o'i defnyddio (*hi)

to withdraw in favour of another candidate: ildio lle i ymgeisydd arall

to withdraw into herself: mynd i'w chragen

to withdraw money from circulation: tynnu arian/pres o gylchrediad

to wither away: gwywo, crino

a withering look: edrychiad deifiol, golwg ddeifiol

within a hundred miles of ...: o fewn can milltir i ...

within a minute of ...: o fewn munud i ...

within a month: o fewn mis *She will come back within a month: Daw hi'n ôl o fewn mis.*

within a few days: ar fyr o ddyddiau, o fewn ychydig o ddyddiau

within a hair's breadth (of ...): o fewn trwch blewyn (i ...), o fewn dim (i ...), o fewn trwch aden gwybedyn (i ...)

within a short time: ar fyrder, chwap, cyn bo hir *She will be here within a short time: Bydd hi yma ar fyrder.*

within a stone's throw of ...: o fewn ergyd carreg i ...

within an ace of ...: o fewn dim i ..., yn agos iawn at/i ... *She was within an ace of*

- being punished for sth she did not do: Roedd hi o fewn dim i gael ei chosbi am rth na wnaeth hi.*
- within earshot of my father:** yng nghlyw fy nhad
- to come **within her sphere/field:** bod yn ei maes hi, bod yn un o'i phethau hi
- within living memory:** o fewn cof
- within range/reach:** o fewn cyrraedd
- within the hour/week:** cyn pen awr/ wythnos, o fewn yr awr/wythnos
- within these four walls:** rhwng y pedwar mur yma
- without a blemish:** heb frycheuyn na chrychni, yn gwbl ddi-fai
- without a shadow of a doubt:** heb rithyn/ fymryn o amheuaeth
- without a word:** heb air, heb (na) sinc na sôn *She left in the morning without a word: Gadawodd hi yn y bore heb na sinc na sôn.*
- without any grounds:** heb dir dan ei thraed (*hi), heb sail *She accused Huw of cheating, without any grounds: Cyhuddodd hi Huw o dwyllo, heb dir dan ei thraed.*
- without any mention of .../reference to ...:** heb gyfeirio at ..., heb (sinc na) sôn am ...
- without anyone being the wiser:** yn ddiarwybod i bawb, heb gael ei gweld (*hi), heb i neb wybod/fod yn gallach
- without beating about the bush:** heb hel dail (N), yn blwmp ac yn blaen, heb flewyn ar dafod *She said that she loved him, without beating about the bush: Dywedodd hi ei bod hi'n ei garu, heb hel dail.*
- without being asked/invited:** heb ei gwahodd (*hi) *She stayed for a meal without being asked: Arhosodd hi am bryd o fwyd heb ei gwahodd.*
- without being aware of what she was doing:** heb yn wybod iddi hi ei hun *She took the watch without being aware of what she was doing: Dygodd hi'r wats heb yn wybod iddi hi ei hun.*
- without being the slightest bit better off:** heb fod uwch bawd na sawdl, heb fod dim elwach *She followed the consultant's advice without being the slightest bit better off: Dilynodd hi gyngor yr ymgynghorydd heb fod uwch bawd na sawdl.*
- without caring a damn:** heb hidio dam/ botwm corn/carrai/draen/ffeuen, heb hidio'r un blewyn
- without counting the cost:** heb fwrw'r draul, heb ystyried y treuliau
- without doing a stroke of work:** heb weithio cnoc, heb wneud cnoc o waith, heb godi bys (bach)
- without exception:** heb eithriad, heb lai, yn ddiethriad
- without fail:** heb fethu/ffaelu (S), yn ddi-feth/ddi-ffael (S)
- without fear or favour:** di-dderbyn-wyneb *They should expose corruption without fear or favour: Dylen nhw ddatguddio llygredigaeth yn ddi-dderbyn-wyneb.*
- without further ado:** heb ragor o lol, heb unrhyw lol, heb hel dail (N)
- without her knowledge:** heb yn wybod iddi hi *She went to the solicitor without his knowledge: Aeth hi at y cyfreithiwr heb yn wybod iddo.*
- without her noticing:** yn ddiarwybod iddi hi *The minister must have arrived without her noticing: Cyrhaeddodd y gweinidog yn ddiarwybod iddi hi mae'n rhaid.*
- She vanished **without leaving the smallest/any trace:** Diflannodd hi heb (na) siw na miw/heb adael na migwrn nac asgwrn/heb adael ôl
- without lifting a finger:** as for without doing a stroke of work
- without making any bones about it:** as for without further ado

without making the slightest sound: heb (na) siw na miw, heb y smic lleiaf *She left in the early morning without making the slightest sound: Ymadawodd yn y bore bach heb na siw na miw.*

without means of subsistence: heb foddion byw, heb fodd i fyw, heb gynhaliaeth

without mincing her words: heb flewyn ar ei thafod (*hi), di-flewyn-ar-dafod, heb ddeilen ar ei thafod (*hi), yn blwmp ac yn blaen

without need or cause: heb raid nac achos

without pausing for breath: ar un gwynt

without prejudice: heb ragfarn

without pulling her punches: as for
without mincing her words

without question: heb os *Without question, she should drink less: Heb os, dylai hi yfed llai.*

without realizing what she was doing: as for **without being aware of what she was doing**

without requiring help: heb fynd ar ofyn, heb eisiau cymorth *I am sure she will be able to move the bed without requiring help: Rydw i'n sicr bydd hi'n medru symud y gwely heb fynd ar ofyn.*

to agree without reservation: cytuno'n ddiamad

without respect of persons: as for
without fear or favour

without rhyme or reason: yn hollol ddireswm, heb sail na synnwyr

without the remotest chance of ...: heb unrhyw obaith yn y byd o ...

She disappeared **without trace:** as for
without leaving the smallest/any trace

without turning a hair: heb droi blewyn, heb gyffroi dim

without uttering a single word: heb ddweud na bw na be, heb ddweud/yn gan gair o'i phen (*hi)

Woe is me! Gwae fi!

a wolf in sheep's clothing: blaidd mewn croen/cnu dafad

a woman of easy virtues: merch llac ei moesau, hoeden, hwren

I wonder: ys gwn i (N), 'sgwn i (N), tybed
to wonder at ...: rhyfeddu at ...

word for word: gair am air

her **word of honour:** ei llw (a chred)

to work at full stretch: gweithio i'r eithaf, gweithio nerth de(n)g ewin

to work feverishly: gweithio fel lladd nadroedd

to work for s.o.: gweithio i rn

to work her fingers to the bone: gweithio ei bysedd yn bytaiau, gweithio i'r asgwrn, gweithio hyd at yr esgryn

to work her passage: gweithio'i thaith

to work herself to the bone: gweithio hyd fêr ei hesgryn *She has worked herself to the bone to give her children a good education: Mae hi wedi gweithio hyd fêr ei hesgryn i roi addysg dda i'w phlant.*

to work herself up into a sweat about sth: cynhyrfu ynghylch rth

to work in brass: gwneud gwaith pres

to work loose: dod yn rhydd, datod, mysgu (S)

to work off her anger on him: bwrw ei llid arno

to work one's way up in the world: codi yn y byd, gwella'i stad (*ef/hi)

to work out a problem: datrys problem

to work round the clock: gweithio o fore gwyn tan nos

to work to rule: gweithio yn ôl rheol/yn ôl y rheolau

to work voluntarily: gweithio yn wirfoddol/o'i gwirfodd (*hi), gweithio heb dâl

It worked out at five pounds each: Roedd yn costio pum punt yr un/y pen

It worked out well for her: Aeth popeth yn dda iddi hi, Gweithiodd popeth er y gorau iddi hi

to get worked up about sth: dechrau corddi/cynhyrfu ynghylch rth

working clothes: dillad at waith, dillad gwaith

working freelance: (yn gweithio) ar ei liwt ei hun(an) (*ef/hi)

a working hypothesis: damcaniaeth/tybiaeth arbrofol/gychwynnol

The world is her oyster: Mae'r byd i gyd o'i blaen hi, Mae'r holl fyd o fewn ei gafael

to do her a/the world of good: gwneud byd o les iddi hi

to worm one's way into her favour: mynd i'w llawes hi

to worm one's way out of washing up: sleifio allan o olchi'r llestri, ymesgusodi rhag golchi'r llestri

She is worn away to a shadow: Does dim ond cysgod ohoni, Does ond ei chysgod ar ôl

worn out (of a thing): wedi treulio, wedi treulio'n o arw/ddrwg, wedi mynd ar ei waeth (*ef)

worn-out tools: taclau gwraig weddw

to worry about: poeni/gofidio/pendroni/becso (S) am ...

to be the worse for drink: bod yn feddw, bod wedi meddwi, bod yn ei gwrw/ddiod

Her skirt is the worse for wear: Mae ôl traul/gwisgo ar ei sgert, Mae ei sgert wedi mynd ar ei gwaeth

worse luck: gwaetha'r modd

worse off: yn waeth arni (*hi), ar ei cholled (*hi) *She is worse off after changing her job: Mae hi ar ei cholled ar ôl newid ei swydd.*

her worst enemy: ei gelyn pennaf, ei phrif elyn

That's the worst of glass doors: Dyna ddrwg/waethaf drysau gwydr

worth a lot of money: yn werth arian/pres (mawr)

Will it be worth her while?: Fydd hi'n werth ei thrafferth?, Fydd hi'n werth chwech iddi?

to be worthwhile: bod yn werth chweil, bod yn werth y drafferth

worthy of ...: teilwng o ...

It would do: Gwnâi'r tro

It would not be a bad thing if ...: Byddai'n eithaf peth pe ...

She would not be deflected/put off: Chymerai hi mo'i throï

It would not be worth a straw: Ni thalai ddraenen, Fyddai ddim yn werth ffeuen (N)/taten goch (S)

It would not do for/to ...: Wnâi hi mo'r tro i ... *It wouldn't do for her to go there without wearing stockings: Wnâi hi mo'r tro iddi hi fynd yno heb wisgo sanau.*

She would not for the world ...: Fasai hi ddim dros ei chrogi'n ..., Fasai hi ddim yn cymryd y byd â ...

Would to heaven that they come back!: Gwyn fyd na ddeuent yn ôl!, O na ddeuent yn ôl!

Would you mind calling later?: Wnewch chi alw'n hwyrach?

wound up (i.e. hyperactive): wedi weindio, ar waith drwy'r amser

to wreak havoc on ...: gwneud llanast(r) o ..., gwneud difrod/niwed i/ar ...

to wreak her anger on her television set: bwrw ei llid ar ei set deledu

to **wreak her vengeance upon them**: dial
arnyn nhw, talu'r pwyth yn ôl iddyn
nhw, bwrw ei llied arnyn nhw, talu hen
gownt 'nôl iddyn nhw

to **wrestle with ...** (referring to a person,
problem, etc.): ymgodymu â/gyda/efo ...,
ymaflyd yn ..., ymaflyd codwm â/gyda/
efo ..., ymaflyd cwmp â/gyda ... (S)

a **wretch of a man**: truan o ddyn

to **wring her hands**: gwasgu ei dwylo
ynghyd

to **wrinkle one's brow**: plethu/crychu
aeliau

to **write to her**: (y)sgrifennu ati hi

The book was **written by ...**: Cafodd y
llyfr ei (y)sgrifennu gan ...

the **wrong side of the material**: y tu chwith
i'r defnydd/deunydd

the **wrong way round**: o chwith, tu
chwith, y tu ôl ymlaen

to place sth the **wrong way up**: gosod rhth
â'i ben i lawr/waered, gosod rhth â'i
draed i fyny



a **year from now**: flwyddyn i rŵan/nawr,
ymhen blwyddyn i rŵan/nawr

to **yearn for ...**: hiraethu/dyheu am ...

to **yearn for the good old days**: chwilio
am eira llynedd

to **yell her head off**: gweiddi nerth
(esgyrn) ei phen

to **yield to material influences** (usually
bad): plygu glin i Baal

the **yolk of an egg**: melyn wy, melynwy

You coward!: Yr hen lwfr!, Y cachgi!, Y
llwfrgi!, Y llechgi!

You might as well not bother: Waeth i
chi heb

You might as well stay: Waeth i chi aros

You never know, she may be away:

Wyddost ti ddim/Pwy a wŷr, efallai ei
bod hi oddi cartref

You poor thing!: Yr hen greadures! (*hi),
Druan â chi!, Druan ohonoch!

the **youngest of a family or litter**: bach y
nyth, y cyw melyn olaf

your property: yr eiddoch (chi) *Is all this
your property?: Ai'r eiddoch chi ydy hyn i gyd?*

your troubles: dy hynt a helynt, dy
ofidiau/helyntion *Tell me your troubles:
Dywed dy hynt a helynt wrtha' i.*

Is this **yours?**: Ai'r eiddoch chi ydy hwn?,
Chi biau hwn?

Geiriadur Idioma u

'...the most comprehensive and most thorough dictionary of its type currently available...'

Reference Reviews

'...yn ddefnyddiol iawn i ddisgyblion, myfyrwyr, athrawon a darlithwyr – sydd â Chymraeg yn iaith gyntaf...neu'n ail iaith.'

Yr Athro

This dictionary, containing some 12,000 Welsh and English idiomatic phrases, has already proved its worth to Welsh speakers and learners.

The phrases included range from those which are true idioms in both languages and cannot be translated literally – such as *chwerthin yn ei dwrn*: *to laugh up her sleeve* – to those where only the use of a preposition is different or peculiar – such as *amneidio ar rywun*: *to beckon to someone*. Many of the other phrases contain a peculiarity of vocabulary, word order or tense, which means that they cannot be translated word for word.

An important aim of this dictionary is to help those learning Welsh to make the difficult transition from idiomatic usage in English to idiomatic usage in Welsh, and it has quickly earned its place as an invaluable tool in that learning process. However, there is little doubt that it is also of great value to many whose first language is Welsh and to those who are studying in universities, colleges and Welsh-medium schools.

University of Wales Press
Gwasg Prifysgol Cymru

Alun Rhys Cownie is a retired university lecturer. He was born in Cardiff and now lives in Pwllheli, where he has learnt Welsh.

Wyn G. Roberts is a retired primary school headteacher now living in Pwllheli.

ISBN 0-7083-1656-5



9 780708 316566 >

Geiriadur
newydd sbon yn
cynnwys 12,000 o
ymadroddion idiomatig
Cymraeg a Saesneg.
Cyfeirlyfr anhepgor i
Gymry iaith gyntaf
yn ogystal â
dysgwyr.